CYNGOR BRO MORGANNWG

## GWEITHIO GYDA'N GILYDD AM DDYFODOL DISGLEIRIACH



# ADRODDIAD HUNANASESIAD BLYNYDDOL

# 2023-2024

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

# 1.0 Cyflwyniad gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Prif Weithredwr

### Y Cynghorydd Lis Burnett, Arweinydd Gweithredol y Cyngor a Rob Thomas, Prif Weithredwr



Mae'r Adroddiad Hunanasesu Blynyddol yn ystyried perfformiad Cyngor Bro Morgannwg wrth gyflawni ymrwymiadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2023/24. Llywiwyd y rhain gan drigolion Bro Morgannwg a phartneriaid allweddol gan sicrhau ein bod wedi blaenoriaethu'r gwasanaethau sy'n bwysig i breswylwyr, yn enwedig yr aelodau sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymuned. Mae'r adroddiad hefyd yn dangos perfformiad y Cyngor yn y defnydd o adnoddau a sicrhau bod ei drefniadau llywodraethu yn parhau'n gadarn. Er mai'r gofyniad yw darparu gwerthusiad ôl-weithredol o berfformiad y flwyddyn ddiwethaf, mae'r adroddiad hwn yn ymestyn yr amserlen, gan gynnwys gwybodaeth yn yr adroddiad sy'n cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Awst 2024, gan alluogi'r Cyngor i fyfyrio ar y sefyllfa fwyaf diweddar gan gynnwys heriau sy'n dod i'r amlwg, risgiau a meysydd i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol er mwyn cyfeirio ei gynlluniau gwella.

Mae hunanasesiad y Cyngor yn cynnwys tri phrif ddyfarniad: asesiad perfformiad Cynllun Cyflawni Blynyddol, asesiad o ddefnydd y Cyngor o adnoddau (sy'n cynnwys ei bobl, ei asedau, cyllid a chaffael, ei berfformiad a mewnwelediadau risg ac ymgysylltu) ac asesiad o effeithiolrwydd llywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol y Cyngor trwy Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol. Drwy gydol y flwyddyn rydym wedi gwerthuso ystod eang o fewnwelediadau perfformiad a data eraill o'r fframwaith cynllunio a pherfformiad blynyddol sydd wedi galluogi casgliadau gwybodus i gael eu tynnu ar ddiwedd y flwyddyn ar ba mor dda y mae adnoddau a threfniadau llywodraethu'r Cyngor wedi cefnogi'r gwaith o gyflawni'r ymrwymiadau yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24.

Ar gyfer y cyfnod 2023/24, dyfarniad y Cyngor oedd ei fod wedi **gwneud cynnydd D a o ran cyflawni ei ymrwymiadau o fewn y Cynllun Cyflawni Blynyddol yn unol â Chynllun Corfforaethol 2020-25.** Rydym wedi cyflawni 85% (502/591) o weithgareddau wedi'u cynllunio a thargedau cysylltiedig a osodwyd yn yr hyn a oedd yn Gynllun Cyflawni Blynyddol uchelgeisiol, o ystyried cyd-destun pwysau galw sylweddol parhaus ar wasanaethau a hinsawdd ariannol ac economaidd anodd. Mae'r meysydd tanberfformio a nodwyd o fonitro'r perfformiad yn parhau i fod yn feysydd ffocws yn 2024/25 ac maent yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor a chynlluniau cyflawni lefel gwasanaeth ar gyfer y cyfnod.



Mae **Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB) drafft ar gyfer 2023/24 yn rhoi dyfarniad 'Sicrwydd Rhesymol' gan y Pennaeth Archwilio Mewnol ar effeithiolrwydd llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor, sy'n dangos bod systemau a phrosesau'r Cyngor yn gadarn, ar y cyfan, o safbwynt llywodraethu.** Rhoddwyd Barn Archwilio Fewnol o naill ai 'sicrwydd sylweddol neu resymol' hefyd i 82% o'r adolygiadau ar sail risg a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn gan brofi effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli mewnol, gyda 92% o'r holl argymhellion a gyhoeddwyd yn y categorïau blaenoriaeth isel i ganolig. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen cymryd camau gweithredu pellach i gryfhau'r trefniadau presennol i sicrhau bod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn parhau i wella i gefnogi'r gwaith o ddarparu ei wasanaethau a sicrhau bod yr holl randdeiliaid allweddol yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu drwy Gynllun Gwaith Blynyddol Archwilio Mewnol y Cyngor, y Calendr o weithgareddau Perfformiad Blynyddol, Cynllun Gweithredu Egwyddorion Craffu Effeithiol a'r Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd.

**Mae'r Cyngor wedi priodoli dyfarniad cyffredinol o Dda mewn perthynas â'i ddefnydd o adnoddau.** Fodd bynnag, mae'r dyfarniad hwn yn adlewyrchu dyfarniadau lefel cyfarwyddiaeth unigol cydgasgledig ar ba mor

dda y mae gwasanaethau wedi defnyddio eu pobl, eu hasedau, cyllid, eu gwaith rheoli perfformiad a risg a'u mewnwelediadau ymgysylltu i gyflawni ymrwymiadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol. Priodolwyd dyfarniad o 'Deg' i gyllid, comisiynu a chaffael y Cyngor i adlewyrchu'r pwysau galw parhaus mewn gwasanaethau a'r effaith ddilynol ar y gyllideb yn ogystal â phwysau sylweddol ar adrannau i gyflawni arbedion ariannol. Wrth ddychwelyd sefyllfa o fantoli cyfrifon 2023/24, cyflawnwyd hyn ar ôl tynnu i lawr o gronfeydd wrth gefn i ateb pwysau galw sylweddol mewn nifer o wasanaethau nad yw'n opsiwn cynaliadwy ar gyfer yr hirdymor. Yn yr un modd, priodolwyd dyfarniad o 'Deg' i'n defnydd o fewnwelediadau ymgysylltu gan adlewyrchu'r angen i ymwreiddio pocedi cyfredol o arfer da ar draws holl wasanaethau'r Cyngor ac ymrwymiad y Cyngor i fwrw ymlaen â'r hyn a ddysgwyd o ganfyddiadau Arolwg Bywyd yn y Fro 2023. Mae'r heriau hyn yn ystyriaethau allweddol sy'n llywio datblygiad Rhaglen Ail-lunio newydd ar gyfer y Cyngor.

Mae rhaglen flynyddol o fewnwelediad ymgysylltu â gwasanaethau wedi llywio'r dyfarniadau perfformiad Hunanasesiad Blynyddol, yn ogystal â'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o weithgareddau ymgysylltu a gynhaliwyd yn fwy diweddar i wirio synnwyr ein dyfarniadau a'r meysydd sy'n dod i'r amlwg ar gyfer ffocws yn y dyfodol, a oedd yn gefnogol ar y cyfan. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn parhau i fod â golwg ar y tu allan fel sefydliad, gan ymateb i'r pethau sydd bwysicaf i'n dinasyddion a'n partneriaid. O ganlyniad, rydym yn sicr bod dyfarniadau perfformiad y Cyngor yn adlewyrchu ei gynnydd hyd yn hyn, gan gyfrannu at gyflawni Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol.

Mae wedi bod yn flwyddyn heriol, ond yn flwyddyn gynhyrchiol arall i'r Cyngor. Mae'r cyd-destun economaidd yn parhau i fod yn anodd gyda digwyddiadau geowleidyddol yn effeithio ar yr economi fyd-eang, cyfraddau chwyddiant uchel yn ystod cyfnod yr asesiad hwn a thwf economaidd gwan. Mae'r argyfwng costau byw yn parhau i effeithio ar ein cymunedau â'r amddifadedd mwyaf, wrth i ni chwilio'n barhaus am ffyrdd newydd o wneud 'mwy gyda llai' yng nghyd-destun gwariant mwy cyfyngol gan y llywodraeth.

Mae'r flwyddyn hefyd wedi dod â heriau ychwanegol gyda'r rhyfel parhaus yn Wcráin ac aflonyddwch a rhyfela yn Israel a Gaza. Ym Mro Morgannwg, rydym yn ymfalchïo yn y gwaith a wnawn i helpu newydd-ddyfodiaid i integreiddio i'n cymunedau ac rydym wedi ymrwymo i ddod yn Sir Noddfa. Rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024, gwnaethom gefnogi 329 o ffoaduriaid a cheiswyr lloches i adsefydlu i'n cymuned.

Fel Cyngor, rydym yn parhau i fuddsoddi yn y pethau a fydd yn helpu preswylwyr i fyw bywydau iach, hapus a bodlon, gan gynnwys: dau gartref preswyl newydd i blant i ofalu am ein pobl ifanc yn ein cymuned; cwblhau ein pedwerydd Tŷ Clyfar a gwella ein cynnig teleofal a ddenodd 544 o gwsmeriaid newydd gan gyfrannu at gefnogi trigolion anabl a hŷn i fyw'n annibynnol a gwella eu lles; dechrau ar y gwaith o adeiladu cyfleuster Cynllun Gofal Ychwanegol newydd ym Mhenarth; cynyddu'r dewis sydd ar gael i oedolion sy'n agored i niwed i gefnogi a gwella eu lles drwy'r fenter 'Eich Dewis' gyda bron 50% o becynnau gofal yn cael eu darparu dan y cynllun; lleihau'r amser a gymerir i roi pecynnau gofal cartref ar waith o 22 diwrnod i 3 diwrnod ar gyfartaledd, er gwaethaf galwadau sylweddol ar y gwasanaeth hwn; mae ein Gwasanaeth Cwympiadau Integredig y Fro bellach wedi bod yn gweithredu'n llwyddiannus ers blwyddyn, gan leihau nifer y bobl sy'n mynd i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys gydag arbediad amcangyfrifedig o £750,000 i'r Bwrdd Iechyd; cyflawni Statws Sy'n Dda i Bobl Hŷn, y pedwerydd awdurdod lleol yng Nghymru i wneud hynny. Er gwaethaf y cynnydd cadarnhaol, mae galw sylweddol o hyd am wasanaethau gofal cymdeithasol, gyda'r cynnydd yn cael ei adlewyrchu yn y galw a chymhlethdod angen, sy'n parhau i fod yn heriol yng nghyd-destun cyllid cyfyngedig a heriau staffio parhaus.

Mae dull cydweithredol sy'n cynnwys bron 270 o bartneriaid ar draws pob sector sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, wedi gwella'n sylweddol gyfleoedd i breswylwyr o bob oed gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, chwarae a chwaraeon i wella eu hiechyd a'u lles. Mae ein contract gyda Legacy Leisure ar gyfer darparu gwasanaethau hamdden yn parhau i fod yr unig drefniant tebyg yng Nghymru sy'n parhau i wireddu incwm i'r Cyngor; mae nifer y defnyddwyr yn ein canolfannau hamdden (741,500) yn uwch na'r lefelau cyn COVID-19 ac mae gwelliannau helaeth wedi'u gwneud yn y rhan fwyaf o ganolfannau, sydd

wedi gwella profiad y cwsmer; cynyddu cyfranogiad mewn rhaglenni allweddol gyda dros 67,500 yn cymryd rhan yn y rhaglenni Pobl Ifanc Egnïol ac Ysgolion Actif gyda gweithgareddau wedi'u cyflwyno mewn ymateb i ymgysylltu â disgyblion a phobl ifanc; manteisiodd 31 o glybiau lleol ar gyllid grant Cronfa Cymru Actif gwerth dros £256,000; cymerodd dros 5,500 o drigolion ran yn ein rhaglen beilot, Cymunedau Actif, trwy ein canolfannau hamdden; cafodd ystod eang o weithgareddau heneiddio'n dda dderbyniad da gan breswylwyr gan gynnwys y Tocyn Aur, a hybiau iechyd cyhyrysgerbydol; derbyniodd dros 3,500 o bobl docyn hamdden 3 diwrnod am ddim i gael mynediad i'n canolfannau hamdden ac i roi cynnig ar weithgareddau a'n cyfleusterau fel rhan o gynnig parhaus i ddarparu cyfleoedd fforddiadwy i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chwaraeon; darparu cyfleusterau cymunedol gwell a chelf gyhoeddus i breswylwyr ac ymwelwyr gan ddefnyddio cyfraniadau A106 gan gynnwys ardaloedd ffitrwydd a chwarae awyr agored a gerddi cymunedol a murluniau cyhoeddus. Mae Partneriaeth Chwaraeon Canolbarth y De newydd yn rhoi cyfleoedd i'r Cyngor adeiladu ar y gwaith da hyd yma yn y maes hwn drwy fanteisio ar synergeddau posib a gynigir drwy'r trefniadau partneriaeth newydd. Fodd bynnag, mae heriau'n parhau o ran gwella mynediad at hamdden, celf gyhoeddus a digwyddiadau ymhellach, yn enwedig i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ar sail niwtral o ran cost.

Rydym yn parhau i hyrwyddo dull creu lleoedd yn ein cymunedau ac mae gwaith yn mynd rhagddo'n gyflym wrth ddatblygu cynlluniau creu lleoedd ar gyfer ein pedair prif dref. Bydd ein ffocws ar bartneriaethau sy’n seiliedig ar leoedd yn helpu i ehangu cyfranogiad mewn llywodraethu a chynlluniau ar gyfer adfywio ein cymunedau. Yn ystod y flwyddyn gwnaethom lwyddo i sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer £42 miliwn mewn cyllid Ffyniant Bro a Ffyniant Gyffredin i gefnogi adfywio yng nghymunedau Bro Morgannwg gan gynnwys £20 miliwn o gyllid llywodraeth y DU dros 10 mlynedd tuag at adfywio'r Barri; mae 62 o brosiectau hefyd wedi elwa o bron £8.7 miliwn o gyllid Ffyniant Gyffredin i adfywio canol ein trefi, ardaloedd gwledig a threfol, cefnogi ein huchelgeisiau sero net a darparu digwyddiadau diwylliant, celfyddydau a threftadaeth cymunedol ac sy’n seiliedig ar leoedd; cefnogi prosiectau a arweinir gan y gymuned sydd wedi elwa o bron £153,000 o Gronfa Cymunedau Cryf, sydd wedi bod o fudd i gymunedau. Bydd angen i ni nawr gryfhau ein gallu i reoli prosiectau a sefydlu systemau a strwythurau llywodraethu da i sicrhau bod y cynlluniau adfywio newydd yn cyflawni eu hymrwymiad i greu budd cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd i drigolion Bro Morgannwg.

Yn unol â'n hymrwymiad i gefnogi pobl o bob oed i ddysgu a chyflawni eu potensial llawn, mae ein Gwasanaeth Addysg Lleol wedi cydweithio i sicrhau bod ein lleoliadau blynyddoedd cynnar, ein hysgolion, ein haddysgwyr amgen a’n darparwyr addysg ôl-16 wedi canolbwyntio ar y dasg o wella parhaus er budd pob dysgwr. Mae cyflawniadau allweddol yn ystod y flwyddyn yn cynnwys: Gwasanaethau Addysg Awdurdod Lleol y Cyngor a'r Gwasanaeth Ieuenctid yn derbyn arolygiadau cadarnhaol iawn gan Estyn; sefydlwyd clymblaid Sgiliau’r Fro newydd mewn partneriaeth â Choleg Caerdydd a'r Fro ynghyd ag addewid Cyflogwr y Fro i gefnogi’r gwaith o ddatblygu sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth ar gyfer y dyfodol; derbyniodd y saith ysgol gynradd a arolygwyd gan Estyn yn ystod y flwyddyn ganlyniadau cadarnhaol, heb unrhyw gamau gweithredu dilynol; mae model Cymuned Ddysgu Pencoedtre yn parhau i dyfu mewn nerth ac mae'n cefnogi gwell canlyniadau i ddysgwyr drwy ddull sy'n canolbwyntio ar y gymuned; mae Ysgol Gynradd y Bont-faen, Derw Newydd ac Ysgol Sant Baruc wedi'u cwblhau fel rhan o'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, gan ddarparu amgylcheddau dysgu modern wrth hefyd ddarparu buddion cymunedol sylweddol. Ar y cyfan, mae canlyniadau academaidd yn parhau i wella ac er bod canlyniadau presenoldeb yn cryfhau, nid ydynt eto wedi dychwelyd i’r lefelau a welwyd cyn y pandemig. Yn ogystal, mae canlyniadau dysgwyr difreintiedig yn parhau i fod yn faes i'w ddatblygu ac mae angen cau'r bwlch mewn canlyniadau rhyngddyn nhw a'u cyfoedion. Mae heriau sylweddol yn parhau o ran bodloni anghenion pob dysgwr ag anghenion dysgu ychwanegol ac anghenion iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol, gyda thwf yn y grwpiau hyn yn parhau i gynyddu'n esbonyddol. Mae cadernid ariannol ysgolion hefyd yn her barhaus gyda chyllidebau dan bwysau sylweddol.

Rydym yn parhau i fod yn benderfynol o chwarae ein rhan yn y frwydr fyd-eang yn erbyn newid hinsawdd ac mae hon ar hyn o bryd yn her sefydliadol hanfodol, mae'r Cyngor wedi parhau i fod yn ymrwymedig i fynd i'r afael â materion amgylcheddol a hyrwyddo gweithredu ar newid hinsawdd. Drwy ein Cynllun Her Prosiect Sero rydym wedi gwneud cynnydd cadarnhaol mewn amrywiol feysydd, gan gynnwys: gwasanaeth ailgylchu

masnachol newydd i leihau gwastraff yn gynaliadwy yn y sector preifat; siop ailddefnyddio newydd yn y Barri; gwasanaethau newydd i gynyddu cyfranogiad mewn ardaloedd sydd â chyfraddau ailgylchu gwael; sicrhau trefniadau ar gyfer rheoli ein canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref yn y dyfodol; cytundeb Cynllun Ynni Ardal Leol sy'n nodi'r newidiadau sy'n ofynnol i'r Cyngor drosglwyddo i system ynni lleol di-garbon erbyn 2050; gweithredu fframwaith datgarboneiddio ym mhob un o'n hysgolion a datblygu rhwydwaith gwefru cerbydau trydan i ddarparu cyfleusterau gwefru cyfleus a fforddiadwy mewn ardaloedd trefol gyda pharcio cyfyngedig oddi ar y stryd, i restru ond ychydig. Fodd bynnag, mae heriau'n parhau o ran cadw momentwm presennol y cynnydd, o ystyried pwysau ariannol parhaus a'r heriau sy'n gysylltiedig â datgarboneiddio'r gadwyn gyflenwi.

Gan adeiladu ar y cynnydd sylweddol hyd yma, rydym wedi parhau i gydweithio â phartneriaid ar draws pob sector gan sicrhau ymateb cydlynol a mwy cyfannol i drechu tlodi a lleddfu'r pwysau a deimlir gan ein preswylwyr mewn perthynas â'r argyfwng costau byw presennol. Mae hon yn parhau i fod yn her sefydliadol hanfodol. Mae'r ystod eang o weithgareddau sydd ar waith i gefnogi preswylwyr yn parhau i gael eu llywio gan fewnwelediadau cymunedol a data eraill, gan ein galluogi i dargedu cymuned ehangach y Fro ac ardaloedd o amddifadedd acíwt. Yn unol â mewnwelediad sy'n dod i'r amlwg, mae cefnogaeth wedi canolbwyntio ar sgiliau, cyflogaeth, tai, mynediad at fwyd fforddiadwy, a chyngor ar ynni ar draws y Fro. Mae'r gwaith hwn yn parhau i gael ei gefnogi gan gronfa wrth gefn costau byw a sefydlwyd yng nghyllideb y Cyngor ers 2022/23. Fodd bynnag, mae'r galw parhaus am y gwasanaethau hyn yn her i gyllidebau'r Cyngor yn y dyfodol.

Rydym yn parhau i ymyrryd cyn cyrraedd pwynt o argyfwng i atal digartrefedd a phan fydd preswylwyr yn ddigartref, mae ein cynllun ailgartrefu cyflym wedi chwarae rhan allweddol wrth ddarparu cymorth. Yn ystod y flwyddyn: gwnaethom weithredu dull brysbennu yn llwyddiannus ar y cyswllt cyntaf er mwyn sicrhau'r cyfleoedd gorau posib ar gyfer atal digartrefedd a wnaeth leihau'r amser aros cyfartalog o 24 diwrnod i 6 diwrnod gan gyfrannu at ganlyniadau mwy cadarnhaol i denantiaid; atal 50% o bobl rhag bod mewn perygl o golli eu tenantiaeth drwy ddefnyddio cyllid atal digartrefedd yn ôl disgresiwn (£216.4,000); gweithio gyda landlordiaid preifat i sicrhau hawliau enwebu unigryw i'w heiddo gan gynyddu nifer yr eiddo a gyflwynwyd gan 36; llwyddodd 176 o bobl i symud ymlaen o lety gwesty i lety mwy parhaol; sefydlu cynllun prydlesu mewnol i gynyddu'r cyflenwad o lety dros dro, sydd wedi sicrhau mynediad i dros 20 uned o lety; cefnogi 45 o bobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref drwy ymyrraeth gynnar. Wrth edrych ymlaen, mae heriau sylweddol yn parhau o ran arwain a chefnogi'r gwaith o ddarparu cartrefi newydd ar draws Bro Morgannwg i ymateb i bwysau cynyddol ar dai a digartrefedd.

Er bod iechyd ariannol cyffredinol y Cyngor yn darparu llwyfan cadarn i wynebu'r heriau ariannol sydd o'n blaenau, rydym yn cydnabod y bydd cydbwyso'r llyfrau yn anoddach nag erioed yn y dyfodol ac mae angen i ni gyflymu'n sylweddol y gwaith sy'n ein galluogi i gyflawni ein blaenoriaethau mewn ffordd sy'n gynaliadwy yn ariannol ac sy'n diwallu anghenion trigolion Bro Morgannwg. Mae darnau allweddol o waith wedi eu dechrau eleni i lywio ein cynlluniau yn y dyfodol, gan gynnwys cam nesaf rhaglen drawsnewid y Cyngor a fydd yn darparu sefydliad mwy darbodus, mwy effeithlon, wedi'i nodweddu gan arferion modern, darparu gwasanaethau cynaliadwy a gweithlu medrus a brwdfrydig ac, yn bwysicaf oll, sicrhau bod ein cymunedau, ein preswylwyr a'n cwsmeriaid wrth wraidd ein penderfyniadau. Ynghyd â data a mewnwelediadau eraill, mae'r arolwg Bywyd yn y Fro, a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, wedi darparu gwybodaeth ddefnyddiol sy'n helpu i lunio dull trawsnewid sy'n canolbwyntio ar y gymuned a fydd yn cefnogi darparu gwasanaethau lleol gwerthfawr a chynaliadwy.

Ni fyddai'r cyflawniadau uchod wedi bod yn bosib heb ymroddiad ein cydweithwyr, ein partneriaid a'n gwirfoddolwyr sydd wedi parhau'n hyblyg ac yn ystwyth, gan weithio gyda'i gilydd i ymateb i'n heriau wrth amddiffyn ein dinasyddion mwyaf agored i niwed a chefnogi ein cymunedau. Mae'r Cyngor yn parhau i weithredu mewn amgylchedd hynod heriol, gyda galwadau cynyddol yn cael eu gwneud o weithlu sydd eisoes dan bwysau ac mae'n edrych fel y bydd hyn yn parhau am flynyddoedd i ddod wrth i ni barhau i lywio pwysau sylweddol ar y gyllideb. O ganlyniad, mae lles staff yn parhau i fod yn flaenoriaeth gan ein bod yn cydnabod gofynion sylweddol gwaith, yn ogystal â heriau personol, a deimlir gan bawb.

Mae gennym uchelgeisiau mawr ar gyfer Bro Morgannwg ac rydym yn credu bod modd cyflawni'r rhain os ydym yn gweithio gyda'n gilydd fel cymuned i gydgynhyrchu atebion cynaliadwy sy'n gwneud yn fawr o'n hasedau cymunedol lleol. Mae hwn yn faes o ffocws penodol yng ngham nesaf rhaglen Ail-lunio'r Cyngor.

Drwy weithio gyda'n gilydd rydym wedi cyflawni llawer yn 2023/24. Rydym yn cydnabod ac yn dathlu ein cynnydd, ond rydym hefyd yn gwerthfawrogi bod llawer mwy i'w wneud, a byddwn yn parhau ar y daith hon, gyda phenderfyniad ac egni, i gyflawni ein gweledigaeth o **gymunedau cryf â dyfodol disglair** i bawb.

## 2.0 Cynnwys


1.0 Cyflwyniad gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Prif Weithredwr..........1
2.0 Cynnwys....................................................................................6
3.0 Ein Heriau Allweddol.................................................................7
4.0 Ein Hadroddiad Hunanasesu ......................................................9
5.0 Ein Cynnydd yn erbyn Meysydd Ffocws y llynedd ..........................13
6.0 Ein perfformiad yn erbyn y Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24.......16
6.1 Ein cyfraniad at y Nodau Lles cenedlaethol ....................................17
6.3 Perfformiad ein Cynllun Cyflawni Blynyddol yn ôl Amcanion Lles ......18
7. Ein Blwyddyn mewn Rhifau 2023/24.................................................93
7.1 O ble y daw ein harian a sut y gwariwyd ein cyllideb yn 2023/24 ......96
8.0 Y Calendr Ymgysylltu Blynyddol a Mewnwelediadau Allweddol 2023/24 ..........................................................................................98
8.1 Arolwg Barn y Cyhoedd Bywyd yn y Fro 2023 ..................................98
8.2 Teimladau am gyfryngau cymdeithasol.........................................101
8.3 Hyrwyddwyr Aelodau....................................................................103
8.4 Cwynion a Chanmoliaeth .............................................................106
8.5 Gweithio Cydweithredol gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned a'r Trydydd Sector..........................................................................107
8.6 Penderfyniadau allweddol y Cyngor 2023/24..................................108
8.7 Ymgysylltu ar ddyfarniadau perfformiad a chanfyddiadau sy'n dod i'r amlwg yr Hunanasesiad Blynyddol...................................................112
8.8 Casgliad cyffredinol .....................................................................115
9.0 Sut rydyn ni'n defnyddio ein hadnoddau a llywodraethu................117
9.1 Yr hyn rydym wedi'i gyflawni .......................................................119
9.2 Llywodraethu ..............................................................................128
10. Adolygu ein dull Hunanasesu .......................................................129

# 3.0 Ein Heriau Allweddol

Mae llywodraeth leol yn parhau i wynebu heriau sylweddol, wrth i heriau parhaus yr argyfwng costau byw, y rhyfel yn Wcráin, a'r argyfyngau hinsawdd a natur effeithio arnon ni o hyd. Mae llawer o'r heriau hyn wedi'u gwaethygu gan y pwysau ariannol sylweddol y mae'r Cyngor, fel llawer o rai eraill, yn ei wynebu. Mae cyllid craidd gan Lywodraeth Cymru yn parhau i fod yn is na'r hyn sydd ei angen i gynnal yr holl wasanaethau ar eu lefel bresennol, ochr yn ochr â'r cynnydd parhaus yn y galw a chymhlethdod ar gyfer ein gwasanaethau, mae'r elfennau hyn wedi cyfrannu at yr heriau ariannol sylweddol yr ydym yn eu hwynebu ar adeg lle mae cost y ddarpariaeth yn parhau i gynyddu.

Er gwaethaf yr heriau hyn, ac adnoddau cyfyngedig, rydym yn parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol i gefnogi ein cymunedau, a'n trigolion mwyaf agored i niwed. Mae ein profiad dros y flwyddyn flaenorol yn gweithio dan bwysau tebyg, a'n dull cynhwysfawr o reoli risg, wedi sicrhau ein bod yn deall, monitro a chynllunio'n rhagweithiol sut rydym yn gweithredu, i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarparwn yn parhau i fod o ansawdd uchel, gyda rhai yn cael eu cydnabod fel rhai arobryn. Mae gweithio i sicrhau ein bod yn cynnal yr ansawdd hwn wedi cyflwyno cyfleoedd i weithio mewn ffyrdd newydd, gan ddefnyddio'r sgiliau ar draws ein gweithlu a chyfleoedd digidol newydd i wneud gwasanaethau'n fwy hygyrch ac yn fwy cynaliadwy.

Yn ystod 2023/24 nodwyd tair her allweddol a luniodd lawer o'n gweithgarwch trwy gydol y flwyddyn y gellir eu gweld o fewn llawer o'r camau gweithredu a nodwyd yn ein Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2023/24. Parhaodd yr heriau hyn yr un peth â'r rhai a nodwyd yn 2022/23 a byddant yn parhau i 2024/25 gan eu bod yn berthnasol o hyd ac yn cael eu cefnogi gan ganfyddiadau arolwg Beth Am Siarad 2023.

**Argyfwng Costau Byw:** Mae'r argyfwng costau byw yn parhau i roi pwysau ariannol ar ein cymunedau. Eleni, parhaodd prisiau bwyd ac ynni i godi ac, er bod cyfradd chwyddiant wedi gostwng ers hynny, ym mis Mawrth 2023, chwyddiant bwyd a diodydd dialcohol yn y DU oedd y gyfradd flynyddol uchaf a welwyd ers dros 45 mlynedd, sef 19.2%. Mae biliau ynni'n dal i beri pryder i gartrefi gyda 4 o bob 10 oedolyn ym Mhrydain Fawr (41%) sy'n talu biliau ynni yn adrodd ei bod yn anodd iawn neu ychydig yn anodd eu fforddio ym mis Ionawr 2024. Disgwylir i'r newidiadau sydd i ddod i'r Taliad Tanwydd Gaeaf effeithio ymhellach ar allu pobl hŷn i dalu biliau tanwydd dros fisoedd y gaeaf, gyda'r taliad yn seiliedig ar brawf modd o'r gaeaf hwn. Hyd yn hyn, roedd y taliad ar gael i bawb yn y DU uwchlaw oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Mae Age UK yn awgrymu na fydd 2.5 miliwn o bobl hŷn, sy'n dibynnu ar y taliad hwn i gadw'n gynnes, yn ei dderbyn ac, o ganlyniad, byddant mewn trafferth ddifrifol. Ar lefel leol, mae canlyniadau arolwg preswylwyr Beth Am Siarad 2023 yn dangos bod y pwysau y mae hyn yn ei roi ar aelwydydd yn parhau i fod yn bryder i'n trigolion ym Mro Morgannwg. Mae'n amlwg, er bod ystod o gymorth wedi'i ddatblygu i leihau'r straen ariannol a'r brwydrau cydgysylltiedig sy'n wynebu cymunedau, mae angen gwneud mwy. Ein haelwydydd mwyaf agored i niwed a'n cymunedau difreintiedig yr effeithir arnynt waethaf o hyd. Gellir gweld gwaith i wella'r cymorth presennol gyda phartneriaid gan gynnwys ysgolion, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, a sefydliadau cymunedol a thrydydd sector, yn ein Cynllun Cyflawni Blynyddol 2024/25 ac mae hefyd yn cael ei ddatblygu drwy Gynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC). Adroddir am gynnydd ar waith ynghylch costau byw a thlodi i'r Cabinet a Chraffu gan gynnwys defnyddio'r gronfa wrth gefn costau byw. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu ymgyrch leol i hyrwyddo hawliau ariannol pobl hŷn i annog pawb sy'n gymwys i hawlio'r cyllid y mae ganddynt hawl iddo, adroddir ar y gwaith hwn fel rhan o agenda Bro Oed-Gyfeillgar y BGC.

**Yr Argyfwng Hinsawdd (Prosiect Sero):** Yn 2019, cyhoeddodd Cyngor Bro Morgannwg argyfwng hinsawdd ac yn 2021 gwnaethom hefyd ddatgan argyfwng natur. Er ein bod yn parhau i weithio i gyflawni ein hymrwymiad ar newid hinsawdd a nodir ym Mhrosiect Sero ac yn gweithio gyda'r gymuned a'n partneriaid gan gynnwys y Bartneriaeth Natur Leol, rydym yn cydnabod bod mwy y gellid ei wneud. Ym mis Mawrth 2023 cyhoeddodd y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd (PRhNH) y Climate Change 2023: Synthesis Report gan dynnu sylw at y ffaith bod bodau dynol yn gyfrifol am yr holl gynhesu byd-eang dros y 200 mlynedd diwethaf gan arwain at gynnydd mewn tymheredd presennol o 1.1°C yn uwch na'r lefelau cyn-ddiwydiannol. Mae'r cynnydd


hwn wedi arwain at ddigwyddiadau tywydd mwy rheolaidd a pheryglus. Dangosodd yr adroddiad fod y terfyn o 1.5°C yn dal i fod yn gyraeddadwy, ond bod angen i bawb weithredu'n hanfodol ar bob lefel. Gwnaed cynnydd yn lleol yn 2023/24 mewn ystod o feysydd gan gynnwys rheoli gwastraff, a welodd y cam olaf o ailgylchu ar wahân i'r cartref yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus; a gweithredu gwasanaeth masnachol newydd. Mae eraill yn cynnwys buddsoddi mewn seilwaith teithio llesol a ffyrdd newydd o ddatgarboneiddio asedau. Mae rhagor o waith i fynd i'r afael â'r her hon ac i ddylanwadu ac annog eraill i leihau eu hallyriadau, ac i feddwl mwy am effaith eu gweithgareddau ar ein hadnoddau naturiol, i'w weld yn ein Cynllun Cyflawni Blynyddol 2024/25. Caiff adroddiadau cynnydd ar Brosiect Sero eu hadrodd i'r Cabinet a Chraffu ddwywaith y flwyddyn gan gynnwys defnyddio cronfa wrth gefn Prosiect Sero.

**Gwydnwch Sefydliadol:** Mae sefyllfa ariannol y Cyngor yn parhau i fod yn her sylweddol yn yr hinsawdd bresennol lle mae cynnydd parhaus yn y galw am wasanaethau, cymhlethdod cynyddol yn y rheini sydd angen ein cefnogaeth fwyaf, a chostau uchel darparu gwasanaethau. Fel llawer, mae elfennau y tu hwnt i'n rheolaeth yn effeithio ar ein heriau ariannol megis y pwysau costau cynyddol sy'n gysylltiedig â chwyddiant sy'n effeithio ar gost gynyddol deunyddiau adeiladu, costau ynni a chyflogau staff. Mae cyllideb y Cyngor ar gyfer 2023/24 yn dangos mai'r brif ffynhonnell incwm yw setliad gan Lywodraeth Cymru, sydd, gan gynnwys cyfraniad gan ardrethi busnes cronnol, yn darparu tua 69% o'r gyllideb o £294 miliwn sydd ar gael i ddarparu'r holl wasanaethau. Daw 31% arall o gyllideb y Cyngor o'r Dreth Gyngor. Er mwyn parhau i ddiogelu ysgolion a sicrhau bod ein preswylwyr mwyaf agored i niwed yn parhau i dderbyn y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, roedd angen cynyddu'r Dreth Gyngor a thaliadau i rai gwasanaethau nad oeddent yn hanfodol i gwrdd â diffyg ariannol o £9.7 miliwn yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r sefyllfa hon yn cael ei gwaethygu gan yr angen i fynd i'r afael â nifer o bwysau costau, gan gynnwys cwrdd â gofynion poblogaeth sy'n heneiddio'n gynyddol a nifer cynyddol o blant a phobl ifanc sydd ag anghenion lles meddyliol ac anghenion dysgu ychwanegol cymhleth. Yn ogystal, mae nifer cynyddol o blant sy'n agored i niwed angen cefnogaeth. Mae gwaith i sicrhau ein bod yn denu ac yn cadw gweithlu medrus iawn i ddarparu'r ystod eang o wasanaethau sydd eu hangen yn mynd rhagddo drwy Strategaeth Pobl y Cyngor. Mae gwaith i ddefnyddio a rhesymoli ein hasedau ymhellach a gwneud yn fawr o'r effaith gadarnhaol y gall technolegau newydd ei chael ar ddarparu gwasanaethau a hygyrchedd drwy'r Strategaeth Ddigidol hefyd yn ffocws allweddol o weithgarwch. Gellir gweld gwaith pellach i fynd i'r afael â'r her hon ar draws y sefydliad wrth barhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel a chefnogi anghenion ein gweithlu, yn ein Cynllun Cyflawni Blynyddol 2024/25.

## 4.0 Ein Hadroddiad Hunanasesu

### Sut mae'r cyfan yn dod at ei gilydd

Mae Amcanion Lles ein Cynllun Corfforaethol yn nodi'r canlyniadau y mae'r Cyngor am eu cyflawni sy'n adlewyrchu blaenoriaethau gwleidyddol y weinyddiaeth, ein dyheadau a'n hymrwymiadau cyffredin gyda phartneriaid gwasanaeth cyhoeddus (e.e. Cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Chynllun Ardal Caerdydd a'r Fro) a dinasyddion y Fro ac yn darparu fframwaith ar gyfer gwella lles ym Mro Morgannwg yn ystod y tymor canolig.




Ein Hamcanion Lles ar gyfer 2023/24 yw:

- Gweithio gyda'n cymunedau a throstynt.
- Cefnogi dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy.
- Cynorthwyo pobl yn eu cartrefi a'u cymunedau.
- Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd.

Mae ein Cynllun Cyflawni Blynyddol a gyhoeddir bob gwanwyn, yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd yn ystod y flwyddyn i gyflawni Amcanion Lles ein Cynllun Corfforaethol, a gwireddu ein gweledigaeth i greu **Cymunedau Cryf â Dyfodol Disglair**.

Trosir y camau hyn yn weithredoedd trwy broses gynllunio integredig a manylir arnynt mewn Cynlluniau Gwasanaeth a Thîm ac arfarniadau staff (#AmdanaFi) ar draws y Cyngor ac maent yn sail i'n fframwaith corfforaethol blynyddol o weithgareddau, mesurau perfformiad a thargedau gwella gwasanaethau, timau ac unigolion. Dangosir y cynnydd yn erbyn ein hymrwymiadau CCB a'n Hamcanion Lles mewn adroddiadau monitro perfformiad chwarterol sy'n destun her fewnol trwy'r Uwch Dîm Arwain ac aelodau etholedig trwy Bwyllgorau Craffu, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cabinet. Mae monitro cynnydd yn erbyn y camau hyn yn rhoi dealltwriaeth o'r hyn a gyflawnwyd a lle mae angen rhagor o waith.

Mae'r Adroddiad Hunanasesu Blynyddol yn rhoi crynodeb diwedd blwyddyn o'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni ymrwymiadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol sy'n cyd-fynd â'n pedwar Amcan Lles.
Mae'n bwysig bod ein dull o hunanasesu yn parhau i ddatblygu i ysgogi gwelliant yn unol ag Amcanion Lles ein Cynllun Corfforaethol. Er mwyn gwella ein her fewnol, mae'r Tîm Arwain Strategol yn ystyried diweddariadau perfformiad yn rheolaidd ar Galendr Gweithgareddau Perfformiad Blynyddol y Cyngor sy'n eu galluogi i herio dulliau gweithredu a gwneud argymhellion ar gyfer gwella. Mae rhaglen flynyddol o weithdai aelodau etholedig, sy'n cyd-fynd â'r Calendr, wedi estyn amrediad cyfranogiad aelodau, ac wedi eu galluogi i lunio ein dull. Mae'r wybodaeth a gawsant drwy gydol y flwyddyn wedi eu galluogi i ymgymryd â'u rôl cyfaill beirniadol yn effeithiol.

### Sut rydyn ni wedi asesu ein perfformiad?

Ein trefniadau llywodraethu a rheoli perfformiad blynyddol presennol yw ein prif fodd o gyflawni ein dyletswyddau perfformiad. Mae ein dull o ran hunanasesu wedi'i integreiddio o fewn y trefniadau hyn sy'n darparu cyfleoedd trwy gydol y flwyddyn ar gyfer herio perfformiad mewnol ac allanol gan ein galluogi ar unrhyw adeg i adolygu pa mor dda yr ydym yn cyflawni ein hamcanion lles. Yn ogystal â'r trefniadau hyn, rydym

hefyd yn parhau i ddatblygu ein mewnwelediad mewnol sy'n dwyn ynghyd wybodaeth am berfformiad, data ac ymgysylltu â'r cyhoedd trwy gydol y flwyddyn ynghyd â mewnwelediadau cysylltiedig â llywodraethu o raglenni gwaith archwilio mewnol ac allanol. Mae hyn wedi helpu i ddarparu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer y casgliadau hunanasesu blynyddol. Mae aelodau etholedig wedi dylanwadu ar fformat, cynnwys a chyflwyniad yr wybodaeth hon trwy gydol y flwyddyn yn ystod cyfuniad o sesiynau anffurfiol a ffurfiol, gan gynnwys sesiynau briffio a chyfarfodydd pwyllgorau.

Mae amrywiaeth eang o ffynonellau gwybodaeth wedi helpu i lywio ein dyfarniadau hunanasesu a meysydd i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol: Mae'r rhain ar gael yma:

## Cyd-destun ein dyfarniadau

Wedi'i lywio gan y dystiolaeth a gasglwyd, rydym wedi asesu ein cynnydd gan ddefnyddio'r graddfeydd isod. Mae'n bwysig nad yw ein dyfarniadau'n cael eu hystyried ar wahân gan eu bod yn effeithio ar ei gilydd a bod angen eu hystyried mewn ffordd integredig. Mae crynodeb o'r ffordd yr ydym yn llunio'n dyfarniadau wedi'i ddarparu isod.

Cynllun Cyflawni Blynyddol

Wrth fesur ein cynnydd o ran cyflawni ein hymrwymiadau yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24, rydym yn ystyried y canlynol er mwyn llunio dyfarniad:
- tystiolaeth mewn perthynas â chyflawni gweithgareddau cynlluniedig;
- perfformiad mewn perthynas â chyfres o ddangosyddion perfformiad a thargedau gwella cysylltiedig;
- adborth ymgysylltu ac ymgynghori gan randdeiliaid allweddol;
- barn ein rheoleiddwyr a'n harchwilwyr.

| Cynllun Cyflawni Blynyddol | | | |
|---|---|---|---|
| Rhagorol | Da | Gweddol | Gwael |
| • 100% o'r gweithgareddau wedi'u cyflwyno a thargedau ar gyfer mesurau perfformiad, wedi'u cyflawni.<br>• Rydym wedi llwyddo i gyflawni ein holl ymrwymiadau CCB yn llwyddiannus. | • Mwy nag 85% o weithgareddau wedi'u cyflwyno a thargedau ar gyfer mesurau perfformiad, wedi'u cyflawni.<br>• Rydym wedi llwyddo i gyflawni'r rhan fwyaf o'n hymrwymiadau CCB. | • Mae rhwng 50% ac 84% o'r gweithgareddau a'r mesurau wedi'u cyflwyno/wedi cyflawni'r targed.<br>• Rydym wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran cyflawni ein hymrwymiadau CCB, ond mae rhai camau gweithredu ar ei hôl hi, ac mae rhai mesurau perfformiad wedi methu â chyrraedd y targed.. | • Mae rhwng 0% a 49% o'r gweithgareddau a'r mesurau wedi'u cyflwyno.<br>• Cynnydd anfoddhaol wrth gyflwyno ein hymrwymiadau CCB. Ni chyflawnwyd nifer sylweddol o gamau gweithredu a mesurau.<br>• Amcan fel y nodir yn y Cynllun Corfforaethol |

**Defnydd o Adnoddau: Asesiad o Alluogwyr Corfforaethol**

Wrth fesur pa mor dda rydym yn defnyddio ein hadnoddau, rydym yn ystyried y canlynol er mwyn llunio dyfarniad:
- Pobl
- Asedau (Ffisegol a Digidol)
- Cyllid (gan gynnwys caffael a chomisiynu)
- Ymgysylltu a mewnwelediad
- Rheoli perfformiad
- Rheoli risg

| Defnydd o Adnoddau | | | |
|---|---|---|---|
| Rhagorol | Da | Gweddol | Gwael |
| • Ystyrir bod ein rheolaeth o adnoddau yn rhagorol o ran ein heconomi, ein heffeithlonrwydd, ein heffeithiolrwydd a'n/neu ein tegwch.<br>• Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy wedi'i hymgorffori a'i | • Ystyrir bod ein rheolaeth ar adnoddau'n dda ac mewn sefyllfa gref i sicrhau gwelliannau i wasanaethau yn y dyfodol yn gynaliadwy.<br>• Mae gennym ddulliau/arferion cadarn ar waith i weithredu ein | • Ystyrir bod ein rheolaeth ar adnoddau'n weddol gyda rhagolygon da ar gyfer gwella.<br>• Mae gennym rai dulliau/arferion cadarn ar waith i weithredu ein gwasanaethau mewn modd | • Ystyrir bod ein rheolaeth ar adnoddau'n wael gyda rhagolygon gwael ar gyfer gwella.<br>• Nid oes gennym unrhyw ddulliau/arferion ar waith i weithredu ein gwasanaethau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| chymhwyso'n gyson ym mhob ystyriaeth wrth gynllunio, gwneud penderfyniadau a gweithredu ein hadnoddau i gyflawni ein Hamcanion Lles a gellir rhoi tystiolaeth ohoni.<br>• Mae ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu hymgorffori a'u cymhwyso'n gyson trwy gydol y broses o gynllunio, gwneud penderfyniadau a gweithredu ein hadnoddau i nodi a lleihau / neu ddileu anghydraddoldebau canlyniad sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol a gellir rhoi tystiolaeth ohonynt.<br>• Rydym mewn sefyllfa ardderchog i sicrhau gwelliannau cynaliadwy yn y dyfodol.<br>• Mae gennym fewnwelediad/tystiolaeth/enghreifftiau cryf a rhagorol o sut rydym wedi defnyddio ein hadnoddau, gwella perfformiad, cyflawni canlyniadau a/neu ddiwallu angen.<br>• Rydym yn hunanymwybodol a gallwn ddangos gwelliant parhaus o fyfyrdod ac adolygu rheolaidd ac mae gennym gynllun clir o ba gyfeiriad y mae angen i ni fynd iddo i sicrhau a chynnal gwelliannau.<br>• Ac yn bodloni'r holl feini prawf o dan sgôr perfformiad 'Da'. | gwasanaethau mewn modd economaidd, effeithlon, effeithiol a theg.<br>• Mae'r 5 ffordd o weithio yn cael eu deall a'u hystyried wrth gynllunio, gwneud penderfyniadau a gweithredu ein hadnoddau i gyflawni ein Hamcanion Lles a gellir rhoi tystiolaeth ohonynt.<br>• Mae ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu deall a'u hystyried wrth gynllunio, gwneud penderfyniadau a gweithredu ein hadnoddau i nodi a lleihau anghydraddoldebau canlyniad sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol a gellir rhoi tystiolaeth ohonynt.<br>• Mae gennym ddealltwriaeth/tystiolaeth/enghreifftiau da o sut rydym wedi defnyddio ein hadnoddau i wella perfformiad, cael canlyniadau a/neu ddiwallu angen.<br>• Mae gennym ddealltwriaeth glir o'r hyn y mae angen i ni ei wneud i wella ein perfformiad a sicrhau gwelliant parhaus. Mae gennym gynllun ar waith i fynd i'r afael â'r meysydd gwella hyn.<br>• Ac yn bodloni'r holl feini prawf o dan sgôr perfformiad 'Gweddol'. | economaidd, effeithlon, effeithiol a theg.<br>• Deallir y 5 ffordd o weithio, ac ystyrir agweddau wrth gynllunio, gwneud penderfyniadau a gweithredu ein hadnoddau i gyflawni ein Hamcanion Lles a gellir rhoi tystiolaeth ohonynt.<br>• Deallir ystyriaethau cydraddoldeb, ac ystyrir agweddau wrth gynllunio, gwneud penderfyniadau a gweithredu ein hadnoddau i nodi a lleihau anghydraddoldebau canlyniad sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol a gellir rhoi tystiolaeth ohonynt.<br>• Mae gennym rywfaint o fewnwelediad/tystiolaeth o sut rydym wedi defnyddio ein hadnoddau i wella perfformiad, cyflawni canlyniadau a/neu ddiwallu angen. Rydym yn ymwybodol o'n meysydd gwella ac yn ymwybodol o'r hyn y mae angen ei wneud i sicrhau gwelliant parhaus, ond nid yw hyn wedi arwain at gamau gweithredu eto. | mewn modd effeithlon, effeithiol a theg.<br>• Deallir y 5 ffordd o weithio ond prin yw'r dystiolaeth o sut mae'r rhain yn cael eu hystyried wrth gynllunio, gwneud penderfyniadau a gweithredu ein hadnoddau i gyflawni ein Hamcanion Lles.<br>• Deallir ystyriaethau cydraddoldeb, ond prin yw'r dystiolaeth o sut mae'r rhain yn cael eu hystyried wrth gynllunio, gwneud penderfyniadau a gweithredu ein hadnoddau i nodi a lleihau anghydraddoldebau canlyniad sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.<br>• Mae gennym ddealltwriaeth/tystiolaeth gyfyngedig neu ddim o gwbl i ddangos sut rydym wedi defnyddio ein hadnoddau i wella perfformiad, cyflawni canlyniadau a/neu ddiwallu angen.<br>• Nid oes gennym unrhyw hunanymwybyddiaeth o ble mae angen i ni wella. Nid oes cynllun clir ar waith i fynd i'r afael â meysydd gwendid ac i sicrhau gwelliant.<br>• Nid yw'n bodloni'r holl feini prawf o dan sgôr perfformiad 'Gweddol'. |

## Llywodraethu

Wrth fesur pa mor dda rydym yn cael ein rhedeg (llywodraethu), ynghyd â'r uchod, rydym hefyd yn ystyried y canlynol er mwyn llunio dyfarniad:

- Datganiad Llywodraethu Blynyddol, ar sail egwyddorion 'Darparu Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol' CIPFA
- Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar amgylchedd rheoli'r Cyngor mewn perthynas â llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol.
- Canfyddiadau’r Rhaglen Gwaith Archwilio Mewnol a Sicrwydd
- Canfyddiadau'r Rhaglen Gwaith Archwilio (gan gynnwys gwaith sicrwydd ar y systemau ariannol a'r amgylchedd rheoli ehangach)

| Llywodraethu | | | |
|---|---|---|---|
| Sylweddol | Rhesymol | Cyfyngedig | Dim |
| Mae system gadarn o lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn bodoli, gyda rheolaethau mewnol yn gweithredu'n effeithiol ac yn cael eu cymhwyso'n gyson i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion yn y maes a archwilir | Yn gyffredinol, mae system lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth gadarn wedi'i sefydlu. Nodwyd rhai problemau, diffyg cydymffurfio neu gyfle i wella<br>a allai beryglu cyflawni amcanion yn y maes a archwiliwyd. | Nodwyd bylchau, gwendidau neu ddiffyg cydymffurfio sylweddol. Mae angen gwella'r system lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth er mwyn rheoli risgiau'n effeithiol i gyflawni amcanion yn y maes a archwilir | Mae angen cymryd camau gweithredu ar unwaith i fynd i'r afael â bylchau sylfaenol, gwendidau a nodwyd. Mae'r system lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn annigonol i reoli risgiau'n effeithiol er mwyn cyflawni amcanion yn y maes a archwilir. |

**Adolygiad o’n Hamcanion Lles**

Bob blwyddyn, mae dinasyddion y Fro, staff y Cyngor, aelodau etholedig a phartneriaid allweddol eraill yn helpu i lunio'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni ein Hamcanion Lles trwy ymrwymiadau ein Cynllun Cyflawni Blynyddol. Trwy'r broses hon gofynnir iddynt gadarnhau perthnasedd ein Hamcanion Lles. Hefyd, yn flynyddol, trwy ein trefniadau cynllunio gwasanaethau a rheoli perfformiad integredig, rydym yn parhau i adolygu perthnasedd ein Hamcanion Lles, gan ganolbwyntio ar y canlyniadau, y cyflawniadau a'r heriau a fwriedir.

Fel rhan o'r ymgynghoriad ar Gynllun Cyflawni Blynyddol drafft 2024/25, daeth cyfanswm o 94 o ymatebion i'r arolwg ymgynghori cyhoeddus i law. Mewn ymateb i'r cwestiwn, a yw'r amcanion cywir wedi'u nodi i gyflawni gweledigaeth y Cyngor, atebodd 72.8% o'r ymatebwyr 'Ydyn.' Mae hyn yn unol â'r ymateb i Gynllun Cyflawni Blynyddol drafft 2023/24, lle cytunodd 79.1% o'r 68 o ymatebwyr i'r arolwg mai'r rhain oedd yr amcanion cywir. Trwy'r gwaith hwn a chanlyniadau ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu eraill gan gynnwys Beth Am Siarad, rydym yn sicr bod ein Hamcanion Lles yn briodol a'u bod hefyd yn parhau i fod yn berthnasol i'r blaenoriaethau a amlinellir yng Nghynllun Lles 2018-2023 y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) a byddwn yn parhau i ategu gwaith y BGC yn y dyfodol.

## 5.0 Ein Cynnydd yn erbyn Meysydd Ffocws y llynedd

Yn ein Hunanasesiad Blynyddol 2022/23, nodwyd cyfres o feysydd yr oeddem am ganolbwyntio arnynt ym mlwyddyn 2023/24. Isod ceir diweddariad am y gwaith rydym wedi'i wneud, a'r camau nesaf.

- Gwnaed cynnydd yn y gwaith i gyflawni'r Strategaeth Pobl a'i thair ffrwd waith (Ailgynllunio ar gyfer ymatebolrwydd, Sbarduno profiadau gweithwyr, ac Ymdrechu am berfformiad uchel). Mae'r gwaith hwn wedi cefnogi gwasanaethau'r Cyngor gydag ymgyrchoedd cynllunio a recriwtio gweithlu strategol i helpu i fynd i'r afael â heriau recriwtio a chadw. Mae dangosfyrddau AD wedi'u sefydlu i dynnu sylw at fetrigau allweddol, gan gynnwys gwybodaeth o safbwynt cydraddoldeb.
- Mae ymagweddau newydd at gyflwyno ceisiadau a ffyrdd mwy creadigol o hysbysebu cyfleoedd cyflogaeth wedi eu treialu i helpu i ddenu ymgeiswyr iau a mwy amrywiol. Mae'r perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda CELT+ i ddarparu cyfleoedd trwy'r Cynllun QuickStart wedi arwain at 12 o oedolion ifanc ar hyn o bryd yn ymgymryd â lleoliadau yn y Cyngor ym mis Mawrth 2024.
- Mae'r broses gwynion a chanmoliaeth wedi'i hadolygu i sicrhau ei bod yn hawdd ac yn effeithlon i'w defnyddio ac yn gwneud yn fawr o ansawdd y data a gesglir. Mae hyn wedi helpu i nodi nifer o newidiadau a fydd yn cael eu gweithredu i wella'r broses dros y flwyddyn nesaf.
- Cafodd arolwg Beth Am Siarad am Fywyd yn y Fro, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Data Cymru, dros 4,000 o ymatebion ac mae wedi rhoi mewnwelediad, sy'n ffynhonnell gadarn iawn, i'r Cyngor ar ganfyddiadau'r cyhoedd. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i lywio ystod eang o brosiectau a dyma'r ymarfer mwyaf o'i fath i'w gynnal hyd yma gan y Cyngor.
- Mae'r Grŵp Hyrwyddwyr Aelodau Etholedig yn parhau i ddatblygu a chefnogi aelodau etholedig i weithredu fel eiriolwyr dros gymunedau allweddol yn y Fro, gan sicrhau bod llais, anghenion a phrofiadau cymunedau penodol yn cael eu clywed wrth wneud penderfyniadau. Mae enghreifftiau o waith a wnaed gan ein Hyrwyddwyr yn cynnwys Hyrwyddwr Pobl Hŷn yn cyd-gynnal gweithdy ymgynghori Bro Oed-Gyfeillgar gyda'r Arweinydd a Hyrwyddwr Gwrthdlodi'r Cyngor yn siarad mewn digwyddiad rhanddeiliaid i ddatblygu Strategaeth Fwyd ar gyfer y Fro.
- Wedi creu atebion i faterion gwasanaethau gan ddefnyddio dulliau digidol, mae enghreifftiau'n cynnwys newidiadau mewn gwastraff gardd, gwastraff masnachol a cheisiadau am grantiau costau byw.
- Lansiwyd Strategaeth Wirfoddoli i staff i ganiatáu i staff wirfoddoli am 1 diwrnod y flwyddyn i gefnogi grwpiau a mentrau cymunedol lleol ym Mro Morgannwg gan helpu i gefnogi ein cymunedau lleol a gwella lles staff.
- Mae staff hefyd wedi cael cefnogaeth gydag ystod o sesiynau cymorth a gynhelir ar bynciau gan gynnwys lles ariannol a chyfleoedd cyn ymddeol a datblygu sgiliau trwy gyfres o gyfleoedd Caffi Dysgu a gynhelir gan aelodau staff ar draws y Cyngor. Mae 562 aelod o staff wedi bod yn bresennol mewn 20 o ddigwyddiadau/gweminarau Caffi ers mis Ebrill 2023. Mae sesiynau Caffi hefyd wedi darparu cyfleoedd i staff ymgysylltu a siapio polisïau a strategaethau newydd gan gynnwys y Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2025 – 2030 a'r Rhaglen Ail-lunio.
- Mae cyfraddau absenoldeb salwch staff wedi gostwng o'u cymharu â blynyddoedd blaenorol, er gwaethaf y ffaith eu bod dros y targed gyda 10.32 diwrnod gwaith yn cael eu colli fesul cyfwerth ag amser llawn yn erbyn y targed o 9.2. Er bod cyfraddau absenoldeb ar gyfer salwch tymor hwy a byrdymor yn llai na'r blynyddoedd blaenorol, bydd ymdrechion yn parhau ar draws y sefydliad i wella'r gwaith o reoli absenoldeb ymhellach.
- Gwnaed cynnydd yn y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Rheoli Carbon; nod y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2023-28 a'r Cynllun Rheoli Carbon (ar ôl ei fabwysiadu) yw creu fframwaith i sicrhau bod asedau ffisegol y Cyngor yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf cynaliadwy.
- Mae amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys prosiect ad-drefnu swyddfeydd, Eich Lle, a nifer o brosiectau datgarboneiddio adeiladau wedi dechrau ac yn ceisio defnyddio ein hasedau ffisegol yn y modd mwyaf cynaliadwy.

- Buddsoddodd y Cyngor, gyda chymorth Cronfa Eiddo Cydweithio Asedau Llywodraeth Cymru, £250,000 mewn prosiect peilot ar draws 3 chanolfan gymunedol i gynorthwyo partneriaid trydydd sector/gwirfoddol i ddatgarboneiddio asedau y maent yn eu defnyddio dan brydlesau. Bydd hyn yn helpu i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor yr asedau cymunedol pwysig hyn o safbwynt ynni/carbon ac ariannol.
- Cymerwyd camau sylweddol pellach tuag at greu amgylchedd gwaith cynhwysol, gan gynnwys hyrwyddo staff LHDTC+, cefnogi digwyddiadau Pride lleol, cefnogi Diwrnod Windrush, a pharhau i gefnogi a hyrwyddo rhwydweithiau staff LHDTC+ y Cyngor - GLAM ac Amrywiol. Yn sgîl hyn, enwyd y Cyngor yn un o'r 100 o Gyflogwyr Cynhwysol Gorau gan Stonewall am y tro cyntaf.
- Gweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, rhanddeiliaid gan gynnwys trigolion lleol, grwpiau cymunedol a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru i ddatblygu Cynllun Gweithredu Bro Oed-gyfeillgar drafft, yn dilyn Bro Morgannwg yn llwyddo i ddod y bedwaredd ardal awdurdod lleol yng Nghymru i gyflawni Statws Sy'n Dda i Bobl Hŷn. Mae'r Wobr a gynhelir gan Sefydliad Iechyd y Byd yn cydnabod y gwaith sy'n digwydd ar draws cymunedau i wneud y Fro yn lle da i heneiddio ynddo, a'r ymrwymiad i wneud y Fro yn lle hyd yn oed yn well, lle mae pobl yn cael eu cefnogi i heneiddio'n dda.
- Recriwtiwyd Uwch Swyddog Datblygu Cymunedol newydd i fwrw ymlaen â phrosiect y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ymgysylltu â'n cymunedau â'r amddifadedd mwyaf a'n sefydliadau sy'n gweithio yn yr ardaloedd hyn. Bydd y mewnwelediad hwn yn helpu i ddeall yn well y profiadau byw, a siapio gweithredu a gweithgareddau posib yn yr ardaloedd yn y dyfodol. Bydd hyn hefyd yn ein galluogi i glywed gan y grwpiau 'nas clywir ganddynt yn aml' nad ydym bob amser yn eu cyrraedd trwy ddulliau ymgysylltu traddodiadol.

## Meysydd lle mae angen rhagor o waith

- Parhau i wella'r broses o ymdrin â chwynion o fewn amserlenni targed. Eleni, derbyniodd y Cyngor y nifer uchaf o gwynion blynyddol a gofnodwyd, gyda 737 o gwynion wedi dod i law yn ystod 2023-24, cynnydd o 495 ers y llynedd. Ar y cyfan, caewyd cwynion o fewn 17.4 diwrnod ar gyfartaledd, gyda 57.4% (423/737) yn cael eu datrys o fewn yr amserlen darged, cynnydd o 51.8% (205/395) ers y llynedd, ond yn methu'r targed o 75%. Ynghyd â gwelliannau i'r system, bydd meysydd ffocws allweddol yn cynnwys hyfforddi a datblygu staff (51.38% o'r canlyniadau dysgu a gofnodwyd), sicrhau bod pawb yn ymwybodol o safonau gwasanaeth (16.06% o achosion cwynion a gofnodwyd), adolygu gwybodaeth a chyfathrebu a ddarparwn i'n cwsmeriaid (15.9% o ganlyniadau dysgu) a sicrhau bod pob cwyn yn cael ei chofnodi'n gywir ar GovService i hwyluso dysgu o gwynion.
- Er gwaethaf y cynnydd sy'n cael ei wneud, mae heriau sylweddol yn parhau i gael eu profi mewn rhai gwasanaethau o ran denu a chadw staff, gan effeithio ymhellach ar yr angen i fynd i'r afael â phroblemau llwyth gwaith/adnoddau a lleihau lefelau presenoliaeth ar draws y gweithlu.
- Cynyddu'r cymorth a ddarperir ymhellach i ddysgwyr ifanc gyda ffocws ar gefnogi ysgolion i gwrdd â'r duedd gynyddol o ddysgwyr ag anghenion iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol (ICEM) a chefnogi ysgolion i godi lefelau presenoldeb, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd.
- Mae nifer a chymhlethdod atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yn parhau i greu lefel uchel o alw. Mae hyn yn rhoi mwy o bwysau ar ein hadnoddau presennol a dibyniaeth bellach ar ofal a brynir yn allanol. Ers 2019/20, bu cynnydd o 42.9% mewn plant mewn lleoliadau allanol mewn gofal preswyl, a chynnydd o 124.4% mewn lleoliadau allanol gydag asiantaethau maethu annibynnol (AMA). Mae costau cysylltiedig â'r lleoliadau hyn hefyd wedi cynyddu, gyda chostau preswyl yn cynyddu 49.1%, a chostau AMA wedi cynyddu 128.1%. Bydd gwaith o fewn y Cyngor a chyda phartneriaid yn parhau i ganolbwyntio ar ateb y galw hwn a bydd yn cael ei fonitro drwy Strategaeth Gorfforaethol ddiwygiedig y Cyngor ar gyfer Plant a Phobl Ifanc sydd angen Gofal a Chymorth.
- Cyflymu'r cynnydd i fynd i'r afael â newid hinsawdd a'r argyfwng natur, mae hyn yn cynnwys parhau i gyflawni ein hymrwymiadau dan Prosiect Sero; ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy ymhellach wrth reoli ein hasedau ffisegol a digidol; cyflawni ymrwymiadau o fewn y Cynllun Rheoli Carbon newydd (ar ôl ei fabwysiadu); gwneud cynnydd yn y gwaith i ddatblygu a gweithredu'r Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a datblygu ymrwymiadau o fewn y Blaengynllun Bioamrywiaeth.

- Mae prinder tai a llety dros dro ac mae hyn yn effeithio'n rhannol ar lefelau uchel parhaus o ddigartrefedd. Effeithiwyd ar yr her gynyddol eleni gan newidiadau mewn dyletswyddau digartrefedd a'r newidiadau i drefniadau cyllido gan Lywodraeth Cymru nad ydynt yn cwmpasu dyletswyddau'r Cyngor, a ffoaduriaid sydd angen tai yn y sir. Bydd gwaith yn parhau gyda phartneriaid i nodi a darparu ymyriadau i gefnogi pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref cyn gynted â phosib.

## 6.0 Ein perfformiad yn erbyn y Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24

Isod ceir **crynodeb o'n perfformiad** mewn perthynas â'n pedwar Amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol a pherfformiad cyffredinol Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24. Mae'r Trywydd yn rhoi syniad o gyfeiriad y perfformiad o'i gymharu â'r chwarter blaenorol. Er enghraifft, lle mae ein statws perfformiad (COG) wedi gwella, nodir hynny gan ↑ ; lle mae ein statws perfformiad wedi aros yr un peth o'i gymharu â'r chwarter blaenorol, fe'i dangosir gan ↔ ; a lle mae ein statws perfformiad wedi gostwng, fe'i cynrychiolir gyda ↓.

Ar ddiwedd 2023/24, statws perfformiad cyffredinol (COG) y Cynllun Cyflawni Blynyddol sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles ein Cynllun Corfforaethol yw **DA.** Mae'r dyfarniad hwn yn adlewyrchu'r cynnydd sylweddol a wnaed mewn perthynas â chyflawni ein hymrwymiadau yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer y cyfnod gyda 85% o weithgareddau a thargedau arfaethedig wedi'u cyflawni.

| Holl Gamau Gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth a'r Holl Fesurau Perfformiad | STATWS PERFFORMIAD | | | Statws COG Cyffredinol ar gyfer pob Amcan Lles |
|---|---|---|---|---|
| | GWYRDD | OREN | COCH | |
| Cyfanswm | Camau Gweithredu a Mesurau | Camau Gweithredu a Mesurau | Camau Gweithredu a Mesurau | Camau Gweithredu a Mesurau |
| 591 | 502 (85%) | 12 (2%) | 77 (13%) | DA |

Priodolwyd statws perfformiad **DA** i dri allan o bedwar Amcan Lles y Cynllun Corfforaethol ar ddiwedd y flwyddyn i gyfleu'r cynnydd a wnaed hyd yma. Gwnaed cynnydd cadarnhaol o ran gweithgareddau wedi'u cynllunio a thargedau cysylltiedig mewn perthynas ag Amcan Lles 1, gan roi statws perfformio **Gweddol** iddo. Ar y cyfan, mae'r trywydd wedi aros yn sefydlog ar gyfer holl weithredoedd y Cynllun Cyflawni Blynyddol sy'n cyd-fynd â'n pedwar Amcan Lles o'i gymharu â'r chwarter blaenorol (chwarter 3). Mae'r trywydd ar gyfer cyrraedd targedau cysylltiedig wedi aros yn ddigyfnewid ar gyfer y rhan fwyaf o Amcanion Lles, ac eithrio Amcan Lles 1, lle bu gostyngiad yn nifer y mesurau sy'n cyrraedd targedau cysylltiedig o'i gymharu â'r chwarter blaenorol.

| CCB (Camau Gweithredu) | COG | Trywydd |
|---|---|---|
| Amcan 1 | G | ↔ |
| Amcan 2 | G | ↔ |
| Amcan 3 | G | ↔ |
| Amcan 4 | G | ↔ |
| Holl gamau gweithredu'r CCB | G | ↔ |


| CCB (Mesurau Perfformiad) | COG | Trywydd |
|---|---|---|
| Amcan 1 | C | ↓ |
| Amcan 2 | O | ↔ |
| Amcan 3 | O | ↔ |
| Amcan 4 | O | ↔ |
| Holl Ddangosyddion Perfformiad y CCB | O | ↔ |

| CCB (Camau Gweithredu + Mesurau wedi'u cyfuno) | COG | Trywydd |
|---|---|---|
| Amcan 1 | O | ↓ |
| Amcan 2 | G | ↔ |
| Amcan 3 | G | ↔ |
| Amcan 4 | G | ↔ |
| CCB cyffredinol | G | ↔ |

## 6.1 Ein cyfraniad at y Nodau Lles cenedlaethol

Mae ein hymrwymiadau i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ein dinasyddion fel yr amlinellir yn ein Cynllun Corfforaethol 2020-2025. Trwy ymgorffori'r pum ffordd o weithio trwy gydol ein prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau, rydym yn gweithio mewn ffordd fwy cynaliadwy i gyflawni'r ymrwymiadau hyn a chyfrannu at y nodau lles cenedlaethol fel y manylir arno isod.

Oherwydd natur hirdymor rhai ymrwymiadau, mae'n bosib na fydd effaith gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf bob amser yn amlwg yn y byrdymor a bydd ei effaith i'w gweld dros y tymor hwy. Mae'r rhain yn parhau'n flaenoriaethau strategol hirdymor i'r Cyngor wrth i ni ddatblygu Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2020-25 gan gynnwys ein partneriaid a'n cymunedau wrth 'gydweithio ar gyfer dyfodol disgleiriach'. Mae holl ymrwymiadau'r Cynllun Corfforaethol wedi'u mapio yn erbyn y Nodau Lles cenedlaethol yma.



## 6.3 Perfformiad ein Cynllun Cyflawni Blynyddol yn ôl Amcanion Lles

### AMCAN LLES 1: Gweithio gyda a thros ein cymunedau

*Rydym yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth i sicrhau bod gwasanaethau'n diwallu anghenion ein preswylwyr a'n cymunedau lleol ac i adael etifeddiaeth gadarnhaol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.*

| Camau Gweithredu a Mesurau sy'n cyd-fynd ag Amcan Lles 1 | | STATWS PERFFORMIAD | | | | | | Statws COG Cyffredinol ar gyfer Amcan Lles 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Gwyrdd | | Oren | | Coch | | |
| Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu a Mesurau [1] |
| 264 | 41 | 236 (89%) | 2 (10%) | 0 (0%) | 3 (15%) | 28 (11%) | 15 (75%) | **OREN** |

Ein statws perfformiad cyffredinol ar gyfer Amcan Lles 1 yw **GWEDDOL.** Mae'r dyfarniad hwn yn adlewyrchu'r cynnydd cadarnhaol a wnaed mewn perthynas â chyflawni ymrwymiadau ein Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer y cyfnod.

**Yr hyn a ddywedon ni y byddem yn ei wneud yn ein Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24**

| Yr hyn a ddywedon ni y bydden ni'n ei wneud | Statws Perfformiad |
|---|---|
| 1. Mabwysiadu strategaeth ddigidol newydd, gwella'r ffordd rydyn ni'n cyfathrebu a datblygu gwasanaethau ar-lein mwy ymatebol, gan gynnwys gwelliannau ar gyfer gwasanaethau tai a'r ganolfan gyswllt cwsmeriaid a gwelliannau i'r wefan. | **Gwyrdd** |
| 2. Gwneud defnydd effeithlon ac effeithiol o asedau drwy adolygu ystâd y cyngor gan gynnwys swyddfeydd a safleoedd allweddol. | **Gwyrdd** |
| 3. Adolygu hyfywedd a chynaliadwyedd gwasanaethau mewn ymateb i heriau ariannol ac ansicrwydd sylweddol parhaus. | **Gwyrdd** |
| 4. Diwygio ein harferion caffael i sicrhau gwerth am arian i sicrhau bod ein gweithgareddau'n cyfrannu at yr economi leol, cefnogi gwaith sy'n ymwneud â newid hinsawdd a sicrhau manteision cymunedol. | **Gwyrdd** |
| 5. Gweithredu Strategaeth Pobl newydd gan ganolbwyntio'n benodol ar wella amrywiaeth ar draws y gweithlu, recriwtio a chadw, cynllunio i'r dyfodol a lles staff. | **Gwyrdd** |
| 6. Gweithio gyda sefydliadau gwirfoddol a chymunedol i ddarparu a siapio gwasanaethau lleol, annog pobl i gymryd mwy o ran yn eu cymunedau lleol a'u cefnogi i geisio cyllid. | **Gwyrdd** |
| 7. Gweithio gyda phartneriaid yn y sector preifat i helpu i ddarparu arloesedd gwasanaethau a ffynonellau buddsoddi ac arbenigedd newydd. | **Gwyrdd** |

[1] Nid oedd statws perfformiad COG yn berthnasol ar gyfer 21 o fesurau gan eu bod naill ai'n sefydlu perfformiad sylfaenol ar gyfer 2023/24 neu nid oedd y data ar gael ar y pryd.

| Yr hyn a ddywedon ni y bydden ni'n ei wneud | Statws Perfformiad |
|---|---|
| 8. Cyflawni ein Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd i annog a galluogi trigolion a rhanddeiliaid eraill i gymryd mwy o ran yn y broses gwneud penderfyniadau, gan ganolbwyntio'n benodol ar ymgysylltu mwy â lleisiau nas clywir ganddynt yn aml. | Gwyrdd |
| 9. Cefnogi niferoedd cynyddol ac amrywiaeth well o bobl ifanc i fanteisio ar ystod ehangach o gyfleoedd cyfranogiad i alluogi tegwch ac amrywiaeth mewn prosesau gwneud penderfyniadau o fewn y Cyngor. | Gwyrdd |
| 10. Cynnal sgyrsiau cymunedol argyfwng hinsawdd a natur gan gynnwys gwahanol grwpiau rhanddeiliaid i lywio ein cynlluniau a'n gweithgareddau ac annog newid ymddygiad cadarnhaol. | Gwyrdd |
| 11. Cyflawni blwyddyn pedwar Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor, sicrhau statws Sy'n Dda i Bobl Hŷn i'r Fro a bwrw ymlaen â gwaith yn rhan o'r gweithredu cenedlaethol ar anabledd, hil a chyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd. | Gwyrdd |
| 12. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy gyflwyno Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg y Cyngor a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). | Gwyrdd |
| 13. Gweithio mewn partneriaeth yn rhan o Gyfamod y Lluoedd Arfog i gefnogi aelodau o'r lluoedd arfog, cyn-filwyr, aelodau teulu a gweddwon. | Gwyrdd |
| 14. Cyflwyno rhaglen i ddatblygu a chefnogi aelodau etholedig ymhellach i fod yn effeithiol yn eu rolau gan adlewyrchu'r ymrwymiad i gynyddu amrywiaeth. | Gwyrdd |

**Ein cyflawniadau**

**1. Mabwysiadu strategaeth ddigidol newydd, gwella'r ffordd rydyn ni'n cyfathrebu a datblygu gwasanaethau ar-lein mwy ymatebol, gan gynnwys gwelliannau ar gyfer gwasanaethau tai a'r ganolfan gyswllt cwsmeriaid a gwelliannau i'r wefan.**

- **Lansiwyd Strategaeth Ddigidol y Cyngor 2023-2028** yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer sut y byddwn yn trawsnewid ein diwylliant digidol i fodloni gofynion a disgwyliadau trigolion, cydweithwyr a phartneriaid.
- Goresgynnwyd problemau gwasanaeth yn llwyddiannus trwy **greu atebion gyda defnydd digidol uchel ar gyfer gwasanaethau** megis gwastraff gardd, gwastraff masnachol, a cheisiadau am grantiau costau byw.
- **Defnyddiwyd Teleffoni Teams** yn llwyddiannus gan arwain at ehangu a chysylltedd pellach i'n cydweithwyr ar draws y Cyngor.
- Mae **44 ysgol** yn y Fro wedi cwblhau dysgu proffesiynol i wella gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau ar gyfer arweinyddiaeth sgiliau digidol trawsgwricwlaidd, cwricwlwm ac addysgeg ers mis Ebrill 2024. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod ysgolion yn **croesawu gofynion y cwricwlwm newydd** gan ddefnyddio platfform Hwb.
- Mae **dros 40 o sesiynau digidol** yn cael eu cynnal o Hyb Aberaeron, y mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn denantiaid y Cyngor. Cynigir cymorth digidol hefyd i holl Gynlluniau Tai Gwarchod y Cyngor trwy Ability Net a'n Cyfeillion Digidol a'n Swyddog Ymgysylltu Digidol a Gwirfoddoli sy'n gweithio i **gynyddu sgiliau digidol preswylwyr, diogelwch digidol a hyder** a chefnogi gwelliannau yn y ffordd y mae cwsmeriaid eisiau rhyngweithio â gwasanaethau Tai a chael mynediad atynt.
- **Mae gan naw o lyfrgelloedd y Fro Hyrwyddwyr Digidol** i helpu preswylwyr i ddatblygu sgiliau digidol a magu hyder.
- Mae'r holl ddyluniad gwasanaeth newydd yn cynnwys ystyriaeth o brofiad y defnyddiwr trwy **sianeli traddodiadol** yn ogystal â mynediad ar-lein.
- Mae sianel cyfryngau cymdeithasol y Cyngor ar X (a elwid gynt yn Twitter), yn **cyrraedd dros 2,000 o ddefnyddwyr y diwrnod** ar gyfartaledd.
- Cafodd **76.8% o ymholiadau gan gwsmeriaid i Cyswllt Un Fro eu datrys ar y cyswllt cyntaf** ac ni chynhaliwyd cwynion yr Ombwdsmon yn erbyn y Cyngor.

- Rheolwyd **8,044 o ddyfeisiau** yn llwyddiannus drwy blatfform rheoli dyfeisiau Hwb, sydd wedi **gwella'r adnoddau digidol sydd ar gael** yn sylweddol yn ein hysgolion.

**2. Gwneud defnydd effeithlon ac effeithiol o asedau drwy adolygu ystâd y cyngor gan gynnwys swyddfeydd a safleoedd allweddol.**

- **Buddsoddwyd £250,000** o Gronfa Eiddo Cydweithio Asedau Llywodraeth Cymru mewn prosiect peilot ar draws 3 chanolfan gymunedol i gynorthwyo ein partneriaid trydydd sector/gwirfoddol i **ddatgarboneiddio asedau y maent yn eu defnyddio dan brydlesau.**
- **Cwblhawyd Cam 1 - Eich Lle - yn llwyddiannus**, gan gynnwys adleoli Canolfan Gyswllt y Cyngor (Cyswllt Un Fro), Materion Lles, Cyfreithiol, Gwasanaethau Democrataidd, Eiddo ac AD yn y Swyddfeydd Dinesig gan alluogi gwell defnydd o'n heiddo a chreu arbedion ariannol.
- Gall ysgolion ychwanegol ddefnyddio'r **cyfleusterau archebu ar gyfer mannau chwaraeon awyr agored a dan do** a chyfleusterau newid, gan gynyddu cyfleoedd yn y lleoliadau lleol hyn.

**3. Adolygu hyfywedd a chynaliadwyedd gwasanaethau mewn ymateb i heriau ariannol ac ansicrwydd sylweddol parhaus.**

- Parhau i ddarparu ystod eang o wasanaethau anstatudol er gwaethaf heriau ariannol sylweddol trwy weithredu dulliau newydd o wneud gwasanaethau'n gynaliadwy. Er enghraifft, cyflwynwyd ffioedd ar gyfer casgliadau gwastraff gwyrdd yn llwyddiannus ac ni welwyd unrhyw ostyngiad yn y gwastraff gwyrdd a gasglwyd o'i gymharu â'r gwasanaeth am ddim a ddarparwyd yn 2022/23.
- Cyflawnwyd **88%** o arbedion gofynnol gwerth **£4.139 miliwn**, sy'n gynnydd o 79% yn 2022/23.
- Er gwaethaf yr heriau ariannol mae'r Cyngor yn parhau i gynllunio i gyflawni **Rhaglen Gyfalaf uchelgeisiol gwerth £388 miliwn**, gan fuddsoddi ym mhriffyrdd, ysgolion a thai'r Sir.

**4. Diwygio ein harferion caffael i sicrhau gwerth am arian i sicrhau bod ein gweithgareddau'n cyfrannu at yr economi leol, cefnogi gwaith sy'n ymwneud â newid hinsawdd a sicrhau manteision cymunedol.**

- Gwreiddiwyd **polisi caffael newydd** y Cyngor gan gyfeirio at y fframwaith gwerth cymdeithasol i sicrhau bod ein gweithgareddau'n **cyfrannu at yr economi leol, yn cefnogi gwaith sy'n ymwneud â newid hinsawdd a sicrhau buddion cymunedol.**

**5. Gweithredu Strategaeth Pobl newydd gan ganolbwyntio'n benodol ar wella amrywiaeth ar draws y gweithlu, recriwtio a chadw, cynllunio i'r dyfodol a lles staff.**

- Dyfarnwyd **Statws Arian** i'r Cyngor ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle, Stonewall UK a'u cydnabod yn **un o'r 100 o gyflogwyr cynhwysol gorau, gan Stonewall, sy'n cydnabod cyflogwyr eithriadol,** sydd wedi ymrwymo i gefnogi eu staff a'u cwsmeriaid LHDTC+.
- Cefnogodd **bron 100 o aelodau staff** gyda Lles Ariannol, gan gyflwyno sesiynau i gefnogi staff ar bynciau gan gynnwys lles ariannol a'r cyfleoedd cyn ymddeol.
- Mae **cyfraddau salwch staff wedi gostwng** o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda 10.32 diwrnod gwaith wedi'u colli oherwydd salwch, gwelliant o'r 12.82 y llynedd. Mae diwrnodau a gollwyd oherwydd salwch hirdymor yn parhau i ostwng i 6.69, dyma'r **isaf ers 2020/21**.
- **Rhagor o gyfleoedd gwaith a chyfleoedd gwirfoddoli eraill** trwy galendr o ddigwyddiadau sydd wedi'i hysbysebu'n dda, ac mae nifer y staff sy'n manteisio arnynt wedi bod yn gadarnhaol ac yn cynyddu.

**6. Gweithio gyda sefydliadau gwirfoddol a chymunedol i gyflenwi a siapio gwasanaethau lleol, annog pobl i gymryd mwy o ran yn eu cymunedau lleol a'u cefnogi i geisio cyllid.**

- Mae ein llyfrgelloedd yn parhau i ddarparu **ystod eang o weithgareddau a chefnogaeth i breswylwyr o bob oed** gan gynnwys sesiynau galw heibio Tai Hafod ar gyfer y rheini sy'n 55 oed ac yn hŷn yn Sain Tathan a'r Rhws, adrodd straeon 'Story Babies' i blant hyd at 14 mis yn Ninas Powys, Gofod Gwneud yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithdai creadigol ym Mhenarth a'r Barri a llawer o glybiau cyffrous sy'n cael eu rhedeg gan staff a gwirfoddolwyr fel Clwb Codio yn y Bont-faen.
- Gweithio gyda Cwmpas i ymgysylltu â thros 30 o randdeiliaid drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys 13 sefydliad allanol yn y trydydd sector, er mwyn gwella **dealltwriaeth o'r heriau a'r cyfleoedd** wrth weithio gyda'r trydydd sector a mentrau cymdeithasol i gryfhau perthnasoedd a chydweithio yn y dyfodol.
- Daeth **123** o geisiadau i law dan flaenoriaeth Cymunedau a Lleoedd y Gronfa Ffyniant Gyffredin, y cymeradwywyd **73** ohonynt, a dyfarnwyd arian iddynt. O'r 73 hyn, roedd **33** yn fentrau cymdeithasol neu'n sefydliadau trydydd sector, gan dderbyn cyllid rhyngddynt o hyd at **£689,386**. Mae'r rhain wedi cefnogi mentrau cymunedol ym Mro Morgannwg gan helpu i gyflawni gweledigaeth y Cyngor o "gymunedau cryf â dyfodol disglair".

**7. Gweithio gyda phartneriaid yn y sector preifat i helpu i ddarparu arloesedd gwasanaethau a ffynonellau buddsoddi ac arbenigedd newydd.**

- Gyda chymorth BT ac IDNS, rydym wedi **sefydlu ystafell ddosbarth ymdrochol gwbl weithredol** sydd eisoes yn cael ei defnyddio'n wythnosol gan rieni a phlant o Ysgol Gynradd Tregatwg ac Ysgol Gynradd Oak Field i **ddarparu amgylchedd dysgu arloesol newydd**.
- **Mae 44 o gynigion wedi llwyddo i dderbyn cyllid** drwy grant Datblygu Busnes y Fro i ddarparu cymorth ariannol i fusnesau sefydledig, gan helpu i feithrin twf a datblygiad a galluogi busnesau i arloesi, i ddatgarboneiddio a thyfu.

**8. Cyflawni ein Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd i annog a galluogi trigolion a rhanddeiliaid eraill i gymryd mwy o ran yn y broses gwneud penderfyniadau, gan ganolbwyntio'n benodol ar ymgysylltu mwy â lleisiau nas clywir ganddynt yn aml.**

- **Daeth dros 4,000 o ymatebion i law gan yr arolwg Beth am Siarad am Fyw yn y Fro**, bydd dadansoddiad o'r ymatebion hyn mewn partneriaeth â Data Cymru yn dylanwadu ar wneud penderfyniadau a blaenoriaethau ar draws y Cyngor yn y dyfodol.
- Rhagor o gyfleoedd i drigolion ddylanwadu ar wneud penderfyniadau gydag **ymgynghoriadau'n cael eu cynnal ar amrywiaeth o wasanaethau a datblygiadau ar draws pob Cyfarwyddiaeth** i gasglu barn grwpiau amrywiol ac 'anodd eu cyrraedd'. Mae'r rhain yn cynnwys y Cynllun Datblygu Lleol Newydd, datblygiadau ysgolion, arolwg tenantiaid, llwybrau teithio llesol.
- Mae **83 o brosiectau wedi'u cynnal ar blatfform Cymryd Rhan y Fro** gan ganiatáu i breswylwyr gyrchu ac ymgysylltu â dulliau ymgysylltu ac ymgynghori ar-lein yn hawdd.
- Lansio'r gallu i breswylwyr, grwpiau cymunedol a sefydliadau **greu e-ddeisebau** i'w hystyried gan y Cyngor, gan ganiatáu i bobl ddweud eu dweud mewn fformat newydd. Ers ei lansiad diweddar, mae'r dudalen eisoes wedi derbyn dros 800 o ymweliadau ac wedi sefydlu 2 e-deiseb.
- Ymgysylltodd 190 o aelodau o'r gymuned a 27 o arweinwyr cymunedol â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei brosiect i **ymgysylltu â'n cymunedau â'r amddifadedd mwyaf** i ddeall yn well y profiadau byw ac i siapio camau gweithredu a gweithgareddau posib yn y dyfodol.

**9. Cefnogi niferoedd cynyddol ac amrywiaeth well o bobl ifanc i fanteisio ar ystod ehangach o gyfleoedd cyfranogiad i alluogi tegwch ac amrywiaeth mewn prosesau gwneud penderfyniadau o fewn y Cyngor.**

- Mae'r **Cyngor Ieuenctid yn parhau i ffynnu** gydag Aelodau yn lleisio eu barn a'u hanghenion i helpu i ddylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau ar draws y Cyngor.

- Roedd **344 o blant a phobl ifanc** yn bresennol yng ngweithdai'r CCUHP a gynhaliwyd gan y Prosiect Llysgenhadon Hawliau gan eu helpu i ddatblygu eu **dealltwriaeth o'u hawliau a'u gallu i lunio'r broses o wneud penderfyniadau.**
- **Dyfarnwyd Gwobr Rhagoriaeth mewn Gwaith Ieuenctid am Arddangos Rhagoriaeth i Ei Llais Cymru** wrth gynllunio a darparu mewn partneriaeth. Mae'r grŵp dan arweiniad menywod 11-18 oed yn parhau i weithio'n galed i arfogi pobl ifanc â'r sgiliau a'r hyder i ddod yn **hyrwyddwyr cydraddoldeb** yn eu cymunedau, gan fynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhywedd.
- **Roedd mwy, o ran nifer ac amrywiaeth, o bobl ifanc (dros 5,000) yn cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau drwy ystod eang o gyfleoedd i gyfranogi.** e.e. cymryd rhan mewn paneli cyfweld ar gyfer staff y Gwasanaeth Ieuenctid; ethol Senedd Ieuenctid a gyflwynodd ymgyrch ar gymorth Plant sy'n Derbyn Gofal ac Anghenion Dysgu Ychwanegol ac a gyfrannodd at sgyrsiau ynghylch cyllidebau ysgolion a materion addysg yn y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant; digwyddiad Llysgenhadon Gwych llwyddiannus ar gyfer ysgolion cynradd; mae gwaith grŵp 'Ei Llais Cymru', wedi bod yn allweddol wrth i'r Cyngor gofrestru ar gyfer y Cynllun Lleoedd Diogel. Mae'r grŵp wedi cyrraedd rhestr fer y Gwobrau Rhagoriaeth Ieuenctid; cefnogi mentrau Llais y Disgybl trwy Rwydweithiau Cyngor Ysgol yn ystod y chwarter.

**10. Cynnal sgyrsiau cymunedol am yr argyfwng hinsawdd a natur gan gynnwys gwahanol grwpiau rhanddeiliaid i lywio ein cynlluniau a'n gweithgareddau ac annog newid ymddygiad cadarnhaol.**

- Dyfarnwyd **mannau bach gwyrdd a glas** gan Bartneriaeth Natur y Fro **i 6 ysgol gynradd** sydd wedi bod heb fynediad i fannau gwyrdd, i gynyddu mynediad ac annog disgyblion i fwynhau, dysgu a chofnodi bywyd gwyllt wrth hyrwyddo newid ymddygiad a gwella profiadau dysgu.
- Ymgynghorwyd ar **Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol Newydd** trwy amrywiaeth o ddulliau i glywed yn uniongyrchol gan fusnesau, aelodau o'r gymuned a rhanddeiliaid. Mae'r Strategaeth yn cynnwys ystod o bolisïau strategol a fydd yn ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur.
- **Roedd cynnydd o 1,654%** (57 i 1,000) **yn nifer y bobl a edrychodd ar yr Hyb Prosiect Sero newydd a ail-lansiwyd eleni** o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2023. Mae'r hyb, a ail-lansiwyd i weithredu fel pwynt cyswllt unigol effeithiol i ddinasyddion a staff, yn annog defnyddwyr i ymgysylltu â'r Cynllun Her Newid Hinsawdd a rhannu syniadau ac arfer gorau ar sut i leihau ôl troed carbon.
- Ar draws y Fro, **cymerodd 25 o bobl ifanc ran yn Nigwyddiad Newid Hinsawdd y Cyngor Ieuenctid** gan roi cyfle i bobl ifanc rannu eu barn ar nifer o bynciau drwy weithdai wedi'u hwyluso gydag arbenigwyr lleol a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau. Helpodd y mewnwelediad hwn i lunio'r broses o bennu blaenoriaethau yn y dyfodol ar gyfer Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor a Chynllun Her Prosiect Sero.

**11. Cyflawni blwyddyn pedwar Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor, sicrhau statws Sy'n Dda i Bobl Hŷn i'r Fro a bwrw ymlaen â gwaith sy'n rhan o'r gweithredu cenedlaethol ar anabledd, hil a chyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd.**

- Mae'r **Pecyn Cymorth Cynhwysiant Trawsryweddol diwygiedig** wedi'i gymeradwyo ac yn cael ei gyflwyno i bob ysgol ym Mro Morgannwg i ddarparu arweiniad a chyngor i ysgolion a lleoliadau eraill yn dilyn ymgynghoriad o fis Ionawr i fis Mawrth 2023.
- Mae **22 o ysgolion** yn cael eu cefnogi wrth iddynt weithio tuag at ddod yn Ysgolion Noddfa, **mae ennill y wobr yn cydnabod y gwaith sy'n cael ei wneud i feithrin diwylliant o groeso, o berthyn ac o undod i'r rheini sy'n ceisio diogelwch.**
- Mae adnoddau iaith a llythrennedd amlieithog Giglets ar gael mewn 37 ysgol i **alluogi dysgwyr amlieithog i gael mynediad at destunau yn eu hiaith eu hunain** ac i alluogi ysgolion i ddarparu amrywiaeth o destunau ac adnoddau amlddiwylliannol i bob dysgwr ac fel rhan o gwricwlwm yr ysgol.
- Cynhaliwyd **prosiect ymchwil gwrth-hiliol ar gyfer ysgolion** yn llwyddiannus gydag ail Ddiwrnod Dysgu Ymchwil Gweithredu Gwrth-hiliol ym mis Mehefin 2024 lle rhannodd yr ysgolion a gymerodd ran eu profiad o ddod yn wrth-hiliol i helpu ysgolion eraill i ddechrau neu barhau â'r gwaith hwn, lle bynnag y gallent fod ar eu taith.

- **Dyfarnwyd Statws Arloesi Arian gan Race Equality Matters**, gan gydnabod ymrwymiad y Cyngor i gymryd camau hirdymor i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol.
- **Prynwyd offer arbenigol** i drigolion sydd â symudedd cyfyngedig i'w ddefnyddio ar Ynys y Barri i gynyddu mynediad i'r traeth a'r promenâd, mewn partneriaeth ag Age Connects, bydd y gwasanaeth hwn yn cael ei lansio yn ddiweddarach yn y flwyddyn.
- Llwyddodd Bro Morgannwg i ddod yn **4ydd ardal awdurdod lleol yng Nghymru i dderbyn Statws Sy'n Dda i Bobl Hŷn gan Sefydliad Iechyd y Byd**, gan gydnabod yr ymrwymiad i wneud y Fro yn lle gwell i bobl heneiddio'n dda ynddo.
- Cefnogwyd digwyddiadau llwyddiannus ar gyfer **Mis Pride a Diwrnod Windrush** er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth ac amlygrwydd.
- Cefnogwyd **2 rwydwaith staff** i gefnogi aelodau staff sy'n rhan o'r gymuned LHDTCRhA+ (GLAM) ac aelodau sy'n rhan o'r mwyafrif byd-eang (Amrywiaeth). Mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu trydydd grŵp i gefnogi staff sy'n nodi bod ganddynt anabledd (Abl).

**12. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy gyflwyno Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg y Cyngor a’r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA).**

- Mae ein hysgolion yn **parhau i hyrwyddo'r Gymraeg** ac ennill cydnabyddiaeth o gynnydd gan **dderbyn gwobrau Siarter Iaith**. Eleni mae 7 ysgol gynradd Saesneg arall wedi derbyn Gwobr Efydd, Cymraeg Campus, ac mae 4 wedi derbyn y Wobr Arian. Derbyniodd 1 ysgol gynradd Gymraeg ychwanegol wobr Arian, Siarter Iaith. Derbyniodd 1 ysgol uwchradd Saesneg arall Wobr Efydd, Cymraeg Campus, derbyniodd 2 y Wobr Arian ac 1 y Wobr Aur.
- **Mae clybiau amser cinio Cymraeg ar gael mewn 5 ysgol** (y mae 4 ohonynt yn ysgolion Saesneg) i hyrwyddo ac annog disgyblion i ddysgu Cymraeg gyda'i gilydd.
- Mae **592 o oedolion wrthi’n dysgu Cymraeg** ac o'r rheini mae 543 ar gwrs llawn o 60+ awr o ddysgu. Mae hyn yn gynnydd o bron 50% ers y flwyddyn flaenorol. Mae'r cynnydd ar wahanol lefelau'n awgrymu bod dysgwyr yn parhau i ddysgu drwy symud ymlaen i lefelau uwch.
- **Ail-lansiwyd Fforwm y Gymraeg ym Mro Morgannwg, Fforwm y Fro, yn dilyn ymateb hynod gadarnhaol** gan sefydliadau ac ysgolion Cymraeg sy'n awyddus i gymryd rhan, gyda llawer yn edrych ymlaen at rannu newyddion, digwyddiadau, gwybodaeth ac arfer gorau. Mae'r aelodau'n cynnwys Menter Bro Morgannwg, Dysgu Cymraeg yn y Fro, Coleg Caerdydd a'r Fro, Urdd Gobaith Cymru, Merched y Wawr, y Mudiad Meithrin, ac ysgolion Cymraeg.
- **Cynhaliwyd ymgyrch lwyddiannus ar draws y Cyngor i hyrwyddo'r Gymraeg**, cyrsiau a’r safonau ymhlith staff. Ers mis Mawrth 2024, mae **48 aelod o staff wedi cofrestru ar hyn o bryd** ar gwrs Iaith Gwaith ar lefelau amrywiol.
- At ei gilydd, mae 12.9% o weithlu'r Cyngor yn adrodd bod ganddynt sgiliau iaith Gymraeg yn amrywio o'r sylfaenol i'r rhugl. Dywedodd 35.4% o'r aelodau staff hyn eu bod yn meddu ar sgiliau siarad Cymraeg cymwys, da neu rugl. Mae hyn **yn uwch na'r 11.5% o'r preswylwyr sy'n gallu siarad Cymraeg a adroddwyd yng Nghyfrifiad 2021**.

**13. Gweithio mewn partneriaeth fel rhan o Gyfamod y Lluoedd Arfog i gefnogi aelodau o’r lluoedd arfog, cyn-filwyr, aelodau teulu a gweddwon.**

- **Dyfarnwyd Gwobr Aur y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn** i'r Cyngor ac roeddent yn y rownd derfynol yng Ngwobrau Cyn-filwyr Cymru ar ôl cael eu henwebu gan grwpiau cyn-filwyr lleol. Er mwyn cyflawni'r Wobr Aur, rhaid i gyflogwyr **fodloni rhestr helaeth o gyflawniadau** megis llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog, gan ddangos cymwysterau sy'n gyfeillgar i'r lluoedd yn rhagweithiol a helpu pobl sy'n gadael y lluoedd arfog i bontio i gyflogaeth.

**14. Cyflwyno rhaglen i ddatblygu a chefnogi aelodau etholedig ymhellach i fod yn effeithiol yn eu rolau gan adlewyrchu'r ymrwymiad i gynyddu amrywiaeth.**

- **Mae'r holl Aelodau Etholedig wedi derbyn hyfforddiant gorfodol mewn Cydraddoldeb** ar ôl yr etholiadau Llywodraeth Leol. Mae llawer yn bresennol mewn cyfarfodydd rhwydwaith staff Cydraddoldeb y Cyngor, gan gefnogi a chyfrannu at drafodaethau.
- Derbyniodd dros **50%** o eitemau Pwyllgor y Cabinet eleni, fewnbwn gan Bwyllgorau Craffu, roedd hyn yn gynnydd o'i gymharu â'r 4 blynedd flaenorol.
- Mae'r Grŵp Hyrwyddwyr Aelodau Etholedig yn parhau i ddatblygu a chefnogi Aelodau Etholedig i weithredu fel eiriolwyr dros gymunedau allweddol yn y Fro.

**Gweithgareddau ymgysylltu: yr hyn a ddywedodd ein preswylwyr a'n defnyddwyr gwasanaeth**

| Yr hyn y buom yn ymgysylltu arno | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| Strategaeth Ddigidol a dylunio prosesau digidol newydd (sy'n berthnasol i Amcan 4) | Eleni, lle bynnag y bo'n bosib, rydym wedi cynnwys mewnbwn defnyddwyr i wasanaethau sydd newydd eu dylunio yn ogystal â'r Strategaeth Ddigidol.<br><br>Mae hyn wedi cynnwys cydweithio â CLILC ar ddylunio ein gwasanaeth Teleofal newydd, y bwriedir iddo fod ar gael yn 24/25, yn ogystal ag ymgysylltu â defnyddwyr ar y broses gofrestru Gwastraff Masnachol. Rydym wedi dechrau archwilio atebion technoleg i gynyddu cyrhaeddiad hyn ymhellach ac i gynyddu ein hymgysylltiad â chwsmeriaid. | Roedd dros 100 o gydweithwyr yn rhan o ddatblygu'r Strategaeth Ddigidol. Arweiniodd hyn at strategaeth sy'n adlewyrchu ffyrdd cyffredinol y Cyngor o weithio a chynllun gweithredu y bydd ystod o wahanol wasanaethau yn cyfrannu ato.<br>Mae mewnwelediad defnyddwyr wrth ddatblygu gwasanaethau newydd, wedi arwain at wasanaethau sy'n fwy ymatebol i anghenion defnyddwyr, fel y gwasanaeth gwastraff masnachol newydd. |
| Strategaeth Ddata | Roedd datblygu'r strategaeth ddata yn dilyn yr un broses ag ar gyfer y Strategaeth Ddigidol, gan gynnwys dros 50 o gydweithwyr yn ymwneud â gwaith data o bob rhan o'r sefydliad mewn nifer o weithdai thema. Yna defnyddiwyd themâu'r gweithdai hyn i strwythuro'r Strategaeth Ddata. Gan ddefnyddio'r adborth o'r sesiynau hyn, cynhaliwyd sesiwn PG/UDA ar y cyd ar y strategaeth ddata ac adroddwyd i'r Bwrdd Mewnwelediad Strategol ac UDA am y strategaeth ddrafft. | Cafodd y Strategaeth Ddata ei chydgynhyrchu i adlewyrchu uchelgeisiau'r cyngor cyfan ac i gynrychioli'r gwaith y bydd pob tîm yn rhan ohono. Mae'r ymrwymiadau a nodir yn y strategaeth wedi'u llywio'n uniongyrchol gan yr adborth a gafwyd drwy'r gweithdai cydweithwyr. |
| Beth am Siarad am Fywyd yn y Fro | Dros 4,000 o ymatebion ar ystod o bynciau sy'n ymdrin â phrofiad preswylwyr o fyw ym Mro Morgannwg. Roedd y themâu yn cynnwys:<br>• Amdanoch chi (cwestiynau demograffig)<br>• Ynglŷn â'ch ardal leol<br>• Eich blaenoriaethau<br>• Costau byw<br>• Newid hinsawdd<br>• Gwirfoddoli<br>• Dulliau teithio<br>• Iechyd a lles<br>• Ynglŷn â'ch cyngor lleol | Defnyddiwyd canfyddiadau cynnar i lywio cyllideb 2024/2025.<br><br>Bydd y mewnweledaid a gesglir yn sylfaenol wrth lywio'r Cynllun Corfforaethol newydd a'r Strategaeth Ail-lunio newydd. |

| Yr hyn y buom yn ymgysylltu arno | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| | • Rhyngweithio â'r Cyngor<br>• Byw ym Mro Morgannwg<br><br>Mae'r canlyniadau a ddadansoddwyd gan Data Cymru i'w gweld yma. | |
| Ymgynghoriad Cyllideb 2024/2025 | Cafwyd 289 o ymatebion i arolwg cyllideb annibynnol yn dangos cefnogaeth i strategaeth y gyllideb i adolygu effeithlonrwydd gwasanaethau'r Cyngor yn barhaus ac i ganolbwyntio adnoddau ar y gwasanaethau hynny sy'n cefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed. Fodd bynnag, dim ond 31% o gefnogaeth oedd ar gael i'r cynnydd o 6.7% yn y Dreth Gyngor a 42% o gefnogaeth i'r cynnydd chwyddiant mewn taliadau dewisol. Roedd 50% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i gyflwyno taliadau am rai gwasanaethau dewisol. | Cynigion cyllideb terfynol gwybodus fel y'u cyflwynwyd i'r cyngor llawn ar 6 Mawrth 2024. |
| Amrywiaeth o strategaethau a rhaglenni mewnol | Drwy gydol y flwyddyn, cynhaliwyd ystod o sesiynau holi/trafod gyda staff y Cyngor, a gynhaliwyd gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol. Mae'r pynciau wedi cynnwys y Cynllun Cyflawni Blynyddol a'r Strategaeth Ddigidol. | Mae barn cydweithwyr y Cyngor wedi llywio'r fersiynau terfynol o'r darnau hyn o waith ac maent hefyd yn cael eu datblygu fel rhan o raglen ymgysylltu ar y Rhaglen Ail-lunio. |
| Ymgysylltu ag Undebau Llafur | Mae'r Fforymau Ymgynghorol ar y Cyd yn parhau ac mae cydweithwyr undebau llafur yn parhau i feithrin diwylliant sy'n seiliedig ar bartneriaeth gymdeithasol. | Er y bu heriau dros y deuddeg mis diwethaf, rydym yn parhau'n gadarnhaol bod ein perthnasoedd gydag undebau llafur yn golegol a'n nod yw cydweithio er budd gorau ein staff a'u haelodau. |
| Strategaeth Gwobrwyo Staff | Mae'r Tîm DS a Dysgu wedi cynnal gweithdai a sesiynau ymgynghori ar Wobrwyo Staff i helpu i lunio'r cynnig a'r Strategaeth Wobrwyo yn y dyfodol. | Mae hyn wedi arwain at ddatblygu cynnig gwobrwyo diwygiedig, sy'n canolbwyntio ar 5 thema, Cyflog, Cymunedau a Diwylliant, DS a Dysgu, Cynaliadwyedd a Lles. |
| Cynllun Gweithredu Drafft Bro Oed-Gyfeillgar | Ar ran Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg (BGC) mae'r Tîm Strategaeth a Mewnwelediad wedi cynnal cyfres o gyfleoedd ymgysylltu wyneb yn wyneb gyda phreswylwyr hŷn. Roedd y rhan fwyaf o ymgysylltu yn canolbwyntio ar y dull poblogaidd | Defnyddiwyd mewnwelediad a gwybodaeth, a gasglwyd gan bartneriaid a'r cyhoedd, i lywio'r Cynllun Gweithredu Drafft Bro Oed-Gyfeillgar i sicrhau ei fod yn adlewyrchu anghenion preswylwyr. |

| Yr hyn y buom yn ymgysylltu arno | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
| --- | --- | --- |
| | o 'ollwng botymau', gyda thros 230 o fotymau yn cael eu defnyddio i dynnu sylw at farn a phrofiadau pobl ar bynciau fel cyfathrebu, iechyd, unigrwydd, a chostau byw.<br><br>Yn ogystal, cynhaliwyd 2 weithdy gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i ddatblygu dealltwriaeth o ba waith y mae’r Fro eisoes yn ei wneud i gefnogi agenda Sy'n Dda i Bobl Hŷn a nodi bylchau a meysydd i'w gwella. Daeth dros 60 o bobl i'r sesiynau i rannu eu safbwyntiau.<br><br>Helpodd hyn i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Drafft Bro Oed-Gyfeillgar yr ymgynghorir arno rhwng mis Mehefin a mis Awst 2024 drwy arolwg byr sydd ar gael ar ffurf copi caled o lyfrgelloedd lleol a thrwy gais gan Cyswllt Un Fro, ac ar-lein. Yn ogystal, cynhelir cyfres o sesiynau adborth cymunedol gydag 11 wedi'u trefnu ar gyfer llyfrgelloedd lleol a lleoliadau cymunedol. | Bydd mewnwelediad o ymgynghoriad y Cynllun Gweithredu drafft yn llunio'r fersiwn derfynol o'r Cynllun a fydd yn darparu'r strwythur ar gyfer gwaith ar draws y Fro rhwng 2025 a 2028 i wneud y Fro yn lle gwell i heneiddio’n dda ynddo. |
| Cyngor Ieuenctid y Fro – Digwyddiad Sgyrsiau Hinsawdd (perthnasol i Amcan 4) | Ar draws y Fro, cymerodd 25 o bobl ifanc ran yn nigwyddiad Newid Hinsawdd y Cyngor Ieuenctid. Roedd y blaenoriaethau a nodwyd yn y digwyddiad fel a ganlyn:<br>• Cefnogi diogelwch pobl ifanc drwy weithio gydag Ei Llais Cymru ac archwilio goleuadau stryd a gwelliannau TCC.<br>• Cefnogi ysgolion i wella eu seilwaith teithio llesol, gan gynnwys offer beicio.<br>• Ymchwilio i gynlluniau ar gyfer dull trafnidiaeth llesol mwy cysylltiedig ar draws Caerdydd a'r Fro.<br>• Archwilio cyfleoedd i weithio'n agosach gydag ysgolion, gan gyfleu'r adborth o'r digwyddiad a rheoliadau ailgylchu newydd yn y gweithle. | Gwefan Cymryd Rhan y Fro – Bu ymgysylltu parhaus â Thrigolion y Fro ar adborth y digwyddiad.<br><br>Mae lleisiau pobl ifanc ar Gynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor a Chynllun Her Prosiect Sero wedi llywio’r gwaith o bennu blaenoriaethau.<br><br>Mae gwaith partneriaeth parhaus gyda Phrosiect Sero yn parhau i fod yn faes ffocws allweddol. |

| Yr hyn y buom yn ymgysylltu arno | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| | • Archwilio'r gwaith o fapio ffynhonnau dŵr cyhoeddus sydd ar gael ac arian allanol i gynyddu nifer y rhain.<br>• Cynyddu nifer y biniau ailgylchu cyhoeddus.<br>Gwella cyfathrebu ynghylch ailgylchu cymunedol a hybiau casglu sbwriel. | |
| Cryfhau ein Cymunedau | Comisiynwyd Cwmpas i ymgymryd â rhaglen o ymgysylltu â swyddogion y Cyngor, Mentrau Cymdeithasol, y Trydydd Sector a Chynghorau Tref a Chymuned fel rhan o ymateb integredig i bedwar adroddiad Archwilio Cymru ar drechu tlodi a gweithio gyda'r trydydd sector. Mae Cwmpas wedi cyfweld â nifer o bobl, wedi cynnal gweithdai a grwpiau ffocws fel rhan o'r gwaith hwn.<br>Mae'r canfyddiadau cychwynnol yn nodi'r angen am well dealltwriaeth a gwybodaeth am fentrau cymdeithasol, nid yw compact y sector gwirfoddol yn adnabyddus, cydlynu gwaith ynghylch tlodi a gwybodaeth a phwyntiau cyswllt hygyrch. Mae adborth cadarnhaol am y berthynas gyda swyddogion y cyngor. | Bydd adroddiad ar y gwaith hwn yn cael ei ystyried gan y Cabinet yn yr hydref. Bydd y canfyddiadau a'r argymhellion yn helpu i lunio'r Cynllun Corfforaethol a'r rhaglen Ail-lunio, Compact y Sector Gwirfoddol a sut mae'r Cyngor yn gweithio gyda sectorau eraill. Bydd y gwaith hefyd yn helpu i lunio gweithgareddau'r Cyngor i drechu tlodi. |

**Yr hyn a ddywedodd ein rheoleiddwyr**

| Adolygu | Canfyddiadau | Ein hymateb |
|---|---|---|
| Adolygiad sicrwydd ac asesu risg – Defnyddio Gwybodaeth Perfformiad: safbwynt defnyddwyr gwasanaeth a chanlyniadau | Ystyriodd yr Asesiad safbwynt defnyddwyr gwasanaeth a'r wybodaeth am ganlyniadau a ddarparwyd i uwch swyddogion ac uwch aelodau (uwch arweinwyr), a sut y defnyddir yr wybodaeth hon.<br><br>Yn gyffredinol, canfuwyd bod gwybodaeth am berfformiad y Cyngor yn rhoi dealltwriaeth gyfyngedig i uwch arweinwyr o safbwynt defnyddwyr gwasanaeth a chanlyniadau gweithgareddau'r Cyngor; Canfuwyd:<br>• Bod yr wybodaeth am berfformiad a ddarperir i uwch arweinwyr yn rhoi rhywfaint o fewnwelediad o safbwynt defnyddwyr gwasanaethau, ond nid yw hyn yn gyson ar draws yr holl wasanaethau;<br>• Nid yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir i uwch arweinwyr yn eu galluogi i gael dealltwriaeth gynhwysfawr o ganlyniadau gweithredoedd y Cyngor.<br>• Mae gan y Cyngor drefniadau ar waith i sicrhau bod ei wybodaeth am berfformiad yn gywir.<br>• Gan fod yr wybodaeth a ddarperir am ganlyniadau a safbwynt defnyddwyr gwasanaethau'n gyfyngedig, mae i ba raddau y gall y Cyngor ddefnyddio'r wybodaeth hon i'w helpu i gyflawni ei ganlyniadau hefyd yn gyfyngedig.<br>• Mae'r Cyngor wedi nodi bod angen iddo ymgysylltu'n fwy â defnyddwyr gwasanaethau ond nid yw wedi penderfynu sut y bydd hyn yn llywio'r wybodaeth a ddarperir i uwch arweinwyr i sicrhau ei bod yn briodol ac yn berthnasol. | Bydd ein gwaith i weithredu'r argymhellion o'r adolygiad hwn yn cael eu monitro'n rheolaidd ac yn cael eu hadrodd i Fwrdd Mewnwelediad Strategol mewnol y Cyngor a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol.<br><br>Cyhoeddwyd yr adolygiad hwn ym mis Chwefror 2024 a bydd cynnydd i gryfhau ein hymagwedd mewn perthynas â'r ddau argymhelliad yn cael ei fonitro gan ddechrau yn chwarter 1 2024/25. |

<table>
<tr><th>Adolygu</th><th>Canfyddiadau</th><th>Ein hymateb</th></tr>
<tr><td></td><td>Gwnaeth yr Asesiad ddau argymhelliad i gryfhau'r wybodaeth a roddwyd i uwch arweinwyr.<br>• A1 - Dylai'r Cyngor gryfhau'r wybodaeth y mae'n ei darparu i'w uwch arweinwyr i'w galluogi i ddeall pa mor dda y mae gwasanaethau a pholisïau yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth.<br>• A2 - Dylai'r Cyngor gryfhau'r wybodaeth a ddarperir i uwch arweinwyr i'w helpu i werthuso a yw'r Cyngor yn cyflawni ei amcanion a'i ganlyniadau arfaethedig.</td><td></td></tr>
<tr><td>Adolygiad o’r Strategaeth Ddigidol</td><td>Mae'r Asesiad yn archwilio i ba raddau y mae dull strategol y Cyngor o ymdrin â digidol wedi'i ddatblygu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac y bydd yn helpu i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau'r Cyngor.<br><br>Yn gyffredinol, penderfynwyd bod y Cyngor yn ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth lunio ei strategaeth ddigidol, a’i fod yn datblygu trefniadau i gyflawni'r strategaeth, ond nid yw trefniadau monitro yn cael eu datblygu'n ddigonol. Canfuwyd:<br>• Mae'r Cyngor wedi gwneud defnydd da o ffynonellau tystiolaeth mewnol i lywio ei ymagwedd strategol at ddigidol ond mae wedi gwneud defnydd cyfyngedig o ffynonellau tystiolaeth allanol.<br>• Mae gan y Cyngor weledigaeth glir ar gyfer defnyddio technoleg ddigidol ac mae wedi ystyried sut mae ei ymagwedd at ddigidol yn effeithio ar bethau eraill y mae'n ceisio eu cyflawni ond nid yw wedi mynegi sut mae'n</td><td>Caiff cynnydd yn erbyn pob un o'r 5 argymhelliad ei fonitro drwy ein fframwaith monitro perfformiad camau gweithredu rheoleiddio lleol. Mae'r cynnydd yn erbyn y 5 argymhelliad yn Wyrdd ac yn cael ei adrodd i Fwrdd Mewnwelediad Strategol mewnol y Cyngor, a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol yn rheolaidd.<br><br>Mae'r diweddariadau yn erbyn yr argymhellion yn cynnwys:<br><br>• A1 - Rydym yn parhau i ddefnyddio ystod eang o ffynonellau ac adnoddau i sicrhau ein bod yn ystyried newidiadau macro yn ogystal â chefnogaeth gref gan SOCITM.<br>• A2 - Mae ein prosiectau digidol allweddol yn cyd-fynd ac yn cael eu cefnogi trwy ein cyfranogiad gweithredol yn CLlLC, IGDC, a Gofal Cymdeithasol Cymru. Byddwn yn parhau i ddatblygu a gwella hyn yn y dyfodol.<br>• A3 - Mae newid diwylliant wedi dechrau sy'n ein hannog ar y dechrau, a thrwy gydol y broses, i ystyried sut y gallwn gydweithio</td></tr>
</table>

| Adolygu | Canfyddiadau | Ein hymateb |
|---|---|---|
| | effeithio ar gyrff cyhoeddus eraill.<br>• Mae'r Cyngor wedi nodi pwy y mae angen iddo ei gynnwys wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol nesaf ac mae'n bwriadu ymgynghori'n eang, ond nid yw'n glir eto sut mae'r Cyngor yn bwriadu cydweithio â phartneriaid i'w chyflawni.<br>• Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i sicrhau bod adnoddau ar waith i ddatblygu'r strategaeth ddigidol, er bod gwaith pellach i'w wneud mewn perthynas â pha arbedion y gellir eu gwneud drwy roi ei strategaeth ddigidol ar waith.<br>• Nid yw'r Cyngor yn monitro cynnydd ei ymagwedd strategol at ddigidol ac mae gwendidau yn y mesurau perfformiad y mae'r Cyngor yn bwriadu eu defnyddio yn y dyfodol.<br>• Mae'r Cyngor wedi adolygu ei strategaeth ddigidol flaenorol ac wedi ymrwymo i adolygu ei strategaeth newydd, ond nid yw'n glir ar hyn o bryd sut y bydd unrhyw wersi a ddysgwyd o roi ei strategaeth ddigidol newydd ar waith yn cael eu rhannu.<br><br>Gwnaeth yr asesiad 5 argymhelliad:<br>• A1 - Er mwyn sicrhau bod ei strategaeth ddigidol yn ystyried tueddiadau a phroblemau cyfredol ac yn y dyfodol, dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn sganio'r gorwel i wneud yn siŵr bod ei ymagwedd strategol at digidol yn cael ei lywio'n dda gan ffynonellau allanol, gan gynnwys tueddiadau'r dyfodol. | ag awdurdodau lleol eraill ac alinio trydydd partïon.<br>• A4 - Mae dull ailadroddol o nodi arbedion strategaeth ddigidol yn cael ei ddatblygu. Ar hyn o bryd, mae'r rhain yn cael eu rheoli'n bennaf â llaw, ond trwy ddylunio cyfres safonol o achosion busnes, damcaniaethau, profi a dadansoddi ar ôl gweithredu, rydym ar y trywydd iawn i aeddfedu'r gallu hwn.<br>• A5 - Wrth i ni ddatblygu Pecyn Cymorth y Prosiect ymhellach, byddwn yn parhau i wella'r broses o nodi a rhannu elfennau o brosesau ein prosiectau. Rydym wedi llwyddo i nodi'r angen i ymyrryd mewn prosiectau parhaus yn seiliedig ar y gwersi a ddysgwyd. |

| Adolygu | Canfyddiadau | Ein hymateb |
|---|---|---|
| | • A2 - Er mwyn osgoi dyblygu a nodi cyfleoedd i gyflawni manteision lluosog, dylai'r Cyngor adolygu sut mae ei ymagwedd strategol at ddigidol yn effeithio ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.<br>• A3 - Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod wedi ystyried cyfleoedd i gydweithio wrth gyflawni ei strategaeth ddigidol i nodi cyfleoedd i rannu gwybodaeth, arbenigedd a/neu adnoddau a allai wella gwerth am arian.<br>• A4 - Er mwyn helpu'r Cyngor i fonitro gwerth am arian ei strategaeth ddigidol, dylai: - nodi unrhyw arbedion y mae'n anelu i'w gwneud o'r strategaeth. - sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad a ddefnyddir i fonitro ei strategaeth ddigidol yn ei alluogi i ddeall yn llawn effaith buddsoddiad y Cyngor mewn digidol.<br>• A5 - Dylai'r Cyngor ddatblygu trefniadau ar gyfer nodi a rhannu gwersi a ddysgwyd o'i ymagwedd at ei strategaeth ddigidol. | |

**Ein heriau allweddol**

- Mae heriau ariannol yn parhau ar draws y sefydliad i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau o safon ar draws ein cymunedau nawr ac yn y dyfodol wrth i bwysau cyllidebol sylweddol, sy'n deillio o dwf yn y galw am wasanaethau, barhau i effeithio ar ein gallu i ddarparu cyllideb gytbwys ar gyfer meysydd allweddol fel gwasanaethau gofal cymdeithasol a gwasanaethau addysg. Disgwylir i 88% o'r arbedion gael eu cyflawni yn 2023/2024 (*yn amodol ar y broses o gau cyfrifon*).
- Mae heriau sylweddol yn parhau i gael eu profi mewn rhai gwasanaethau o ran denu a chadw staff. Mae trosiant gwirfoddol gweithwyr wedi cynyddu o 9.20% i 10.93%, o'i gymharu â tharged o 7.5% eleni.
- Er y bu gwelliant yn absenoldeb gweithwyr ar 10.32 diwrnod fesul cyfwerth ag amser llawn o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd (12.82 diwrnod), mae absenoldeb yn parhau i fethu'r targed o 9.2 diwrnod. Mae angen mynd i'r afael â materion llwyth gwaith/adnoddau a lleihau lefelau presenoliaeth ar draws y gweithlu, a waethygir ymhellach gan yr heriau recriwtio a chadw parhaus mewn rhai gwasanaethau. Mae gallu ac adnoddau cyfyngedig wedi effeithio ar ddatblygu ffyrdd newydd o weithio a datblygu cyfleoedd a all greu incwm ychwanegol i gefnogi cynaliadwyedd gwasanaethau.

- Er bod cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud ar berfformiad y llynedd, mae angen cyflymu'r cynnydd o ran ymgorffori dull cyson o wella ein hymateb, ein hadrodd a'n dysgu o gwynion a chanmoliaeth. Ymdriniwyd â 57% o gwynion corfforaethol o fewn yr amserlenni targed, yn erbyn targed o 75%.
- Mae heriau'n parhau i ddatblygu a chryfhau cynwysoldeb gweithgareddau ymgysylltu, yn enwedig mewn perthynas â grwpiau gwarchodedig a difreintiedig yn gymdeithasol, a'r rheini 'nas clywir ganddynt yn aml' i lywio dylunio, datblygu a darparu gwasanaethau.
- Mae pwysau chwyddiant y tu hwnt i'n rheolaeth yn parhau i gael effaith sylweddol ar gost cyflenwadau ac, yn y pen draw, fforddiadwyedd a chyflawniad cynlluniau cyfalaf, gyda rhai contractwyr yn parhau'n amharod i ymrwymo i brosiectau hirdymor neu i ddal costau am gyfnodau hir. Mae'r heriau hyn yn dod yn fwyfwy heriol, gyda chyllidebau sy'n lleihau a phrinder sgiliau parhaus yn eu dwysáu.

**Meysydd i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol**

- Gwreiddio'r Strategaeth Pobl i fynd i'r afael ymhellach â rhai o'r heriau staff a amlygir yn yr asesiad hwn, gan gynnwys gwella amrywiaeth, recriwtio a chadw, cynllunio ar gyfer olyniaeth a lles staff. Bydd hyn yn cefnogi'r cynnydd drwy ffrwd waith rhaglenni trawsnewid, Pobl a Diwylliant. Mae gwaith i gwblhau a mabwysiadu'r rhaglen newid trawsnewidiol, Ail-lunio, yn faes o weithgaredd newydd.
- Gweithio mewn ffordd gynyddol gydweithredol i ddod o hyd i ffyrdd arloesol o ariannu gwasanaethau hanfodol wrth barhau i weithio i nodi cyfleoedd ar gyfer arbedion i gyflawni cyllideb gytbwys. Bydd meysydd ffocws yn cynnwys cefnogi ysgolion sy'n adrodd am sefyllfa o ddiffyg yn y gyllideb i ddatblygu cynlluniau adfer cytbwys.
- Darparu adnoddau a chyflymu cynnydd o ran datblygu mewnwelediad i gwsmeriaid, yn enwedig mewn perthynas â grwpiau gwarchodedig a difreintiedig yn gymdeithasol i lywio'r gwaith o ddylunio, datblygu a darparu gwasanaethau. Cefnogir y gwaith hwn drwy ddefnyddio'r canlyniadau a'r gwersi a ddysgwyd o'r arolwg Beth Am Siarad mewn ymateb i faterion a godwyd gan ymatebwyr.
- Er bod dulliau sefydledig ar waith ar gyfer llais y disgybl, mae angen gwreiddio ymgysylltiad pobl ifanc yn ehangach ar draws y Cyngor, i lunio'r broses o wneud penderfyniadau ar draws ystod ehangach o wasanaethau.
- Gwneud cynnydd pellach yn y gwaith i ehangu gwasanaethau ar-lein a'r amrywiaeth o ddulliau digidol a ddefnyddir i ymgysylltu a chyfathrebu â dinasyddion Bro Morgannwg trwy'r Strategaeth Ddigidol. Mae hyn yn cynnwys datblygu rhaglen dreigl o ddiweddariadau cynnwys gwefannau a nodi cyfleoedd ar gyfer cymwysiadau digidol a phrynu i wella hygyrchedd ac effeithlonrwydd gwasanaethau.
- Adolygu'r Rhaglen Gyfalaf yn gyson i adlewyrchu a mynd i'r afael â phwysau/heriau sy'n dod i'r amlwg o ran addasrwydd/hyfywedd ein hasedau corfforol. Bydd gwaith yn datblygu i gynyddu cyfleoedd gyda chymunedau sydd â diddordeb mewn trosglwyddo asedau cymunedol a chyfleoedd i ehangu'r defnydd a rennir o ofod chwaraeon awyr agored a neuaddau dan do yn ystadau ein hysgolion.
- Defnyddio'r Strategaeth Ddigidol i gefnogi gwaith parhaus ar draws y Cyngor a chyda phartneriaid i ddatblygu ein gallu ar y cyd ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion/cwsmeriaid a'n defnydd o'r mewnwelediadau hyn ynghyd â pherfformiad a mewnwelediadau data eraill i lywio datblygiadau gwasanaethau yn y dyfodol.
- Datblygu Cynllun Corfforaethol newydd a threfn rheoli perfformiad sy'n uchelgeisiol ond yn realistig, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, sy'n gysylltiedig â thrawsnewid, sydd â llygad ar y dyfodol, gan gynnwys yr Asesiad Perfformiad Panel cyntaf yn 2024/25.
- Parhau i gryfhau ein perthynas a gweithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned a'r Trydydd Sector.

## AMCAN LLES 2: Cefnogi dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy

*Rydym yn ymrwymedig i gefnogi pobl o bob oed i ddatblygu a dysgu. Rydym yn ymrwymedig i annog uchelgeisiau pobl a sicrhau bod unigolion a chymunedau'n gallu ffynnu a chyflawni eu gorau.*

| Camau Gweithredu a Mesurau sy'n cyd-fynd ag Amcan Lles 2 | | STATWS PERFFORMIAD | | | | | | Statws COG cyffredinol ar gyfer Amcan Lles 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Gwyrdd | | Oren | | Coch | | |
| Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu a Mesurau [2] |
| 58 | 45 | 56 (97%) | 12 (60%) | 0 (0%) | 2 (10%) | 2 (3%) | 6 (30%) | GWYRDD |

Ein statws perfformiad cyffredinol ar gyfer Amcan Lles 2 yw **DA**. Mae'r dyfarniad hwn yn adlewyrchu'r cynnydd da a wnaed mewn perthynas â chyflawni ymrwymiadau ein Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer y cyfnod.

**Yr hyn a ddywedon ni y byddem yn ei wneud yn ein Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24**

| Yr hyn a ddywedon ni y bydden ni'n ei wneud | Statws Perfformiad |
|---|---|
| 1 Gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De i sicrhau bod ysgolion yn cael eu cefnogi'n effeithiol i sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer yr holl ddysgwyr. | Gwyrdd |
| 2 Gweithio gyda'n hysgolion a'n partneriaid i weithredu'r dull gweithredu ysgol gyfan o ran iechyd meddwl a lles a sicrhau bod cymorth ac arweiniad priodol yn cael ei ddarparu er mwyn bodloni anghenion gwahanol blant a phobl ifanc. | Gwyrdd |
| 3 Cefnogi ein hysgolion i hwyluso'r broses o weithredu'r diwygiad Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) fesul cam, gan gynnwys gwaith yn ymwneud â hunanwerthuso. | Gwyrdd |
| 4 Cefnogi ein hysgolion i leihau gwaharddiadau a gwella presenoldeb gan gydnabod effeithiau hirdymor COVID-19 a'r argyfwng costau byw. | Gwyrdd |
| 5 Parhau â'r gwaith ar gynlluniau buddsoddi mewn ysgolion gan gynnwys ehangu Ysgol y Deri, adeilad ysgol newydd yn Sain Nicolas, ehangu darpariaeth ysgolion cynradd yn y Bont-faen a gwaith dylunio ar gyfer Richard Gwyn Sant fel rhan o'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. | Gwyrdd |
| 6 Adolygu a diwygio ein cynnig gwasanaeth cymorth craidd i ysgolion, gan gynnwys TG, AD, glanhau, gwasanaethau adeiladau a gwasanaethau gwastraff. | Gwyrdd |
| 7 Gweithio gydag eraill gan gynnwys busnesau allweddol, sefydliadau nid-er-elw preifat ac elusennau i gefnogi cyflogaeth a'r gwaith o ddatblygu sgiliau ar gyfer y dyfodol gan gynnwys cyflwyno mentrau a chyfleoedd â thâl yn y Cyngor ar gyfer prentisiaethau, hyfforddiant a chyflogaeth. Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023-24 Cyngor Bro Morgannwg | Gwyrdd |
| 8 Gweithio gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddatblygu strategaethau rhanbarthol a lleol ar gyfer trafnidiaeth, cynllunio a datblygu economaidd gan gynnwys cyfnewidfa drafnidiaeth ar gyfer y Barri a phrosiectau mawr fel y parc ynni yn Aberddawan, Porth y Barri a thwf parhaus Ardal Fenter Bro Tathan a Maes Awyr Caerdydd. | Gwyrdd |

[2] Nid oedd statws perfformiad COG yn berthnasol ar gyfer 25 o fesurau gan eu bod naill ai'n sefydlu perfformiad sylfaenol ar gyfer 2023/24 neu nid oedd y data ar gael ar y pryd.

| Yr hyn a ddywedon ni y bydden ni'n ei wneud | Statws Perfformiad |
|---|---|
| 9 Cymryd ymagwedd creu lleoedd at adfywio a gwneud yn fawr o gyllid allanol fel cyllid Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru a chyllid Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU i gefnogi twf economaidd cynaliadwy a chymunedau ar draws y Fro. | Gwyrdd |
| 10 Gweithio ar y cyd i ddatblygu a gweithredu strategaethau ledled y Fro sy'n hyrwyddo gofod cyflogaeth newydd a chefnogi busnesau lleol, twristiaeth, mentrau cymdeithasol a chymunedau ac yn cefnogi blaenoriaethau amgylcheddol ac economaidd. | Gwyrdd |

**Ein cyflawniadau**

**1.Gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De i sicrhau bod ysgolion yn cael eu cefnogi'n effeithiol i sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer yr holl ddysgwyr.**

- Cyflawnodd Gwasanaeth Addysg a Gwasanaeth Ieuenctid y Fro **arolygiadau cadarnhaol iawn gan Estyn**.
- Hyfforddodd **30** aelod o staff o ysgolion Bro Morgannwg i ddarparu rhaglenni Cynorthwyydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol (CCLlE) i gefnogi lles disgyblion.
- Cyfrannodd **8** o ysgolion y Fro at fodel Her Canol De Cymru fel ymarferwyr arweiniol i gefnogi'r cwricwlwm, addysgu ac asesu ar draws y rhanbarth.
- Cymerodd **638 o ymarferwyr** o holl ysgolion y Fro ran mewn dysgu proffesiynol a oedd yn gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru.
- Cafwyd gwelliant yng nghanlyniadau Bro Morgannwg ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23, ac roeddent yn uwch na chyfrannau cenedlaethol ar gyfer canran A*-A, A*-C ac A*-E yn **Safon Uwch**, a chanran A*-A, A-C ac A-E yn **Safon UG**.
- Ar **Safon Uwch**, mae **11 pwnc** yn chwartel uchaf perfformiad ledled Cymru gan gynnwys Ffiseg, Astudiaethau Busnes a TG Cymhwysol.
- Ar **Safon UG**, mae 5 pwnc yn chwartel uchaf perfformiad ledled Cymru gan gynnwys TGCh Cymhwysol, Mathemateg a Chyfrifiadureg.
- Ar **Gyfnod Allweddol 4**, mae dros **26** pwnc yn chwartel uchaf perfformiad ar draws Cymru a Lloegr gan gynnwys Cymhwyso Mathemateg, Mathemateg (rhifedd), Gwyddoniaeth Gymhwysol, Bioleg, Iaith Saesneg, Llenyddiaeth Saesneg a Ffiseg.
- Cymerodd **1,479** o ymarferwyr o holl ysgolion y Fro ran yn nigwyddiadau dysgu proffesiynol Consortiwm Canolbarth y De.
- Mae gan **86%** o ysgolion Gynllun/Strategaeth Grant Datblygu Disgyblion briodol sy'n diwallu anghenion dysgwyr cPYADd (cymhwysedd disgyblion i brydau ysgol am ddim) ar draws yr ysgol gyda'r 14% o'r cynlluniau sy'n weddill yn cael eu hystyried yn rhai sy'n datblygu.
- Gwnaeth **92** o ymarferwyr gymryd rhan mewn dysgu proffesiynol i ddatblygu darpariaeth Gymraeg mewn ysgolion.
- Ar draws ysgolion y Fro, mae ysgolion Saesneg wedi ennill **20 gwobr efydd**, **4 gwobr arian** a **2 wobr aur** ar lefel gynradd (Siarter Iaith Cymraeg Campus - Cynradd) ac **1 wobr efydd** a **2 wobr arian** ar lefel uwchradd (Siarter Iaith Cymraeg Campus - Uwchradd) gan gyfrannu at ddarpariaeth Gymraeg well.
- Ymgysylltu cryf â phrosiectau ôl-16 a ariennir gydag ysgolion uwchradd gyda darpariaeth ôl-16 yn cymryd rhan mewn un neu fwy o brosiectau.
- Cymerodd **91%** (43) o athrawon newydd gymhwyso yn ysgolion y Fro ran yn rhaglen Anelu'n Uchel i wella eu gwybodaeth.
- Gwnaeth **100%** o ddysgwyr AHY sy'n gadael ym Mlwyddyn 11 bontio'n llwyddiannus o addysg statudol i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.
- **Ni adawodd unrhyw bobl ifanc sy'n agored i niwed** (Plant sy'n Derbyn Gofal, Gwasanaethau, Gofalwyr Ifanc, Mwyafrif Byd-eang, neu'r rhai lle mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol) **addysg orfodol**, hyfforddiant neu brofiad gwaith ym Mlwyddyn 11 heb **gymhwyster allanol cymeradwy.**

- Yn ystod 2023-24, cafodd **saith** o ysgolion cynradd eu harolygu gan Estyn, gyda **chanlyniadau cadarnhaol a dim camau dilynol.**
- Mae 153 **(97%)** o leoliadau gofal plant cymwys yn y Fro wedi cofrestru ar gyfer y Cynnig Gofal Plant gyda 782 o blant wedi defnyddio'r rhaglen yn 2023/24.
- Derbyniodd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd dros **1,420** o ymholiadau mewn perthynas â materion gofal plant gyda 76% o'r rhain gan rieni a gofalwyr a'r 14% sy'n weddill gan ddarparwyr gofal plant a gweithwyr proffesiynol eraill. Yn ogystal, derbyniodd tudalennau gwe ar faterion gofal plant **39,789** o ymweliadau. **Roedd 91% o'r farn bod eu profiad yn ardderchog** neu'n dda iawn. Dywedodd **86%** bod cymorth, cyngor neu wybodaeth a ddarparwyd yn ddefnyddiol iawn neu'n ddefnyddiol.
- Cynyddwyd cyllideb yr ysgol fesul disgybl yn 2023/2024 i **£5,405**, ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o £5,386 ac yn gynnydd ar ffigur y flwyddyn flaenorol o **£4,936**. Roedd y Cyngor wedi penderfynu cynyddu ei gyllideb ysgolion ymhell dros y cynnydd o 5.1% yng Ngrant Llywodraeth Cymru oherwydd pwysau difrifol yn y sector.
- Lansiwyd **cyfleuster dysgu arloesol i ysgolion** yn Ysgol Gynradd Tregatwg. Mae'r cymorth addysgu gwerthfawr iawn yn gwella dysgu disgyblion trwy ofod ymdrochol rhyngweithiol gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf a gall hyd yn oed efelychu arogleuon.
- Darparwyd rhaglen ddysgu broffesiynol ddigidol gynhwysfawr sy'n cyd-fynd â'r Daith Ddysgu Broffesiynol Ddigidol genedlaethol i gefnogi ein hysgolion. Cwblhaodd **44** o ysgolion y rhaglen.
- Cefnogwyd datblygiad a chynaliadwyedd y farchnad gofal plant drwy gynnig arweiniad, cyngor a hyfforddiant i bob lleoliad gofal plant/gwarchod plant a chydweithiwyd ar gynllun prentisiaeth i gefnogi heriau recriwtio parhaus.
- Gwnaeth **55** o leoliadau gofal plant elwa ar gyllid gwerth **£470,000** i godi ansawdd a gwella'r ddarpariaeth gofal plant yn y Fro.

**2**. **Gweithio gyda'n hysgolion a'n partneriaid i weithredu'r dull gweithredu ysgol gyfan o ran iechyd meddwl a lles a sicrhau bod cymorth ac arweiniad priodol yn cael ei ddarparu er mwyn bodloni anghenion gwahanol blant a phobl ifanc.**

- Gwnaeth **563** o bobl ifanc gymryd rhan mewn sesiynau cwnsela yn yr ysgol, a chyflwynwyd 2,519 sesiwn.
- Comisiynwyd therapi Chwarae, a ddarperir gan Luna Play, ar draws chwe ysgol gynradd gyda nifer uchel o bobl yn manteisio arnynt. Dywedodd **91%** o'r plant fod therapi chwarae unigol yn eu helpu i deimlo'n well. Dywedodd **90%** o blant fod chwarae yn yr ystafell therapi yn eu helpu i wneud synnwyr o'u teimladau a'u hymddygiad.
- Cyflawnwyd a gweithredwyd **hyfforddiant Cerdyn C** ar draws pob ysgol uwchradd, y Gwasanaeth Ieuenctid a'r GCC Cyfiawnder Ieuenctid mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru fel rhan o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Mae allfeydd Cardiau C wedi'u treialu mewn **4 canolfan hamdden** ar draws y Fro.
- Gwnaeth bron **600 o randdeiliaid allweddol ymgysylltu** a'r adolygiad a chyhoeddwyd **Pecyn cymorth Cynhwysiant Trawsryweddol** a chanllawiau diwygiedig ar gyfer ysgolion a lleoliadau eraill.
- **Ehangwyd ein rhwydwaith o ymarferwyr Ysgolion sy'n Deall Trawma'r Fro** ymhellach i gefnogi ein dysgwyr mwyaf agored i niwed.
- Mae **Dull Ysgol Gyfan** (DYG) y Fro i **Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol wedi'i nodi fel cryfder allweddol** gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru yn adrodd bod **dros 94%** o ysgolion y Fro yn cefnogi'r DYG ac wedi ymgymryd â'r Offeryn Hunanwerthuso a bod gan **91%** gynllun gweithredu ysgol DYG ar waith. Mae pob ysgol uwchradd (8) ac Ysgol y Deri wedi cwblhau eu cynllun gweithredu ysgol ac mae 89% (39) o ysgolion cynradd bellach wedi cwblhau eu cynlluniau gweithredu ysgol. Mewn cymhariaeth, y ffigur ar gyfer Cymru Gyfan ar gyfer cwblhau hunanwerthusiad a mabwysiadu cynllun gweithredu yw ychydig dros 38%.
- Ysgol Gynradd Holton oedd yr ysgol gynradd gyntaf yn y Fro i ennill statws Ysgol Noddfa. Mae **14** o ysgolion wedi llofnodi'r addewid ac mae **7** yn gwneud cais ar hyn o bryd.

- Yn ystod y flwyddyn, cefnogwyd **563** o bobl ifanc, a chynhaliwyd **2,519** o sesiynau. Dangosodd gwerthusiad staff ysgolion fod 100% yn cytuno bod y gwasanaeth cwnsela wedi helpu pobl ifanc a'u bod wedi cael effaith gadarnhaol ar allu pobl ifanc i astudio a dysgu.
- Comisiynwyd therapi Chwarae, a ddarperir gan Luna Play, ar draws chwe ysgol gynradd gyda **91%** o'r plant yn dweud fod therapi chwarae unigol yn eu helpu i deimlo'n well.
- Mae'r cwmni arlwyo, Big Fresh, yn arbed cyllideb flynyddol i'r cyngor o tua **£400,000 y flwyddyn** ac mae wedi cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles dysgwyr. Mae'r holl wargedion a grëir yn cael eu hailfuddsoddi mewn ysgolion sydd, yn fwyaf diweddar, wedi creu **£200,000** ychwanegol, gan helpu i leihau diffygion yn y gyllideb ar draws ysgolion a/neu helpu i brynu offer ysgol.

**3. Cefnogi ein hysgolion i hwyluso'r broses o weithredu'r diwygiad Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) fesul cam gan gynnwys gwaith o amgylch hunanwerthuso.**

- Cwblhaodd pob ysgol **hyfforddiant** Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol **(Cydlynwyr ADY)**.
- Mae bron pob ysgol **(98%)** wedi cwblhau'r fframwaith hunanwerthuso ADY ac mae gwaith wedi symud ymlaen i **ymgorffori dull ysgol gyfan o hunanwerthuso** sy'n cyd-fynd â chynlluniau gwella ysgol.
- Mae **buddsoddiad sylweddol mewn ADY** wedi galluogi twf darpariaeth arbenigol. Er enghraifft, mae ehangu Ysgol y Deri, sefydlu Derw Newydd, y Ganolfan Ymyrraeth Gynnar a Chanolfan Gymraeg Gwaun y Nant, wedi ein galluogi i gynnal dysgwyr ag anghenion cymhleth yn eu hardal leol.
- Cyflwynwyd Swyddogion Cynllun Datblygu Unigol (CDU) Anghenion Dysgu Ychwanegol sydd wedi gwella'r broses CDU. Sicrhawyd ansawdd **141 o CDUau ALl** yn ystod 2023/24.
- Gweithiwyd gyda phartneriaid i ddatblygu mapiau prosesau a chatalog o ddarpariaeth i **wella'r ddarpariaeth i ddysgwyr ôl-16 ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.**
- Roedd **126** ymarferwyr o leoliadau'r Blynyddoedd Cynnar yn bresennol mewn hyfforddiant ar Fodiwlau ADY Craidd a ddarparwyd dros 12 sesiwn.
- Fel rhan o raglen ranbarthol Blynyddoedd Cynnar, mae **248** o bobl ar draws lleoliadau gofal plant y Fro wedi cael hyfforddiant ychwanegol i'w galluogi i wella eu parodrwydd ar gyfer plant sydd ag anghenion ychwanegol a chefnogi eu cynhwysiant.
- **Cryfhawyd adnoddau'r iaith Gymraeg** yn y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn unol â'n CSCA gan sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cael gafael ar gymorth yn ei iaith gyntaf.

**4. Cefnogi ein hysgolion i leihau gwaharddiadau a gwella presenoldeb gan gydnabod effeithiau hirdymor COVID-19 a'r argyfwng costau byw.**

- Datblygwyd a gweithredwyd **Strategaeth Bresenoldeb** mewn partneriaeth â Chonsortiwm Canolbarth y De (CCD), ysgolion, rhieni a phobl ifanc i wella presenoldeb.
- Roedd y data presenoldeb ar gyfer y sector cynradd bron **93%** o'i gymharu â bron 95% cyn lefelau COVID-19. O fis Ebrill 2024, roedd 39% (17) o ysgolion cynradd yn perfformio'n well yn 2018/19 na lefelau ar ôl COVID-19.
- Cynhaliwyd **lefelau isel o waharddiadau cyfnod penodol** ar draws ysgolion cynradd yn **0.02%.**
- Nodwyd bod **1.2%** o bobl sy'n gadael Blwyddyn 11 yn NEET yn ystod y flwyddyn, sy'n ostyngiad ar ffigur y flwyddyn flaenorol, sef 1.49%.
- Cafodd gwaith wedi'i dargedu yng **Nghymuned Ddysgu Pencoedtre**, gan defnyddio Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd, effaith gadarnhaol ar bresenoldeb mewn ysgolion cynradd yn y clwstwr (Tregatwg, Colcot, Holton, Jenner ac Oakfield).

5. **Parhau â'r gwaith ar gynlluniau buddsoddi mewn ysgolion gan gynnwys ehangu Ysgol y Deri, adeilad ysgol newydd yn Sain Nicolas, ehangu darpariaeth ysgolion cynradd yn y Bont-faen a gwaith dylunio ar gyfer Richard Gwyn Sant fel rhan o'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.**

- Mae bron pob ysgol Band B wedi'u cwblhau gan gynnwys Ysgol Gynradd y Bont-faen, Derw Newydd ac Ysgol Sant Baruc. Dim ond tair ysgol sy'n parhau i fod ar ôl, Richard Gwyn Sant, ehangiad Ysgol y Deri a Sain Nicolas ac mae'r rhain ar y trywydd iawn i'w cwblhau erbyn diwedd y rhaglen yn 2026.
- **8,373** o newydd-ddyfodiaid yn derbyn hyfforddiant (gan gynnwys graddedigion, lleoliadau gwaith, lleoliadau disgyblion); **3,500** o oriau o ddigwyddiadau STEM mewn ysgolion; dros **14,000** o wythnosau unigolion o swyddi newydd-ddyfodiaid; **71%** o is-gontractwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru; 78% o wastraff adeiladu nad yw'n mynd i safle tirlenwi; **64%** o wariant adeiladu yng Nghymru; **50%** o'r gweithlu yn dod o'r cod post lleol; mae cefnogi **74** o fentrau cymunedol, fel gerddi cymunedol, rhoi rhoddion i fanciau bwyd a helpu gyda phrosiectau adfer natur ym Mharc Porthceri yn rhai o fanteision cymunedol y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Yn ogystal, llwyddwyd i sicrhau cyllid ar gyfer deg ysgol i wella eu mannau gwyrdd awyr agored fel rhan o'r cynllun.

**6. Adolygu a diwygio ein cynnig gwasanaeth cymorth craidd i ysgolion, gan gynnwys TG, AD, glanhau, gwasanaethau adeiladau a gwasanaethau gwastraff.**

- **Crëwyd dangosfwrdd** i ddarparu data i'w fonitro ac amlygu unrhyw bryderon sy'n ymwneud â'r gweithlu ysgolion.
- Wedi ymrwymo i **Gytundeb Lefel Gwasanaeth 3 blynedd ag Ysgol Uwchradd Pencoedtre** ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth TG gan sicrhau gwell rheolaeth defnyddwyr a dyfeisiau ac integreiddio i fframwaith Hwb Llywodraeth Cymru.
- Wedi gweithio'n effeithiol gydag ysgolion i wella asedau digidol a gwneud y defnydd mwyaf posib ohonynt, gan gynnwys goruchwylio'r gwaith o reoli **8,044** o ddyfeisiau drwy blatfform rheoli dyfeisiau Hwb a chynnal Cytundebau Lefel Gwasanaeth cymorth TGCh technegol ar draws **31** o ysgolion.
- Gwnaeth **6 ysgol ddychwelyd i wasanaethau mewnol** ar gyfer gwasanaethau cynnal a chadw adeiladau ar ôl bod gyda chontractwyr allanol, gan gynyddu'r nifer i **53** o ysgolion sy'n derbyn gwasanaethau mewnol ar gyfer cynnal a chadw adeiladau, gan gynnwys glanhau a chydymffurfiaeth adeiladau. Mae'r hyblygrwydd a ddarparwyd gan uned lanhau symudol ar safleoedd ysgolion, a oedd yn cyflenwi dros absenoldeb salwch, wedi bod yn ffactor allweddol.

**7. Gweithio gydag eraill gan gynnwys busnesau allweddol, sefydliadau nid-er-elw preifat ac elusennau i gefnogi cyflogaeth a'r gwaith o ddatblygu sgiliau ar gyfer y dyfodol gan gynnwys cyflwyno mentrau a chyfleoedd â thâl yn y Cyngor ar gyfer prentisiaethau, hyfforddiant a chyflogaeth.**

- Gwnaeth **617** o gleientiaid sy'n oedolion ymgysylltu â gwasanaethau cyflogadwyedd i wella eu sgiliau a'u cyflogadwyedd a chafodd **175** swyddi fel rhan o weithredu Strategaeth Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru.
- Gwnaeth **185** o oedolion ifanc (16-24 oed) ymgysylltu â gwasanaethau cyflogadwyedd drwy'r Warant i Bobl Ifanc.
- Gwnaeth **432** o gleientiaid 25 oed ac yn hŷn ymgysylltu â gwasanaethau cyflogadwyedd drwy'r clybiau swyddi ar gyfer pobl 25 oed ac yn hŷn.
- Cwblhawyd **12 lleoliad** QuickStart yn y Cyngor fel rhan o gefnogi datblygiad sgiliau ar gyfer y dyfodol.
- Hyrwyddwyd ein hasedau fel **mannau dysgu cymunedol** gan gynnig ystod eang o gyfleoedd, wedi'u llywio gan ymgysylltu helaeth mewn digwyddiadau blasu a digwyddiadau eraill i sicrhau bod y cwricwlwm a gynigir yn diwallu anghenion lleol.
- Drwy'r prosiect STRIVE, mae **39** o bobl ifanc wedi cofrestru ar gyfer Gwobr Efydd Dug Caeredin. Cyflawnodd **20** o bobl ifanc eu tystysgrif Arweinyddiaeth Ifanc a gyflwynwyd gan y tîm Datblygu Chwaraeon. Mae **73** o bobl ifanc wedi eu cyfeirio a **53** yn cymryd rhan yn y prosiect.
- Roedd cofrestriadau ar gyfer sgiliau sylfaenol a sgiliau bywyd i bobl ifanc yn fwy na'r targed gyda (data gwirioneddol)

- Hwyluswyd cyfres o ddigwyddiadau cyflogaeth adeiladu a fynychwyd yn dda yn ystod y flwyddyn mewn partneriaeth â Cymunedau am Waith wedi'i dargedu at geiswyr gwaith i **hyrwyddo cyfleoedd prentisiaeth i fusnesau lleol a phobl leol.**
- Buom mewn partneriaeth â Chonsortiwm Canolbarth y De (CCD) ar **Raglen 'Dyfodol yn Gyntaf'** i ddatblygu cysylltiadau ysgolion â busnesau lleol a chymorth gyrfaoedd ar gyfer dysgwyr ôl-16. Gwnaed cynnydd yn y gwaith ar **Gynllun Addewid Busnes y Fro** a fydd yn darparu gyrfaoedd a chyfleoedd profiad gwaith i ddysgwyr.
- Enillwyd cyfradd llwyddiant o **dros 98%** ar **gyrsiau achrededig ar gyfer dysgwyr blaenoriaeth**, sy'n uwch na'r cymharydd cenedlaethol o 86%. Mae hyn yn cyfateb i **846** o ddysgwyr.
- Mae **61** o bobl ifanc, allan o **3,057**, sydd mewn cysylltiad â'r Gwasanaeth Ieuenctid, **wedi cyflawni deilliant cenedlaethol/lleol achrededig.**
- Datblygwyd **clymblaid Sgiliau'r Fro newydd** mewn partneriaeth â Choleg Caerdydd a'r Fro ynghyd ag **Adduned Cyflogwr y Fro.**
- Hyrwyddwyd mwy o opsiynau o ran defnyddio prentisiaethau a hyfforddeiaethau ar draws gwasanaethau'r cyngor, yn enwedig ar gyfer swyddi sy'n anodd recriwtio ar eu cyfer, gyda **41** o bobl yn manteisio ar gymwysterau prentisiaeth wedi'u hariannu'n llawn yn ystod y flwyddyn.

**8. Gweithio gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddatblygu strategaethau rhanbarthol a lleol ar gyfer trafnidiaeth, cynllunio a datblygu economaidd gan gynnwys cyfnewidfa drafnidiaeth ar gyfer y Barri, prosiectau mawr fel safle Aberddawan a Phorth y Barri a thwf parhaus Ardal Fenter Bro Tathan a Maes Awyr Caerdydd.**

- Penderfynwyd ar **94%** o'r holl geisiadau cynllunio gan ragori ar ein targed o 93%, ond ychydig yn is na pherfformiad y llynedd o bron 99%.
- Gwnaed **buddsoddiad gwerth bron £6.373 miliwn** i'r Cyngor yn ystod 2023/24 ac fe'i neilltuwyd ar gyfer cynlluniau gwella trafnidiaeth, cynnydd o £3,685,632 ers y llynedd.
- Ymgysylltwyd â Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd, Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cynigion allweddol fel y **Parc Ynni yn Aberddawan**, **Porth y Barri** a'r **Ardal Fenter Bro Tathan a Maes Awyr Caerdydd** yn cael eu cynnwys yn **Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.**
- Mae gwaith datblygu **prosiect Cyfnewidfa Cogan** WelTAG Cam 2, wedi'i gwblhau.
- Ymgysylltwyd â Llywodraeth Cymru ar gynigion ar gyfer **gorsaf drenau yn Sain Tathan**.
- Rydym yn parhau i hyrwyddo Cyfnewidfa Drafnidiaeth y Barri, man cyfarfod ar gyfer gwahanol ddulliau o deithio, gan gysylltu'r gwasanaethau trên, bws, beicio a thacsis yn ogystal â chynnig cyfleusterau parcio a theithio gerllaw. **Cyflwynwyd gwasanaeth uniongyrchol newydd o'r gyfnewidfa i brif rannau'r Barri** gan gynnwys Gibbonsdown a gorllewin a chanol y Barri.

**9. Cymryd ymagwedd creu lleoedd at adfywio a gwneud yn fawr o gyllid allanol fel cyllid Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru a chyllid Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU i gefnogi twf economaidd cynaliadwy a chymunedau ar draws y Fro.**

- Llwyddwyd i sicrhau **cymeradwyaeth ar gyfer cyllid gwerth £20 miliwn o Llywodraeth y DU** dros 10 mlynedd tuag at adfywio Glannau'r Barri.
- Sicrhawyd cyllid a dechreuwyd ar y gwaith i ddatblygu **cynlluniau Creu Lleoedd ar gyfer ein 4 prif dref** gan gynnwys y Barri, Llanilltud Fawr, Penarth a'r Bont-faen, gan ganolbwyntio ar dwf economaidd.
- Sefydlwyd a chafwyd **cymeradwyaeth yn ffurfiol ar gyfer Partneriaeth y Barri newydd** i fwrw ymlaen â'r **Prosiect Glan y Dŵr** fel rhan o Gynllun Ffyniant Bro Llywodraeth y DU.
- Sefydlwyd **Bwrdd Buddsoddi a Thwf** Strategol gyda ffocws ar dwf economaidd, adfywio a newid hinsawdd.
- Mae **62** o brosiectau'r Fro wedi elwa o **bron £8.7 miliwn** o'r **Gronfa Ffyniant Gyffredin (CFfG)** dan themâu Cymuned a Lle, Cefnogi Busnesau Lleol a Phobl a Sgiliau gan gyfrannu at adfywio canol ein trefi, ardaloedd trefol a gwledig, tyfu'r gymuned wirfoddoli, cefnogi ein huchelgais i gyflawni sero net, a

| |
|---|
| digwyddiadau cymunedol ac sy'n seiliedig ar leoedd sy'n targedu diwylliant, y celfyddydau a threftadaeth.<br>- Roedd cyfradd yr unedau gwag ar gyfartaledd ym mhrif ganol trefi'r Fro yn **10.9%,** sy'n parhau i fod o fewn ein targed o 15%, gyda pherfformiad yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol o **16%.**<br>- Ymgysylltwyd â'n cymunedau â'r amddifadedd mwyaf o **wardiau Buttrils, Gibbonsdown a Court** i wneud cysylltiadau newydd a sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu hystyried wrth ddatblygu a gweithredu prosiectau adfywio.<br>- Crëwyd a diogelwyd **36 o swyddi** drwy raglen Cronfa Ffyniant Gyffredin y Cyngor.<br>- Cefnogwyd **74** o fusnesau drwy Gronfa Grant Datblygu Busnes, Grant Gwella Masnachol a Chynllun Bwrsariaeth Dechrau Busnes y Fro.<br>- Gwnaed gwelliannau i **6** o fannau masnachol drwy gyllid CFfG.<br>- Dyfarnwyd cyllid Cymunedau Cryf gwerth **£152,916** i 24 o sefydliadau a arweinir gan y gymuned i gefnogi mentrau sy'n cyfrannu at weledigaeth y Cyngor o 'gydweithio ar gyfer dyfodol disgleiriach'. |

| |
|---|
| **10. Gweithio ar y cyd i ddatblygu a gweithredu strategaethau ledled y Fro sy'n hyrwyddo gofod cyflogaeth newydd a chefnogi busnesau lleol, twristiaeth, mentrau cymdeithasol a chymunedau.**<br><br>- Cynghorwyd **615** o fusnesau ledled y Fro ar gyllid, cynllunio busnes a dechrau busnesau newydd, cynnydd o **121** ers y llynedd.<br>- Cynghorwyd **170** o sefydliadau a arweinir gan y gymuned, cynnydd o **29** ers y llynedd.<br>- Cefnogwyd **24** o sefydliadau a arweinir gan y gymuned yn ariannol, gan ragori ar ein targed o **15**.<br>- Cefnogwyd cyfuniad o **74** o fusnesau drwy Grant Datblygu Busnes, Grant Gwella Masnachol a Chynllun Bwrsariaeth Dechrau Busnes y Fro, cynnydd o **20** ers y llynedd.<br>- Cefnogwyd canol ein trefi drwy wella mannau gwyrdd, mannau cyhoeddus a seilwaith trafnidiaeth yn **y Barri**, **y Rhws** ac **Eglwys Brewys.**<br>- Hyrwyddwyd **ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y dref** wrth ddatblygu digwyddiadau cymunedol a gweithgareddau diwylliannol gyda ffocws ar hyrwyddo cyrchfannau ac ysgogi nifer yr ymwelwyr. Cafodd 24 o ddigwyddiadau eu hwyluso neu eu cefnogi'n ariannol, fel rhan o galendr eang o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn, cynnydd o 12 digwyddiad ers y llynedd.<br>- Ymgysylltwyd â'n cymunedau â'r amddifadedd mwyaf o wardiau **Buttrils, Gibbonsdown** a **Court** i wneud cysylltiadau newydd a sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu hystyried. |

**Gweithgareddau ymgysylltu: yr hyn a ddywedodd ein preswylwyr a'n defnyddwyr gwasanaeth**

| Yr hyn y buom yn ymgysylltu arno | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| Cynnig i gynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer Addysg Gymraeg trwy ehangu Ysgol Iolo Morgannwg o 210 o leoedd i 420 o leoedd o fis Medi 2025. | Cafwyd 91 o ymatebion heb unrhyw wrthwynebiadau. Roedd 94.5% o blaid y cynnig a 5.5% yn erbyn y cynnig.<br><br>Cafwyd 53 o ymatebion gan y grŵp rhieni a gwarcheidwaid ac roedd 4% o'r grŵp hwn (3 pherson) yn erbyn y cynnig.<br><br>Materion a godwyd: | Mae'r cynnig yn cefnogi twf mewn addysg gynradd Gymraeg, gan gefnogi strategaeth CSCA y Cyngor a strategeth 'Cymraeg 2050' Llywodraeth Cymru.<br><br>Mae'r Fro wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael pob cyfle i sicrhau'r canlyniadau gorau posib. Er mwyn gwireddu'r uchelgais hwn, mae'n hanfodol bod ysgolion yn parhau i fod yn gynaliadwy, yn |

| Yr hyn y buom yn ymgysylltu arno | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| | • Addysg cyfrwng Saesneg yn cael ei flaenoriaethu dros addysg cyfrwng Cymraeg.<br>• Ysgol fwy, sy'n golygu y byddai'r teimlad cymunedol hwnnw, yn cael ei golli.<br>• Pryderon ynghylch trefniadau teithio newydd.<br>• Tarfu.<br>• Yr holl faterion yn cael eu trafod fel rhan o'r adroddiad ymateb. | adlewyrchu anghenion ein cymunedau lleol, a bod ganddyn nhw'r amgylcheddau dysgu gorau posib. |
| Cynnig i sefydlu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Richard Gwyn Sant a chynyddu ei maint o 813 o leoedd i 1,050 o leoedd o fis Medi 2025. | Cafwyd cyfanswm o 43 o ymatebion, gyda 100% yn gefnogol i'r cynnig, heb unrhyw wrthwynebiadau.<br><br>Roedd 60% o'r ymatebwyr yn aelodau staff, roedd 30% yn rhieni neu'n warcheidwaid ac roedd y 10% sy'n weddill yn drigolion lleol a rhieni disgyblion blaenorol (a adawodd o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf).<br><br>Materion a godwyd:<br>• Tarfu<br>• Cyllid refeniw ar gyfer Canolfan Adnoddau Arbenigol<br>• Llwybrau teithio llesol addas<br>• Yr holl faterion yn cael eu trafod fel rhan o'r adroddiad ymateb. | Cyflwyno'r cynnig i ddarparu lleoedd ychwanegol yn Ysgol Uwchradd Richard Gwyn Sant. Mae'r ysgol hon yn gwasanaethu'r Fro gyfan.<br><br>Bydd y datblygiad newydd yn darparu ar gyfer 1,050 o leoedd, gyda CAA â 60 o leoedd yn unol â'r cynnydd mewn datblygiadau tai lleol yn Sili, y Barri a Phenarth.<br><br>Mae'r Fro wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael pob cyfle i sicrhau'r canlyniadau gorau posib. Er mwyn gwireddu'r uchelgais hwn, mae'n hanfodol bod ysgolion yn parhau i fod yn gynaliadwy, yn adlewyrchu anghenion ein cymunedau lleol, a bod ganddyn nhw'r amgylcheddau dysgu gorau posib. |
| Newid Ysgol Stanwell o fod yn Ysgol Sefydledig i fod yn Ysgol a Gynhelir yn y Gymuned o fis Medi 2024. | Cafwyd cyfanswm o 106 o ymatebion, heb unrhyw wrthwynebiadau. Roedd 56 (53%) o'r ymatebwyr o blaid y cynnig. Roedd 50 (47%) o'r ymatebwyr yn erbyn y cynnig.<br><br>Roedd y grŵp mwyaf o ymatebwyr yn rhieni neu'n warcheidwaid. Cafwyd cyfanswm o 45 o ymatebion. Roedd 20 (44%) o blaid y cynnig ac roedd 25 (56%) yn erbyn y cynnig.<br><br>Yr ail grŵp mwyaf o ymatebwyr oedd aelodau staff gyda 28 o | Penderfynodd yr ymgynghoriad ar y newid yn statws yr ysgol. Mae'r newid yn sicrhau bod yr ysgol yn elwa o gefnogaeth y Cyngor mewn nifer o feysydd gan gynnwys cyllid, mwy o berthnasoedd gwaith a lles disgyblion.<br><br>Mae newid i ysgol a gynhelir yn y gymuned yn darparu polisi derbyn tecach. |

| Yr hyn y buom yn ymgysylltu arno | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| | ymatebion. Roedd 24 (86%) o blaid a 4 (14%) yn erbyn y cynnig.<br><br>Materion a godwyd:<br>• Y Cyngor sy'n penderfynu ar y dosbarthiad cyllid.<br>• Mae pryderon ynghylch effaith derbyniadau ar ganlyniadau dysgu.<br>• Ymagwedd at ysgolion bwydo.<br>• Yr holl faterion yn cael eu trafod fel rhan o'r adroddiad ymateb. | |
| Polisïau ysgol ar gyfer y Tîm Cysylltiadau Dysgu (TCD) | Ymgysylltwyd â grwpiau dysgu penodol, rhieni/gofalwyr, ysgolion a Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc ar bolisïau a chynlluniau gweithredu perthnasol.<br><br>Cofnodwyd canlyniad sgyrsiau drwy'r Broses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) gydag awgrymiadau gan wahanol randdeiliaid wedi'u hymgorffori yn y polisïau a'r cynlluniau gweithredu.<br>Gofynnodd y grwpiau fod cynlluniau'n cael eu hadolygu a'u diweddaru bob blwyddyn o leiaf. | Ar gyfer gofalwyr ifanc, roedd y cynllun gweithredu wedi'i ddiweddaru yn golygu bod ysgolion yn cael eu hatgoffa ar ymweliadau ymgysylltu o broses yr awdurdod lleol. Y canlyniad oedd cynnydd yn nifer y dysgwyr a nodwyd, yna'n cael eu cyfeirio at Linell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf ac yn cael eu cofnodi fel gofalwr ifanc. Roedd hyn yn golygu y gallent dderbyn y gefnogaeth gyfatebol gan blentyn neu berson ifanc.<br>I ddysgwyr o'r mwyafrif byd-eang, gan gynnwys dysgwyr amlieithog, roedd yna gais penodol am Bolisi Gwrth-Hiliaeth, ac yna drafftiwyd hyn gyda nhw, eu teuluoedd a'u hysgolion.<br><br>Ar gyfer plant y lluoedd, newidiwyd cynllun gweithredu'r Weinyddiaeth Amddiffyn Awdurdodau Lleol i adlewyrchu barn dysgwyr, eu teuluoedd a'u hysgolion.<br>Cwblhawyd yr holl gamau gweithredu a nodwyd yn y cynllun gweithredu. Y Fro oedd yr ALl cyntaf i fod â chynllun gweithredu lle'r oedd yr holl gamau gweithredu wedi'u graddio'n wyrdd o ran COG.<br><br>Adlewyrchwyd barn plant neu bobl ifanc, gan gynnwys Plant sy'n Derbyn Gofal, yn y Strategaeth |

| Yr hyn y buom yn ymgysylltu arno | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| | | Gorfforaethol ddiwygiedig ar gyfer Plant sydd angen Gofal a Chymorth. |
| Digwyddiadau cyhoeddus ym Mhafiliwn Penarth 2023/24: Adborth | Cwblhawyd 35 o arolygon adborth ar ddigwyddiadau'r Pafiliwn gan 363 aelod o'r cyhoedd.<br><br>Dyma’r canfyddiadau allweddol:<br>• Roedd 75% o'r farn bod y digwyddiad yr oeddent yn bresennol ynddo’n rhagorol.<br>• Dywedodd 76% y byddent yn debygol iawn o fynd i ddigwyddiadau yn y dyfodol yn seiliedig ar y digwyddiad yr oeddent yn bresennol ynddo.<br>• Roedd 81% o'r farn bod y staff y gwnaethant gyfarfod yn y Pafiliwn, yn hynod gyfeillgar.<br>• Roedd 78% o'r farn bod y digwyddiad yr oeddent yn bresennol ynddo, yn werth da iawn am arian.<br>• O ran marchnata digwyddiadau, nododd adborth mai negeseuon cyfryngau cymdeithasol, hysbysebu posteri o gwmpas adeilad y Pafiliwn ac ymgyrchoedd marchnata drwy e-bost, oedd y sianeli marchnata mwyaf poblogaidd ar gyfer digwyddiadau.<br>• I'r cwestiwn, "pa fath o ddigwyddiadau hoffech chi eu gweld ym Mhafiliwn Penarth", roedd yr ymatebion poblogaidd yn cynnwys: digwyddiadau ar gyfer y plant, cerddoriaeth fyw, sinema, cyngherddau clasurol, digwyddiadau babanod a phlant bach, cyngherddau jazz, arddangosfeydd celf, digwyddiadau dawnsfeydd te, gŵyl jazz, digwyddiadau prynhawn, perfformwyr | Mae'r adborth wedi helpu i lywio rhaglenni digwyddiadau er mwyn sicrhau rhaglen gyson o ddigwyddiadau cerddoriaeth fyw. O ganlyniad, mae Pafiliwn Penarth yn parhau â'i bartneriaeth â Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.<br><br>Ailgyflwynwyd sinema'r prynhawn bob pythefnos, gan ddangos cyfuniad o ffilmiau diweddar a chlasuron.<br><br>Mae'r Pafiliwn wedi cysylltu â hyfforddwyr dawns/ioga lleol i sefydlu diddordeb mewn cynnal dosbarthiadau wythnosol yn y lleoliad.<br><br>Mae pedair noson gabaret arall a phedwar disgo Calan Gaeaf wedi'u hamserlennu ar gyfer 2024/25.<br><br>Mae'r lleoedd ar gyfer y sgyrsiau hanes celf misol yn gwerthu allan yn rheolaidd ac mae'r adborth wedi helpu i lywio pa artistiaid i'w cynnwys. |

| Yr hyn y buom yn ymgysylltu arno | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| | teyrnged, nosweithiau cabaret, arddangosiadau celf. | |
| Arweinwyr presenoldeb o fewn Ysgolion Uwchradd a Chynradd y Fro | Dyma'r canfyddiadau:<br>• Boddhad 100% gyda'r broses atgyfeirio ynghylch pryderon presenoldeb.<br>• Boddhad 100% gyda'r hygyrchedd i'r Swyddog Cynhwysiant a chyda'r gefnogaeth a dderbyniwyd.<br>• Roedd dros 83% o'r farn bod y pecyn cymorth presenoldeb yn ddefnyddiol.<br>• Boddhad 100% gyda Fforwm Presenoldeb y Fro. | Cadarnhaodd canfyddiadau'r arolwg fod dull yr ALl o gynyddu presenoldeb ysgolion yn addas at y diben.<br><br>Mae'r Fforymau Presenoldeb yn parhau i gael eu cyflwyno'n dymhorol. Mae hyfforddiant mewn Hysbysiadau Cosb Benodedig wedi'i ehangu ac mae'r Pecyn Cymorth Presenoldeb yn cael ei adolygu'n barhaus i sicrhau ei fod yn effeithiol. |
| Clwb Ieuenctid 'Youthy' 18+ | Dyma'r canfyddiadau allweddol:<br>• Dywedodd bron pob person ifanc y byddent yn dymuno cael cymorth gydag ysgrifennu CV, cymorth cyflogaeth, sgiliau bywyd a diogelwch ar y rhyngrwyd.<br>• Dywedodd pobl ifanc pe byddent yn mynychu clwb ieuenctid 18+, byddai ganddynt ddiddordeb mewn gweithgareddau fel coginio, cerddoriaeth a gemau cyfrifiadur.<br>• Grwpiau cymunedol oedd y dewis mwyaf poblogaidd o sut yr hoffai pobl ifanc dros 18 oed gwrdd. | Mewn ymateb i adborth, mae staff wedi dechrau cynnal sesiynau yn Pod yn y Barri i gynnal sesiynau sgiliau bywyd ar gyllidebu, sgiliau cyflogaeth ac ati.<br><br>Mae coginio yn weithgaredd sy'n cael ei redeg yn aml yn Youthy 18+, a gofynnir amdano yn dymhorol gan yr aelodau. |
| Cynnig Amgen Hanner Tymor i Bobl Ifanc | Adborth hanner tymor mis Chwefror:<br>• Allan o 181 o gysylltiadau, ymatebodd 17 o bobl ifanc i'r arolwg.<br>• Cafodd y sesiynau sgôr o 4.82 allan o 5.<br>• Dywedodd 24% o'r ymatebwyr eu bod wrth eu bodd bod gêm osgoi'r bêl a phêl-fasged yn rhan o'r cynnig chwaraeon.<br>• Roedd rhan o'r cynnig yn cynnwys taith undydd y tîm cyfranogi. Dywedodd 12% o'r mynychwyr y byddent yn dymuno mynd ar daith hwy. | Roedd cynnig chwaraeon mwy amrywiol yn arwain at ragor o ddiddordeb a bydd hyn yn llywio cynllunio cynigion amgen yn y dyfodol. Bydd 'gwyliau chwaraeon ieuenctid' yn cael eu cyflwyno yn yr haf ar draws y Fro.<br><br>Awgrymodd adborth o fis Chwefror fod pobl ifanc eisiau chwarae mwy o gemau osgoi'r bêl. Cafodd hyn ei gynnwys yng nghynnig y Pasg a bu'n boblogaidd eto. |

| Yr hyn y buom yn ymgysylltu arno | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| | Adborth hanner tymor y Pasg:<br>• Allan o 237 o gysylltiadau, ymatebodd 19 o bobl ifanc i'r arolwg.<br>• Cafodd y sesiynau sgôr o 4.59 allan o 5.<br>• Roedd adborth gan y bobl ifanc am y sesiynau yn wych, gyda 26% o bobl ifanc yn dweud eu bod wedi mwynhau'r gemau saethyddiaeth yn fawr.<br>• Roedd y gwelliannau'n cynnwys 18% o'r ymatebwyr yn dweud yr hoffent gael sesiynau hwy. | Bydd ein cynnig saethyddiaeth yn parhau dros yr haf, ac o bosib y cyfle i hyfforddi mwy o staff mewn saethyddiaeth. |
| Gwneud Eich Marc – Ymgynghoriad Senedd Ieuenctid y DU ar gyfer pobl ifanc 11-18 oed | Cymerodd 4,837 o bobl ifanc ran yn yr ymgynghoriad (29 Ionawr - 8 Mawrth) ar draws holl ysgolion uwchradd a darpariaethau ieuenctid y Fro.<br><br>Dyma'r prif flaenoriaethau ar gyfer y Fro:<br>• Pleidleisiodd 856 o bobl ifanc dros Iechyd a Lles.<br>• Pleidleisiodd 847 o bobl ifanc dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.<br>• Pleidleisiodd 618 o bobl ifanc dros Swyddi, yr Economi a Budd-daliadau. | Mae canfyddiadau manwl yn ôl ardal (Canol, Dwyrain a'r Fro wledig) wedi'u rhannu'n eang ar draws timau'r gyfarwyddiaeth, a thrwy'r Rhwydwaith Ymarferwyr Cyfranogiad Cyhoeddus i lywio cynllunio digwyddiadau a darpariaeth yn y dyfodol, ac i lunio'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau. Er enghraifft, cydweithwyr Adfywio a Chynllunio'n defnyddio blaenoriaethau i gefnogi ceisiadau am gyllid yn y Barri mewn perthynas â'r Gronfa Ffyniant Bro.<br><br>Mae'r canfyddiadau hefyd wedi llywio'r gwaith o gynllunio digwyddiadau haf Gwasanaeth Ieuenctid y Fro gyda ffocws chwaraeon – mae 'Gwyliau Chwaraeon' yn cael eu trefnu ar draws Canol, Dwyrain a'r Fro Wledig sydd ar gael am ddim.<br><br>Mae digwyddiad ychwanegol gan Wasanaeth Ieuenctid y Fro wedi'i drefnu, sef 'Gŵyl Hawliau', i ddathlu hawliau pobl ifanc drwy'r celfyddydau mynegiannol, sy'n seiliedig ar y Digwyddiad Gwneud Eich Marc. |

| Yr hyn y buom yn ymgysylltu arno | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| | | Mae'r canfyddiadau hefyd wedi llywio gwaith partneriaeth e.e. gyda Chwaraeon a Chwarae wrth ddatblygu eu cynnig chwaraeon.<br><br>Mewn ymateb i ddiwylliant, mae'r cyfryngau wedi'i nodi fel blaenoriaeth i bobl ifanc, mae Gwasanaeth Ieuenctid y Fro yn archwilio rhagor o waith gyda Radio Bro.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Lles yn archwilio gwaith partneriaeth pellach gyda Platfform, i gefnogi lles pobl ifanc ym Mro Morgannwg.<br><br>Mae pobl ifanc drwy Rwydwaith y Cyngor Ysgol wedi cyfrannu at ddatblygiad y Strategaeth Gymdeithasol, Emosiynol, Iechyd Meddwl a Lles. |
| Cynllun Datblygu Lleol Newydd | Mae rhywfaint o gefnogaeth i'r Strategaeth, a rhywfaint o wrthwynebiad i lefel a lleoliad y twf arfaethedig. Mae rhai gwrthwynebiadau ar sail gormod o dwf, rhai ar sail dim digon o dwf.<br><br>Lluniwyd adroddiad ymgynghori sy'n mynd i'r afael â'r holl sylwadau a ddaeth i law ac yn ymateb iddynt. | Cynigiwyd newidiadau i eiriad y polisïau strategol o ganlyniad i adborth.<br><br>Bydd adborth yn ymwneud â'r angen am greu lleoedd yn arwain at waith penodol gyda Chynghorau Tref a Chymuned er mwyn deall ac ymateb i anghenion/blaenoriaethau ynghylch y cymunedau hynny. |
| Cynlluniau Creu Lleoedd (Perthnasol i Amcan 4) | Ymgysylltwyd â'r 4 tref mewn gwahanol ffyrdd dros y flwyddyn ddiwethaf, gan sicrhau ein bod yn canfod barn yr holl gymuned, gan gynnwys pobl iau, pobl hŷn, busnesau a thrigolion.<br><br>Mae cyfleoedd ymgysylltu'r Bont-faen wedi cynnwys: Picnic cymunedol y Coroni Mai 23, bore coffi'r Maer Mehefin 23, digwyddiad masnachwyr Hydref 23, Diwrnod Agored yn Ysgol Gyfun y Bont-faen Tachwedd 23, Deall Dementia Tachwedd 23, sesiynau galw heibio ar gyfer | Bydd y data hwn o'r ymarferion mapio cymunedol eang a wneir mewn partneriaeth â Chynghorau Tref yn llywio'r Cynlluniau Creu Lleoedd. |

| Yr hyn y buom yn ymgysylltu arno | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| | preswylwyr Ionawr 24, Cyfarfod cynrychiolwyr cynghorau ysgol, sesiynau galw heibio ar gyfer preswylwyr mewn tafarndai – Aberthin a'r Bont-faen Chwefror 24, sesiwn galw heibio Waitrose Chwefror 24, cyfarfodydd bob pythefnos gyda Chyngor y Dref, ac arolwg y wefan.<br><br>Mae cyfleoedd a materion sy'n dod i'r amlwg yn y Bont-faen yn cynnwys pobl ifanc, cysylltedd, mannau gwyrdd ac economi gyda'r nos.<br><br>Mae cyfleoedd ymgysylltu Penarth wedi cynnwys: Digwyddiad 'I'r Môr' Medi 23, cynnau goleuadau'r Nadolig Rhagfyr 23, digwyddiad Darbi Lawr Rhiw Gorffennaf 24, cyfarfodydd Cymdeithas Ddinesig Penarth, ac arolwg y wefan.<br><br>Mae cyfleoedd a materion sy'n dod i'r amlwg yn Llanilltud Fawr yn cael eu casglu ar hyn o bryd.<br><br>Mae cyfleoedd ymgysylltu Llanilltud Fawr wedi cynnwys: Gŵyl Fwyd Llanilltud Fawr Mehefin 23, Grŵp Heneiddio'n Dda Hydref 23, Grŵp Ffocws Masnachwyr Hydref 23, sesiynau galw heibio ar gyfer preswylwyr Tachwedd 23, Clwb Ieuenctid Ionawr 24, Banc bwyd Chwefror 24, Cymdeithas Arddwriaethol Chwefror 24, Grŵp plant bach Chwefror 24, Music in Mind Chwefror 24 a Probus Chwefror 24.<br><br>Mae cyfleoedd a materion sy'n dod i'r amlwg yn Llanilltud Fawr yn cael eu casglu ar hyn o bryd. | |
| Eich lle; BGC (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus) Prosiect Trechu Amddifadedd | Cwblhawyd cam darganfod y prosiect. Mae'r cam hwn wedi cynnwys sgyrsiau agored i gasglu barn ar ystod o bynciau | Mae mewnwelediad o'r ymgysylltiad hwn wedi cefnogi nifer o geisiadau am gyllid cymunedol, gan gynnwys; |

| Yr hyn y buom yn ymgysylltu arno | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| | amhenodol ac mae'r Uwch Swyddog Datblygu Cymunedol wedi bod yn bresennol mewn dros 100 o sesiynau/gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned i ddatblygu cysylltiadau ac ymddiriedaeth gyda rhanddeiliaid lleol gan gynnwys preswylwyr. Mynychwyd 24 o leoliadau cymunedol, dros 53 sesiwn, yn ymgysylltu â 365 o bobl, gan gynnwys pantrïoedd bwyd, mannau cynnes, grwpiau cymunedol, digwyddiadau lleol, canolfannau crefyddol, clybiau cyn-filwyr, y llyfrgell, clybiau ieuenctid, hybiau cymunedol a chnocio drysau tai cymdeithasol. Yn ogystal, ymgysylltwyd â 54 o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn yr ardal, dros 24 sesiwn. Mae hyn wedi cynnwys penaethiaid ysgolion, ymgysylltwyr â theuluoedd, arweinwyr pantrïoedd bwyd, yr heddlu, aelodau etholedig, arweinwyr ffydd a ffigyrau cymunedol allweddol.<br><br>Mae themâu cyffredin o asedau a heriau wedi'u casglu. Y 5 prif heriau y mae pobl yn eu hwynebu yn y meysydd hyn yw:<br>• Niwroamrywiaeth<br>• Pryderon ieuenctid (e.e. Ysgol Uwchradd Pencoedtre, diffyg adnoddau, addysg wael, trosedd)<br>• Trafnidiaeth – yn enwedig bysus<br>• Tipio anghyfreithlon<br>• Gorbryder/diffyg hyder<br><br>Asedau a grybwyllir yn rheolaidd yw:<br>• Mannau gwyrdd gan gynnwys traethau | • Mae hyb cymunedol disglair Ysgol Oakfield wedi cael cyllid gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin (CFfG) i ddechrau'r broses ymchwil ar gyfer hyb gymunedol ar y safle.<br>• Mae dosbarthiadau technoleg bwyd Ysgol Uwchradd Pencoedtre wedi derbyn cyllid Bwyd y Fro ar gyfer ei ddosbarthiadau cyfnod allweddol 4 ac ADY, gan ganiatáu i genhedlaeth newydd o'r gymuned fagu hyder wrth baratoi prydau iachach.<br>• Mae bws ieuenctid symudol y gwasanaeth ieuenctid wedi derbyn cyllid CFfG i ddarparu gwasanaethau ieuenctid yn uniongyrchol yn ardal Gibbonsdown yn unol â'r hyn y mae'r gymuned ei eisiau.<br>• Mae ardaloedd sbwriel awyr agored wedi eu creu mewn fflatiau tai cymdeithasol yn Gibbonsdown a Court yn dilyn ymgysylltu, lle cafwyd adroddiadau am fflatiau yn storio sbwriel y tu mewn i ardaloedd cymunedol.<br>• Mae rheiliau wedi'u gosod yn Gibbonsdown i wella llwybrau teithio llesol i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn yn dilyn adroddiadau o lwybrau anniogel.<br><br>Bydd camau nesaf y prosiect yn cynnwys ymgysylltu â mwy o ffocws ar themâu penodol sy'n symud ymlaen i gynllunio gweithredu. |

| Yr hyn y buom yn ymgysylltu arno | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| | • Ymgysylltwyr â theuluoedd, Cymunedau am Waith (CaW), tai – aelodau staff cyson<br>• Teimlad o gymuned glos<br><br>Mae'r cam darganfod wedi ysgogi'r gwaith o nodi'r themâu sy'n dod i'r amlwg canlynol.<br>• Iechyd a Lles<br>• Ieuenctid<br>• Cysylltedd<br>• Pobl<br>• Diogelwch<br>• Gwasanaethau<br><br>Mae'r themâu cyffredin hyn wedi'u cysylltu â thystiolaeth ystadegol o adroddiad MALIC 2019 a chyfrifiad 2021 i ysgogi trafodaeth gyda'r Grŵp Llywio BGC, i helpu i benderfynu ar y camau nesaf ar gyfer y prosiect a fydd yn cynnwys ymgysylltu â mwy o ffocws ynghylch themâu penodol, sy'n symud ymlaen at gynllunio gweithredu. | |

**Yr hyn a ddywedodd ein rheoleiddwyr**

| Adolygu | Canfyddiadau | Ein hymateb |
|---|---|---|
| Arolwg Estyn o Wasanaeth Addysg yr Awdurdod Lleol | Roedd y canfyddiadau allweddol yn cynnwys:<br>• At ei gilydd, mae'r awdurdod lleol a Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (CCD) yn cydweithio'n dda i ystyried perfformiad eu hysgolion. Mae swyddogion yn gwneud defnydd defnyddiol o'r wybodaeth hon am les a chanlyniadau disgyblion. Mae dealltwriaeth dda o sawl agwedd ar waith eu hysgolion, er enghraifft presenoldeb a darpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Fodd bynnag, nid oes trosolwg digon clir o ansawdd yr addysgu a'r cynnydd y mae disgyblion yn ei | Er mwyn gwella ansawdd a defnydd gwybodaeth am ddysgu ac addysgu, gan ganolbwyntio'n benodol ar sgiliau (llythrennedd, rhifedd, digidol a Chymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg), mae'r CCD wedi dylunio, datblygu a hyrwyddo cynnig dysgu proffesiynol (DP) rhanbarthol ar gyfer sgiliau i alinio â blaenoriaethau awdurdodau lleol a chenedlaethol, blaenoriaethau gwella ysgolion yn ogystal â thelerau Grant Addysg yr Awdurdod Lleol.<br><br>Ers cyflwyno'r cynnig ym mis Gorffennaf 2024, mae 16 o ysgolion (30% o ysgolion y Fro) |

| Adolygu | Canfyddiadau | Ein hymateb |
|---|---|---|
| | wneud yn eu dysgu ym mhob ysgol, ac mae hyn yn lleihau'r gallu i dargedu adnoddau ar gyfer gwella ysgolion. Nid yw'r awdurdod lleol wedi sicrhau bod CCD yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol yn gyson am yr agweddau hyn ar gyfer pob ysgol.<br>• Mae'r awdurdod lleol yn darparu cefnogaeth gref i'w ysgolion mewn perthynas â chefnogi disgyblion ag ADY ac mae swyddogion wedi gweithio'n dda i gynllunio'n strategol a darparu cymorth i ysgolion baratoi ar gyfer Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) a’r Tribiwnlys Addysg (ADYTA). Yn ogystal, mae'r gefnogaeth i ysgolion wella presenoldeb disgyblion yn effeithiol ar y cyfan.<br>• Mae aelodau, uwch arweinwyr a swyddogion wedi ymrwymo i leihau effaith tlodi ar blant a phobl ifanc ac mae gwaith yn y maes hwn wedi canolbwyntio'n agos ar wella lles, cefnogi teuluoedd a mynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd. Mae gwaith i wella dysgu, cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion sy'n byw mewn cartrefi incwm isel ar gam datblygiad cynnar. Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n effeithiol gyda phobl ifanc ac yn sicrhau bod nifer y rhai nad ydynt yn aros mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, yn isel. Mae'r gwaith hwn yn gryfder arbennig.<br>• Mae gweithio ar draws cyfarwyddiaethau yn gryfder nodedig yng ngwaith yr awdurdod lleol. Mae'r uchelgeisiau cyffredin a chynllunio ar draws cyfarwyddiaethau wedi sicrhau | wedi ymgysylltu â DP ar gyfer Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Mathemateg a Rhifedd, a Digidol. Mae pum ysgol ychwanegol wedi gofyn am gymorth pwrpasol ar gyfer sgiliau (naill ai llythrennedd, rhifedd neu ddigidol). Mae dwy ysgol uwchradd hefyd wedi derbyn cefnogaeth bwrpasol ar arweinyddiaeth strategol sgiliau trawsgwricwlaidd.<br><br>Datblygwyd cyfres o gyfarwyddiadau sgorio i ganiatáu i dimau Partneriaid Gwella ddarparu gwybodaeth o ansawdd uchel i'r ALl am arweinyddiaeth, darpariaeth a dilyniant sgiliau ar lefel ysgol. Yn dilyn y broses derfynol o sicrhau ansawdd a DP, bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i'w defnyddio o fis Medi 2024.<br><br>Fel rhan o fireinio ein ffocws ar brosesau gwerthuso a gwella, cynhaliwyd gweithdy cychwynnol ar ffurf ymchwiliad gwerthfawrogol. Roedd hwn yn canolbwyntio ar nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd, beth yw'r heriau wrth ddangos effaith ein gwaith a nodi atebion posib yn y dyfodol. Rydym bellach yn ymchwilio i arfer gorau i lywio sut rydym yn datblygu ein hymagwedd, a bydd cynigion wedyn yn cael eu cyflwyno i'r tîm rheoli adrannol i'w hystyried a'u blaenoriaethu. |

| Adolygu | Canfyddiadau | Ein hymateb |
|---|---|---|
| | gweithio'n effeithiol ar draws yr holl gyfarwyddiaethau sydd wedi cefnogi gwasanaethau addysg yn dda. Mae hyn wedi helpu'r awdurdod lleol i flaenoriaethu cyllid ar gyfer addysg a gwaith ar y cyd, er enghraifft gweithio gydag adnoddau a gwasanaethau cymdeithasol i ddarparu cefnogaeth gyflawn i ysgolion, plant a phobl ifanc a'u teuluoedd.<br><br>Cafwyd dau argymhelliad:<br>• A1: Atgyfnerthu ffocws prosesau gwerthuso a gwella.<br>• A2: Gwella ansawdd a defnydd gwybodaeth am ddysgu ac addysgu mewn ysgolion er mwyn galluogi'r awdurdod lleol i gyfeirio ei adnoddau at feysydd i'w gwella yn y ffordd orau. | |
| Arolwg Estyn o'r Gwasanaeth Ieuenctid | Roedd y canfyddiadau allweddol yn cynnwys:<br>• Mae gwasanaeth ieuenctid Bro Morgannwg wedi'i seilio'n gryf ar lais pobl ifanc ac ar ddarparu'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i dyfu fel dinasyddion hyderus a gwybodus.<br>• Mae gweledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth, a ysgrifennwyd ar y cyd â phobl ifanc.<br>• Mae ansawdd y gwaith ieuenctid yn gyson uchel. Mae gweithwyr ieuenctid yn glir iawn ynghylch egwyddorion gwaith ieuenctid ac yn adlewyrchu hyn yn eu hymarfer.<br>• Mae cyfuniad priodol o ddarpariaeth gyffredinol a darpariaeth wedi'i thargedu. Mae'r ddarpariaeth yn addasadwy ac ar gael ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae'n ymateb | Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn parhau i gontractio'r URDD i ddarparu ein darpariaeth Gymraeg ar draws y Fro; rydym yn gweithio yn unol â'r CSCA a'r targedau a osodir i ddatblygu'r cyrhaeddiad ehangach. Mae hyfforddiant staff yn cael ei gynnig i uwchsgilio ac mae'n ffurfio rhan o ystod o gyfleoedd ochr yn ochr â Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Mae hon yn strategaeth hirdymor ar gyfer y gwasanaeth. Mae ein contract gyda'r Urdd yn cynnwys pob agwedd ar waith ieuenctid Cymru, mae hyn yn cynnwys clybiau cinio ysgol Saesneg eu hiaith, sesiynau ar ôl ysgol, clwb ieuenctid, gweithgareddau haf a gwyliau, a chefnogaeth ychwanegol un i un. Mae'r holl waith ar y trywydd iawn ac mae tystiolaeth ohono yn adroddiad CSCA.<br><br>Mae hyfforddiant corfforaethol hefyd yn cael ei gynnig i'r holl staff, |

| Adolygu | Canfyddiadau | Ein hymateb |
|---|---|---|
| | i'r galw ac yn caniatáu i'r gwasanaeth ddefnyddio adnoddau'n effeithiol.<br>• Mae cynllunio gwasanaethau, rheoli ansawdd a'r defnydd o ddata yn gadarn. Mae trefniadau diogelu yn briodol. Mae pob aelod o staff yn gymwys ac wedi'i gofrestru'n briodol gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. Mae ethos o ddatblygu a myfyrio parhaus ac ymrwymiad parhaus cryf i ddysgu proffesiynol ar draws y gwasanaeth.<br>• Lle mae cyfleoedd yn bodoli, mae pobl ifanc yn cymryd rhan yn ddefnyddiol yn y gweithgareddau Cymraeg ond yn gyffredinol, nid yw mynediad at weithgareddau Cymraeg yr un mor hygyrch i bobl ifanc o bob rhan o'r Fro. Yn ogystal, mae'r ystod o gyfleoedd i gefnogi staff i wella a defnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg heb eu datblygu ddigon.<br>• Cafwyd un argymhelliad: Datblygu cyfleoedd ar gyfer darpariaeth gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. | ond mae'r nifer sy'n manteisio arno wedi bod yn gyfyngedig. Mae angen ystyried strategaeth ehangach i gefnogi staff i ddatblygu sgiliau Cymraeg i gefnogi darpariaeth yn y dyfodol, gan gydbwyso hyn â'r angen i gyflwyno strategaethau allweddol eraill a Datblygiad Proffesiynol Parhaus i gefnogi'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau. Lle y bo'n bosib, ceisio sicrhau y bydd unrhyw recriwtio yn y dyfodol wedi'i dargedu yn ei ddull o gyflenwi gwasanaethau sy'n cyd-fynd â staff yn cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd sgyrsiau hefyd yn trafod opsiynau sydd ar gael mewn partneriaeth â'r Urdd o gael prentis iaith Gymraeg. |
| Adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Gwasanaeth Cynllunio<br><br>Mae'r adroddiad rheoleiddiol hwn hefyd yn berthnasol i ALl4 | Daeth yr adolygiad o drefniadau llywodraethu Gwasanaeth Cynllunio'r Cyngor i'r casgliad bod y Gwasanaeth wedi'i alinio'n glir â'r amcanion lles corfforaethol, bod ganddo ddiwylliant gwaith cefnogol ac mae'n cefnogi'r Cyngor i gyflawni ei amcanion lles yn effeithiol, ond mae rhai bylchau yn y trefniadau llywodraethu, gan wneud rhai gweithdrefnau'n aneglur.<br>A1: Dylai'r Cyngor gryfhau trefniadau llywodraethu ei Wasanaeth Cynllunio drwy: | Mae adborth gan y Pwyllgor Cynllunio, Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn helpu i lunio'r protocol cynllunio drafft. Bydd hyn yn cael ei ddosbarthu ar gyfer sylwadau pellach ac ar gyfer partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn dilyn yr ymgysylltiad, bydd y Cabinet a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried y protocol, cyn cyfarfod y Cyngor Llawn i'w gymeradwyo. |

| Adolygu | Canfyddiadau | Ein hymateb |
|---|---|---|
| | • Ddatblygu Protocol Cynllunio iaith glir a'i gynnwys yn y cyfansoddiad ac ar dudalen we Gwasanaeth Cynllunio’r Cyngor fel ei fod yn hawdd ei gyrchu gan aelodau a'r cyhoedd. Dylai'r Cyngor sicrhau bod aelodau a swyddogion yn deall ac yn gweithredu yn unol â'r Protocol Cynllunio.<br>• Cytuno ar Gylch Gorchwyl i Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor ddatgan yn glir ei ddiben, ei rôl a'i gyfrifoldebau. Dylai'r Cyngor adolygu'r Cylch Gorchwyl yn rheolaidd.<br>• Ymgymryd â'i adolygiad arfaethedig o'r Cynllun Dirprwyo i sicrhau bod y Pwyllgor Cynllunio yn canolbwyntio ar y ceisiadau cynllunio mwyaf strategol bwysig.<br>• Sicrhau bod ceisiadau cynllunio a gyflwynir gan, neu ar ran, y swyddogion yn y gwasanaeth Cynllunio a'r gwasanaethau ategol yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Cynllunio ac nid dan bwerau a ddirprwywyd i swyddogion er mwyn diogelu rhag unrhyw wrthdaro buddiannau canfyddedig ac i hyrwyddo annibyniaeth a thryloywder.<br><br>A2: Dylai Gwasanaeth Cynllunio'r Cyngor gyflwyno ei fesurau perfformiad a'i dargedau yn glir yn ei gynllun gwasanaeth. | |

**Ein heriau allweddol**

- Mae angen parhau i weithio gyda Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De i fynd i'r afael â heriau wrth ysgogi gwella ysgolion.
- Mae'r galw cynyddol am wasanaethau iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddwl yn drech na'n hadnoddau a'n gallu i ddiwallu anghenion. Mae'r gostyngiad mewn cyllid Grant Dull Gweithredu Ysgol Gyfan gan Lywodraeth Cymru wedi rhwystro cynlluniau i ymestyn y gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion.
- Mae lefelau presenoldeb yn parhau i fod yn faes sy'n peri pryder ar draws ysgolion a chlystyrau penodol o ysgolion. Mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn parhau i fod yn faes ffocws gyda pherfformiad yn cael ei adrodd ar 84.96% yn erbyn targed o 92%.
- Mae gwaharddiadau, yn benodol gwaharddiadau mewn ysgolion uwchradd, yn parhau i fod yn bryder sylweddol gyda pherfformiad (0.09%) yn is na'n targed blynyddol o 0.04%. Mae'r cynnydd mewn gwaharddiadau yn genedlaethol yn broblem ledled Cymru, ar ôl y pandemig. Er bod cyfradd y gwaharddiadau yn isel o'i chymharu ag awdurdodau lleol eraill, mae hyn yn parhau i fod yn faes sy'n peri pryder.
- Mae NEET Blwyddyn 13 wedi cynyddu o 2.46% i 3.59% gyda'r cynnydd mwyaf i'w weld yn y garfan o ddysgwyr sydd â rhwystrau sy'n eu hatal rhag symud ymlaen. Dyma'r nifer uchaf yn y categori hwn ar gyfer ymadawyr blwyddyn 13 ers blynyddoedd lawer yn y Fro.
- Mae'r cynnydd esbonyddol mewn dysgwyr sy'n cyflwyno ADY cymhleth, yn enwedig mewn perthynas â niwroamrywiaeth ac anghenion iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol, yn parhau i effeithio ar allu staff canolog i ddiwallu'r anghenion hynny. Yn ogystal, mae angen parhau i weithio gyda'n darparwyr lleol i sicrhau bod digon o amrywiaeth o ddarpariaeth i ddiwallu anghenion a nodwyd.
- Heriau ariannol sy'n gysylltiedig ag ansicrwydd cyllid dros y flwyddyn i ddod, yn enwedig pan fo nifer o'n gwasanaethau yn ddibynnol ar gyllid grant.
- Mae prinder sgiliau parhaus, pwysau cyflenwi a chost sy'n gysylltiedig â chyfalaf a phrosiectau mawr eraill gan gynnwys y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn dod yn fwyfwy heriol wrth i gyllidebau leihau.
- Mae heriau o ran gwella mynediad at gelf gyhoeddus a digwyddiadau, yn enwedig i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ar sail niwtral o ran cost.
- Mae cael mynediad i ffrydiau cyllido newydd Llywodraeth y DU fel Cronfa Codi'r Gwastad a Chronfa Ffyniant Gyffredin yn gofyn am fewnbwn sylweddol o adnoddau i adeiladu achosion i gael mynediad at y cyllid. Mae hyn yn ddwys o ran amser ac adnoddau, yn enwedig gan fod disgwyl iddynt ddod i ben ddiwedd mis Mawrth 2025 ac nid oes unrhyw gyllid newydd wedi'i nodi.
- Heriau sylweddol o ran adnoddau wrth fodloni'r gofyniad i sefydlu'r Bwrdd Cynllun Hirdymor ar gyfer Trefi a pharatoi Cynllun hirdymor, ac mae'n ofynnol i'r Bwrdd fod ar waith erbyn 1 Ebrill a Chynllun wedi'i lunio erbyn 1 Awst.
- Mae llwyddiant cynlluniau creu lleoedd yn parhau i ddibynnu ar gefnogaeth cymunedau a chyfranogiad gweithredol Cynghorau Tref.
- Mae heriau gydag adnoddau a'r sgiliau sydd eu hangen i fwrw ymlaen â phrosiectau mawr a chefnogi pecynnau cyllid Llywodraeth y DU sydd eisoes wedi'u sicrhau (cyllid sydd wedi'i sicrhau ar gyfer prosiectau adfywio mawr gwerth cyfanswm o £42 miliwn).

**Meysydd i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol**

- Gweithio gyda Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De i sicrhau bod yr oruchwyliaeth ddiweddaraf o ansawdd yr addysgu a chynnydd disgyblion yn targedu adnoddau ar gyfer gwella ysgolion yn effeithiol.
- Cefnogi a herio ysgolion i godi lefelau presenoldeb gyda phwyslais ar y sector uwchradd a darpariaeth arbenigol, tra'n mynd i'r afael ag absenoldeb parhaus a mynd i'r afael ag osgoi'r ysgol ar sail emosiynol ac anghenion dysgwyr agored i niwed.
- Datblygu gallu ysgol gyfan i gwrdd â'r duedd gynyddol o ddysgwyr sy'n cyflwyno anghenion ICEM a chydweithio gyda Llywodraeth Cymru a darparwyr i archwilio cyfleoedd i wella'r gallu i ddarparu ymyriadau therapiwtig a chwnsela i gwrdd â thwf yn y galw.

- Ymgorffori ymagwedd ataliol o leihau cyfraddau gwaharddiadau tymor penodol a pharhaol trwy gefnogi a herio ysgolion yn effeithiol a datblygu dulliau i wella ymyrraeth gynnar.
- Lleihau cyfradd gyffredinol NEET ledled y Fro drwy olrhain dysgwyr sydd mewn perygl yn effeithiol ac ymgorffori strategaethau i sicrhau nodi ac ymyrryd ar gam cynnar.
- Sicrhau digonolrwydd ac amrywiaeth y ddarpariaeth i gwrdd â'r twf mewn dysgwyr sy'n cyflwyno Anghenion Dysgu Ychwanegol cymhleth, yn enwedig mewn perthynas â niwroamrywiaeth ac anghenion iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol.
- Parhau i ganolbwyntio ar fanteisio ar gyllid cyfalaf a refeniw allanol yn effeithiol i gefnogi ein cymunedau a'n busnesau a buddsoddi yn ein hasedau gan ddefnyddio cymorth ariannol ar ffurf Trawsnewid Trefi, Grant Creu Lleoedd a Chynllun Benthyca i dargedu adeiladau gwag ac adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio ddigon yng nghanol ein trefi.
- Symud ymlaen â chynlluniau Creu Lleoedd ar gyfer y 4 prif dref ym Mro Morgannwg i gefnogi twf economaidd a chynaliadwy ein cymunedau.
- Parhau i weithio gyda gweithredwyr Trafnidiaeth Teithwyr a'r Ddinas-ranbarth i gynyddu'r ddarpariaeth gwasanaeth bysus i ateb y galw.
- Bwrw ymlaen â chynlluniau i drawsnewid y Barri yn unol â blaenoriaethau lleol.
- Cynyddu capasiti a sefydlu systemau a strwythurau llywodraethu da o fewn yr Uned Rheoli Prosiectau i gefnogi agenda gydweithredol a chyflawni prosiectau mawr y cyngor.
- Adeiladu ar berthnasoedd da gyda sefydliadau addysg lleol, Consortiwm Canolbarth y De, yn ogystal â darparwyr prentisiaethau annibynnol a chyflogwyr lleol i ehangu’r cynnig Prentisiaethau lleol, gyda ffocws penodol ar bobl ifanc 16-24 oed.

## AMCAN LLES 3: Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned

*Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i gynyddu lles corfforol a meddwl pobl cymaint â phosib i sicrhau eu bod yn ddiogel gartref ac yn y gymuned ac y gallant wneud dewisiadau sy'n cefnogi eu lles cyffredinol. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod pobl yn cael y cyngor, y gofal a'r cymorth angenrheidiol yn ôl yr angen.*

| Camau Gweithredu a Mesurau sy'n cyd-fynd ag Amcan Lles 3 | | STATWS PERFFORMIAD | | | | | | Statws COG cyffredinol ar gyfer Amcan Lles 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Gwyrdd | | Oren | | Coch | | |
| Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu Mesurau [3] |
| 103 | 54 | 100 (97%) | 17 (55%) | 0 (0%) | 4 (13%) | 3 (3%) | 10 (32%) | GWYRDD |

Ein statws perfformiad cyffredinol ar gyfer Amcan Lles 3 yw **DA**. Mae'r dyfarniad hwn yn adlewyrchu'r cynnydd da a wnaed mewn perthynas â chyflawni ymrwymiadau ein Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer y cyfnod.

**Yr hyn a ddywedon ni y byddem yn ei wneud yn ein Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24**

| Yr hyn a ddywedon ni y bydden ni'n ei wneud | Statws Perfformiad |
|---|---|
| 1 Cydlynu ymateb sy'n cefnogi ein trigolion, busnesau, y trydydd sector a staff y Cyngor gydag effaith yr argyfwng costau byw, gan gynnwys mynd i'r afael â thlodi bwyd, tanwydd a mislif drwy waith gydag ysgolion, amrywiaeth o fentrau cymunedol a gweinyddu cynlluniau cyllido. | Gwyrdd |
| 2 Rhoi cyngor, cymorth a gwybodaeth i drigolion ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys tai, dyled, tlodi tanwydd a chostau ynni, budd-daliadau, cyflogaeth a hyfforddiant drwy nifer o wasanaethau gan gynnwys y siop un stop, y Tîm Cyngor Ariannol a'r Tîm Budd-daliadau. | Gwyrdd |
| 3 Gweithredu i amddiffyn y rheini sy'n agored i niwed rhag gweithgareddau benthyca arian anghyfreithlon a sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i ddiogelu defnyddwyr rhag risgiau hylendid bwyd gan gydnabod effaith bosib yr argyfwng costau byw. | Gwyrdd |
| 4 Gweithio mewn partneriaeth â'r Llywodraeth, partneriaid yn y trydydd sector a darparwyr cymorth i ailsefydlu aelwydydd agored i niwed i Fro Morgannwg a darparu'r gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt. | Gwyrdd |
| 5 Gweithio mewn partneriaeth â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i fynd i'r afael â'r annhegwch iechyd, hyrwyddo brechu a sgrinio ac i weithredu'r Cynllun Symud Mwy, Bwyta'n Dda gan ganolbwyntio'n benodol ar gyrraedd pobl yn ein cymunedau mwy difreintiedig. | Gwyrdd |
| 6 Gweithio mewn partneriaeth i hwyluso a hyrwyddo cyfleoedd cynhwysol ar gyfer datblygu chwarae a chwaraeon, hamdden, a gwasanaethau celfyddydau a diwylliannol | Gwyrdd |

[3] Nid oedd statws perfformiad COG yn berthnasol ar gyfer 23 o fesurau gan eu bod naill ai'n sefydlu perfformiad sylfaenol ar gyfer 2023/24 neu nid oedd y data ar gael ar y pryd.

| Yr hyn a ddywedon ni y bydden ni'n ei wneud | Statws Perfformiad |
|---|---|
| gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, hyrwyddo iechyd a lles a meysydd lle cafwyd cyfraddau cyfranogiad isel yn y gorffennol. | |
| 7 Parhau i ehangu'r cynnig gan ein llyfrgelloedd yn eu rôl fel hybiau o fewn y gymuned. | Gwyrdd |
| 8 Cryfhau'r trefniadau partneriaeth presennol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn benodol drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a thrwy weithio drwy Gynghrair y Fro i ddatblygu a gweithredu mwy o fodelau gofal integredig gan gynnwys diwallu anghenion llety. | Gwyrdd |
| 9 Ailffocysu'r ffordd y caiff gofal cartref ei ddarparu i wella llais a rheolaeth yr unigolyn dros ei drefniadau gofal trwy ehangu 'Eich Dewis'. | Gwyrdd |
| 10 Gweithio gydag arweinwyr/partneriaid cymunedol a defnyddio'r profiad a gafwyd drwy'r gwaith yn Llanilltud Fawr i adolygu a thrawsnewid yr ystod o gymorth sydd ar gael i bobl hŷn o fewn eu cymuned. | Gwyrdd |
| 11 Gweithio'n gydgynhyrchiol gyda phlant a'u teuluoedd drwy fodel sy'n seiliedig ar gryfderau i wella canlyniadau ac i wella lles. | Gwyrdd |
| 12 Cyflawni blaenoriaethau'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, gan sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl rhag cael eu hesgeuluso, eu cam-drin a'u hecsploetio. | Gwyrdd |
| 13 Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo a gwella diogelwch cymunedol gan gynnwys blaenoriaethau ar gyfer cydlyniant cymdeithasol cadarnhaol a diogelwch cymunedol gan sicrhau ein bod yn diogelu ac yn cefnogi'r rheini sydd fwyaf agored i niwed gan gynnwys gwaith ar drais domestig, trais rhywiol a thrais difrifol. | Gwyrdd |
| 14 Gweithio gyda phartneriaid i weithredu Cynllun Gweithredu Ôl-arolwg y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i wella canlyniadau pobl ifanc. | Gwyrdd |
| 15 Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gaffael ac adeiladu tai cyngor gan gynnwys 138 o gartrefi Cyngor newydd ar chwe safle ledled y Fro. | Gwyrdd |
| 16 Gweithredu Strategaeth Dai Leol i fynd i'r afael â'r angen tai cyfredol ac arfaethedig ac i gynyddu nifer y tai hygyrch a fforddiadwy o ansawdd da sydd ar gael. | Gwyrdd |
| 17 Creu Strategaeth Tai Pobl Hŷn i sicrhau'r ansawdd bywyd gorau ar gyfer pobl hŷn sy'n byw yn y Fro a galluogi pobl hŷn i fyw mor annibynnol ag sy'n bosib yn ddiweddarach yn eu bywyd. | Gwyrdd |
| 18 Gweithio gyda phartneriaid i atal a lleihau digartrefedd a darparu cymorth tai a chymorth cysylltiedig gan gynnwys manteisio i'r eithaf ar y Grant Atal Digartrefedd i gynnal tenantiaethau, ehangu'r cyflenwad llety dros dro a lleihau'r defnydd o lety gwely a brecwast. | Gwyrdd |

**Ein cyflawniadau**

**1. Cydlynu ymateb sy'n cefnogi ein trigolion, busnesau, y trydydd sector a staff y Cyngor gydag effaith yr argyfwng costau byw, gan gynnwys mynd i'r afael â thlodi bwyd, tanwydd a mislif drwy waith gydag ysgolion, amrywiaeth o fentrau cymunedol a gweinyddu cynlluniau cyllido.**

- Sefydlwyd cronfa costau byw gwerth **£854,000** i ariannu gwaith i leddfu pwysau'r argyfwng costau byw, gan gynnwys cefnogi mannau cynnes presennol a chreu mannau newydd ar draws y Fro.
- Cefnogwyd dros **700** o oedolion drwy CELT+ (prosiect cyflogadwyedd) a'r gwasanaeth Pod i geisio cyflogaeth. Gweithiodd mentoriaid cyflogaeth gyda **95 o bobl ifanc** gyda **13** yn cael mynediad at gyflogaeth â chymorth.
- Gwnaeth **31** o sefydliadau cymorth cymunedol, gan gynnwys **14** o ysgolion, fanteisio ar grant costau byw'r Cyngor, sy'n dod i gyfanswm o **£25,000.**
- Cafwyd ychydig dan **£4 miliwn** o gyllid Ffyniant Gyffredin i gefnogi prosiectau ar draws y Fro sy'n darparu ystod o wasanaethau i bobl ifanc fel gweithgareddau hamdden gan gynnwys llogi beiciau, parciau sglefrio

a mannau gwyrdd gwell, yn ogystal â'r rhaglen mynd i’r afael ag Amddifadedd a Thlodi y BGC a chynllun grant GGM, sy'n cefnogi sefydliadau cymunedol a'n cymunedau sydd fwyaf mewn angen.

- Ymgysylltwyd â **571** o bobl yn erbyn proffil o **450** a chyflawnwyd 120 o geisiadau am swyddi a 57 o ganlyniadau hyfforddiant a gyflawnwyd drwy'r fenter Cymunedau am Waith (CaW+).
- Cydweithiwyd â **Bwyd y Fro** a'r **Bwrdd Iechyd Prifysgol** i arolygu ysgolion y Fro i ddeall yr awydd i dyfu'n lleol ar dir ysgolion, cyfleoedd i ariannu gweithgareddau sy'n gysylltiedig â choginio mewn cymunedau, a deall a mynd i'r afael â thlodi bwyd, yn enwedig yng ngorllewin y Fro.
- Mae **dros 90%** o ddisgyblion ysgolion babanod wedi derbyn Pryd Ysgol am Ddim i Ysgolion Cynradd ers ei lansio ym mis Medi 2022, y nifer uchaf o blith holl awdurdodau lleol Cymru.
- Mae **3,118** o Grantiau Hanfodion Ysgol wedi'u dyfarnu i helpu teuluoedd sydd ar incwm isel i brynu gwisg ysgol, cit chwaraeon, gwisg ar gyfer gweithgareddau cyfoethogi, bagiau ysgol a deunydd ysgrifennu.
- Mae cymorth cyflogadwyedd ar gael mewn **11** o leoliadau gwahanol yn y Fro i sicrhau allgymorth i bobl yn y gymuned. Mae'r lleoliadau'n cynnwys The Gathering Place yn Sain Tathan, CF61 yn Llanilltud Fawr, Hyb Cymunedol Castleland, a hyb cymunedol Buttrills yn y Barri.
- Hyrwyddwyd **tudalennau gwe costau byw** yn rhagweithiol, sy'n cyfeirio dinasyddion at wybodaeth am gymorth a chefnogaeth sydd ar gael i breswylwyr drwy wasanaethau'r Cyngor a sefydliadau ehangach gan gynnwys cymorth gyda biliau, help gyda bwyd, dod o hyd i gyflogaeth, help gyda’r perygl o ddigartrefedd, ac iechyd a lles. Mae'r tudalennau gwe wedi cael eu hadolygu ac wedi derbyn bron **33,000** o ymweliadau eleni.
- Llwyddwyd i sicrhau cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru sydd wedi ymestyn gwaith yng **Nghymuned Ddysgu Pencoedtre** i drechu tlodi drwy Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd a Rheolwr Ysgolion Bro, gan arwain at effaith gadarnhaol ar bresenoldeb yn yr ysgol a mwy o ymgysylltu â theuluoedd a’r gymuned.
- Cynorthwywyd **8,977** o breswylwyr gyda'u tâl Treth Gyngor drwy'r Cynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor gyda bron **£11.532 miliwn** wedi’i dalu yn 2023/24.
- Gwnaeth **44** o sefydliadau gynnig dros **70** o gyfleoedd gwirfoddoli gwahanol sydd o fudd i wirfoddolwyr a busnesau lleol fel rhan o'r cynllun Gwerth yn y Fro. Dywedodd **100%** o’r gwirfoddolwyr a holwyd eu bod yn hapus gyda'u lleoliad gwirfoddoli.
- Darparwyd byrbrydau iach am ddim mewn **90** o sesiynau Cynllun Chwarae a/neu sesiynau Ceidwaid Chwarae Mynediad Agored am ddim ar draws pob gwyliau ysgol gyda **2,035** o gyfranogiadau wedi’u cofnodi, gan sicrhau mynediad at fwyd iach yn ystod gwyliau.
- Darparwyd **53** o sesiynau chwarae am ddim mewn lleoliadau cymunedol awyr agored ar ôl ysgol neu ar benwythnosau yn ystod y tymor trwy giwbiau chwarae gyda **732** o gyfranogiadau. Darparwyd cyfleoedd chwarae am ddim pellach mewn partneriaeth â Dechrau'n Deg, Maethu a Mabwysiadu, Llyfrgell Dinas Powys, Cyngor Tref a Chlwb Rotari’r Barri am 7 diwrnod llawn hwyl i'r teulu, gyda **1,500** o gyfranogiadau yn cynnwys **1,000** o deuluoedd.
- Mae Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn cyfeirio'n benodol at **randiroedd** i annog pobl i dyfu eu bwyd eu hunain mewn ymateb i'r argyfwng costau byw.
- Cyflwynwyd a hyrwyddwyd **Cynllun Ysgolion Sy'n Dda i Chwarae** gyda **21** o ysgolion cynradd eisoes wedi mynegi diddordeb yn y cynllun. Mae pedair ysgol, Ysgol Gynradd y Santes Helen, y Stryd Fawr, Colcot a Jenner Park yn cael eu datblygu'n gynllun peilot a gefnogir gan gyllid Llywodraeth Cymru. Hefyd, hyrwyddwyd y **cynllun Strydoedd Chwarae** gyda 2 stryd yn y Barri yn llwyddo i redeg cynllun peilot am flwyddyn. Nod y ddau gynllun yw cynyddu chwarae cost isel/am ddim yn y gymuned i blant.
- Targedwyd cefnogaeth ychwanegol gwerth **£220,000** i deuluoedd â phlant ar Brydau Ysgol am Ddim yn ystod Gwyliau Haf yr Ysgol.
- Cymerodd **631** o bobl ran mewn gweithgareddau blasu i oedolion yn ystod yr haf gyda **400** pellach yn cymryd rhan mewn sesiynau blasu mewn 28 o ddigwyddiadau.
- **Mae pob lleoliad Gwasanaeth Ieuenctid yn hybiau cynnes a diogel,** sy’n darparu amrywiaeth o weithgareddau yn seiliedig ar fyw'n iach sy'n darparu diodydd a bwyd cynnes, ac mae gweithgareddau a sesiynau am ddim, heb unrhyw gost i unrhyw berson ifanc sy'n mynychu unrhyw glybiau mynediad agored. Darperir nwyddau hylendid a chynhyrchion urddas mislif hefyd ym mhob clwb.

- Sefydlwyd **61** o Fannau Casglu Cynhyrchion Urddas Mislif mewn lleoliadau cymunedol ar draws Bro Morgannwg gan gynnwys mewn Llyfrgelloedd, Canolfannau Dinesig, Canolfannau Hamdden, Banciau Bwyd, Campfeydd, Hosteli, Canolfannau Ieuenctid, Canolfannau Teulu a Chanolfannau Dydd. Mae pob ysgol wedi cael mynediad at sesiynau ymwybyddiaeth gyda thros **2,000** o fagiau ar gael i ddisgyblion ysgol.
- Gwnaeth tair ysgol gyflwyno'r **Cynllun Bwyd a Hwyl** gan dargedu plant a phobl ifanc agored i niwed dros wyliau'r haf i roi mynediad iddynt at weithgareddau corfforol am ddim, bwyd iach yn ogystal â chyngor bwyta'n iach, gyda chyfradd presenoldeb cyfartalog o **77%**.
- Sefydlwyd **Gweithgor Diogelwch Bwyd y Fro drwy Bwyd y Fro**, gan ddod â darparwyr cymorth bwyd lleol ynghyd i rannu dysgu, mynd i'r afael â phroblemau sy'n dod i'r amlwg, a nodi cyfleoedd i gydweithio i fynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd. Cydgynhyrchwyd Strategaeth Fwyd Leol ddrafft gyda thyfwyr lleol, gwerthwyr bwyd lleol, aelodau o'r gymuned a darparwyr cymorth bwyd.
- Mae cyllid gwerth **dros £100,000** Llywodraeth Cymru wedi cefnogi partneriaethau bwyd presennol fel Prosiect Bwyd Llanilltud Fawr, Banc Bwyd y Fro, Big Bocs Bwyd, Pod Bwyd Penarth a phrosiectau newydd fel Hyb Bwyd y Wig a Pantri Rhannu Bwyd yn Sain Tathan gan wella ymhellach y gefnogaeth i'n cymunedau. Dosbarthwyd dros 8,660 o barseli bwyd yn ystod y flwyddyn.
- Gwnaeth bron **100** o aelodau staff fanteisio ar gymorth a hyfforddiant lles ariannol fel rhan o becyn o fesurau cymorth costau byw ar gyfer gweithwyr.

**2. Rhoi cyngor, cymorth a gwybodaeth i drigolion ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys tai, dyled, tlodi tanwydd a chostau ynni, budd-daliadau, cyflogaeth a hyfforddiant drwy nifer o wasanaethau gan gynnwys y siop un stop, y Tîm Cyngor Ariannol a'r Tîm Budd-daliadau.**

- Mae’r **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd** wedi cyflawni'r **Wobr Ansawdd Teuluoedd yn Gyntaf**, gan gydnabod yr wybodaeth, y cyngor a'r cymorth rhagorol a ddarperir i deuluoedd. Roedd bron 100% o ddefnyddwyr y gwasanaeth yn fodlon â'r gwasanaethau a ddarparwyd.
- Derbyniodd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd dros **1,420** o ymholiadau mewn perthynas â materion gofal plant gyda 76% o'r rhain gan rieni a gofalwyr a'r 14% sy'n weddill gan ddarparwyr gofal plant a gweithwyr proffesiynol eraill. Yn ogystal, derbyniodd tudalennau gwe ar faterion gofal plant bron **40,000** o ymweliadau. Roedd **91%** o'r farn bod eu profiad yn ardderchog neu’n dda iawn. Dywedodd **86%** bod cymorth, cyngor neu wybodaeth a ddarparwyd yn ddefnyddiol iawn neu'n ddefnyddiol.
- Cofrestrwyd **153** o blant ar y Mynegai ar gyfer Plant ag Anableddau neu Anghenion Ychwanegol a hyrwyddwyd gwasanaethau yn y gymuned i rieni, gwarcheidwaid a gofalwyr.
- Mae pob tenant newydd yn cael apwyntiad wyneb yn wyneb gydag **Ymgynghorydd Ariannol** i sicrhau bod budd-daliadau priodol yn cael eu hawlio i dalu costau tai.
- Darparodd y Siop Un Stop ar Heol Holltwn fynediad ar unwaith at gyngor a chefnogaeth a chynorthwyodd **773** o bobl ag ymyriadau byr, â ffocws yn ystod y flwyddyn gyda chyfartaledd o 24 diwrnod, mewn amser, yn cael eu treulio ar dderbyn cymorth.
- Gweithredu'r **System Refernet** i wella atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth Cyngor ar Bopeth ac oddi wrtho, a/neu asiantaethau eraill.
- Codwyd ymwybyddiaeth o fenthyca arian yn anghyfreithlon a chefnogwyd **25 o ddioddefwyr** benthycwyr arian didrwydded.
- Hyrwyddwyd y gefnogaeth sydd ar gael yn rhagweithiol i drigolion y Fro drwy'r cwmni ynni E.On, i gefnogi aelwydydd mewn cartrefi sydd wedi'u hinswleiddio'n wael i'w gwneud yn fwy ynni-effeithlon a lleihau effaith biliau cynyddol. Mae **25** o geisiadau ECO4 Flex wedi'u cymeradwyo hyd yn hyn. Hefyd**,** mae **8** o aelwydydd wedi manteisio ar y cynnig o fenthyciadau tai di-log i wneud eu heiddo yn fwy ynni-effeithlon.
- Cafodd **dros 880** o bobl fynediad at wasanaeth cynghori'r lluoedd arfog/cyn-filwyr a rhoddwyd cyngor iddynt a'u cyfeirio at wasanaethau perthnasol y cyngor a chael cymorth wedi'i deilwra, **roedd 330 ohonynt yn ymholiadau yn ymwneud yn benodol â chyllid a budd-daliadau.** Mae'r Gwasanaeth wedi

derbyn 3,244 o atgyfeiriadau, a 4,889 o ymholiadau, yr oedd 1,262 ohonynt yn ymholiadau yn ymwneud â chyllid a budd-daliadau ers 2019.

**3. Gweithredu i amddiffyn y rheini sy'n agored i niwed rhag gweithgareddau benthyca arian anghyfreithlon a sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i ddiogelu defnyddwyr rhag risgiau hylendid bwyd gan gydnabod effaith bosib yr argyfwng costau byw.**

- Cefnogwyd **25** o ddioddefwyr benthyca arian anghyfreithlon yn ystod y flwyddyn. Darparwyd hyfforddiant ar fenthyca arian yn anghyfreithlon i **21** o wahanol sefydliadau sy'n hyfforddi dros **500** o bobl. Yn ychwanegol, cynhaliwyd **13** o ddigwyddiadau cyhoeddus i godi ymwybyddiaeth o fenthycwyr arian didrwydded.
- Cafodd **90%** o’r sgamiau / troseddau wrth garreg y drws a adroddwyd amdanynt eu hatal neu eu datrys trwy ymyrryd. Ymdriniwyd â **151** o droseddau ar garreg y drws a **185** o sgamiau yn ystod y flwyddyn.
- Cyflawnodd bron **97%** (1,205) o sefydliadau bwyd y Fro sgôr hylendid bwyd o 3, gyda pherfformiad yn uwch na chyfartaledd y DU.
- Fel rhan o waith ataliol, ymwelwyd â meddygfeydd ar draws y Fro i **godi ymwybyddiaeth o sut i adnabod sgamiau a throseddu ar garreg y drws**, a sut i adrodd am y rhain ar gyfer cymorth ac ymchwilio a darparwyd hyfforddiant i wirfoddolwyr Fforwm 50+ ar yr un materion.
- Archwiliwyd **100%** (383) o safleoedd bwyd risg uchel yn ystod y flwyddyn.
- Gwnaed yn iawn am bron **97%** (82) o’r camweddau sylweddol drwy ymyrraeth o ran Safonau Masnach yn ystod y flwyddyn.
- Arweiniodd **100%** (2) o ymchwiliadau penodol yn ymwneud â throseddau twyll fasnachwyr at erlyniadau llwyddiannus.

**4. Gweithio mewn partneriaeth â'r Llywodraeth, partneriaid yn y trydydd sector a darparwyr cymorth i ailsefydlu aelwydydd agored i niwed i Fro Morgannwg a darparu'r gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt.**

- Mae aelwydydd ffoaduriaid yn parhau i gael eu cefnogi i ymgartrefu i gartrefi newydd ar draws y Fro.
- Mae cynllun **90** uned o lety modiwlar bron â chael ei gwblhau ar hen safle ysgol Eagleswell, Llanilltud Fawr, a bydd yn darparu llety i aelwydydd o Wcráin y bu’n rhaid iddynt ffoi o'r rhyfel yn Wcráin.
- Cefnogwyd **185** o unigolion o Wcráin ar draws Bro Morgannwg.
- Cefnogwyd **144** o bobl ar draws cynlluniau adsefydlu eraill.

**5. Gweithio mewn partneriaeth â’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i fynd i’r afael â’r annhegwch iechyd, hyrwyddo brechu a sgrinio ac i weithredu'r Cynllun Symud Mwy, Bwyta'n Dda gan ganolbwyntio'n benodol ar gyrraedd pobl yn ein cymunedau mwy difreintiedig.**

- Gweithiwyd mewn partneriaeth i hyrwyddo a chefnogi lleoliadau gofal plant a blynyddoedd cynnar i gyflawni **achrediad Gwobr Byrbrydau Iach Safon Aur** fel rhan o agenda Symud Mwy Bwyta'n Iach.
- Cyflwynwyd **cynllun talebau Cychwyn Iach**, nifer o **brosiectau ansicrwydd bwyd**, a'r **cynllun cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy** fel rhan o'r cynllun Symud Mwy Bwyta'n Iach.
- Gweithiwyd mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd i **hyrwyddo negeseuon allweddol yn ymwneud ag iechyd** e.e. brechiad MMR, darparu bwyd doeth mewn sesiynau beichiogrwydd, sesiynau Rhoi Cynnig ar Goginio a NYLO a'r rhaglen atgyfeirio ymarfer corff cenedlaethol Heneiddio'n Dda.
- Mae’r **Uwch Weithiwr Datblygu Cymunedol** sy'n gwneud gwaith yn ein hardaloedd â'r amddifadedd mwyaf wedi gweithio'n agos gyda Thîm Imiwneiddio'r BIP **i gysylltu ag ysgolion a chymunedau a darparu gwybodaeth am imiwneiddiadau plentyndod.**
- Gweithiwyd fel rhan o Fwrdd Cynyddu Gwaith Atal Caerdydd a'r Fro i **hyrwyddo negeseuon iechyd cyhoeddus allweddol mewn ardaloedd lle mae'r nifer sy'n cael eu sgrinio a’u himiwneiddio yn isel.**

**6. Gweithio mewn partneriaeth i hwyluso a hyrwyddo cyfleoedd cynhwysol ar gyfer datblygu chwarae a chwaraeon, hamdden, a gwasanaethau celfyddydau a diwylliannol gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, hyrwyddo iechyd a lles a meysydd lle cafwyd cyfraddau cyfranogiad isel yn y gorffennol.**

- Roedd 268 o bartneriaid yn rhan o gyflwyno rhaglen o weithgareddau cynhwysol ar draws y Fro gyda ffocws ar gynyddu cyfranogiad mewn hamdden, chwarae a gweithgarwch corfforol.
- Cafwyd dros **42,500** o gyfranogiadau yn y **Rhaglen Pobl Ifanc Actif** gan weithio gyda **133** o sefydliadau. Hefyd, gwnaeth **26** o ysgolion elwa o bron **£19,000** o gyllid Pobl Ifanc Actif i gefnogi clybiau gweithgarwch corfforol allgyrsiol newydd mewn ymateb i ymgynghoriad dan arweiniad disgyblion.
- Gwnaeth **87%** (39) o ysgolion cynradd a **100%** (8) o ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig gymryd rhan yn y cynllun **Ysgolion Actif** gyda thros **25,047** o gyfranogiadau mewn dros **1,105** o sesiynau a ddarparwyd gydag ysgolion a thrwy gysylltiadau rhwng ysgolion a chlybiau gydag amrywiaeth o glybiau a hyfforddwyr cymunedol.
- Gwnaeth **31** o glybiau elwa o **£256,389** o gylid **grant Bod yn Actif** gyda thros **3,650** o blant yn cymryd rhan mewn heriau sylfaenol gan gynnwys y Filltir Ddyddiol a sgiliau sylfaen i fod yn weithgar am oes; cymerodd **140** o bobl ifanc ran mewn digwyddiadau lle roeddent yn cymryd drosodd mewn canolfannau hamdden i arddangos y cyfleoedd sydd ar gael yn y canolfannau; cafwyd **2,529** o gyfranogiadau mewn sesiynau ffitrwydd awyr agored ieuenctid; manteisiodd **49** o bobl ifanc ar gynllun Energise YOUth gan dargedu plant a phobl ifanc 11-18 oed sy'n lleiaf gweithgar; roedd **60** o bobl ifanc yn bresennol mewn **38** o sesiynau prosiect pêl-droed Kicks yn Nhregatwg a llawer mwy.
- Roedd y defnydd o'n canolfannau hamdden yn uwch na'r lefelau cyn COVID-19 am y tro cyntaf ers y pandemig gyda thros **741,500** o ymweliadau yn ystod y flwyddyn.
- Hyrwyddwyd cyfleoedd cynhwysol yn rhagweithiol ar gyfer cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn ein canolfannau hamdden trwy amrywiaeth o gyfryngau, gyda'r wefan yn derbyn bron **750,00** o ymweliadau ac yn cyrraedd **3.37 miliwn** o bobl ar Instagram a Facebook.
- Fel rhan o'r **Cynllun Dysgu Gweithredol**, roedd **501** o unigolion yn bresennol ar **64** o wahanol gyrsiau sy'n dod i gyfanswm o **2,502** o oriau hyfforddi, gan ddysgu sgiliau newydd iddynt i drefnu a darparu cyfleoedd chwaraeon a gweithgaredd corfforol deniadol a chynhwysol. Mae hyn wedi cyfrannu **3,432** o oriau gwirfoddol ychwanegol a effeithiodd yn gadarnhaol ar filoedd o sesiynau a thros **26,100** o gyfranogiadau.
- Targedwyd anghydraddoldeb drwy brosiectau sy'n darparu bagiau **benthyg offer** o fewn podiau bwyd a llyfrgelloedd. Roedd hyn yn cynnwys **cyfleoedd i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau**.
- Cymerodd **1,352** o blant ran mewn **7** o ddigwyddiadau aml-chwaraeon cynradd a gynhaliwyd ar draws tair ardal glwstwr wahanol, gan ymateb i wella cysylltiadau rhwng ysgolion a chlybiau, hyrwyddo cyfleoedd a thargedu'r rhai lleiaf actif. Gwnaeth **50%** o holl ysgolion cynradd y Fro gymryd rhan.
- Darparwyd hyfforddiant i **34** o aelodau staff cyn-ysgol a gwarchodwyr plant o **15** o sefydliadau i'w galluogi i gefnogi eu defnyddwyr gwasanaeth i ddod yn actif yn gorfforol, gan gael effaith gadarnhaol ar dros **300** o bobl. Dywedodd **100%** ohonynt fod ganddynt fwy o hyder i gefnogi plant a'u teuluoedd i fod yn fwy actif.
- Cymerodd dros **5,500** o drigolion ran yn ein rhaglen beilot cymunedau actif trwy ein canolfannau hamdden.
- Darparwyd **cyfleoedd i wella lles meddyliol a chorfforol** preswylwyr drwy gynnal a hyrwyddo mentrau gan gynnwys y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff, Adsefydlu Cardiaidd a Strôc, Gordewdra.
- Cydweithiwyd ar ddarparu **amrywiaeth eang o weithgareddau heneiddio'n dda** i'r holl breswylwyr gan gynnwys Tocyn Aur, pêl-droed dan gerdded, pêl-rwyd dan gerdded, badminton ar gyfer y pobl hŷn, Pêl Picl, nofio rhatach, nofio am ddim i bobl sy'n 60 oed ac yn hŷn, hybiau iechyd cyhyrysgerbydol ar gyfer demograffig sy'n heneiddio (boreau coffi Hwb Da, ESCAPEpain, prosiect cynllun byw annibynnol 60+, ac Arthritis Action) ac mae'r cynlluniau hyn wedi cael derbyniad cadarnhaol.
- Cyflwynwyd **rhaglen gytbwys o weithgareddau sy'n targedu plant a phobl ifanc**, yn enwedig grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i gynyddu cyfranogiad gan gynnwys Pobl Ifanc Energise YOUth, dysgu nofio, Gwersylloedd Gwyliau, Gwersylloedd Hyfforddi Awyr Agored, Cyrsiau Chwaraeon, Kicks Caerdydd, Campfa

Iau, Partïon, rhaglenni nofio i'r teulu, sesiynau offer pwmpiadwy, aml-chwaraeon, Rhaglen Athletwyr Addawol, a’r cynllun Rookie Lifeguard.

- Gwnaeth **dros 3,500** o bobl gymryd **tocyn hamdden 3 diwrnod am ddim** i gael mynediad i'n canolfannau hamdden a rhoi cynnig ar weithgareddau a'n cyfleusterau fel rhan o gynnig parhaus i ddarparu cyfleoedd fforddiadwy i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chwaraeon.
- Cynigwyd rhagor o gyfleoedd drwy'r **Cynllun Hamdden Actif 60+** gyda **222** o drigolion yn cael eu gwobrwyo â **Thocyn Aur** ers iddo gael ei ail-lansio ym mis Awst 2023. Cwblhaodd **72%** o’r cyfranogwyr o leiaf 8 sesiwn ar y Tocyn Aur. Roedd **92%** o gyfranogwyr a ddefnyddiodd eu cynllun Tocyn Aur yn bwriadu parhau i fynd i sesiwn neu weithgaredd corfforol arall, nododd **64%** o'r cyfranogwyr a gwblhaodd y rhaglen gynnydd mewn hyder wrth gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol a nododd **54%** o’r cyfranogwyr a gwblhaodd y rhaglen gynnydd mewn cysylltiadau cymdeithasol. Adroddodd **83%** o'r cyfranogwyr a gwblhaodd yr arolwg fod ganddynt rhyw fath o anabledd, cyflwr iechyd neu amhariad.
- Darparwyd **90** o sesiynau cynllun chwarae a sesiynau Ceidwaid Chwarae mynediad agored am ddim yn ystod pob gwyliau ysgol a chofnodwyd **dros 2,000** o gyfranogiadau.
- Darparodd gwaith wedi'i dargedu gan y Tîm Byw'n Iach yn ein cymunedau â'r amddifadedd mwyaf a lleiaf gweithgar **134** o sesiynau chwaraeon/gweithgaredd corfforol am ddim sy'n effeithio ar **699** o blant. Roedd **87%** o’r cyfranogwyr yn teimlo'n fwy cymhellol a hyderus i gymryd rhan mewn gweithgareddau a nododd **60%** eu bod am ymuno â chlybiau lleol a pharhau â'u gweithgareddau.
- Hyrwyddwyd cyfleoedd yn rhagweithiol i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, chwaraeon a chorfforol yn ein canolfannau hamdden gan gynyddu cyfanswm ein cyrhaeddiad i **bron 3.4 miliwn** ar Instagram a Facebook a **741.6K** o ymweliadau pellach i’r wefan.
- Cynyddwyd yr aelodaeth i dros **5,500** o aelodau ffitrwydd bob mis yn ein canolfannau hamdden. Ar gyfartaledd, gwnaeth **2,502** o gwsmeriaid yr wythnos gymryd rhan mewn gwersi nofio ac roedd 102,658 pellach yn bresennol mewn ddosbarthiadau ffitrwydd yn ein canolfannau hamdden, yn ystod y flwyddyn.
- Gwnaed **1,380** o atgyfeiriadau gan weithwyr meddygol proffesiynol i gynllun cenedlaethol i atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff y Cyngor gyda bron hanner **(678)** o'r rheini sy'n bodloni'r meini prawf yn bresennol mewn asesiad cychwynnol. Aeth **571** (84%) i’w sesiwn ymarfer corff cyntaf gyda **219** (38.4%) yn cwblhau’r cynllun. Mae bron 1,100% o'r rheini sydd wedi cwblhau'r cynllun yn dal i wneud ymarfer corff gyda **87%** yn cynyddu eu lefelau gweithgaredd.
- Mae'r Pafiliwn yn parhau â'i berthynas lwyddiannus gyda'r Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru gyda digwyddiadau yn denu cynulleidfa o **1,254** i'r Pafiliwn.
- Darparwyd gwell **cyfleusterau cymunedol i breswylwyr sy'n defnyddio cyfraniadau A106** gan gynnwys offer ffitrwydd awyr agored newydd ac offer ffitrwydd sydd wedi’i adnewyddu a ffensys cwrt tennis newydd yn Station Road East, offer ffitrwydd awyr agored newydd yn Lougher Place, Sain Tathan, plannu coed newydd, bylbiau a blodau gwyllt ym Mharc Celtic Way, y Rhws a gosodwyd offer chwarae newydd yn ardal chwarae Drylla, Dinas Powys.
- Helpodd **cyfraniadau A106 ddarparu celf gyhoeddus newydd** i drigolion ac ymwelwyr fwynhau gan gynnwys murluniau newydd yng Ngerddi Gladstone Isaf ac Uchaf, y Barri, gosodwyd ffenestri gwydr lliw newydd yn hen Eglwys Sant Paul, Penarth, cwblhawyd gardd gymunedol gelf tirwedd 'Bee Hapus' yn natblygiad Heritage Gate, Llanilltud Fawr a gosodwyd celf gyhoeddus newydd yng Ngerddi Clare, y Bont-faen.
- Creodd **celf gyhoeddus a digwyddiadau diwylliannol y Pafiliwn £32,000** o incwm ac mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu gweithrediad a chynaliadwyedd gwasanaeth y celfyddydau.
- Mae'r Rhwydwaith Digwyddiadau yn parhau i ffynnu gydag **offer digwyddiadau am ddim ar gael i gefnogi'r holl ddigwyddiadau** yn y Fro fel rhan o galendr o ddigwyddiadau blynyddol i gynyddu nifer yr ymwelwyr mewn trefi ym Mro Morgannwg.
- Ers mis Rhagfyr 2023 gwnaeth **dros 100 o geisiadau ffilmio** greu bron **£50,000** o incwm i'r Cyngor, y bydd 20% ohono'n cael ei ail-fuddsoddi mewn gweithgareddau Twristiaeth a Digwyddiadau yn y dyfodol. Mae porth Ffilmio newydd wedi'i ddatblygu fel rhan o wefan Ymweld â’r Fro www.filminthevale.com.

**7. Parhau i ehangu'r cynnig gan ein llyfrgelloedd yn eu rôl fel hybiau o fewn y gymuned.**

- Cafwyd **468,671** o ymweliadau corfforol â'n llyfrgelloedd a **107,836** o ymweliadau rhithwir.
- Cynyddwyd ein cynnig lles mewn llyfrgelloedd gyda **4,559** o weithgareddau/digwyddiadau yn denu **71,682** o gyfranogwyr. Cafodd **10,611** o bobl ychwanegol fynediad at sesiynau cyngor a chefnogaeth.
- Cefnogwyd **247** o wirfoddolwyr i gyflwyno **20,176** o oriau drwy lyfrgelloedd y gymuned a'r awdurdodau lleol.
- Fel rhan o'r gwaith o gefnogi llythrennedd cynnar a chreadigrwydd, cynhaliodd ein llyfrgelloedd **2,049** o ddigwyddiadau i blant yr oedd **28,219** o blant a phobl ifanc yn bresennol ynddynt. Hefyd, roedd **8,645** o ddisgyblion y Fro yn bresennol mewn **335** o sesiynau ymweliadau ysgol.
- Hyrwyddwyd ein hasedau fel **mannau dysgu cymunedol** gan gynnig ystod eang o gyfleoedd, wedi'u llywio gan ymgysylltu helaeth mewn digwyddiadau blasu a digwyddiadau eraill i ddiwallu anghenion lleol.
- Cydweithiwyd â phartneriaid i gyflawni **amrywiaeth eang o weithgareddau newydd yn ein llyfrgelloedd** gan gynnwys Clwb Jig-so a Chlwb Bwydo ar y Fron yn Llyfrgell y Barri, dosbarth Sgwrsio Ffrangeg yn Llyfrgell Llanilltud Fawr, Llyfrgell y Rhws yn cynnal Grŵp Menopos misol, Llyfrgell y Bont-faen yn cynnal sgyrsiau gyda dau awdur llwyddiannus gyda Huw Thomas a Louise Mumford a Dinas yn cynnal sesiynau Ta'i Chi a llawer mwy.
- **Cynyddwyd yr ystod o gyfleoedd dysgu** ar gael drwy ddarparu **rhaglen ddysgu helaeth, rhaglen sgiliau a chyflogadwyedd** a **rhaglen sgiliau digidol**. Cyflawnwyd **357** o sesiynau digidol 1 i 1 ar draws ein llyfrgelloedd a darparwyd cefnogaeth i **318** o breswylwyr trwy wasanaeth galw heibio digidol.
- Cynhaliwyd **2,198** o ddigwyddiadau sy'n dda i bobl hŷn ar draws ein llyfrgelloedd gyda **22,048** o bobl yn bresennol.
- Gwnaeth gwirfoddolwyr ein gwasanaeth llyfrgell cartref **416** o ymweliadau cartref â phreswylwyr na allant gyrraedd eu llyfrgell leol mwyach a darparwyd detholiad o lyfrau ar sail benthyca am dri mis i **6** o gartrefi gofal.
- Mewn ymateb i bryderon gan drigolion a busnesau bach lleol ar effaith cau banciau'r stryd fawr leol, gwnaethom **dreialu hyb bancio yn ein llyfrgelloedd ym Mhenarth a'r Barri** sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn ac rydym yn gweithio gyda phartneriaid bancio eraill i archwilio cyfleoedd i ehangu hyn i ragor o lyfrgelloedd.
- Cymerodd **1,418** o bobl ran mewn **275** o ddigwyddiadau gofod gwneud ym Mhenarth a'r Barri, gan gynyddu cyfleoedd i ddatblygu a gwella sgiliau creadigol yn ddigidol ein cymunedau lleol.
- Cefnogwyd ein llyfrgelloedd cymunedol gan **171** o wirfoddolwyr gan roi **16,614** o oriau gwirfoddoli.
- Nododd **Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru** foddhad cyffredinol o **95%** gyda'n gwasanaethau llyfrgell. Dywedodd **96%** o'r bobl a oedd yn bresennol mewn sesiynau hyfforddi eu bod wedi eu helpu i gyflawni eu nodau, ac roedd **99%** o oedolion yn meddwl bod ein llyfrgelloedd yn amgylcheddau pleserus, diogel a chynhwysol. Rhoddodd pobl ifanc **sgôr o 9 allan o 10** i'n llyfrgelloedd ac roedd **89%** yn teimlo bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a darganfod pethau.

**8. Cryfhau'r trefniadau partneriaeth presennol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn benodol drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a thrwy weithio drwy Gynghrair y Fro i ddatblygu a gweithredu mwy o fodelau gofal integredig gan gynnwys diwallu anghenion llety.**

- Cafodd gwasanaethau iechyd a lles yn y Fro drwy Dewis Cymru o gwmpas **250,000 o ymweliadau** gyda **1,111** o adnoddau ar gael i bobl ym Mro Morgannwg.
- Darparodd ein pwynt cyswllt iechyd a gofal cymdeithasol integredig wybodaeth a chymorth ar draws iechyd a gofal cymdeithasol gyda **75%** o'r holl alwadau wedi'u datrys trwy wybodaeth a chyfeirio a **95%** o'r holl atgyfeiriadau brys wedi'u cyfeirio at gyswllt o fewn 48 awr.
- Estynnwyd cwmpas timau amlddisgyblaethol clwstwr lleol y Fro ar draws y Fro **gan ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth cynnar i bobl ag anghenion cymhleth.**
- Mae pob cartref gofal i oedolion sydd wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) bellach wedi'u rhestru ar Dewis gyda lleoedd gwag wedi'u dadansoddi yn ôl math o wely i gefnogi preswylwyr a gweithwyr proffesiynol.

- Ymgorfforwyd protocolau gweithio i sicrhau bod ymatebion iechyd, gofal cymdeithasol a lles yn cael eu darparu'n rhwydd i bobl sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Materion Lles.
- Cryfhawyd trefniadau gweithredol rhwng y Cyngor a Phorth Gofalwyr Caerdydd a'r Fro a chefnogwyd y gwaith o ddarparu'r fenter **'Amser i mi'**. Cynhaliwyd bron **750** o asesiadau a gyda **494** o ofalwyr ifanc yn cael eu cefnogi. Adroddodd **76%** am well iechyd meddwl.
- **Datblygwyd ein cynnig teleofal** ymhellach, gan symud o system analog i system ddigidol sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth ymateb i gwympiadau.
- Cwblhawyd trydydd **tŷ clyfar** mewn cydweithrediad â Chymdeithas Tai First Choice ac Innovate Trust ar gyfer tri pherson ag anableddau dysgu a sicrhau cyllid ar gyfer pedwerydd eiddo, gan gefnogi byw'n annibynnol ymhellach a gwella lles dinasyddion. Sicrhawyd cyllid ar gyfer eiddo pellach sy'n aros am gymeradwyaeth cynllunio ar gyfer datblygu.
- Mae Uned y Bae yn **Nhŷ Dyfan** ar agor gan ddarparu ail-alluogi preswyl byrdymor i gefnogi rhyddhau a gwneud yn fawr o annibyniaeth pobl.
- Mae Gwasanaeth Cwympiadau Integredig y Fro wedi bod yn gweithredu'n llwyddiannus ers blwyddyn, gan gyfrannu at ganlyniadau defnyddwyr cadarnhaol a manteision cost i bartneriaid iechyd. **(gan osgoi costau o £750,000**).
- Cyflwynwyd yr ymgyrch **'Ebrill Egnïol'** ochr yn ochr ag ystod o adnoddau a chyfleoedd i gefnogi iechyd a lles gofalwyr di-dâl.
- Cefnogwyd bron **500** o ofalwyr di-dâl drwy'r Porth Gofalwyr gan ddarparu gwybodaeth, cyngor, cymorth lles a seibiannau byr.
- Cafwyd **544** o gwsmeriaid Teleofal newydd, sy'n gynnydd o **300** ers 2022/23.
- Roedd **93%** yn fodlon â'r gwasanaethau Teleofal, sy'n gynnydd o **92%** ers 2022/23.
- Mae **100%** o bobl sydd wedi derbyn Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn dweud bod y cymorth wedi gwneud iddynt deimlo'n fwy diogel ac yn fwy annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.
- Mae cymorth gofal cartref yn amrywio'n sylweddol o fis i fis. Cefnogwyd **1,016** o ddinasyddion sy'n derbyn **16,058** o oriau wythnosol o ofal a chymorth yn y cartref, 15.8 awr yr wythnos ar gyfartaledd. Mae'r galw am wasanaethau wedi cynyddu o 14,579 o oriau wythnosol a ddarparwyd y llynedd.

**9. Ailffocysu'r ffordd y caiff gofal cartref ei ddarparu i wella llais a rheolaeth yr unigolyn dros ei drefniadau gofal trwy ehangu 'Eich Dewis'.**

- Trosglwyddwyd **18** o asiantaethau i'r model 'Eich Dewis', gan wella dewis unigolion ymhellach dros eu trefniadau gofal.
- Darparwyd tua **46%** (7,217) o oriau o gyfanswm y pecynnau gofal cartref dan Eich
- Dewis, gan gefnogi tua **48%** (412) o'r dinasyddion sy'n derbyn gofal cartref.
- Trosglwyddwyd **13** o ddinasyddion dan y Tîm Iechyd Meddwl a **21** o'r Tîm Anableddau Dysgu i'r cynllun Eich Dewis fel rhan o gryfhau ein dealltwriaeth o fanteision **gofal cymunedol sy'n seiliedig ar ganlyniadau**.
- Mae ein gwaith gyda phartneriaid i wella gofal cartref wedi cyfrannu at achredu nifer o asiantaethau newydd yn ystod y flwyddyn, gan sicrhau **nad oes unrhyw broblemau gyda chapasiti gofal cartref yn y Fro ar hyn o bryd.**
- Lleihawyd **nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerir i osod pecynnau gofal cartref** o **22** o ddiwrnodau i 3 diwrnod, fodd bynnag, mae hyn yn parhau i fod yn faes o alw sylweddol.

**10. Gweithio gydag arweinwyr/ partneriaid cymunedol a defnyddio'r profiad a gafwyd drwy'r gwaith yn Llanilltud Fawr i adolygu a thrawsnewid yr ystod o gymorth sydd ar gael i bobl hŷn o fewn eu cymuned.**

- Mae'r **prosiect gwrando yn "fyw" yn Llanilltud Fawr** ac mae rhaglen ymgysylltu â dinasyddion lleol yn parhau i lywio'r ystod o gymorth sydd ar gael i bobl hŷn.

- Fel rhan o’r gwaith gyda phartneriaid i hyrwyddo'r gwaith o **ddatblygu Cymunedau Dementia / Sy'n Dda i Bobl Hŷn**, cafwyd **34** o addewidion, a daeth **33** o ddatganiadau o ddiddordeb i law yn **y Bont-faen** a **30** o addewidion pellach yn **Llanilltud Fawr** gyda **30** yn gweithio tuag at Statws Deall Dementia.
- Bro Morgannwg oedd y bedwaredd ardal awdurdod lleol yng Nghymru i gyflawni Statws Sy'n Dda i Bobl Hŷn.
- Estynnwyd mentrau presennol i leihau unigedd cymdeithasol ac unigrwydd ac i gefnogi pobl hŷn yn eu cymuned gydag enghreifftiau yn cynnwys y **cynllun Tocyn Aur** gan gefnogi'r rheini sy’n 60 oed ac yn hŷn sy'n llai actif, **DEWIS Cymru** gan ddarparu cyfeiriadur o gefnogaeth a gweithgareddau lleol, **Teleofal** gan gynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol, **Greenlinks** gan ddarparu cyfleoedd gwirfoddoli ac i alluogi mynediad at drafnidiaeth yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig, a gweithio i gefnogi twf **Cymunedau sy'n Deall Dementia.**
- Gwnaeth bron **900** o bobl yn y Fro ymrwymo i fod yn **Gyfeillion Dementia**.

**11. Gweithio'n gydgynhyrchiol gyda phlant a'u teuluoedd drwy fodel sy'n seiliedig ar gryfderau i wella canlyniadau ac i wella lles.**

- Gwnaethom barhau i ymgorffori'r dull **'Datblygu Gwasanaethau Gyda'n Gilydd'** sy'n cynnwys y teuluoedd rydym yn eu cefnogi wrth ddatblygu gwasanaethau, gan fodelu gwerthoedd 'Adeiladu ar Gryfderau'.
- Cafodd **72%** o asesiadau i blant eu cwblhau o fewn amserlenni.
- Bu’n rhaid i **11%** o blant mewn gofal symud 3 gwaith neu fwy yn ystod y flwyddyn a chafodd **40%** o blant sy'n derbyn gofal ddychwelyd adref o ofal yn ystod y flwyddyn.
- Daeth **75** o ganmoliaethau defnyddwyr gwasanaeth i law mewn perthynas ag ystod o wasanaethau a chymorth i blant a phobl ifanc.
- Cymeradwywyd **158** o ofalwyr sy'n berthnasau sy’n darparu dewisiadau amgen i deuluoedd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, gan leihau galw ychwanegol am ddarpariaeth prif ffrwd.
- Agorwyd y **cartref preswyl cyntaf i blant**, darpariaeth **4** ystafell wely ym Mro Morgannwg a chwblhawyd gwaith adnewyddu i'r ail gartref, darpariaeth **2** ystafell wely, gan arwain at gynnig cartref i dri phlentyn yn lleol, a dau yn dychwelyd i'r Fro o leoliadau y tu allan i'r ardal.
- Cwblhawyd bron **3,600** o asesiadau newydd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn, sy’n gynnydd o 1,746 y llynedd.

**12. Cyflawni blaenoriaethau'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, gan sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl rhag cael eu hesgeuluso, eu cam-drin a'u hecsploetio.**

- **Ymgorfforwyd arferion i ddiogelu a hyrwyddo lles dysgwyr** ymhellach gyda chydymffurfiaeth ysgolion â hyfforddiant diogelu blynyddol bron **100%** ar gyfer hyfforddiant Diogelu Lefel 2.
- **Ymgysylltwyd** yn llwyddiannus â phob ysgol i ddarparu hyfforddiant ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
- Cydymffurfiwyd yn gyffredinol â **Pholisi Recriwtio Mwy Diogel** y Cyngor, roedd ysgolion a gwasanaethau corfforaethol ar **99%,** gan adlewyrchu perfformiad y llynedd.
- O'r **825** o adroddiadau diogelu oedolion a ddaeth i law, aeth **300** ymlaen i’r cam ymholi ac o'r rhai hynny, cwblhawyd **99%** o fewn y raddfa amser o saith diwrnod gwaith, gwelliant sylweddol ar berfformiad y llynedd o **72%**. Llwyddwyd i leihau nifer yr adroddiadau a aeth ymlaen i ymholiadau saith diwrnod drwy sgrinio effeithiol a nodi cefnogaeth fwy priodol.
- Derbyniodd y gwasanaeth Cam-drin Domestig, Asesu a Chydlynu Atgyfeirio (CAACD) **626** o Hysbysiadau Diogelu’r Cyhoedd (HDCau) gyda **96** o ddioddefwyr cam-drin domestig yn cytuno i offer fel teledu cylch cyfyng, larwm tresmaswr, cloeon drysau a goleuadau er mwyn gwneud iddynt deimlo'n fwy diogel a'u galluogi i barhau i fyw yn eu cartref eu hunain.

- Cafodd **942** o weithwyr y cyngor eu hyfforddi i grŵp 1 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gyda chyfanswm o bron 4,700 o staff wedi'u hyfforddi hyd yma.
- Yn dilyn **53** o weithrediadau gwerthu cynnyrch dan oed, **erlynwyd dau fusnes yn llwyddiannus ar gyfer gwerthu alcohol a fêps dan oed yn y drefn honno.**

**13. Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo a gwella diogelwch cymunedol gan gynnwys blaenoriaethau ar gyfer cydlyniant cymdeithasol cadarnhaol a diogelwch cymunedol gan sicrhau ein bod yn diogelu ac yn cefnogi'r rhai sydd fwyaf agored i niwed gan gynnwys gwaith ar drais domestig, trais rhywiol a thrais difrifol.**

- Anfonwyd **bron 200** o negeseuon gan y Tîm Diogelwch Cymunedol trwy wahanol lwyfannau ar-lein, gan gynnwys cyngor diogelwch ar gyfer Iechyd Meddwl, Gwybod ble mae'ch Plant yn ystod Gwyliau Hanner Tymor, Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Cam-drin Domestig a Thipio Anghyfreithlon.
- Cwblhawyd gwaith uwchraddio i gamerâu a systemau teledu cylch cyfyng yn gynharach yn y flwyddyn ac maent bellach yn weithredol ac yn hwyluso diogelwch ein cymunedau. Bellach, mae yna **86** o gamerâu cylch cyfyng byw ar draws y Fro.
- Cafodd **628** o ddigwyddiadau o ymddygiad ymosodol, difrod troseddol, bwrgleriaeth, delio cyffuriau, pryder am les, llosgi bwriadol, ymosodiad corfforol, gwastraff masnachol a phobl sydd ar goll yn y Fro eu recordio ar deledu cylch cyfyng gan gynorthwyo'r Heddlu a'r Cyngor gyda'u hymchwiliadau.
- Cafodd **1,142** o oedolion a **109** o blant a phobl ifanc a oedd yn dioddef oherwydd cam-drin domestig eu cefnogi gan Gwasanaethau Cam-drin Domestig y Fro, trwy gymorth proffesiynol arbenigol (480) a oedd yn ymwneud â thenantiaeth (150), llety lloches (53), cwnsela a gwaith grŵp therapiwtig (170) gyda boddhad cwsmeriaid o 95%.
- Cefnogwyd y rheini sy'n profi cam-drin domestig ar draws y Fro gyda **520** o achosion yn cael eu trafod yn y cyfarfod ddwywaith yr wythnos. Mae'r cyfarfodydd ddwywaith yr wythnos yn gyfarfodydd diogelu gweithredu cyflym fel y gall gweithwyr proffesiynol gefnogi'r dioddefwr risg uchel a’r teulu cyn gynted â phosib. Os oes angen trafodaeth bellach, bydd yr achosion hyn yn cael eu hatgyfeirio i’r Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (CAAR) bob pythefnos. Roedd 473 yn ddioddefwyr benywaidd ac roedd gan 366 blant.
- Trafodwyd 94 o achosion yn y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (CAAR) bob pythefnos, roedd 92 o ddioddefwyr yn fenywod ac roedd gan 72 ohonynt blant.
- Proseswyd Hysbysiadau Diogelu’r Cyhoedd, roedd **120** o ddioddefwyr yn fenywod ac roedd gan **108** ohonynt blant.
- Cynyddwyd ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o droseddau casineb ar draws y Fro drwy **ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol** a gwaith rhagweithiol yn y gymuned.
- Cydweithiwyd â chanolfannau hamdden i ddarparu **sesiynau galw heibio ieuenctid ym mhob canolfan hamdden yn y Fro** gan roi cyfle i bobl ifanc 11-16 oed roi cynnig ar weithgareddau newydd am ddim, wedi'u hariannu gan dîm datblygu chwaraeon y Fro, gan gyfrannu at leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol ar draws ein cymunedau.
- Adroddwyd am bron **2,000** o achosion o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol i'r tîm Diogelwch Cymunedol, gyda **1,298** o atgyfeiriadau wedi'u prosesu. Bu gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau drwy gamau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol sy'n amlygu effeithiolrwydd o ran atal unigolion rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus.
- Ochr yn ochr â gwaith cymunedol ar draws y Fro ac ymgyrch cyfryngau cymdeithasol, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau gan gynnwys FAN Charity, cymuned Affganistan a fforwm 50+ y Fro i **gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o droseddau casineb a darparu cyngor a chefnogaeth.**
- Datblygwyd pecyn a chynigwyd hyfforddiant ychwanegol i fusnesau lleol i gefnogi’r gwaith o weithredu'r fenter **Mannau Diogel**.
- Cyflwynwyd **18,100** o Hysbysiadau Cosb Benodedig gan wasanaethau gorfodi'r Cyngor am dramgwyddau parcio gyda **378** o Hysbysiadau pellach am droseddau fel sbwriel, baw cŵn, torri is-ddeddfau, troseddau dyletswydd gofal a thipio anghyfreithlon.

**14. Gweithio gyda phartneriaid i weithredu Cynllun Gweithredu Ôl-arolwg y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i wella canlyniadau pobl ifanc.**

- Gwnaed **259** o ymyriadau gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Chymorth Cynnar (YJESS) sy'n cefnogi plant a phobl ifanc yn y Fro.
- Gwnaeth **88%** o blant a phobl ifanc sy'n hysbys i YJESS elwa o waith ataliol/dargyfeirio, gan hyrwyddo'r canlyniadau gorau posib, gan **gynnal y cyfraddau Mynediad Tro Cyntaf isaf yng Nghymru** yn gyson.
- Cafodd ein **ffocws rhagweithiol ar waith o ansawdd a gynigir i ddioddefwyr trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol** ei gydnabod gyda'r gwasanaeth yn cyfrannu at ganllawiau arfer gorau a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder fel rhan o'r ymgyrch Cod Dioddefwyr.

**15. Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gaffael ac adeiladu tai cyngor gan gynnwys 138 o gartrefi Cyngor newydd ar chwe safle ledled y Fro.**

- Cynyddwyd ein rhaglen datblygu tai Cyngor, sydd eisoes wedi cyflwyno **90** o dai gyda **226** o dai ychwanegol yn cael ei hadeiladu ar hyn o bryd. Dros y 10 mlynedd nesaf bydd y rhaglen yn darparu 939 o gartrefi eraill a disgwylir i 150 o gartrefi'r flwyddyn i gael eu hadeiladu ar ôl 2035.
- Gwnaethom gefnogi ein partneriaid Landlord Cymdeithasol Cofrestredig i brynu **23** o hen gartrefi cymdeithasol ledled y Fro gan ddefnyddio dros £2.3 miliwn o gyllid Llywodraeth Cymru, ac ar hyn o bryd rydym yn archwilio'r posibilrwydd o brynu nifer o gartrefi o'r Weinyddiaeth Amddiffyn i **gynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol** ymhellach.
- Cynyddwyd cyflenwad o lety rhent y Cyngor ar draws Bro Morgannwg gan **250** o unedau ar draws 6 safle ym Mhenarth, y Barri a'r Fro wledig gyda gwariant datblygu o **£29.1 miliwn** ar y rhaglen adeiladu tai cyngor.

**16. Gweithredu Strategaeth Dai Leol i fynd i'r afael â'r angen tai cyfredol ac arfaethedig ac i gynyddu nifer y tai hygyrch a fforddiadwy o ansawdd da sydd ar gael.**

- Cwblhawyd **Asesiad o'r Farchnad Dai Leol** i benderfynu ar ein gofynion tai yn y dyfodol sy'n llywio ein Cynllun Datblygu Lleol Newydd.
- Adolygwyd ein **Cytundeb Partneriaeth Tai Fforddiadwy**, sy'n nodi'r sylfaen ar gyfer cydweithio â phartneriaid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.
- Diwygiwyd y **Cynllun Gweithredu Gorfodi Eiddo Gwag** a chryfhawyd ein trefniadau i'n galluogi i leihau cartrefi gwag yn rhagweithiol a mynd i'r afael yn effeithiol ag eiddo problemus hirdymor.
- Adferwyd **78** (10.6%) o gartrefi o eiddo'r sector preifat i'w defnyddio eto drwy gamau uniongyrchol gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn.
- Dynodwyd **60% (222)** o'r anheddau a gymeradwywyd trwy'r system gynllunio yn ystod y flwyddyn yn dai fforddiadwy.
- Darparwyd **91** o unedau tai fforddiadwy ychwanegol yn ystod y flwyddyn fesul 10,000 o aelwydydd.
- Darparwyd **222** o dai fforddiadwy newydd. Ariannwyd 81 ohonynt trwy gyllid A106 a darparwyd y 141 arall drwy'r Grant Tai Cymdeithasol (GTC).

**17. Creu Strategaeth Tai Pobl Hŷn i sicrhau'r ansawdd bywyd gorau ar gyfer pobl hŷn sy'n byw yn y Fro a galluogi pobl hŷn i fyw mor annibynnol ag sy'n bosib yn ddiweddarach yn eu bywyd.**

- Mae'r holl gymeradwyaethau ar waith ac mae disgwyl i'r gwaith adeiladu ddechrau ar y **Cynllun Gofal Ychwanegol Penarth** newydd yn unol â'r cynllun gweithredu ar gyfer y Strategaeth Llety Pobl Hŷn gyda Gofal, Gofal Barod a Chymorth.
- Yn ogystal, dechreuwyd adolygiad o'n **llety tai gwarchod** gan gynnwys rôl cydlynydd y cynllun a'r dechnoleg a ddefnyddir o fewn cynlluniau i gefnogi pobl i fyw mor annibynnol â phosib.

- Mae gwaith wedi dechrau ar y cyd ag adrannau eraill y cyngor i benodi asiant tir i goladu ac **asesu cyfleoedd tir newydd ar gyfer darparu tai i bobl hŷn** yn y Fro.

**18. Gweithio gyda phartneriaid i atal a lleihau digartrefedd a darparu cymorth tai a chymorth cysylltiedig gan gynnwys manteisio i'r eithaf ar y Grant Atal Digartrefedd i gynnal tenantiaethau, ehangu'r cyflenwad llety dros dro a lleihau'r defnydd o lety gwely a brecwast.**

- Cafodd **61%** o aelwydydd eu hatal yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref.
- Llwyddwyd i **weithredu dull brysbennu** ar y cyswllt cyntaf fel rhan o ailfodelu'r gwasanaethau datrysiadau tai i wneud yn fawr o gyfleoedd ar gyfer atal digartrefedd. Mae hyn wedi **lleihau'r amser aros ar gyfartaledd** o **24** o ddiwrnodau i **6** o ddiwrnodau ac yn cyfrannu at ganlyniadau mwy cadarnhaol i denantiaid.
- Cefnogwyd yn effeithiol **45** o bobl ifanc sydd mewn perygl o ddigartrefedd drwy ymyrraeth gynnar, a thrwy hynny leihau atgyfeiriadau hirdymor.
- Mae bron 16% o'r stoc dai ym Mro Morgannwg yn cael eu rhentu'n breifat. Trwy waith i gefnogi a chynnal y farchnad rhentu breifat (yn enwedig ar y pen rhentu is), rydym wedi **parhau i ddiogelu tenantiaethau a lleddfu'r pwysau ar dai cymdeithasol**.
- Gweithiwyd gyda landlordiaid preifat mewn nifer o ffyrdd i sicrhau hawliau enwebu unigryw i'w heiddo er mwyn cadw mynediad i lety presennol. Cymerodd **36** o eiddo newydd ran yn ystod y flwyddyn.
- Blaenoriaethwyd aelwydydd digartref mewn llety dros dro dan Bolisi Dyrannu Tai (Homes4U) y Cyngor sydd wedi **lleihau'r amser y mae pobl yn ei dreulio mewn llety dros dro**. Bydd y newidiadau yn arwain at **30** o aelwydydd digartref ychwanegol yn cael eu cartrefu yn y flwyddyn i ddod.
- Rydym wedi atal **50%** o bobl sy'n cyflwyno fel rhai sydd mewn perygl o ddigartrefedd, rhag colli eu tenantiaeth drwy ddefnyddio cyllid grant atal digartrefedd yn ôl disgresiwn i ychwanegu at daliadau rhent, gwrthbwyso ôl-ddyledion neu dalu tuag at waith adfer er mwyn cynnal tenantiaethau. Ochr yn ochr â chyllid yr Adran Gwaith a Phensiynau, mae cyfanswm o ychydig dros **£216.4K** wedi ei dalu eleni i gefnogi pobl i gynnal eu tenantiaethau.
- Mae gweithwyr pwrpasol wedi cefnogi **22** o denantiaethau preifat yr ystyrir eu bod mewn perygl o ddigartrefedd i gyflawni nifer o ganlyniadau, gan eu galluogi i gynnal eu tenantiaeth.
- Yn dilyn llwyddiant y llety modiwlar a gyflwynwyd yn Ffordd y Llys, y Barri, mae cynlluniau newydd yn cael eu cyflwyno, gan gynnwys hen safle ysgol Eagleswell, Llanilltud Fawr, lle mae **90** o unedau llety bron â chael eu cwblhau a byddant yn darparu llety i aelwydydd o Wcráin sy'n cael eu gorfodi i ffoi o'r rhyfel yno.
- Sefydlwyd cynllun prydlesu mewnol i gynyddu'r cyflenwad o lety dros dro, sydd wedi sicrhau mynediad i **dros 20 o unedau** llety ac mae trafodaethau yn parhau gyda pherchnogion eiddo i ehangu'r cynllun.
- Llwyddodd **176** o bobl i symud ymlaen o lety gwestai yn ystod y flwyddyn, o ganlyniad i'r cynnydd a wnaed o ran atal digartrefedd, datblygu cartrefi newydd, sicrhau mynediad i eiddo rhent preifat a blaenoriaethu aelwydydd digartref.

**Gweithgareddau ymgysylltu: yr hyn a ddywedodd ein preswylwyr a'n defnyddwyr gwasanaeth**

| Yr hyn y buom yn ymgysylltu arno | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro (GACF)<br><br>Profiadau dinasyddion o'r GACF, cymorth gan staff gofal, cyfathrebu a chymryd rhan mewn cynllunio gwasanaethau. | **Ymgynghoriad dinasyddion**<br>Cafwyd cyfradd ymateb o 39% (130/337) i holiaduron. Cynhaliwyd 5 o gyfweliadau pellach a 25 o sgyrsiau ffôn.<br><br>• Roedd bron pob un (96%), yn teimlo bod y gefnogaeth yn eu | • Canllaw diwygiedig i ddefnyddwyr gwasanaeth a datganiad o ddiben yn amlinellu natur fyrdymor y gwasanaeth adsefydlu a threfniadau rota deinamig, fel bod ein dinasyddion yn gallu cael disgwyliadau cliriach. |

| Yr hyn y buom yn ymgysylltu arno | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| Cynhaliwyd dau ymgynghoriad ar wahân. Y cyntaf gyda dinasyddion, a'r ail gydag ymarferwyr. | helpu i gwblhau'r tasgau sy'n bwysig iddyn nhw.<br>• Roedd bron pawb a ymatebodd yn cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau ynghylch eu gofal a'u cefnogaeth.<br>• Roedd 93% yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnyn nhw drwy gydol eu cyfranogiad.<br>• Roedd 86% yn teimlo eu bod wedi cael eu galluogi i wneud newidiadau i'r gwasanaeth os oedd angen.<br>• Roedd bron pob un yn teimlo bod y gwasanaeth yn ddibynadwy.<br>• Roedd cyfran fawr o'r ymatebwyr yn teimlo bod ganddyn nhw fwy o reolaeth dros eu bywyd bob dydd ar ôl derbyn cymorth (88%).<br>• Roedd dinasyddion yn teimlo bod gwybodaeth a chyngor defnyddiol ar gael ar ddechrau'r gwasanaeth a hefyd yn ôl yr angen.<br>• Roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod gweithwyr gofal a'r gwasanaeth yn ddibynadwy ac yn barchus iawn tuag atyn nhw.<br>• Arweiniodd y gwasanaeth a'r cymorth a ddarparwyd at wella lles dinasyddion.<br>• Roedd dinasyddion yn teimlo'n fwy diogel yn gorfforol ac yn emosiynol o ganlyniad i'r gwasanaeth.<br>• Roedd llawer yn teimlo eu bod yn rhan o gynllunio'r gwasanaeth ac hefyd yn teimlo y gallent wneud newidiadau pe bai angen. | |

| Yr hyn y buom yn ymgysylltu arno | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| | **Ymarferydd**<br>• Roedd staff yn teimlo bod y tîm yn 'groesawgar' iawn i staff newydd.<br>• Roedd y staff yn teimlo eu bod yn rhannu cyfoeth o wybodaeth, profiad ac arbenigedd.<br>• Mae staff yn teimlo bod y timau'n canolbwyntio ar y dinesydd ac yn gallu darparu therapi sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. | • Gwella'r broses sefydlu.<br>• Nodi cyfleoedd ar gyfer mwy o weithgareddau adeiladu tîm i chwalu'r rhwystrau rhwng staff iechyd a staff gofal cymdeithasol. |
| Cyfleoedd Dydd<br>Arolwg staff | Derbyniwyd adborth gan 8 Ymatebwr i'r 'Arolwg Staff Gwasanaeth Dydd 23-24'.<br><br>• Dywedodd Aelodau Staff Unigol - 4 ymatebwr ymysg y staff, eu bod bob amser yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan staff a rheolwyr eraill.<br>• Roedd 6 aelod o staff wnaeth ymateb yn credu eu bod yn gallu treulio cymaint o amser gyda dinasyddion ag yr oeddent yn teimlo oedd yn angenrheidiol yn ystod y dydd.<br>• Roedd 4 aelod o staff yn credu bod ganddyn nhw ddigon o gefnogaeth i gyflawni eu rôl.<br>• Roedd 4 aelod o staff yn credu bod ganddyn nhw rywun yn y gweithle i siarad â nhw os oedd yna bryder yr oedd angen iddyn nhw ei rannu.<br>• Croesawodd 2 ymateb ymgynghoriad staff ac roeddent yn dymuno gweld mwy o ymgysylltu â staff yn y dyfodol a dywedodd 1 o'r rheini y byddai hyn yn ddefnyddiol pe na bai'r rheolwyr yn bresennol.<br>• Dywedodd 1 ymateb fod goruchwyliaeth reolaidd, felly'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. | • Ymgynghoriad parhaus gyda staff yn y dyfodol.<br>• Sicrhau bod staff yn parhau i gael eu goruchwylio.<br>• Gwella gwasanaethau trafnidiaeth i ddinasyddion.<br>• Sicrhau bod gweithgareddau cleientiaid wedi'u teilwra'n well er budd yr unigolyn. |

| Yr hyn y buom yn ymgysylltu arno | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc<br><br>Ystyriwyd barn a phrofiadau plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr mewn perthynas â'r Tîm Lleoliadau, Dechrau'n Deg, y Gydweithfa Fabwysiadu a Thîm 14 Plus. | Timau Lleoliadau<br>• Cafwyd tri ymateb allan o chwech o Ofalwyr Maeth cymeradwy o Arolwg Recriwtio Gofalwyr Maeth Bro Morgannwg 2023-24.<br>• Ymatebwyd i'r holl ymholiadau a wnaed ynghylch Maethu ym Mro Morgannwg mewn modd prydlon ac effeithlon.<br>• Roedd yr wybodaeth a ddarparwyd yn caniatáu i bob Datganiad o Ddiddordeb symud ymlaen i Asesiad.<br>• Dywedodd un o'r tri ymatebydd, o'r apwyntiad cyntaf gydag Aseswr i Wrandawiad Panel, ei fod wedi cymryd 4-6 mis. Dywedodd un arall fod hyn wedi cymryd 6-8 mis, a dywedodd y trydydd ymatebydd ei fod wedi cymryd 8+ mis.<br>• Roedd pawb yn teimlo bod y Broses Asesu wedi eu helpu i ddod yn Ofalwr Maeth.<br>• Nid oedd ymatebwyr yn barod nac yn disgwyl gorfod ateb cymaint o gwestiynau yn y Panel, yn seiliedig ar siarad â Gofalwyr Maeth eraill. | • Cysylltodd Aseswyr â Gofalwyr Maeth i roi gwybod a oedd angen aildrefnu apwyntiadau, ond mae rhywfaint o le i wella.<br>• Sicrhau bod Gofalwyr Maeth yn ymwybodol o'r angen i ateb llawer iawn o gwestiynau yn y Gwrandawiad Panel. |
| Cydweithfa Fabwysiadu'r Fro, y Cymoedd a Chaerdydd (FCCh) | 14 Ymatebydd<br>• Roedd 13 o bobl yn fodlon ar gynnwys eu Cynllun Cymorth Mabwysiadu.<br>• Cafodd 7 o fabwysiadwyr eu Cynllun Cymorth wedi ei adolygu ers y lleoli.<br>• Derbyniodd pob mabwysiadwr lyfr Stori Bywyd wedi'i gwblhau.<br>• Derbyniodd pob mabwysiadwr, ac eithrio un, Lythyr Bywyd Diweddarach wedi'i gwblhau.<br>• Roedd y mabwysiadwyr yn cydnabod gwerth ymgysylltu'n gyson â staff / Gweithiwr Cymdeithasol drwy gydol y broses. | Cysondeb mewn ymgysylltiad gweithwyr cymdeithasol â mabwysiadwyr drwy gydol y broses ac ar ôl mabwysiadu lle y bo angen. |

| Yr hyn y buom yn ymgysylltu arno | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| | • Roedd rhai Mabwysiadwyr yn teimlo nad oedd ganddynt yr offer i ymdrin â rhai sefyllfaoedd a byddent wedi hoffi cael adborth pellach.<br>• Dywedodd un mabwysiadwr, unwaith y cymeradwywyd y mabwysiadu, eu bod yn teimlo bod y gefnogaeth wedi dod i ben. | |
| Canlyniadau Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Bygiau Bach: Sefydlu barn rhieni / gofalwyr ar y newidiadau a wnaed i sesiynau.<br>Cafwyd 43 o ymatebion i'r arolwg hwn:<br>• Roedd 42 o ymatebwyr yn teimlo bod y sesiynau yn werthfawr.<br>• Dywedodd 36 o'r Ymatebwyr fod y sesiynau yn bodloni eu disgwyliadau.<br>• Nid oedd 38 o'r Ymatebwyr yn teimlo bod angen ychwanegu unrhyw beth ychwanegol at yr hyn oedd wedi ei gynnwys yn barod.<br><br>Rhieni a gofalwyr: Sefydlu bodlonrwydd â gwasanaethau a nodi meysydd i'w gwella.<br>• Allan o 18 o ymatebwyr, roedd 15 yn fodlon â'r cyfathrebu, a dywedodd 3 eu bod yn rhannol fodlon.<br>• Dywedodd 17 o'r Ymatebwyr eu bod yn gallu cysylltu ag aelod o staff pan oedd angen.<br>• Roedd 14 o ymatebwyr yn teimlo bod y staff bob amser yn treulio digon o amser gyda nhw.<br>• Roedd 15 o'r ymatebwyr yn teimlo bod eu pryderon bob amser yn cael eu clywed.<br>• Dywedodd 12 o'r ymatebwyr eu bod bob amser wedi cael y gefnogaeth yr oedd ei hangen arnynt, dywedodd 6 ymatebydd, | Aethpwyd ar drywydd adborth lle nad oedd yr ymatebwyr yn teimlo bod disgwyliadau wedi'u bodloni i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.<br><br>Aethpwyd ar drywydd adborth lle nad oedd yr ymatebwyr yn teimlo bod disgwyliadau'n cael eu bodloni. |

| Yr hyn y buom yn ymgysylltu arno | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| | • eu bod wedi cael y gefnogaeth 'weithiau' ac nid oedd unrhyw ymatebwyr wedi dweud 'anaml' neu 'fyth'.<br>• Ar raddfa o 1-5 cafodd graddfa gyfartalog o 4.44 ei chyflawni mewn perthynas â bodloni disgwyliadau.<br><br>Canlyniadau Tîm 14 Plus: Sefydlu bodlonrwydd â gwasanaethau a nodi meysydd i'w gwella.<br>• Roedd y 4 ymatebydd yn gwybod pwy i gysylltu â nhw am ofal a chymorth ac yn teimlo y gallent siarad â'u gweithiwr pe bai angen.<br>• Roedd y dulliau cyfathrebu a ffefrir yn cynnwys gwasanaeth ffôn, testun neu negeseuon, yn ogystal â galwad fideo.<br>• Roedd 3 yn teimlo eu bod bob amser yn cael eu trin â pharch gan y rhai yr oeddent wedi gweithio gyda nhw, gyda'r 1 arall yn ateb 'Yn bennaf'.<br>• Dywedodd 3 eu bod bob amser yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth, a'u bod bob amser wedi gallu cael gafael ar gymorth pan oedd angen.<br>• Roedd yr holl ymatebwyr yn teimlo bod y gefnogaeth a gawsant yn gwella eu hiechyd meddwl / corfforol a lles cyffredinol. | Parhau i ganolbwyntio ar:<br>• Gynnwys pobl ifanc mewn cyfleoedd ymgysylltu ac ymgynghori i sicrhau bod ganddynt lais cryf mewn datblygu gwasanaethau trwy amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys trwy'r cyfryngau cymdeithasol/gwasanaethau negeseuon.<br>• Sicrhau bod pawb sy'n gadael gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys wrth gynllunio eu gofal yn y dyfodol a bod pawb yn teimlo bod rhywun wedi gwrando arnynt.<br>• Cysondeb ac ansawdd y cysylltiadau a wneir gan Weithwyr Cymdeithasol a Chynghorwyr Pobl Ifanc (ar gyfer y rheini dros 18 oed). |
| Gofal Preswyl a Gwasanaethau Seibiant<br><br>Ceisiwyd barn trigolion, perthnasau, a staff ynghylch ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan gartrefi gofal preswyl gan gynnwys Cartref Porthceri, Southway, Tŷ Dyfan a Thŷ Dewi Sant. | Preswylwyr: 14 ymatebydd<br>• Roedd 7 allan o'r 14 ymatebydd yn nodi bod eu hymweliad cychwynnol yn ardderchog, 3 – da, 1 – gwael, a 3 heb roi unrhyw ymateb o gwbl.<br>• Graddiodd 9 preswylydd eu croeso cychwynnol, yn ogystal â'u cymorth parhaus gan staff, | Aethpwyd ar drywydd adborth lle nad oedd yr ymatebwyr yn teimlo bod disgwyliadau'n cael eu bodloni. |

| Yr hyn y buom yn ymgysylltu arno | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| | yn rhagorol. Dywedodd un ymhellach 'Dyma fy nghartref'.<br>• Roedd yr holl ymatebwyr yn gwybod â phwy i siarad â nhw os oedd ganddynt bryder am unrhyw beth ac yn ymwybodol o'r ffordd i gyflwyno canmoliaeth neu gŵyn.<br>• Roedd yr holl ymatebwyr yn teimlo'n ddiogel a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu.<br>• Dywedodd 11 o breswylwyr am gyfleoedd gwych i dreulio amser gydag eraill, ac roeddent yn teimlo bod ganddynt ddewis ynghylch pa weithgareddau yr oeddent yn eu gwneud, a phryd yr oeddent yn eu gwneud.<br>• Roedd yr holl ymatebwyr yn teimlo bod staff yn eu trin gyda chwrteisi a pharch, gydag un yn nodi – 'Angylion ydyn nhw'.<br>• Dywedodd 8 preswylydd eu bod yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio eu gofal.<br>• Teimlai 9 eu bod bob amser yn cael eu gwahodd i roi eu barn ar yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw, gyda 5 ymatebydd arall yn dewis 'weithiau'.<br>• Roedd pob ymatebydd heblaw 1 yn teimlo bod eu lles cyffredinol wedi gwella trwy symud i ofal preswyl.<br>• Bwyd ac adloniant oedd y prif themâu a amlygwyd pan ofynnwyd iddynt am awgrymiadau ar gyfer gwella.<br><br>Cysylltiadau: 10 ymatebydd<br>• Graddiodd 8 eu hymweliad cychwynnol yn rhagorol a 3, yn dda.<br>• Graddiodd 6 preswylydd eu croeso cychwynnol, yn ogystal â'u cymorth parhaus gan staff, yn rhagorol. | Aethpwyd ar drywydd adborth lle nad oedd yr ymatebwyr yn teimlo bod disgwyliadau'n cael eu bodloni gan gynnwys bwyd, adloniant a chyfathrebu. |

| Yr hyn y buom yn ymgysylltu arno | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| | • Roedd yr holl ymatebwyr yn ymwybodol o'r ffordd i wneud cwyn neu roi canmoliaeth, ac ymatebodd 4 'do' i fod eisoes wedi rhoi canmoliaeth/gwneud cwyn.<br>• Cytunodd 9 o'r ymatebwyr fod eu perthynas yn teimlo'n ddiogel a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu.<br>• Dywedodd 7 fod cyfleoedd rhagorol i'w perthynas dreulio amser gydag eraill, gyda 6 yn cytuno bod gan eu perthynas ddewis ynghylch pa weithgareddau yr oeddent yn eu gwneud, a phryd yr oeddent yn eu gwneud.<br>• Teimlai 9 o'r ymatebwyr fod staff yn trin eu perthynas gyda chwrteisi a pharch, gydag un yn nodi – 'Maen nhw'n mynd y tu hwnt i'r disgwyliadau'.<br>• Dywedodd 6 eu bod nhw, a'u perthynas yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio eu gofal.<br>• Teimlai 8 o'r ymatebwyr eu bod bob amser yn cael eu gwahodd i roi eu barn ar yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw, gydag 1 yn dewis 'weithiau', ac 1 ddim yn rhoi ateb.<br>• Roedd pob ymatebydd yn teimlo bod eu lles cyffredinol wedi gwella trwy symud i ofal preswyl.<br>• Bwyd ac adloniant, yn ogystal â chyfathrebu gwell a chadw staff oedd y prif themâu a amlygwyd pan ofynnwyd iddynt am awgrymiadau ar gyfer gwella.<br><br>Golau Caredig (20 ymatebydd)<br>• Dywed 13 o breswylwyr eu bod wedi cael digon o wybodaeth am Golau Caredig. | Aethpwyd ar drywydd adborth lle nad oedd yr ymatebwyr yn teimlo bod disgwyliadau'n cael eu bodloni. |

| Yr hyn y buom yn ymgysylltu arno | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| | • Roedd 16 o’r preswylwyr yn teimlo eu bod yn gwybod â phwy i gysylltu pe byddent yn dymuno mynegi pryder.<br>• Dywedodd 10 preswylydd eu bod yn rhan o'r adolygiad o'u cynllun gofal a chymorth.<br>• Roedd 15 o breswylwyr yn teimlo eu bod yn cael eu hannog a'u cefnogi i aros mor annibynnol ag y gallent.<br>• Hoffai un preswylydd weld gweithgareddau ar y penwythnosau'n cael eu cynnwys.<br>• Hoffai un preswylydd weld gwelliant gyda'r bwyd. | |
| Arolwg Strategaeth Partneriaeth Bro Ddiogelach 2023/28 | Cytundeb cyffredinol gyda chynnwys y Strategaeth ddrafft. Cafwyd 52 o ymatebwyr i'r ymgynghoriad gyda sylwadau'n canolbwyntio ar iaith a hygyrchedd, yr aethpwyd i’r afael â nhw yn y ddogfen derfynol. | Mae'r canfyddiadau wedi llywio'r Strategaeth Ddrafft y cytunwyd arni gan y Cabinet. |
| Maes Hamdden Murchfield | Cyd-ddylunio cyfleusterau hamdden newydd gyda phreswylwyr. Cynhaliwyd sesiynau galw heibio yn y Ganolfan Gymunedol a chyda disgyblion yn Ysgol Iau Dinas Powys yn ogystal ag arolwg preswylwyr. | Cytunwyd ar ddyluniad a oedd yn adlewyrchu barn y gymuned, gan sicrhau bod y gymuned gyfan yn elwa o’r gofod rhyngweithiol newydd i deuluoedd. |

**Yr hyn a ddywedodd ein rheoleiddwyr**

| Adolygu | Canfyddiadau | Ein hymateb |
|---|---|---|
| Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro - Arolygiaeth Gofal Cymru | Mae pobl yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn ac yn canmol y staff sy'n darparu eu gofal a'u cefnogaeth. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys ymarferwyr ailalluogi arbenigol sy'n golygu y gwneir yn fawr o adferiad pobl a'u gallu i ail-alluogi. Mae pobl yn derbyn gofal a chymorth o ddydd i ddydd gan weithwyr cymorth ail-alluogi medrus ac ymroddedig (GCAau). Mae cynlluniau personol yn hysbysu'r GCAau yn llawn o anghenion, nodau personol a galluoedd pobl. Mae annog pobl i gyrraedd eu potensial ac adennill eu hannibyniaeth wrth wraidd y gwasanaeth.<br>Mae'r staff yn fedrus am wneud i bobl deimlo'n gartrefol, ac mewn cyfnod byr o amser mae perthnasoedd y gellir ymddiried ynddynt yn cael eu meithrin.<br><br>Mae GCAau yn derbyn hyfforddiant a chefnogaeth i ddiwallu anghenion pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae polisïau a gweithdrefnau ar gael i'r holl staff, ac mae'r rhan fwyaf yn llawn gwybodaeth ac yn gyfredol. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu heb unigolyn cyfrifol (UC). Mae goruchwyliaeth yn cael ei chydlynu'n effeithiol gan y tîm rheoli hyd nes y bydd cais UC llwyddiannus yn cael ei dderbyn a'i gymeradwyo gan y rheoleiddiwr. Mae systemau ar waith ar gyfer archwilio a monitro'r gwasanaeth.<br>Ymgynghorir â phobl a staff yn rheolaidd i lywio gwelliannau i wasanaethau. | Cymerwyd camau i sicrhau bod cofnodion cyson yn cael eu cadw mewn perthynas â hapwiriadau gyda'r GCAau.<br><br>Parhau i weithio ar sicrhau bod yr holl staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. |

| Adolygu | Canfyddiadau | Ein hymateb |
|---|---|---|
| | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau. | |

**Ein heriau allweddol**

- Mae methiant darparwyr yn bryder parhaus. Yng nghyd-destun y galw am ofal a chymorth, mae bregusrwydd y farchnad yn parhau i fod yn broblem. Mae gallu'r farchnad gofal cymdeithasol i ymateb i'r galw cynyddol wrth iddynt barhau i fod yn destun gweithlu sy'n tyfu a phwysau costau byw yn parhau i fod angen eu monitro'n agos.
- Mae Cynghrair y Fro wedi cael ei gymhlethu gan ganllawiau Gofal Sylfaenol Llywodraeth Cymru ar gyfer Grwpiau Cynllunio Traws-glwstwr sy'n golygu y bydd angen ail-werthuso hyn yn y cyd-destun hwn.
- Mae nifer a chymhlethdod atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yn parhau i greu lefel uchel o alw. Mae hyn yn cynnwys plant sydd angen gofal a chymorth a'r rheini sydd angen eu hamddiffyn.
- Yn gysylltiedig â lefelau galw cynyddol, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu. Mae hyn yn rhoi mwy o bwysau ar ein hadnoddau presennol ac yng nghyd-destun lleoliadau, mae'r gwasanaeth wedi dod yn fwy dibynnol ar ofal a brynir yn allanol, yn arbennig lleoliadau asiantaethau maethu annibynnol a gofal preswyl lle mae argaeledd yn amlwg wedi lleihau hefyd.
- Cymhlethdodau cynyddol yn y garfan o blant y mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Chymorth Cynnar (GCIChC) yn gweithio gyda nhw, sy'n cael eu heffeithio'n sylweddol gan drawma a phrofiadau niweidiol. Mae hyn wedi dod i'r amlwg mewn perthynas â phryderon diogelu cynyddol a rheoli risg o drais difrifol ymhlith pobl ifanc mewn cyd-destun cyd-destunol. Yn ogystal, mae gostyngiad mewn cyllid yn fygythiad sylweddol a pharhaus i ddarparu gwasanaethau'n effeithiol. Er enghraifft, diwedd cyllid 'Turnaround' yn 2025.
- Mae'r ymgyrch i ryddhau cleifion o'r ysbyty i'r cartref yn ddiogel yn parhau i roi pwysau a galw ychwanegol ar wasanaethau ail-alluogi/gofal cartref er mwyn gallu sicrhau bod anghenion preswylwyr yn cael eu diwallu a'u bod yn derbyn gofal diogel yn eu cymunedau.
- Mae cynyddu costau darpariaeth gofal o fewn cyd-destun cymdeithasol o gyni yn parhau i fod yn her sylweddol o ran rheoli'r gyllideb gofal cymdeithasol i oedolion.
- Sicrhau bod y dinasyddion rydym yn gweithio gyda nhw yn cael eu cefnogi i gael mynediad at wasanaethau mewn ffyrdd gwahanol a bod ganddynt y dewis ehangaf o fodelau gwasanaeth, mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn gost-effeithiol.
- Mae heriau o hyd o ran recriwtio a chadw staff ar draws swyddi allweddol yn y gweithlu gofal cymdeithasol. Mae heriau staffio o hyd o fewn Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc mewn perthynas â rhai swyddi Gwaith Cymdeithasol oherwydd cynnydd yn y galw ac nid oes digon o staff gofal (mewn gofal preswyl a chartref) ar draws y Cyngor a'r Fro ehangach. Mae hyn hefyd yn achosi anawsterau wrth gomisiynu gofal digonol i'n preswylwyr.
- Mae recriwtio i swyddi technegol penodol yn y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn parhau i fod yn heriol oherwydd prinder sgiliau cenedlaethol a chyflogau nad ydynt yn cyfateb i gyfraddau cyfredol y farchnad.
- Mae'r ffaith nad oes digon o dir ar gyfer adeiladu tai newydd yn parhau i fod yn broblem flwyddyn ar ôl blwyddyn ac mae'r her ddigartrefedd yn fwy acíwt nag erioed oherwydd y newidiadau mewn dyletswyddau digartrefedd, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, a'i hamharodrwydd i ariannu canlyniadau'r newid yn y ddeddfwriaeth hon. Ynghyd â hyn mae'r nifer uchaf erioed o ffoaduriaid yr ydym hefyd yn ei chael hi'n anodd eu cartrefu.
- Mae prinder parhaus o lety tai a thai dros dro ac er gwaethaf cynyddu'r cyflenwad o lety, mae lefelau digartrefedd yn parhau'n uchel.
- Mae gostyngiad mewn cyllid i gefnogi mesurau gwella diogelwch i ddioddefwyr cam-drin domestig wedi gorfodi'r tîm i fod yn ddetholus ynghylch yr offer sy'n cael ei gynnig ac mae hyn yn cael effaith ar y teimlad o ddiogelwch.
- Bydd gostyngiad mewn termau real yn y Grant Cymorth Tai yn golygu y bydd angen ailfodelu ac ailasesu gwasanaethau cymorth presennol gan gynnwys darpariaeth gwasanaeth Siop Un Stop a bydd angen gwneud penderfyniadau am brosiectau yn y dyfodol.
- Mae angen ehangu mynediad at gelf gyhoeddus a digwyddiadau diwylliannol ar sail cost niwtral sy'n cyflwyno heriau o ystyried cyfyngiadau adnoddau cyfredol a pharhaus.

- Mae ein dull cydlynol o drechu tlodi a heriau costau byw i'n preswylwyr yn parhau i sicrhau canlyniadau cadarnhaol. Fodd bynnag, mae'r galw parhaus am y gwasanaethau hyn yn her i gyllidebau'r Cyngor yn y dyfodol.

**Meysydd i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol**

- Gwneud cynnydd pellach yn y gwaith gyda phartneriaid ledled Caerdydd a Bro Morgannwg i ddatblygu prosiectau i ymateb i ofynion adroddiad sefydlogrwydd y farchnad gofal cymdeithasol.
- Bwrw ymlaen â gwaith gyda phartneriaid allweddol ar ddatblygu a gweithredu model Cynghrair y Fro i helpu i gefnogi ein preswylwyr.
- Parhau i gymryd rhan yn y rhaglen gostyngiadau awdurdodau lleol i reoli'r galw am leoliadau plant a phobl ifanc.
- Gweithio trwy ffrwd waith cynllunio capasiti y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau Cymdeithasol i barhau i fynd i'r afael â'r heriau denu, recriwtio a chadw’r gweithlu sy’n wynebu'r Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Parhau i ganolbwyntio ar ddarparu rhaglen ataliol ac ymyrraeth gynnar i'r rheini sydd mewn perygl o droseddu i wella canlyniadau pobl ifanc.
- Parhau i gynnig cyfleoedd i staff dyfu ein sgiliau ein hunain mewn ffordd gynaliadwy a hylaw, gan gynnwys swyddi technegol i gyflwyno newid gwasanaethau trawsnewidiol.
- Hyrwyddo mentrau cymdeithasol, gwasanaethau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a sefydliadau eraill y trydydd sector i wella gwasanaethau cymorth ac ataliol ymhellach, trwy Fforwm Adran 16 Bro Morgannwg.
- Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo modelau gofal cymunedol, ac i leihau unrhyw amser diangen sy’n cael ei dreulio yn yr ysbyty.
- Arwain a chefnogi'r gwaith o ddarparu cartrefi fforddiadwy newydd ar draws Bro Morgannwg i ymateb i bwysau cynyddol ar dai a digartrefedd.
- Gweithio gyda phartneriaid i nodi a darparu ymyriadau effeithiol i gefnogi pobl sydd mewn perygl o ddigartrefedd, gan gynnwys pobl ifanc.
- Parhau i ganolbwyntio ar waith ataliol ac ymyrraeth gynnar sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth Ranbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.
- Adolygu celf gyhoeddus a’r ddarpariaeth ddiwylliannol i wneud yn fawr o gyfleoedd i ehangu mynediad ar sail niwtral o ran cost.
- Gwneud cynnydd yn y gwaith dan thema Cryfhau Cymunedau'r rhaglen Ail-lunio i fynd i'r afael â heriau cyffredin fel trechu tlodi a phwysau costau byw sy'n wynebu ein trigolion a'n cymunedau.

## AMCAN LLES 4: Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd

Rydym yn ymrwymedig i ddiogelu a gwella ein hamgylchedd i sicrhau y gallwn fod yn falch o'r etifeddiaeth a adawn i genedlaethau'r dyfodol

| Camau Gweithredu a Mesurau sy'n cyd-fynd ag Amcan Lles 4 | | STATWS PERFFORMIAD | | | | | | Statws COG cyffredinol ar gyfer Amcan Lles 4 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Gwyrdd | | Oren | | Coch | | |
| Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu | Mesurau | Camau Gweithredu a Mesurau [4] |
| 82 | 31 | 74 (90%) | 8 (57.2%) | 0 | 3 (21.4%) | 8 (10%) | 3 (21.4%) | GWYRDD |

Ein statws perfformiad cyffredinol ar gyfer Amcan Lles 4 yw **DA** Mae'r dyfarniad hwn yn adlewyrchu'r cynnydd da a wnaed mewn perthynas â chyflawni ymrwymiadau ein Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer y cyfnod.

**Yr hyn a ddywedon ni y byddem yn ei wneud yn Ein Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24**

| Yr hyn a ddywedon ni y bydden ni'n ei wneud | Statws Perfformiad |
|---|---|
| 1 Gweithredu Prosiect Sero, ein Cynllun Her Newid Hinsawdd a gweithio gyda'r gymuned a rhanddeiliaid eraill i leihau allyriadau carbon, gan ganolbwyntio gwaith ar ddefnydd ynni, trafnidiaeth, tir a bwyd, a sicrhau bod ein hymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur yn rhan annatod o bob penderfyniad. | Gwyrdd |
| 2 Gweithio gyda'n partneriaid i ymateb i'r argyfwng natur gan gynnwys gweithredu Strategaeth Seilwaith Gwyrdd newydd, strategaeth rheoli coed a darparu'r Blaengynllun Bioamrywiaeth. | Gwyrdd |
| 3 Ymgysylltu â chymunedau lleol ac edrych ar y potensial ar gyfer cynlluniau ynni cymunedol fel rhan o'r Cynllun Ynni Ardal Leol, gan gynnwys y potensial i ddefnyddio asedau'r cyngor. | Gwyrdd |
| 4 Gwella'r adeiladau ysgol presennol a chyflwyno adeiladau newydd yn unol â'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a'u gwneud yn adeiladau carbon isel, a di-garbon yn ddelfrydol, i'w gweithredu lle bynnag y bo modd. | Gwyrdd |
| 5 Cyflawni cartrefi Cyngor newydd yn agos at sero garbon, neu o leiaf gyfradd A, a datblygu Rhaglenni Ôl-osod er mwyn Optimeiddio i gyrraedd targedau lleihau carbon ar gyfer stoc tai bresennol y Cyngor ac i helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd hefyd gan sicrhau bod stoc tai'r Cyngor yn parhau i gyrraedd y safonau perthnasol ar gyfer diogelwch ac adeiladu. | Gwyrdd |
| 6 Annog a chefnogi newidiadau cynaliadwy i sut mae pobl yn teithio trwy gynyddu cyfleoedd ar gyfer teithio llesol (cerdded a beicio) gan gynnwys Llwybrau Llesol y Rhws ac Eglwys Brewys. | Gwyrdd |

[4] Nid oedd statws perfformiad COG yn berthnasol ar gyfer 17 o fesurau gan eu bod naill ai'n sefydlu perfformiad sylfaenol ar gyfer 2023/24 neu nid oedd y data ar gael ar y pryd.

| Yr hyn a ddywedon ni y bydden ni'n ei wneud | Statws Perfformiad |
|---|---|
| 7 Gweithio gyda'n partneriaid i wella mynediad at gludiant cyhoeddus drwy gefnogaeth i wasanaethau bws cymdeithasol hanfodol a'r seilwaith trafnidiaeth gan gynnwys darparu arddangosfeydd e-amserlen mewn safleoedd bysus a darparu llochesi bws newydd yn y Rhws, Eglwys Brewys, Cogan, Dinas Powys a'r Barri. | Gwyrdd |
| 8 Mewn cydweithrediad â Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd cynyddu'r rhwydwaith o bwyntiau gwefru cerbydau trydan hygyrch lleol gan gynnwys ym meysydd parcio'r Cyngor. | Gwyrdd |
| 9 Gweithredu'r Cynllun Arwynebau Ffyrdd (2022 i 2025) i wella cyflwr y briffordd ar gyfer pob defnyddiwr yn cynnwys bysus, cerddwyr a beicwyr a gweithredu cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer terfyn cyflymder diofyn 20 milltir yr awr ar ffyrdd cyfyngedig o fewn rhwydwaith priffyrdd lleol y Fro. | Gwyrdd |
| 10 Gwneud gwaith i sicrhau mwy o opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy i fflyd cerbydau a staff y Cyngor gan gynnwys cynlluniau beicio i'r gwaith a defnyddio e-feiciau, cerbydau trydan, hybrid a thanwydd arall a gweithredu'r Siarter Teithio Iach. | Gwyrdd |
| 11 Parhau gyda'r gwaith o adolygu Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor gan ganolbwyntio ar asesu safleoedd ymgeisiol, a pharatoi strategaeth a ffefrir a drafft ar adnau o gynllun y dyfodol yn dilyn ymgynghoriad. | Gwyrdd |
| 12 Buddsoddi mewn addysg, trafnidiaeth gynaliadwy, cyfleusterau ac asedau cymunedol a chelf a diwylliant o ganlyniad i negodi taliadau Adran 106 gan ddatblygwyr mewn ardaloedd lle mae gwaith datblygu wedi digwydd fel y nodir yn yr Adroddiad Adran 106 blynyddol. | Gwyrdd |
| 13 Parhau i sicrhau cynaliadwyedd cyfleusterau ac asedau lleol megis rhai tiroedd chwaraeon, parciau, mannau agored, rhandiroedd a chyfleustodau cyhoeddus drwy weithio gyda sefydliadau cymunedol a throsglwyddo iddynt. | Gwyrdd |
| 14 Sicrhau gwelliannau o ran rheoli gwastraff gyda mwy o ffocws ar yr economi gylchol, gweithredu'r Cyfleuster Adfer Adnoddau newydd yn y Barri a chyflwyniad terfynol y trefniadau ailgylchu newydd i Benarth a'r cyffiniau gan gynnwys casglu rhagor o eitemau ar gyfer ailgylchu ar draws y Fro, yn unol â'r Strategaeth Rheoli Gwastraff 10 mlynedd newydd. | Gwyrdd |
| 15 Gweithio gyda grwpiau cymunedol i ddatblygu cysyniad 'mabwysiadu stryd / ardal' a hyrwyddo strategaeth sbwriel a gorfodi gan gydnabod rôl y gymuned o ran gwella ein hamgylchedd lleol. | Gwyrdd |
| 16 Gweithredu'r Cynllun Rheoli Traethlin a'r Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol diwygiedig a gweithio gyda chymunedau sydd mewn perygl o lifogydd er mwyn datblygu atebion lleol. | Gwyrdd |
| 17 Cynnal asesiadau ansawdd aer lleol a chymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod amcanion ansawdd aer cenedlaethol yn parhau i gael eu cyflawni. | Gwyrdd |

**Ein cyflawniadau**

**1. Gweithredu Prosiect Sero, ein Cynllun Her Newid Hinsawdd a gweithio gyda'r gymuned a rhanddeiliaid eraill i leihau allyriadau carbon, gan ganolbwyntio gwaith ar ddefnydd ynni, trafnidiaeth, tir a bwyd, a sicrhau bod ein hymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur yn rhan annatod o bob penderfyniad.**

- Rydym wedi manteisio i'r eithaf ar ddulliau o **deithiau hybrid** ar draws gwasanaethau'r cyngor i sicrhau ein bod yn parhau i leihau teithiau diangen mewn ceir ac yn parhau i ddefnyddio ceir cronfa lle y bo angen.
- Mae ystâd y llyfrgelloedd wedi elwa o seilwaith i gyfrannu at statws carbon niwtral, e.e. mae **Llyfrgell y Rhws** newydd gael **paneli solar** wedi'u gosod ar do'r Ganolfan Weithgareddau. Hefyd, **hyrwyddwyd**

**gweithgareddau a sgyrsiau cynaliadwyedd am newid hinsawdd** e.e. 'Celf o Wastraff, arddangosfa Ar Golled, ysgrifennu creadigol a digwyddiadau eraill ar thema yn ein llyfrgelloedd a'n gofodau gwneud.
- Mae Sustran yn parhau i weithio gydag asiantaethau i nodi gofalwyr a hoffai gael mynediad at **e-feic.**
- Mae gwasanaethau newydd wedi'u sefydlu **i gynyddu cyfranogiad ailgylchu** yn enwedig mewn ardaloedd sydd â chyfraddau ailgylchu gwael fel fflatiau. Yn ogystal, mae'r **gwasanaeth masnachol newydd** i gynorthwyo busnesau masnachol i gydymffurfio dan y **Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle** newydd, bellach wedi'i sefydlu ac yn cael ei farchnata.
- Sicrhawyd **contractau gwerth uchel ar gyfer deunydd ailgylchadwy** sy'n sefydlog hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol hon.
- Mae cyfanswm o 44 o dystysgrifau perfformiad ynni gwell wedi'u derbyn eleni gan **eiddo rhent y Fro**, gostyngiad amcangyfrifedig mewn carbon deuocsid ($CO_2$) o'r eiddo hyn o tua 127.1 tunnell.
- **Mae gwaith datgarboneiddio wedi'i wneud mewn tair canolfan gymunedol** gan ddefnyddio cyllid allanol i gynnwys paneli solar, batris a goleuadau LED newydd.
- Mae'r **hyb Prosiect Sero** a sefydlwyd eleni yn parhau i fod yn bwynt cyswllt unigol effeithiol i ddinasyddion a staff fel ei gilydd.
- Gweithiwyd fel rhan o Fwyd y Fro i ddatblygu **Strategaeth Fwyd ddrafft ar gyfer y Fro**.
- **Sefydlwyd proses ar gyfer dyrannu cronfa wrth gefn Prosiect Sero i ariannu amrywiaeth o brosiectau yn unol â'r Cynllun Her Hinsawdd**, gan gefnogi newidiadau o ran defnyddio ynni, trafnidiaeth, ymgysylltu a natur.

**2. Gweithio gyda'n partneriaid i ymateb i'r argyfwng natur gan gynnwys gweithredu Strategaeth Seilwaith Gwyrdd newydd, strategaeth rheoli coed a darparu'r Blaengynllun Bioamrywiaeth**

- **Cwblhawyd gerddi glaw** ar hyd y llwybr Teithio Llesol ar hyd Heol yr Orsaf. Yn ogystal, darparwyd **lloches beiciau to gwyrdd** i Ysgol Gynradd Romilly mewn partneriaeth â'r Bartneriaeth Natur Leol.
- Sicrhawyd cyllid i ddarparu **hyfforddiant bioamrywiaeth** i sicrhau gwelliannau ar draws yr holl waith a wneir gan y Cyngor.
- Cafwyd cytundeb ar adnewyddu Siarter Hinsawdd bresennol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddod yn **Siarter Argyfwng Hinsawdd a Natur**, ac mae'r gwaith datblygu wedi dechrau.
- Mae'r gwaith o **blannu coed** ar raddfa wedi bod ar y gweill ar y prosiect Adfer y Ddawan, rhaglen waith tair blynedd i wella amrywiaeth ar hyd afon Ddawan gan gynnwys **12,094 o wrychoedd a choed ifanc**.
- **Ymgynghorwyd ar Strategaeth Goed ddrafft 15 mlynedd.**
- Plannwyd **dros 320 o goed** mewn ysgolion fel rhan o'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.
- Plannwyd **bron 21,900** o goed gan wasanaethau'r cyngor ledled y Fro, gan gynnwys trwy'r Bartneriaeth Natur Leol**.**
- Gwnaed cynnydd yn y gwaith i ddatblygu'r **Strategaeth Seilwaith Gwyrdd ddrafft** ymhellach a lywiwyd gan waith ymgysylltu.

**3. Ymgysylltu â chymunedau lleol ac edrych ar y potensial ar gyfer cynlluniau ynni cymunedol fel rhan o'r Cynllun Ynni Ardal Leol, gan gynnwys y potensial i ddefnyddio asedau'r cyngor.**

- Dechreuwyd y gwaith ar **Gynllun Ynni Ardal Leol** sy'n nodi'r newidiadau sydd eu hangen i alluogi Bro Morgannwg i drosglwyddo i sero net erbyn 2050. Cymeradwywyd Cynllun Ynni Ardal Leol gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2024.

**4. Gwella'r adeiladau ysgol presennol a chyflwyno adeiladau newydd yn unol â'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a'u gwneud yn adeiladau carbon isel, a di-garbon yn ddelfrydol, i'w gweithredu lle bynnag y bo modd.**
- Gweithio i roi **Fframwaith Datgarboneiddio** ar waith ym mhob ysgol.

- Cymryd rhan weithredol yn y **Bwrdd Gweithredol Buddsoddi mewn Ysgolion** i sicrhau ein bod yn archwilio cyfleoedd ar y cyd ar gyfer lleihau carbon ar draws ein hystâd ysgolion.
- Gwnaethon wella adeiladau ysgol presennol gan sicrhau bod y rheini sydd heb fannau gwyrdd wedi derbyn eitemau i helpu gyda lleihau carbon, gan gynnwys **blodau gwyllt / pyllau / blychau plannu**.
- Cynhaliwyd **archwiliadau ynni** o'n hysgolion gyda chymorth wedi'i ddarparu i helpu gyda lleihau biliau ynni.
- Hyrwyddwyd ac anogwyd ysgolion i gymryd rhan yn y **Big Plastic Count**.
- **Mae bron pob ysgol Band B wedi'i chwblhau** gyda dim ond tair ysgol yn weddill, Richard Gwyn Sant, ehangiad Ysgol y Deri a Sain Nicolas ac mae'r rhain ar y trywydd iawn i gael eu cwblhau erbyn diwedd y rhaglen yn 2026. Ochr yn ochr â ffocws allweddol ar well cyfleusterau sy'n darparu profiadau addysgol cyfoethogol i'n dysgwyr ar gyfer y dyfodol, mae gwelliannau a gwblhawyd hyd yma wedi ymgorffori dulliau lleihau carbon mewn adeiladu gydag **adeiladau ysgolion newydd sydd wedi'u hadeiladu i safonau BREEAM sy'n darparu adeiladau ynni-effeithlon, sy'n gwella bioamrywiaeth ac yn lleihau cost carbon adeiladu.** Mae cyfleusterau sydd wedi'u cwblhau yn defnyddio **technoleg ddigidol**, **tirlunio arloesol a mannau awyr agored i gefnogi bioamrywiaeth, pwyntiau gwefru cerbydau trydan a stondinau beiciau, defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy fel pŵer solar, pympiau gwres ffynhonnell aer i restru ond ychydig.**

**5. Cyflawni cartrefi Cyngor newydd yn agos at sero carbon, neu o leiaf gyfradd A, a datblygu Rhaglenni Ôl-osod er mwyn Optimeiddio i gyrraedd targedau lleihau carbon ar gyfer stoc tai bresennol y Cyngor ac i helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd hefyd gan sicrhau bod stoc tai'r Cyngor yn parhau i gyrraedd y safonau perthnasol ar gyfer diogelwch ac adeiladu.**

- Mae arolygon parhaus wedi dechrau ymdrin â **phob un o'r 4,000 o gartrefi cyngor**, rhagwelir y bydd hyn yn cael ei gwblhau erbyn 2026, yn unol ag amserlenni SATC.
- **Adnewyddwyd pedwar eiddo gwledig 'oddi ar y grid'** gan ymgorffori pympiau gwres, gosod paneli solar ffotofoltäig a batris, adfer gwres i ddŵr gwastraff a waliau allanol a lloriau sydd wedi'u hinswleiddio'n dda.
- **Cwblhawyd y gwaith o inswleiddio waliau allanol ac uwchraddio ffenestri** mewn **84** o eiddo sy'n lleihau colli gwres o fewn yr adeiladau.

**6. Annog a chefnogi newidiadau cynaliadwy i sut mae pobl yn teithio trwy gynyddu cyfleoedd ar gyfer teithio llesol (cerdded a beicio) gan gynnwys Llwybrau Llesol y Rhws ac Eglwys Brewys.**

- Cwblhawyd gwaith **Cyfnewidfa Cogan** WelTAG Cam 2 ac fe'i gyflwynwyd i'r cabinet busnes gan Trafnidiaeth Cymru (TC). Mae **Gwasanaeth Bws Lleol a gefnogir B3 (y Barri)**, wedi'i ddiwygio er mwyn gwasanaethu Cyfnewidfa newydd Dociau'r Barri.
- Gwnaed **gwelliannau i gerddwyr** ar Peterswell Road, Court Road a Dyfan Road, y Barri ac ar Stryd y Bont/Cawnpore Street a Pill Street, Cogan.
- Adeiladwyd **llwybr teithio llesol (TLl)** ar hyd Heol yr Orsaf, y Rhws. Y **cynllun TLl Eglwys Brewys** - llwybr pren wedi'i archebu drwy'r weithdrefn Pwerau Brys, gwelliannau i gerddwyr o'r stad 'goed' wedi'i awdurdodi yn ogystal â gwaith i osod cilfan ychwanegol a gosod llwybr troed newydd o flaen The Gathering Place.
- Mae gosod croesfan twcan newydd ger tafarn y Walston Castle yn Wenfô wedi darparu man croesi diogel sy'n cysylltu â llwybr TLl Port Road.
- Mae datblygiad y cynllun yn mynd rhagddo ar gyfer **llwybr TLl y Barri i Ddinas Powys a Sili i Cosmeston**. Mae llwybrau o gwmpas dwyrain y Barri wedi eu datblygu a'u costio.
- Cynhaliwyd astudiaeth gyda CGC a Chyngor Caerdydd ar **gynllun llogi beiciau yn y dyfodol,** bydd yr adroddiad ar gael yn Ch2 24/25. Cytunwyd ar gyllid CFfG i osod 4 o orsafoedd beiciau Brompton yn y Barri, Penarth a Cogan yn agos i orsafoedd trenau yn ystod 2024/25.

- Dechreuodd y cynllun cau strydoedd ysgol wedi'i amseru yn Ysgol Gynradd Fairfield a chynhaliwyd cynlluniau peilot mewn ysgolion eraill yn y Fro gyda'r bwriad o gyflwyno'r cynllun ymhellach.
- Mae gwaith wedi'i wneud i wella rhannau o **lwybr y Mileniwm** a llwybrau hyrwyddo eraill ar draws y Fro, gan gysylltu trefi a phentrefi lleol â'r rhwydwaith ar garreg eu drws, gan roi gwell mynediad i bawb ac annog teithio cynaliadwy. **Gosodwyd dros 125 o gatiau mochyn newydd, 6 o bontydd troed newydd, gosodwyd 150 o arwyddbyst newydd ar ochr y ffordd** a **llwybr pren newydd wedi'i ailgylchu** sy'n cysylltu'r Bont-faen ac Aberthin. Yn ogystal, mae'r prosiect **Llwybr Mawr Morgannwg** wedi bod yn gwneud gwelliannau ar draws y rhwydwaith i ddatblygu a gwella mynediad i gerddwyr/marchogion a beicwyr.

**7. Gweithio gyda'n partneriaid i wella mynediad at gludiant cyhoeddus drwy gefnogaeth i wasanaethau bws cymdeithasol hanfodol a'r seilwaith trafnidiaeth gan gynnwys darparu arddangosfeydd e-amserlen mewn safleoedd bysus a darparu llochesi bws newydd yn y Rhws, Eglwys Brewys, Cogan, Dinas Powys a'r Barri.**

- Mae'r gwaith yn parhau **i dendro gwasanaethau** sydd wedi'u nodi ar gyfer eu canslo o bosib, ar ôl cyllid CBB 2023-24. Ar hyn o bryd mae Trafnidiaeth Teithwyr yn gweithio'n agos gyda Rhanbarth De-ddwyrain Cymru i geisio cadw cymaint o ddarpariaeth gwasanaeth â phosib o fewn y cyllid sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i'r Rhanbarth yn ogystal â chyllidebau sydd ar gael gan y Cyngor ei hun. Mae'r gwasanaethau lleol a dendrwyd sy'n gwasanaethu Bro Morgannwg yn cynnwys Gwasanaethau 7, 88, 89A/89B, 93, 100, 303, 304, 305, 320, 321, X2. Mae Cyngor Caerdydd wedi tendro Gwasanaeth 7, wrth fod y lleill wedi eu tendro gan Gyngor Bro Morgannwg. **Mae Gwasanaeth 305 yn fersiwn symlach newydd** o Wasanaeth 89A/89B, felly ni fydd Gwasanaeth 89A/B yn cael ei ddyfarnu.
- Mae'r gwaith o **uwchraddio safle bws Terfynfa Teithwyr Maes Awyr Caerdydd** wedi'i gwblhau, ynghyd ag uwchraddio cyfleuster safle bws ar Fonmon Road, y Rhws. Roedd y gwaith o uwchraddio safle bws Terfynfa Teithwyr Maes Awyr Caerdydd yn cynnwys darparu bwrdd **e-arddangos**.
- Uwchraddiwyd lloches safle bws a bwrdd e-arddangos wrth fynedfa Parc Gwledig Cosmeston.
- Cyflwynwyd penwythnos **cynllun teithio am ddim** yn ystod gwyliau haf yr ysgol 2023, a chynllun teithio am ddim bob dydd drwy gydol gwyliau haf yr ysgol 2024 ar Wasanaeth 303 (Llanilltud Fawr – Pen-y-bont ar Ogwr drwy gymunedau arfordirol).
- Mae'r Cyngor yn parhau i **gefnogi nifer o wasanaethau bysus lleol â gefnogir** gan ddefnyddio ei gyllideb sefydledig a'r Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau gan LlC. Mae'r Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau hefyd yn parhau i helpu i gefnogi **3 darparwr trafnidiaeth cymunedol lleol**, wrth i gronfeydd Adran 106 barhau i gefnogi darpariaeth trafnidiaeth gymunedol fewnol y Cyngor, **Greenlinks**.
- Gan ddefnyddio ei gyfrif X cyfryngau cymdeithasol, mae Trafnidiaeth Teithwyr wedi bod yn **hyrwyddo yn weithredol** Tocynnau Bws Consesiynol i bobl 60 oed ac yn hŷn neu sydd ag anableddau penodol, Fy Ngherdyn Teithio i bobl 16-21 oed a Traveline Cymru i gael gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus ledled yr ardal leol, Cymru a thu hwnt. Mae'r rhain hefyd yn cael eu hyrwyddo gyda dolenni ar wefan Drafnidiaeth y Cyngor.
- Mae'r Cyngor yn parhau i **ymgymryd ag amrywiol ymgynghoriadau/arolygon ar-lein** er mwyn ymgysylltu â'r cyhoedd (e.e. Arolwg Boddhad Blynyddol ar gyfer Trafnidiaeth Gyhoeddus a Diogelwch Ffyrdd yn ystod mis Hydref bob blwyddyn, ac o ran y newidiadau arfaethedig i wasanaethau.

**8. Mewn cydweithrediad â Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd, cynyddu'r rhwydwaith o bwyntiau gwefru cerbydau trydan hygyrch lleol gan gynnwys ym meysydd parcio'r Cyngor**

- **Gosodwyd 34 o wefrwyr cerbydau trydan** (Cam 1 a 2) mewn gwahanol leoliadau ar y stryd ac mewn meysydd parcio a reolir gan y cyngor mewn partneriaeth â Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Datblygwyd cynigion yn dda ar gyfer a **24 o faeau gwefu cerbydau trydan pellach** (Cam 3) i'w gosod mewn ardaloedd addas ar y stryd ac yng nghyfleusterau meysydd parcio'r cyngor.
- Wrthi'n datblygu **rhwydwaith addas ar gyfer gwefru cerbydau trydan** gan ddarparu gwefru cyfleus a fforddiadwy sy'n cwmpasu ardaloedd trefol y Fro i hwyluso amrywiaeth o opsiynau gwefru cerbydau

trydan ar y stryd ac oddi ar y stryd i gynnig hyblygrwydd a chyfleustra i'r preswylwyr / ymwelwyr hynny mewn gwahanol gymunedau.

**9. Gweithredu'r Cynllun Arwynebau Ffyrdd (2022 i 2025) i wella cyflwr y briffordd ar gyfer pob defnyddiwr yn cynnwys bysus, cerddwyr a beicwyr a gweithredu cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer terfyn cyflymder diofyn 20 milltir yr awr ar ffyrdd cyfyngedig o fewn rhwydwaith priffyrdd lleol y Fro.**

- Mae contract newydd wedi'i gaffael gyda **buddion amgylcheddol ychwanegol** yn ogystal â defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf.
- Mae gwaith i gwblhau **terfyn cyflymder diofyn 20mya** Llywodraeth Cymru wedi'i gwblhau'n sylweddol.
- Cafodd **9,717 o geudyllau** eu hatgyweirio i wella cyflwr y ffyrdd.

**10. Gwneud gwaith i sicrhau mwy o opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy i fflyd cerbydau a staff y Cyngor gan gynnwys cynlluniau beicio i'r gwaith a defnyddio e-feiciau, cerbydau trydan, hybrid a thanwydd arall a gweithredu'r Siarter Teithio Iach.**

- Ymgymerwyd ag **arolwg Teithio Staff** y Cyngor i helpu i nodi pa ganran o staff sy'n defnyddio cerbyd preifat ar gyfer eu cymudo dyddiol. Mae gwaith nawr yn mynd rhagddo i geisio lleihau'r nifer hwn.
- Mae nifer y **Cerbydau Trydan** o fewn **fflyd y Cyngor wedi cynyddu gan 8,** sydd bellach yn 6.8% o'r fflyd.
- Cynhaliwyd cynllun beicio i'r gwaith yn ystod misoedd yr haf i annog y nifer sy'n manteisio arno.

**11. Parhau gyda'r gwaith o adolygu Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor gan ganolbwyntio ar asesu safleoedd ymgeisiol, a pharatoi strategaeth a ffefrir a drafft ar adnau o gynllun y dyfodol yn dilyn ymgynghoriad.**

- Paratowyd y Strategaeth a Ffefrir a'r sylfaen dystiolaeth.
- Cynhaliwyd yr adrodd gwleidyddol a'r ymgynghoriad cyhoeddus.
- Cymeradwywyd yr amserlen Cytundeb Cyflawni Diwygiedig.
- Cwblhawyd ymgynghoriad cyhoeddus Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN), yn unol â'r Cytundeb Cyflenwi Diwygiedig.

**12. Buddsoddi mewn addysg, trafnidiaeth gynaliadwy, cyfleusterau ac asedau cymunedol a chelf a diwylliant o ganlyniad i negodi taliadau Adran 106 gan ddatblygwyr mewn ardaloedd lle mae gwaith datblygu wedi digwydd fel y nodir yn yr Adroddiad Adran 106 blynyddol.**

- Buddsoddwyd mewn trafnidiaeth gynaliadwy gan gynnwys cynllun **Greenlinks**, cyfleusterau cymunedol a pharciau o ganlyniad i gyd-drafod taliadau Adran 106 gan ddatblygwyr.
- Mae **offer ffitrwydd awyr agored** newydd yn Sain Tathan yn gyflawn.
- Mae'r gwaith o osod **ffensys newydd yn y cyrtiau tenis** oddi ar Station Road East, Gwenfô, wedi'i gwblhau.
- Rhoddwyd cymeradwyaeth i uwchraddio man agored cyhoeddus, sy'n eiddo i'r Cyngor, i'r gogledd o South Road, Sili. Bydd astudiaeth ddichonoldeb yn cael ei chynnal yn 2024/25 i lywio'r gwaith hwn.
- Mae'r trosglwyddiad tir ar gyfer safle'r ysgol newydd yng ngogledd-orllewin y Bont-faen bellach wedi'i gwblhau, cynhaliwyd arolygon ac mae cynllun / dyluniad y safle bellach yn cael ei ystyried.
- Mae uned **ystafell ddosbarth fodiwlaidd newydd** yn Ysgol Iau Dinas Powys, wedi'i chwblhau.
- Mae **croesfan twcan** newydd ar Ffordd Mileniwm rhwng Cei'r Dwyrain a'r gyfnewidfa drafnidiaeth bellach wedi'i gwblhau.
- Mae **goleuadau stryd** ychwanegol wedi'u gosod ar Llanmaes Road, Llanilltud Fawr.
- Mae gwaith atgyweirio wedi'i gwblhau i lwybr pren y Bont-faen.
- Mae llawer o **feinciau** newydd a gorsaf pwmpio/atgyweirio beiciau wedi'u gosod yn Sain Nicolas
- Mae lloches fysus newydd wedi'i gosod ger Parc Gwledig Llynnoedd Cosmeston.

- Cytunwyd ar wneud **gwelliannau i gerddwyr** yng nghyffiniau ysgol gynradd Sili, o fewn ac yn ffinio â Gerddi Gladstone Isaf, y Barri, ar Heol Gladstone ger Y Memo, y Barri ac mae cyllid A106 yn ariannu **teithiau bws 'am ddim'** ar y gwasanaeth 303 yn ystod gwyliau'r haf.
- Mae **gwelliannau i fannau agored cyhoeddus** wedi cynnwys meinciau a biniau newydd ar Gomin Dinas Powys, estyniad i lwybr troed yn ardal chwarae Parc Seel, Dinas Powys, gyda **choed ychwanegol wedi'u plannu** ym Mharc Canolog, y Barri, ac ym Mharc Pencoedtre, y Barri. Gosodwyd meinciau newydd ym Mharc Chickenwood, y Barri a phaneli dehongli ac arwyddion mynediad yng Ngerddi Gladstone Uchaf ac Isaf, y Barri.

**13. Parhau i sicrhau cynaliadwyedd cyfleusterau ac asedau lleol megis rhai tiroedd chwaraeon, parciau, mannau agored, rhandiroedd a chyfleustodau cyhoeddus drwy weithio gyda sefydliadau cymunedol a throsglwyddo iddynt.**

- Mae cynnydd yn parhau i fod yn dda mewn perthynas ag adolygu a gweithredu opsiynau i sefydliadau cymunedol weithredu cyfleusterau, gyda hysbysebion pellach wedi'u gosod yn y wasg leol yn hysbysebu'r gwarediadau.
- Mae swyddogion yn **parhau i ymgysylltu â datblygwyr** i sicrhau bod caniatâd cynllunio yn darparu mannau agored i gefnogi datblygiadau newydd ac yn mynd i'r afael â'r angen presennol, i fodloni'r gofynion polisi yn y **Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Mabwysiedig a'r Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) perthnasol**.
- Mae swyddogion yn parhau i ymgysylltu â datblygwyr i sicrhau y gwneir yn fawr o'r **cyfleoedd i drosglwyddo lle/cyfleusterau** i sefydliadau cymunedol.
- Mae'r **gwelliannau i doiledau** yng Ngorllewin y Fro ar y gweill yn dilyn cais llwyddiannus o grant gwerth £300,000.

**14. Sicrhau gwelliannau o ran rheoli gwastraff gyda mwy o ffocws ar yr economi gylchol, gweithredu'r Cyfleuster Adfer Adnoddau newydd yn y Barri a chyflwyniad terfynol y trefniadau ailgylchu newydd i Benarth a'r cyffiniau gan gynnwys casglu rhagor o eitemau ar gyfer ailgylchu ar draws y Fro, yn unol â'r Strategaeth Rheoli Gwastraff 10 mlynedd newydd.**

- **Sefydlwyd Cytundeb gyda FCC Environment** ar gyfer rheoli canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref (CAGC).
- Cyflwynwyd **gwasanaeth masnachol newydd i leihau gwastraff yn gynaliadwy** drwy gynyddu ein darpariaeth o ddeunydd ailgylchu i'w ailddefnyddio yn y sector preifat.
- Dosbarthwyd biniau i'r 17 bloc o fflatiau a fflatiau sy'n weddill nad oeddent yn ailgylchu, ac maent bellach yn cymryd rhan.
- Agorwyd **siop ailddefnyddio** newydd yn y Barri, ac mae un yn cael ei archwilio ar gyfer Gorllewin y Fro ynghyd â safle arall ar gyfer Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref.
- Hyrwyddwyd yr **ymgyrch ailgylchu genedlaethol "Bydd Wych"** ac mae Swyddogion Ailgylchu wedi darparu cymorth i breswylwyr lle mae angen lleihau gwastraff a chynyddu cyfranogiad ailgylchu.
- Llwyddwyd i **gwblhau'r broses o gyflwyno trefniadau ailgylchu sy'n gwahanu deunyddiau i Benarth**, gan gynyddu ansawdd deunydd y gellir ei ailgylchu ymhellach a chyfrannu at gyrraedd targedau ailgylchu cenedlaethol.
- Defnyddiwyd **cylchfannau'r cyngor i hysbysebu ailgylchu o fewn y cartref** gyda chymorth arian gan WRAP. Rydym wedi defnyddio lleoliadau strategol ar lwybrau strategol i ddarparu'r effaith fwyaf.
- Datblygwyd cynllun prosiect ar weithredu'r **Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle Cymru**. Rydym wedi siarad â'n holl gwsmeriaid presennol a chwsmeriaid newydd am y newidiadau sydd o'n blaenau.

**15. Gweithio gyda grwpiau cymunedol i ddatblygu cysyniad 'mabwysiadu stryd / ardal' a hyrwyddo strategaeth sbwriel a gorfodi gan gydnabod rôl y gymuned o ran gwella ein hamgylchedd lleol.**

| |
|---|
| - Cyflwynwyd prosiect i **wella problemau parcio** yn Treferad. Mae hyn wedi ymateb i alwadau lleol am fynediad gwell i ffyrdd a rhagor o fannau parcio i gartrefi o gwmpas tir sy'n eiddo i'r cyngor.<br>- Mae prosiectau lleol i **fynd i'r afael â dympio sbwriel** a gwastraff yn cael eu datblygu gyda thenantiaid mewn sawl lleoliad. Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn cynnwys elfennau o'r prosiect 'Llechen Lân' llwyddiannus.<br>- Parhau i **wella Ansawdd Amgylcheddol Lleol** drwy ymgysylltu'n eang â grwpiau cymunedol i ddarparu **prosiectau casglu sbwriel** cymunedol, dulliau addysgol / ataliol.<br>- Mae **hybiau sbwriel** llwyddiannus yn parhau i gael eu cynnal ledled y Fro, gan wella ansawdd amgylcheddol lleol.<br>- Cadwyd yr holl **Faneri Gwyrdd a Glas ar gyfer 2023, ond ni wnaed unrhyw geisiadau yn 2024.** |

| |
|---|
| **16. Gweithredu'r Cynllun Rheoli Traethlin a'r Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol diwygiedig a gweithio gyda chymunedau sydd mewn perygl o lifogydd er mwyn datblygu atebion lleol.**<br><br>- Mae'r **Strategaeth** Leol Ddiwygiedig ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd bellach wedi'i chwblhau.<br>- Mae'r broses o fonitro **tonnau a meteorolegol** yn parhau ar Bier Penarth.<br>- Mae **arolwg LiDAR o glogwyni pentir Penarth** wedi'i gwblhau ac mae arolwg dilynol, yn dilyn cwympiadau clogwyni diweddar, wedi'i gynllunio ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae **arolygiadau gweledol** o nifer o gwympiadau clogwyni diweddar hefyd wedi eu cynnal ym mhentir Larnog a Phenarth.<br>- Mae **arolygon arfordirol** ychwanegol wedi'u cwblhau ym Mae Whitmore, Ynys y Barri, y Cnap (o Cold Knap i Bull Cliff), a Bull Cliff.<br>- Mae'r gwaith o gyflawni swyddogaeth orfodi yn parhau gyda nifer o safleoedd datblygu yn cael eu monitro mewn perthynas â **systemau draenio cynaliadwy (SDCau)**. Mae awdurdod dirprwyedig bellach wedi'i gadarnhau ar gyfer camau gorfodi Corff Cymeradwyo'r SDCau a'r cyfansoddiad wedi'i ddiweddaru yn unol â hynny. |

| |
|---|
| **17. Cynnal asesiadau ansawdd aer lleol a chymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod amcanion ansawdd aer cenedlaethol yn parhau i gael eu cyflawni.**<br><br>- Cafodd pob un o'r 3 Adroddiad Cynnydd Blynyddol ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a'r Fro eu hadrodd i Gabinet priodol y tri chyngor partner a chymeradwywyd yr adroddiadau a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w hadolygu a'u derbyn.<br>- Ymatebwyd i 158 o gwynion, allan o 210, a oedd yn ymwneud â llygredd aer a sŵn masnachol a diwydiannol o fewn un diwrnod gwaith, **perfformiad o 75.24%** a oedd yn rhagori ar ein targed o 75%. |

**Gweithgareddau ymgysylltu: yr hyn a ddywedodd ein preswylwyr, ein defnyddwyr gwasanaeth, ein rhanddeiliaid a'n phartneriaid**

| Yr hyn y buom yn ymgysylltu arno | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| Adroddiad Eithriadau Terfyn Cyflymder 20 MYA | Derbyniad cyffredinol o'r llwybrau a nodwyd. | Diwygiwyd nifer fechan o lwybrau oherwydd yr ymgynghoriad a'r mewnbwn gan y Cabinet. |
| Strategaeth Goed | Gofynnwyd am ystod eang o safbwyntiau gyda chanfyddiadau ymgysylltu yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Bydd y rhain yn llywio'r Strategaeth Goed ddrafft derfynol a fydd yn cael ei chyflwyno i'r | Caiff canfyddiadau ymgysylltu sy'n llywio'r strategaeth derfynol ar hyn o bryd a chymeradwyaeth y Cabinet eu ceisio i fabwysiadu'r strategaeth 15 mlynedd. |

| Yr hyn y buom yn ymgysylltu arno | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| | Cabinet i'w chymeradwyo maes o law. | |
| Maes Hamdden Murchfield | Cyd-ddylunio cyfleusterau hamdden newydd gyda phreswylwyr. Cynhaliwyd sesiynau galw heibio yn y Ganolfan Gymunedol a chyda disgyblion yn Ysgol Iau Dinas Powys yn ogystal ag arolwg preswylwyr. | Cytunwyd ar ddyluniad a oedd yn adlewyrchu barn y gymuned, gan sicrhau bod y gymuned gyfan yn elwa o'r gofod rhyngweithiol newydd i deuluoedd. |
| CDLlN - Opsiynau twf (gofodol a lefel y twf), amcanion, materion allweddol, ac ati. Arwain at ymgysylltu ar y Strategaeth a Ffefrir, gan gynnwys sesiynau penodol yn y gymuned yn yr aneddiadau lle cynigir safleoedd allweddol. | Mae rhywfaint o gefnogaeth i'r Strategaeth, a rhywfaint o wrthwynebiad i lefel a lleoliad y twf arfaethedig. Mae rhai yn gwrthwynebu ar sail gormod o dwf, rhai ar sail dim digon o dwf. | Yr adroddiad ymgynghori strategaeth a ffefrir i'w adrodd i'r Cabinet, i Craffu a'r Cyngor. Mae'r adroddiad ymgynghori yn mynd i'r afael, ac yn ymateb, i'r holl sylwadau a ddaeth i law. Newidiadau arfaethedig i eiriad y polisïau strategol o ganlyniad i adborth gan ymgynghorwyr. Bydd adborth yn ymwneud â'r angen am greu lleoedd yn arwain at waith penodol ar hyn gyda Chynghorau Tref a Chymuned, unwaith y bydd y Strategaeth wedi mynd gerbron y Cyngor, er mwyn deall ac ymateb i anghenion/blaenoriaethau cymunedol ynghylch y lleoedd hynny. |
| Arolwg Diogelwch ar y Ffyrdd Trafnidiaeth Gyhoeddus 2023/24 | • Mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus - 157/248 (63%) o bobl yn anfodlon.<br><br>• Arddangosfeydd gwybodaeth safleoedd bysus electronig - 138/227 (61%) o bobl yn anfodlon<br><br>• Safleoedd a llochesi bysus - 73/226 (32%) o bobl yn anfodlon. | • Mae'r Cyngor, drwy weithio gyda Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol Rhanbarth De-ddwyrain Cymru, wedi sicrhau cyllid i gynnal y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau bysus lleol, ar adeg pan roedd llawer o wasanaethau (gyda chymorth a masnachol) mewn perygl o gael eu dileu.<br>• Mae'r Cyngor yn parhau i gynyddu ei ystâd o arddangosfeydd baneri solar/a bwerir gan fatris mewn llochesi ledled Bro Morgannwg. Ar hyn o bryd, mae gan ystâd y Cyngor gyfanswm o 76 o e-arddangosfeydd mewn llochesi a chyfanswm o 5 o arddangosfeydd e-faneri solar/a bwrerir gan fatris. |

| Yr hyn y buom yn ymgysylltu arno | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| | | • Ar hyn o bryd, mae gwelliannau yn cael eu gwneud i safleoedd a llochesi penodol yn ardal ward Sili gan ddefnyddio cyllid A106 lleol ar gyfer yr ardal hon, gyda chais ychwanegol am gyllid A106 ar gyfer uwchraddio safleoedd bysus Canol Tref y Bont-faen. |

**Yr hyn a ddywedodd ein rheoleiddwyr**

| Adolygu | Canfyddiadau | Ein hymateb |
|---|---|---|
| Mae adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Gwasanaeth Cynllunio yn ALl 2 hefyd yn berthnasol yma.<br><br>Adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Gwasanaeth Cynllunio | | |

**Ein heriau allweddol**

- Bydd cyflawni ein hymrwymiadau i gyflawni sero net erbyn 2030 yn creu heriau sylweddol yn y tymor byr i'r hirdymor oherwydd pwysau ariannol parhaus a'r her sy'n gysylltiedig â datgarboneiddio'r gadwyn gyflenwi.
- Mae sicrhau bod y brifffordd gyhoeddus yn cael ei hatgyweirio'n effeithiol (bod Hawliadau Yswiriant o fewn terfynau a bod boddhad y cyhoedd yn cael ei gynyddu), o fewn y gyllideb sydd ar gael, yn parhau i fod yn heriol dros ben.
- Mae cynnal y gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu mewn marchnad gyrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm gystadleuol, yn parhau i fod yn heriol.
- Mae heriau i gefnogi'r newid i economi gylchol.
- Mae angen rheoli disgwyliadau wrth weithio gyda gwasanaethau o fewn ein cymunedau a'u darparu o ystyried y gyllideb/cyllid a'r adnoddau sy'n lleihau'n barhaus i ni yn y dyfodol.
- Mae problemau cyflenwi parhaus a chost gynyddol deunyddiau yn parhau i gael effaith ar y gallu i gyflawni'r prosiectau sy'n weddill o fewn Band B y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a byddant yn destun ystyriaeth wrth ddatblygu'r Rhaglen dreigl yn y dyfodol.
- Ar draws ystâd ysgolion Bro Morgannwg mae nifer o ysgolion Fictoraidd sydd â statws rhestredig hefyd. Mae hyn yn effeithio ar y graddau y gallwn adnewyddu/ôl-osod yr adeiladau hyn i statws gweithredu carbon sero net.

**Meysydd i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol**

- Parhau i ganolbwyntio ar ddull cydweithredol o ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth reoli ein hasedau ffisegol a digidol.
- Bwrw ymlaen i gyflawni ein hymrwymiadau yn y Cynllun Rheoli Carbon newydd.
- Bwrw ymlaen â gwaith gyda phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gryfhau'r cynnwys argyfwng natur o fewn Siarter Argyfwng Hinsawdd y BGC.
- Gwneud cynnydd yn y gwaith i ddatblygu a gweithredu'r Strategaeth Seilwaith Gwyrdd.
- Cyflawni'r Cynllun Dysgu ac Ymgysylltu Prosiect Sero.
- Bwrw ymlaen â'r gwaith o gyflawni'r Blaengynllun Bioamrywiaeth ochr yn ochr â ffocws parhaus ar godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ymgorffori bioamrywiaeth ar draws gwaith y Cyngor.
- Bwrw ymlaen â'r gwaith archwilio ar gyfer achrediad Cyflogwr sy'n Dda i Feicwyr.
- Parhau i archwilio ymhellach y cyfleoedd ar gyfer datblygu effeithlonrwydd ynni ein hadeiladau fel rhan o'n hymrwymiad i leihau ein hôl troed carbon.

- Annog ein gweithlu i ddefnyddio opsiynau trafnidiaeth mwy cynaliadwy gan ganolbwyntio ar y Siarter Teithio Iach.
- Cwblhau a chyflwyno'r polisi Amgylchedd a Gorfodi Parcio.
- Gwaith cynnydd i nodi Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref newydd yn y Fro Orllewinol ger Llandŵ.
- Gwneud cynnydd yn y gwaith o drosglwyddo asedau cymunedol sydd yn y camau trafod datblygedig ar hyn o bryd gan gynnwys nifer o gyfleusterau chwaraeon pwrpasol ac asedau cymunedol eraill.
- Datblygu'r Cynllun Ynni Ardal Leol.
- Bwrw ymlaen â'r adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol y Cyngor.
- Parhau i weithio mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol i sicrhau gwelliannau o ran ansawdd amgylcheddol lleol.
- Bwrw ymlaen â'r gwaith gyda landlordiaid ac asiantaethau gosod tai i wella sgorau ynni eiddo sydd wedi sgorio F neu G.
- Bwrw ymlaen â threfniadau carthion amgen yn Nhrem y Môr, Marcroes a Croft John, Pen-marc mewn ymgynghoriad â phreswylwyr.
- Bwrw ymlaen â'r gwaith o newid fflyd y Cyngor o gerbydau diesel, gan sicrhau bod cerbydau trydan yn cael eu hystyried yn gyntaf fel rhan o'r broses dendro.
- Gwneud cynnydd yn yr arolygon PAS2035 sy'n ymdrin â phob un o'r 4,000 o gartrefi cyngor, rhagwelir y bydd hyn yn cael ei gwblhau erbyn 2026, yn unol ag amserlenni SATC.
- Gwneud cynnydd yn y prosiectau sy'n dod i'r amlwg i ddatgarboneiddio'r ystâd adeiladu Dysgu a Sgiliau drwy is-grŵp datgarboneiddio'r Bwrdd Gweithredol Buddsoddi mewn Ysgolion.

## 7. Ein Blwyddyn mewn Rhifau 2023/24

Heb ddata meincnodi cenedlaethol, rydym wedi parhau i asesu ein perfformiad trwy ddefnyddio data tueddiadau lleol a mewnwelediadau data gwasanaethau eraill lle mae ar gael. Rydym yn parhau i weithio gyda Data Cymru i ddatblygu set ddata graidd hunanasesu genedlaethol i'n galluogi i gymharu ein perfformiad ar draws ystod o wasanaethau. Mae cynnydd yn erbyn ein Fframwaith Mesurau Perfformiad Corfforaethol wedi'i adrodd i Bwyllgorau Craffu a Chabinet y Cyngor bob chwarter, gan gynnwys adroddiad diwedd blwyddyn (Chwarter 4) ym mis Gorffennaf 2024.

Isod ceir detholiad o ddangosyddion perfformiad ar draws ein pedwar Amcan Lles y mae data ar gael ar eu cyfer ac sy'n cymharu ein perfformiad presennol â pherfformiad y llynedd (2022/23).

**Amcan Lles 1: Gweithio gyda a thros ein cymunedau**

| |
|---|
| Mae'r gyfradd absenoldeb salwch wedi gwella o **12.82** diwrnod fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn i **10.32** diwrnod**.** |
| Defnyddiodd **170** o drigolion drafnidiaeth gymunedol arall, llai na ffigur y flwyddyn flaenorol o **230.** |
| Defnyddiodd **1,137** o drigolion wasanaeth trafnidiaeth Greenlinks y Cyngor, llai na ffigur y llynedd o **1,517**. |
| Cafodd bron **77%** o ymholiadau cwsmeriaid i Cyswllt Un Fro eu datrys ar adeg y cyswllt cyntaf, ychydig yn llai na ffigur y llynedd, sef **87%**. |
| Mae'r gyfradd **93%** ar ddychwelyd ffurflenni canfasio blynyddol ychydig yn llai na ffigur y llynedd, sef **97%**. |
| **Ni chynhaliwyd cwynion yr Ombwdsmon** yn erbyn y Cyngor, gan gynnal yr un canlyniad ers y llynedd. Mae'r perfformiad hwn yn ein gosod yn chwartel 1 yng Nghymru. |
| Ymdriniwyd â **57%** o gwynion corfforaethol o fewn yr amserlenni targed, cynnydd ar ffigur y llynedd, sef **51.4%**. |
| Cytunwyd ar **51.1%** o argymhellion y Pwyllgor Craffu gan y Cabinet, sy'n gynnydd o **50%** yn 2022/23. |
| Cafodd tudalen Facebook Vale Life Magazine **2,605** o ymweliadau dyddiol ar gyfartaledd, cyfartaledd dyddiol ychydig yn is na'r llynedd, sef **2,871.** |
| Cafodd cyfrif Twitter @CBroMorgannwg, **5,541** o ymatebion dyddiol cyfartalog, cyfartaledd ychydig yn is na'r llynedd, sef **7,320**. |
| Roedd cymhareb amrywiaeth staff y Cyngor o **4.01**, yn gynnydd ar ffigur y llynedd, sef **3.11.** |
| Gwariwyd **£7,394,081** ar staff asiantaeth, cynnydd o ffigur **£6,540,848** y llynedd. |
| Roedd gwariant net fesul pen o'r boblogaeth yn **£2,205**, cynnydd o ffigur **£2,057** yn 2022/23. Mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru 2022/23 o **£3,219**. |
| Casglwyd **95.3** o'r dreth gyngor fel canran o gyfanswm y debyd casgladwy, cynnydd o **94.6** ers y llynedd, ac ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o 96. |
| Gadawodd **10.93%** o weithwyr y sefydliad yn wirfoddol yn ystod y flwyddyn, cynnydd o **9.20%** o'r flwyddyn flaenorol. |
| Gwariwyd **£294.422 miliwn** gennym ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, sy'n gynnydd o **£21.864 miliwn** ers y llynedd. Gyda phoblogaeth o 133,492, mae hyn yn cyfateb i **£2,205 y pen**, cynnydd o **£2,057** yn 2022/23. Roedd **Addysg ac Ysgolion** yn cyfrif am £128.45 miliwn (**44%**), bron hanner gwariant cyllidebol y Cyngor. **Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol** £89.76 miliwn (**30%), yr Amgylchedd a Gwasanaethau Tai** £32.16 miliwn (**11%**), **Gwasanaethau Cynllunio, Economi ac Adfywio** £4.44 miliwn (**2%**), a **Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol gan gynnwys etholiadau**, **cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor, costau tân, costau benthyca a llog, a chostau eiddo** £39.61 miliwn (**13%)** oedd yn cyfrif am y gwariant sy'n weddill, gan gyfrannu at gyflawni ein blaenoriaethau allweddol, fel yr amlinellir yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol a'r Cynllun Corfforaethol. |
| Cafwyd cynnydd yn nifer yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg gan **29%** i **592** ym mlwyddyn academaidd 2022/23, sy'n rhagori ar y targed o 400. |
| Dilëwyd **0%** o'r dreth gyngor yn ystod y flwyddyn, yr un peth â 2022/23. Mae'r perfformiad hwn yn ein gosod yn chwartel 1 yng Nghymru. |

**Amcan Lles 2: Cefnogi dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy**

| |
|---|
| Roedd **0.64%** o bobl ifanc NEET ar ôl gadael Blwyddyn 12, sy'n is na ffigur y llynedd, sef 0.24%, sy'n ei roi yn yr 2il safle yng Nghymru. |
| Daeth **1.21%** o ymadawyr Blwyddyn 11 yn NEET, sy'n is na ffigur y llynedd sef **1.50%**, ac mae'r perfformiad yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd Cymru, sef 2.0%. Mae'r perfformiad hwn yn ein gosod yn chwartel 1 yng Nghymru. |
| Roedd **3.59%** o bobl ifanc NEET ar ôl gadael Blwyddyn 13, ychydig yn is na pherfformiad y llynedd, sef **2.56%**, gan ei roi yn yr 9fed safle yng Nghymru. |
| Cafwyd cyfradd llwyddiant o **95%** ar gyrsiau achrededig ar gyfer dysgwyr blaenoriaeth, ychydig yn is na ffigur y llynedd o **98%.** |
| Penderfynwyd ynghylch **98%** o geisiadau cynllunio deiliaid tai o fewn 8 wythnos, sydd ychydig yn is na ffigur 2022/23 o **99%**. |
| Cefnogwyd **24** o sefydliadau dan arweiniad y gymuned yn ariannol trwy gyllid Cymunedau Cryf, sy'n llai na ffigur y llynedd o **43**. |
| Er bod y gyfradd swyddi gwag gyfartalog yng nghanol prif drefi'r Fro wedi cynyddu ychydig o **8.9%** yn 2022/23 i **10.9%**, mae hyn yn parhau i fod yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol o 16%. |
| Cynhaliwyd **290** o denantiaethau 6 mis ar ôl derbyn cyngor ariannol, sy'n ostyngiad o **239** o denantiaethau yn 2022/23. |
| Neilltuwyd **£6.373 miliwn** o fuddsoddiad i gynlluniau gwella trafnidiaeth, sy'n gynnydd ar ffigur 2022/23 o **£3.686 miliwn**. |
| Bu gostyngiad yn nifer y prentisiaid ar gynlluniau prentisiaeth a gydnabyddir yn ffurfiol o fewn y Cyngor o **4.4** i **4.31** fesul 1,000 o gyflogeion. |
| Gwnaeth **4.4** o ddysgwyr gofrestru mewn dysgu cymunedol yr awdurdod lleol fesul 1,000 o'r boblogaeth, cynnydd o **3.6**, ac yn is na chyfartaledd Cymru o 5. |
| Gwnaeth **55** o leoliadau gofal plant elwa ar gyllid gwerth **£470,000** i godi ansawdd a gwella'r ddarpariaeth gofal plant yn y Fro, cynnydd o **50** o leoliadau a **£396,000** y llynedd. |
| Gwariwyd bron **£1.5 miliwn** o gyfraniadau A106 ar welliannau i drafnidiaeth gyhoeddus, rhwydweithiau cerdded a beicio, lleoedd ysgol newydd, a gwelliannau i fannau agored cyhoeddus a chelf gyhoeddus, sy'n llai na ffigur 2022/23 o **£5,895 miliwn**. |

**Amcan Lles 3: Cynorthwyo pobl yn eu cartrefi ac yn eu cymunedau**

| |
|---|
| Gwnaeth **64%** o iechyd cleientiaid wella ar ôl cwblhau rhaglen atgyfeirio ymarfer corff cenedlaethol, sy'n is na **90%** y llynedd. |
| Cafodd ein canolfannau hamdden **741,551** o ymweliadau â thâl o'i gymharu â **406,353** yn y flwyddyn flaenorol. Yn ogystal, roedd **5,575** o aelodau ffitrwydd sy'n talu ffi fisol o'i gymharu ag ychydig dros **4,000** llynedd. |
| Mae gan **72.5%** o oedolion 60+ oed docyn bws consesiynol, ychydig yn uwch na ffigur y llynedd, sef **71.3%**. |
| Dywedodd **92%** o ddefnyddwyr gwasanaeth Cefnogi Pobl eu bod yn fodlon gyda'r cymorth yr oeddent yn ei dderbyn, ychydig yn uwch na'r ffigur o **91%** yn 2022/23. |
| Dywedodd **91%** o ddefnyddwyr gwasanaeth Cefnogi Pobl fod y cymorth a gafwyd wedi'u helpu i gynnal eu hannibyniaeth, gan adlewyrchu perfformiad y llynedd. |
| Cymerodd **367** o ddiwrnodau i ddarparu grant cyfleusterau i'r anabl, gostyngiad ar berfformiad y llynedd o **297** o ddiwrnodau yn 2022/23. |
| Roedd **100%** o bobl a dderbyniodd grant cyfleusterau i'r anabl yn teimlo bod y cymorth yn eu gwneud yn fwy diogel ac yn fwy annibynnol gartref, sy'n ddigyfnewid o'r ffigur **100%** yn 2022/23. |
| Llwyddwyd i atal **60.7%** o aelwydydd rhag dod yn ddigartref, cynnydd o **52%** yn 2022/23, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 59% (2022/23). |
| Roedd **82%** o ddioddefwyr cam-drin domestig yn teimlo'n fwy diogel o ganlyniad i fesurau gwella diogelwch, sy'n is na ffigur 2022/23 o **100%**. |
| Trafodwyd **94** o achosion risg uchel o gam-drin domestig mewn Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg, gostyngiad o ffigur y llynedd o **285**. |


| |
|---|
| Collwyd **1.31%** o rent oherwydd bod eiddo'n wag, o'i gymharu â ffigur y llynedd o **0.01%**. |
| Bu'n rhaid i **10.1%** o blant mewn gofal symud 3 gwaith neu fwy, o'i gymharu â ffigur y llynedd, sef **8.3%**. |
| Darparwyd **91** o unedau tai fforddiadwy ychwanegol yn ystod y flwyddyn fesul 10,000 o aelwydydd, cynnydd o **62** y llynedd. |
| Rhoddwyd caniatâd cynllunio i **bron 59%** o unedau tai fforddiadwy ychwanegol yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai ychwanegol a gafodd ganiatâd cynllunio yn ystod y flwyddyn, sy'n is na ffigur 2022/23, sef **72%**. |
| Cafwyd boddhad o **99.63%** ymhlith pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf, sy'n gynnydd o ffigur **95%** y llynedd. |
| Yn achos **84%** o oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi, nid oedd angen unrhyw becyn gofal a chymorth arnynt ar ôl 6 mis, gan adlewyrchu perfformiad y llynedd. |
| Nododd **69%** o bobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r gwasanaethau cymdeithasol eu bod wedi derbyn cyngor, cymorth a chefnogaeth i'w paratoi ar gyfer bywyd fel oedolyn. |
| Cafodd **46%** o blant eu cefnogi i barhau i fyw gyda'u teulu yn ystod y flwyddyn, gostyngiad ar **88%** y llynedd. |
| Mae gwasanaethau iechyd a lles ym Mro Morgannwg wedi derbyn **dros 261,800** o ymweliadau manwl ar Dewis Cymru, cynnydd o **253,194** o ymweliadau y llynedd. |
| Darparwyd cyngor a chymorth mewn perthynas â **9,520** o gysylltiadau gofal cymdeithasol plant, cynnydd o **3,698** y llynedd. |
| Cafwyd **544** o gwsmeriaid Teleofal newydd, cynnydd o **300** yn 2022/23, gyda boddhad o **93%** gyda gwasanaethau'n gwella ar ffigur y llynedd o **92%**. |
| Cafodd **61%** o aelwydydd eu hatal yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref, sy'n gynnydd o **51.5%** y llynedd. |

**Amcan Lles 4: Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd**


| |
|---|
| Cafwyd **252** o ymweliadau wedi'u hwyluso â pharciau gwledig ac arfordir treftadaeth, gostyngiad ar ffigur y llynedd o **265.** |
| Mae'r gwaith i gwblhau a chynyddu asedau LED wedi parhau eleni gyda **93%** o oleuadau stryd y Cyngor wedi'u trosi i LED, gan wella ar **91%** llynedd. |
| Cafwyd **4,374 o ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus** yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth, sy'n gynnydd sylweddol ar **2,695** o ymweliadau yn 2022/23. |
| Roedd **44%** yn fodlon gyda thrafnidiaeth gyhoeddus ym Mro Morgannwg, gan wella'n sylweddol ar **15%** yn 2022/23. |
| Cafodd **70.3% o wastraff cartref** a gasglwyd naill ai ei baratoi i'w ailddefnyddio a/neu ei ailgylchu, gan wella ar berfformiad y llynedd o **67.8%** a chymharu'n ffafriol â chyfartaledd Cymru yn 2022/23 o **65.7%.** |
| Cafwyd **117kg** o wastraff gweddilliol nad yw'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu na'i gompostio a gynhyrchir fesul person, gan wella ar berfformiad y llynedd o **128kg,** ac yn well na chyfartaledd Cymru yn 2022/23 o **172kg** fesul person. |
| Prynwyd **100%** o drydan o adnoddau adnewyddadwy, gan adlewyrchu perfformiad y llynedd. |
| Mae **2.5%** o fflyd gerbydau'r awdurdod lleol yn hybrid, gan adlewyrchu perfformiad y llynedd. |
| Cafwyd **cynnydd o 35,687.62m2 (348,090m2)** mewn parciau, mannau agored a thir priffyrdd a heuwyd â blodau gwyllt neu eu cynnal fel ardal naturiol, sy'n gynnydd ar ffigur y llynedd, sef **312,403m2.** |
| Cafodd **24 o ddigwyddiadau** eu hwyluso neu eu cefnogi'n ariannol, fel rhan o galendr eang o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn, cynnydd o **12 digwyddiad** ers y llynedd. |
| Cafodd **100%** o adeileddau peryglus eu harolygu o fewn 1 diwrnod gwaith, gan gynnal perfformiad y llynedd. |
| Enillwyd **8** o wobrau'r Faner Werdd, yr un peth â'r llynedd. |
| Roedd **99.7 %** o briffyrdd a thir perthnasol a arolygwyd o safon glendid uchel neu dderbyniol, ychydig yn is na ffigur y llynedd, sef **100%**. |
| Y dangosydd glendid cyffredinol ar gyfer y Fro yw **66.5,** sy'n ostyngiad o ffigur y llynedd, sef **72.20**. |

## 7.1 O ble y daw ein harian a sut y gwariwyd ein cyllideb yn 2023/24

Ariennir cyllideb refeniw'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru, Treth Gyngor ac Ardrethi Busnes, yn 2023/24 cyfanswm y gyllideb refeniw oedd £294.422 miliwn.




Mae'r diagram isod yn dangos sut y cafodd gwariant yn 2023/24 ei rannu ar draws gwahanol wasanaethau, gydag addysg, ysgolion a gofal cymdeithasol yn cynrychioli 74% o gyfanswm y gwariant. Gellir gweld adroddiad manwl o gyllideb y Cyngor ar gyfer 2023/24 yma.




**Mae Cymorth Corfforaethol yn cynnwys etholiadau, cynllun gostyngiad y dreth gyngor, costau tân, costau benthyca a llog a chostau eiddo.*

## Yr hyn y gwariwyd ein cyllideb arno yn 2023/24 gan drethdalwr arferol cyngor Bro Morgannwg (treth gyngor eiddo Band D: £1,464.75)

Mae'r wybodaeth isod yn dangos sut mae'r arian a godwyd drwy gronfeydd treth gyngor (sydd ychydig dros 31% o gyllideb refeniw'r Cyngor) yn cyfrannu at yr ystod o wasanaethau a gweithgareddau'r cyngor a ddarperir yn ystod y flwyddyn. Gellir gweld rhagor o fanylion am wariant yma

| | | | |
|---|---|---|---|
| **£623.57** Addysg ac Ysgolion | **£440.66** Gofal Cymdeithasol | **£47.97** Biniau Du ac Ailgylchu | **£15.63** Glanhau Strydoedd a Rheoli Cyrchfannau |
| **£8.45** Llyfrgelloedd | **£3.39** Pyllau nofio, Canolfannau Hamdden a Chynlluniau Chwarae | **£10.89** Cefnogi Busnesau a'r Gymuned | **£7.01** Atal Digartrefedd |
| **£55.34** Cynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor a Rhyddhad Ardrethi Busnes | **£29.23** Trafnidiaeth Ysgol a **£4.38** Thrafnidiaeth arall | **£30.38** Ffyrdd a seilwaith | **£1.87** Grantiau tai eraill gan gynnwys y Grant Cyfleusterau i'r Anabl |
| **£38.81** Y Gwasanaeth Tân a Thaliadau i'r Parc Cenedlaethol | **£12.23** Democratiaeth | **£1.73** Twristiaeth a Digwyddiadau | **£2.18** Diogelu'r Cyhoedd, Trwyddedu ac Iechyd yr Amgylchedd (Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir) |
| **£8.49** Parciau a Gerddi | **£10.79** Cynnal ein hadeiladau | **£3.65** Refeniw a Budd-daliadau ac Asesiad Ariannol | **£1.75** Cyfleusterau Cyhoeddus |
| **£4.03** Gwasanaethau Ieuenctid | **£5.29** Rheoli Cefn Gwlad | **£1.81** Diogelwch Cymunedol ac Adsefydlu | **£1.55** Dysgu i Oedolion a'r Gymuned |
| **£5.32** Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu | **£1.88** Crwner | **£56.24** Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol | **£30.20** Costau Llog ac Ad-dalu Asedau |

## 8.0 Y Calendr Ymgysylltu Blynyddol a Mewnwelediadau Allweddol 2023/24

Mae ymgysylltu â dinasyddion yn ymddangos fel un o themâu craidd y Cyngor o fewn ei Gynllun Corfforaethol ac rydym yn rhagweithiol wrth annog preswylwyr a chwsmeriaid i rannu eu barn a'u profiadau o'n gwasanaethau oherwydd ei fod yn hyrwyddo ymgysylltu, yn rhoi syniad i ni o ran barn cwsmeriaid ar berthnasedd gwasanaethau ac yn gwella ein dull o ddatblygu gwasanaethau. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio â dinasyddion y Fro a'n cymunedau i nodi, llunio a darparu atebion cynaliadwy dan arweiniad y gymuned i ateb ein heriau allweddol yn yr hirdymor. Mae hyn wedi dod yn bwysicach fyth o ystyried yr heriau sylweddol sy'n ein hwynebu. Os ydym am ddatblygu ymatebion arloesol iddynt, bydd angen i ni fanteisio ar ddoniau a photensial holl aelodau'r gymuned. Mae hynny'n golygu rhoi llais a rôl ystyrlon i bobl wrth wneud penderfyniadau lleol.

Mae Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd y Cyngor a gyhoeddwyd ym mis Mai 2022 yn nodi, trwy'r Rhaglen Gyfranogiad, sut y byddwn yn ei gwneud yn haws i breswylwyr gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym wedi parhau i ddatblygu a chryfhau 'mewnwelediad' mewnol y Cyngor sy'n dod ag ystod eang o ffynonellau data ynghyd i helpu i ddeall materion lleol a chymryd camau i fynd i'r afael â nhw. Yn ogystal â hyn, rydym hefyd wedi cryfhau ymgysylltiad a chyfranogiad y cyhoedd trwy ddatblygu rhaglen dreigl o ymgysylltu thematig sy'n cyd-fynd â'n Hamcanion Lles blynyddol. Mae'r ymgysylltiad trawsbynciol hwn ar draws sawl sianel, gan gynnwys ein platfform ymgysylltu Cymryd Rhan y Fro a'r broses e-ddeiseb a lansiwyd yn ddiweddar, yn helpu i lywio nifer o raglenni gwaith a phenderfyniadau'r Cyngor.

## 8.1 Arolwg Barn y Cyhoedd Bywyd yn y Fro 2023

Adlewyrchwyd mewnwelediadau ymgysylltu a'n hymateb i'r rhain trwy gydol yr Adroddiad Hunanasesu Blynyddol, yn unol â'n pedwar Amcan Lles, ac mae'r rhain wedi llywio'r meysydd ffocws a nodwyd.

Dechreuodd yr Arolwg Barn Cyhoeddus Bywyd yn y Fro 2023 ar 22 Awst 2023 a daeth i ben ar 18 Awst 2023 Rhagfyr 2023, gyda 4,009 o drigolion yn cwblhau'r arolwg. Mae dadansoddwyr (Data Cymru) wedi cyfrifo bod y sampl hon yn ystadegol gynrychioliadol o boblogaeth Bro Morgannwg trwy ddefnyddio cyfrifiad lwfans gwall ar gyfer pob cwestiwn. Gan fod yr arolwg wedi'i gynnal yn bennaf ar-lein, mae ymgysylltu pellach â rhai grwpiau nad ydynt wedi'u cynrychioli'n dda yn y sampl o ymatebwyr wedi'i wneud.

Mae'r arolwg yn rhoi cyfle i breswylwyr ddweud wrthym am eu profiadau o fyw yn y Fro, pa wasanaethau cyhoeddus sy'n bwysig iddyn nhw, pam, a sut y gellid gwella'r holl bethau hyn. Roedd hefyd yn ceisio barn ar faterion fel costau byw, newid hinsawdd, gwirfoddoli, a theithio.

At ei gilydd, mae pobl yn hapus ar y cyfan â'r Fro fel lle i fyw. Dywedodd **60%** yr ymatebwyr eu bod naill ai'n fodlon iawn neu'n weddol fodlon â **Bro Morgannwg fel lle i fyw**, a byddai **80%** yn argymell Bro Morgannwg fel lle i fyw. Dangosodd y canlyniadau hefyd fod blaenoriaethau'r Cyngor yn cyd-fynd yn fras â blaenoriaethau'r trigolion, gyda **78%** o ymatebwyr yn dweud eu bod naill ai'n bryderus iawn neu'n weddol bryderus am yr **argyfwng costau byw**, **68%** naill ai'n bryderus iawn neu'n weddol bryderus am yr **argyfwng hinsawdd** a **65%** naill ai'n bryderus iawn neu'n weddol bryderus am yr **argyfwng natur**. Mae **73%** o ymatebwyr hefyd yn bryderus iawn neu'n weddol bryderus am **wasanaethau a chefnogaeth i bobl hŷn** a **61%** yn bryderus iawn neu'n weddol bryderus am **wasanaethau a chymorth i bobl ifanc.** Mae'r rhain i gyd yn feysydd blaenoriaeth i'r Cyngor fel yr adlewyrchir yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor a'r Strategaeth Gyllideb ar gyfer 2024/25.

O ran blaenoriaethau gwasanaeth, sgoriodd yr ymatebwyr y canlynol o'r pwysicaf i'r rhai lleiaf pwysig iddynt:

1. Cael mynediad hawdd at wasanaethau gofal a gofal iechyd pan fydd eu hangen arnaf i neu fy nheulu.
2. Byw mewn cymdogaeth sy'n lân ac yn daclus.

3. Prynu neu rentu cartref o ansawdd da.
4. Mynediad i gasgliadau ailgylchu a gwastraff rheolaidd.
5. Mwynhau'r amgylchedd naturiol.
6. Teithio gan ddefnyddio priffyrdd cyhoeddus sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda.
7. Siopa am fwyd ac eitemau bob dydd yn fy ardal leol.
8. Mynediad i feithrinfeydd ac ysgolion lleol o ansawdd da i'm plant neu'r rheini yn fy nghymuned eu mynychu.
9. Pethau i'm cadw'n heini ac yn iach am ddim neu am bris y gallaf ei fforddio.
10. Cymryd rhan mewn dysgu ffurfiol i helpu i ennill sgiliau newydd.
11. Ymgysylltu â digwyddiadau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth am ddim neu am bris y gallaf ei fforddio.

O ran yr hyn y mae ymatebwyr yn gallu ei wneud ym Mro Morgannwg, roedd y prif ymatebion a ddewiswyd yn ymwneud â **gallu mwynhau'r amgylchedd naturiol (83.3%), gallu siopa am fwyd ac eitemau bob dydd yn eu hardal leol (76.0%)**, **mynediad at gasgliadau ailgylchu a gwastraff rheolaidd (59.7%) a phrynu neu rentu cartref o ansawdd da (55.3%)**. Roedd yr ymatebion lleiaf cyffredin yn ymwneud â **gallu teithio gan ddefnyddio priffyrdd cyhoeddus a gynhelir yn dda (21.8%)**, **gallu cymryd rhan mewn dysgu ffurfiol (26.4%), ymgysylltu â digwyddiadau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth (30.5%)** a **pethau i'm cadw'n heini ac yn iach am ddim neu am bris y gallaf ei fforddio (34.1%).**

Fodd bynnag, dangosodd y canlyniadau hefyd fod mwy o waith i'w wneud o ran sut rydym yn esbonio ein gwaith, canfyddiad y cyhoedd o'n gwaith, ac yn ymgysylltu â thrigolion wrth wneud penderfyniadau. Dywedodd mwy o ymatebwyr eu bod yn anghytuno'n fwy nag yr oeddent yn cytuno â datganiadau bod y **gwasanaethau a ddarperir gan Gyngor Bro Morgannwg o ansawdd uchel (29.3% yn cytuno'n gryf neu'n cytuno ryw ychydig);** bod y **Cyngor yn gweithredu er budd trigolion lleol (25.5% yn cytuno'n gryf neu'n cytuno ryw ychydig);** bod y **Cyngor yn ystyried barn trigolion wrth wneud penderfyniad (16.1% yn cytuno'n gryf neu'n cytuno ryw ychydig);** a bod y **gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn cynrychioli gwerth da am arian (16.4% yn cytuno'n gryf neu'n cytuno ryw ychydig).**

O ran y swyddogaeth ddemocrataidd, roedd **52%** o'r ymatebwyr **yn gwybod pwy yw eu cynghorydd lleol** tra nad yw **48% yn gwybod**. Roedd **32.4%** yr ymatebwyr yn **ymwybodol o holl gyfrifoldebau eu cynghorwyr lleol**, o'i gymharu â **49.1% oedd yn ymwybodol o rai o'r cyfrifoldebau** a **18.5% nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw un ohonynt**. Roedd **39.5%** o'r ymatebwyr wedi **ceisio dylanwadu ar benderfyniad neu benderfyniadau a wnaed gan y cyngor** o'i gymharu â **60.5% sydd heb wneud hynny**. Y dulliau mwyaf cyffredin a ddewiswyd ar gyfer ceisio dylanwadu ar benderfyniad oedd, **llofnodi deiseb (56.2%), bod yn bresennol mewn ymgynghoriad neu'n ymateb iddo (42%)**, **mae 39.5% wedi cysylltu â'u cynghorydd lleol** ac **mae 30.5% wedi e-bostio canolfan gyswllt y cyngor.**

O ran yr ardal leol, roedd **56.6%** o'r ymatebwyr, **mwy na hanner, yn cytuno'n gryf neu'n cytuno ryw ychydig eu bod yn teimlo'n rhan o'u hardal leol, mae pobl yn eu hardal leol yn cyd-dynnu'n dda ac yn helpu ei gilydd (64.1%),** ac **roeddent yn fodlon â'u hardal leol fel lle i fyw (64.7%). Roedd 83.1% o'r ymatebwyr yn teimlo'n ddiogel iawn neu'n weddol ddiogel bod ar eu pennau eu hunain yn eu cartref eu hunain, roedd 75.9% o'r ymatebwyr yn teimlo'n ddiogel iawn neu'n weddol ddiogel yn cerdded o gwmpas eu hardal leol,** ac roedd 25.5% o'r ymatebwyr yn teimlo'n ddiogel iawn neu'n weddol ddiogel yn beicio o gwmpas eu hardal leol. Roedd mwy o ymatebwyr yn teimlo'n ddiogel iawn neu'n weddol ddiogel, nag yn anniogel iawn neu'n weddol anniogel, wrth deithio yn eu hardal leol.

**Nid yw dros hanner (50.5%) yr ymatebwyr, yn credu bod gan eu hardal leol y gwasanaethau a'r cyfleusterau angenrheidiol i ddiwallu eu hanghenion. Mae 35.5% o'r ymatebwyr yn credu bod gan eu hardal leol y gwasanaethau a'r cyfleusterau angenrheidiol i ddiwallu eu hanghenion** ac nid yw 13.9% o'r ymatebwyr yn gwybod. Pan ofynnwyd iddynt pa wasanaethau a chyfleusterau ychwanegol sydd eu hangen i ddiwallu eu

hanghenion, **yr ymatebion mwyaf cyffredin oedd mwy o waredu gwastraff a mwy o finiau cyhoeddus, mwy o lwybrau teithio llesol, mwy o adloniant a manwerthu, trafnidiaeth gyhoeddus amlach a dibynadwy a mwy o gyfleusterau meddygol** (ysbyty, deintydd ac ati). Pan ofynnwyd iddynt raddio'r gwasanaethau sydd bwysicaf iddynt, **yr hyn a ddaeth i'r brig oedd gwasanaethau iechyd a gofal sy'n hawdd cael gafael arnyn nhw (41.7%), ac yna'r gallu i brynu neu rentu cartref o ansawdd da (27.2%) a'r peth lleiaf pwysig oedd ymgysylltu â digwyddiadau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth (0.6%).**

Mae canfyddiadau a mewnwelediadau allweddol yr arolwg yn cael eu rhannu gyda'n partneriaid allweddol i helpu i lunio gwaith ar y cyd i ddarparu gwasanaethau yn ein cymunedau. Rydym hefyd wedi rhannu ein canfyddiadau â rhwydweithiau'r Awdurdod Lleol, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud ag ymgysylltu â'r cyhoedd a chyfranogiad y cyhoedd gyda'r bwriad o feincnodi a rhannu arfer gorau. Mae datblygiad Cynllun Corfforaethol 2025-30 a cham nesaf Rhaglen Ail-lunio'r Cyngor hefyd yn cael eu llywio gan ganfyddiadau'r arolwg.

Mewn ymateb i ganfyddiadau'r arolwg, rydym wedi adolygu ein Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd ac wedi dechrau gwaith mewn pedwar maes allweddol a amlygwyd fel blaenoriaethau ar unwaith. Mae'r rhain yn cynnwys sefydlu a hyrwyddo'r broses e-ddeisebau; darparu ymgyrch i wella dealltwriaeth o'r hyn y mae cynghorwyr yn ei wneud a sut mae'r Cyngor yn gweithredu; a datblygu cyfres o astudiaethau achos i arddangos lle mae cyfranogiad effeithiol gan y cyhoedd wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol i randdeiliaid a'r gymuned.

## 8.2 Teimladau am gyfryngau cymdeithasol

Trwy gydol y flwyddyn rydym yn rhannu newyddion a gwybodaeth am wasanaethau'r Cyngor, y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud, a digwyddiadau ym Mro Morgannwg drwy ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol.
Mae miloedd o ryngweithiadau â dinasyddion (wedi'u mesur yn ôl hoffterau, yr hyn sy'n cael ei rannu, yr hyn y gwneir sylwadau arno, a'r cliciau ar ddolenni) trwy'r sianeli hyn bob mis. Rydym hefyd yn gofyn am adborth ar ein gwasanaethau yn uniongyrchol yn achlysurol, gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.
Mae'r ffordd y mae dinasyddion yn ymgysylltu â'r cynnwys rydyn ni'n ei rannu ar-lein yn dweud llawer wrthym am eu barn ar ein gwasanaethau a sut y gallwn wella wrth hysbysu pobl am ein gwaith.

Mae'r cynnwys rydyn ni'n ei rannu yn derbyn llawer o ryngweithio, yn enwedig ar Facebook. Mae ymgysylltu yn gadarnhaol ar y cyfan. Mae'r nifer fwyaf o ryngweithiadau cadarnhaol fel arfer yn dod o negeseuon sy'n rhannu newyddion a gwybodaeth am gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol newydd.

Er enghraifft, derbyniodd y cyhoeddiad am agor pad sblasio Pencoedtre ar gyfer haf 2024 2,915 o ymgysylltiadau (ymatebion, sylwadau a rhannu). Cafodd neges a oedd yn rhoi gwybodaeth am waith i uwchraddio parc sglefrio coffa Richard Taylor yn y Barri 2,044 o ymgysylltiadau. Derbyniodd y cyhoeddiad am gawodydd newydd yn agor ar lan y môr Penarth 874 o ymgysylltiadau. Cafodd agoriad yr Ysgol Sant Baruc newydd 633 o ymgysylltiadau.

Fodd bynnag, rydym hefyd yn gweld lefelau sylweddol o ymgysylltiad negyddol wrth rannu mathau eraill o gynnwys. Mae'r nifer fwyaf o ymgysylltiadau negyddol fel arfer yn deillio ohonom yn rhannu newyddion a gwybodaeth am newidiadau i wasanaethau'r cyngor, yn enwedig y rheini sy'n cael eu hystyried yn ostyngiad mewn amlder neu safonau gwasanaeth. Er enghraifft, denodd diweddariad ar y gwasanaeth gwastraff gardd trethadwy newydd 402 o sylwadau, ymatebion a rhannu.

Er mwyn ceisio mynd i'r afael â hyn, rydym bob amser yn gweithio i ddod o hyd i ffyrdd mwy effeithiol o gyflwyno gwybodaeth gydag esboniadau clir a syml o sut y gwnaed penderfyniadau a'r effaith rydym yn credu y byddant yn ei chael. Mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn parhau i'w wneud.

Yn ystod 2023/24 rydym wedi treialu cyfeirio at y fforymau gwneud penderfyniadau perthnasol lle cytunwyd ar newidiadau i wasanaethau, fel y Cabinet neu'r Cyngor Llawn. Rydym hefyd wedi ceisio rhoi esboniadau cliriach ar gyfer unrhyw darfu ar wasanaethau.

## 8.3 Hyrwyddwyr Aelodau

Ym mis Ebrill 2022, mabwysiadodd y Cyngor Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd. Er mwyn rhoi'r strategaeth ar waith, datblygwyd Rhaglen Cymryd Rhan y Fro ac mae'n ceisio datblygu tair ffrwd waith: Cysylltu, Cynnwys a Chynrychioli.

Mae ffrwd waith Cysylltu yn ceisio sicrhau bod cyfleoedd i gymryd rhan yn cael eu rhannu mor eang â phosib trwy ystod eang o ddulliau. Mae'r Rhwydwaith Cyfranogi yn dod â swyddogion ar draws y Cyngor ynghyd sy'n gwneud gwaith cyfranogiad y cyhoedd ar ran y sefydliad. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o Wasanaeth Ieuenctid y Fro, y tîm Creu Lleoedd, y tîm Byw'n Iach, a swyddogaethau Cyfathrebu, Cydraddoldeb a Pholisi y Cyngor. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn fisol i rannu'r mewnwelediad a gafwyd o'u gwaith, gwneud cysylltiadau rhwng prosiectau sydd ar ddod, cydlynu presenoldeb mewn digwyddiadau cyhoeddus, a thrafod arfer gorau. Gyda'i gilydd, mae'r grŵp hefyd wedi siapio datblygiad hyb ar-lein newydd Cymryd Rhan y Fro.

Mae'r ffrwd waith Cynnwys yn ceisio sicrhau bod lleisiau nas clywed ganddynt yn aml yn cael llwyfan a chyfle i gymryd rhan. Gwneir y gwaith hwn drwy'r Fforwm Ymgynghorol Cydraddoldeb, gan ddod â chynrychiolwyr o sefydliadau sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchodedig ynghyd. Yn cynnwys cynrychiolwyr o dros ugain o sefydliadau, ynghyd â thua ugain o swyddogion o ystod o adrannau'r Cyngor a chwe aelod etholedig, mae'r Fforwm yn cael ei gadeirio gan yr Hyrwyddwr Aelodau Cydraddoldeb gyda phresenoldeb rheolaidd gan yr Hyrwyddwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth ac Anabledd a'r Arweinydd Gweithredol.

Mae'r ffrwd waith Cynrychioli yn ceisio gwneud cynnydd yng nghamau gweithredu [Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd]() drwy aelodau etholedig, gan gynnwys y Cabinet a hefyd y Rhwydwaith Hyrwyddwyr Aelodau.

Nid yw hyrwyddwyr aelodau yn y weinyddiaeth bresennol i raddau helaeth yn Aelodau Gweithredol ac, yn hytrach, yn rheini sydd â sgiliau, profiad neu wybodaeth benodol sy'n gysylltiedig â'r mater y maent yn ei hyrwyddo. Mae Rhwydwaith Hyrwyddwyr Aelodau'r Cyngor yn cynnwys 19 o Hyrwyddwyr Aelodau sy'n cwmpasu ystod eang o bynciau gan gynnwys trechu tlodi, newid hinsawdd, cydraddoldeb, pobl hŷn, ieuenctid, gofalwyr, lles meddyliol, cam-drin domestig, diogelu, anabledd, bioamrywiaeth, y lluoedd arfog a chyn-filwyr ac amrywiaeth. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r Rhwydwaith Hyrwyddwyr Aelodau wedi'i sefydlu i ddod â'r Aelodau hyn ynghyd yn rheolaidd i ystyried, ymateb a helpu i lunio gweithgaredd cyfranogiad, fel:

- Creu rhestr o sefydliadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n cynrychioli grwpiau y mae eu nodweddion yn cysylltu â phortffolios ein hyrwyddwyr aelodau. Lluniwyd y rhestr yn dilyn sesiwn gyda'r hyrwyddwyr lle roedd pob un ohonynt yn nodi grwpiau, roeddent yn ymwybodol ohonynt a/neu byddent yn hoffi cysylltu â nhw. Ymrwymodd yr hyrwyddwyr aelodau i ddiweddaru'r rhestr gyda chysylltiadau lleol i ddatblygu eu dealltwriaeth a darparu dull i ymgysylltu â'r grwpiau.
- Adolygu Adroddiad Hunanasesu Blynyddol y Cyngor a rhoi adborth ar ei gynnwys a'i gyflwyniad, gan gynnwys a oedd safbwyntiau pobl â'r nodweddion gwarchodedig a gynrychiolir yn cael eu hadlewyrchu yn yr Asesiad.
- Bwydo i mewn i ddatblygiad ac, yn ddiweddarach, dadansoddi/dehongli arolwg Beth am Siarad am Fywyd yn y Fro. Galluogodd hyn i Hyrwyddwyr Aelodau ystyried y cwestiynau i'w gofyn a hefyd i ddadansoddi'r ymatebion o safbwynt nodweddion gwarchodedig gwahanol.
- Mae'r gwaith hwn wedi galluogi Hyrwyddwyr i gael gwell mewnwelediad i'r materion y maent yn eu hyrwyddo a hefyd i lunio gwaith y sefydliad trwy ddull cyflenwol gyda'r Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu.
- Bwydo i mewn i ddatblygiad cynlluniau allweddol y cyngor megis y Cynllun Datblygu Lleol Newydd, Protocol Cynllunio'r Cyngor, y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, a'r Rhaglen Ail-lunio.
- Herio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar newidiadau arfaethedig y cyngor i wasanaethau a pholisïau.
- Bwydo i mewn i adolygiad ambiwlans brys Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP) ac ymgysylltiadau cymunedol BIP.

- Mae sawl Hyrwyddwr Aelod wedi bod yn rhan weithredol o lunio gwaith Bro Oed-Gyfeillgar. Mae'r Hyrwyddwr Pobl Hŷn wedi bod yn arbennig o weithgar wrth gefnogi a datblygu'r gwaith hwn ac mae wedi helpu i hwyluso dau weithdy a gynhaliwyd ym mis Hydref 2023 ac ym mis Ebrill 2024 i ddatblygu Cynllun Gweithredu Oed-gyfeillgar y Fro y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn ystod y gweithdai rhannodd dros 60 o bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol adborth ar y Cynllun Gweithredu drafft, sy'n amlinellu'r ffocws ar gyfer gwaith rhwng 2025 a 2028 ledled y Fro i helpu i wneud y Fro yn fan lle mae pobl o bob oed yn cael eu cefnogi i heneiddio'n dda. Roedd Hyrwyddwyr Cyn-filwyr ac Ieuenctid hefyd yn bresennol yn y gweithdai, gan gydnabod, er bod y gwaith yn canolbwyntio ar wneud Bro Morgannwg yn lle gwell i'n trigolion hŷn heneiddio'n dda ynddo, rydym i gyd yn heneiddio ac mae llawer o'r heriau a'r materion sy'n bwysig i'n trigolion hŷn yn aml yn cael eu hategu gan ein trigolion iau. Helpodd yr adborth i lunio'r camau a gynhwyswyd yn y fersiwn ddrafft a rannwyd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Mehefin a mis Awst 2024. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Hyrwyddwr Pobl Hŷn i rannu diweddariadau lleol a chenedlaethol ac i lunio meysydd ffocws sy'n dod i'r amlwg.
- Mae'r Hyrwyddwr Pobl Hŷn wedi darparu cefnogaeth i Fforwm Strategaeth 50+ y Fro drwy annog trigolion i fynychu cyfarfodydd a digwyddiadau i ddweud eu dweud ar faterion pwysig yn lleol, ac i helpu i gynyddu aelodaeth. Mae nifer o hyrwyddwyr eraill hefyd wedi bod yn ymwneud yn weithredol â'r Fforwm. Mae'r Hyrwyddwr Aelodau Cydraddoldeb hefyd wedi cefnogi gwaith y Fforwm, gan fynychu cyfarfod Bwrdd Gweithredol y Fforwm ym mis Medi 2023 i ateb cwestiynau ar sut y byddai'r arolwg yn casglu barn y boblogaeth hŷn, i annog pobl i gwblhau'r arolwg Beth Am Siarad ac i aelodau rannu gwybodaeth gydag aelodau a rhwydweithiau ehangach. Mae'r Hyrwyddwr Hinsawdd hefyd wedi helpu i lunio gwaith y Fforwm drwy fod yn bresennol yn eu digwyddiad cymunedol Newid Hinsawdd ym mis Gorffennaf 2023. Roedd y digwyddiad yn cynnwys sesiynau trafod i ddeall gobeithion ar gyfer dyfodol sy'n ystyriol o'r hinsawdd a sut y gall y Fforwm helpu i gyflawni'r dyfodol hwn yn y Fro. Arweiniodd yr wybodaeth a gasglwyd yn y digwyddiad at sefydlu grŵp Newid Hinsawdd newydd gan y Fforwm ym mis Chwefror 2024 i ddarparu lle i drigolion hŷn ddysgu mwy am newid hinsawdd, i gymryd rhan weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau ar y pwnc hwn yn y dyfodol, ac i gysylltu â grwpiau ac unigolion eraill sydd â diddordeb.
- Dros y flwyddyn, mae'r Hyrwyddwr Aelodau dros Newid Hinsawdd wedi cwrdd â Rheolwr Rhaglen Prosiect Sero i drafod y gwaith hinsawdd yn y Fro gyda chyfarfodydd pellach yn cynnwys arweinydd grŵp hinsawdd lleol i drafod syniadau'r grŵp ar gyfer digwyddiad hinsawdd gyda chymorth wedi ei ddarparu gan y cyngor. Mae'r Hyrwyddwr Aelodau hefyd wedi cefnogi gydag ymarfer mapio cymunedol, a fydd yn bwydo i mewn i ddatblygiad y tudalennau cymunedol ar hyb ar-lein Prosiect Sero yn 2024/25. Yn ogystal, cynhaliwyd dwy sesiwn ddysgu ar Brosiect Sero a'n hallyriadau carbon ar gyfer yr holl aelodau etholedig gyda'r Hyrwyddwyr Aelodau Hinsawdd a Bioamrywiaeth yn bresennol. Nododd yr Hyrwyddwr Bioamrywiaeth mai gwybodaeth gyfyngedig yn aml oedd yn gynwysedig yn yr adroddiadau craffu, yn ymwneud ag oblygiadau gwaith ehangach ar newid hinsawdd a natur, ac roedd angen i'r rhain adlewyrchu gwir effeithiau. Mae adolygiad o adroddiadau craffu wedi'i gynnal o ganlyniad.
- Mae dau Hyrwyddwr Aelodau'r Lluoedd Arfog y Cyngor wedi ymgysylltu'n rhagweithiol â Rhwydwaith Hyrwyddwyr Aelodau'r Lluoedd Arfog, sydd wedi helpu i lywio penderfyniadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn ogystal, mae cydweithrediadau gyda'r Gwasanaeth Cynghori Cyn-filwyr / Swyddog Cyswllt y Lluoedd Arfog, ac Arweinydd y Lluoedd Arfog wedi hyrwyddo newidiadau a datblygiad hanfodol i gefnogi Cymuned y Lluoedd Arfog ym Mro Morgannwg gan arwain at welliannau sylweddol yn y ffordd yr ydym yn cefnogi cyn-filwyr, personél y lluoedd arfog, a'u teuluoedd. Er enghraifft, mae mesurau rhagweithiol, gan gynnwys nodi aelodau'r Lluoedd Arfog yn ystod rhyngweithiadau gwasanaeth wedi galluogi nodi cyn-filwyr, aelodau gweithredol o'r lluoedd arfog a'u teuluoedd ar unwaith, gan sicrhau eu bod yn cael eu cyfeirio at y gwasanaethau priodol ac yn derbyn cefnogaeth wedi'i theilwra. Yn ogystal, cofrestru ar gyfer y Safonau Balchder mewn Cyn-filwyr. Mae'r mesurau hyn wedi gwella gallu'r Cyngor i ddarparu cymorth ymatebol a pherthnasol i gymuned y Lluoedd Arfog. Mae Fforymau Cyfamod Chwarterol y Lluoedd Arfog a gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid, elusennau a sefydliadau wedi galluogi rhannu gwybodaeth, arfer da a syniadau i ymgorffori dull rhagweithiol a chefnogol ymhellach. Mae'r Cyngor bellach yn cynnig pecyn cymorth e-ddysgu gorfodol a hyfforddiant Cyfamod y Lluoedd Arfog a ddarperir gan Swyddog Cyswllt y Lluoedd Arfog, a gynlluniwyd i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o anghenion unigryw cymuned y Lluoedd Arfog.

Mae'r pecyn cymorth wedi bod yn allweddol wrth sicrhau bod ein staff yn gallu gwasanaethu cymuned y Lluoedd Arfog gyda'r sensitifrwydd a'r wybodaeth sydd eu hangen. Mae'r Hyrwyddwyr Aelodau wedi cyfrannu at gynnal a chefnogi gwasanaethau coffa i anrhydeddu'r Lluoedd Arfog drwy gydol y flwyddyn ac wedi defnyddio'r digwyddiadau hyn fel cyfleoedd pwysig i annog ymgysylltu cymunedol â'r Lluoedd Arfog, gan atgyfnerthu ymhellach ymrwymiad y Cyngor i gynnal gwerthoedd Cyfamod y Lluoedd Arfog. Mae gwaith yr Hyrwyddwyr Aelodau Etholedig wedi cyfrannu at y Cyngor yn derbyn ei wobr Aur am y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn, a gwobr gan Wobrau Cyn-filwyr Cymru yn 2023. Cyngor Bro Morgannwg oedd yr Awdurdod Lleol cyntaf a'r 3ydd yng Nghymru i lofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog yn 2011.

- Mae dau Hyrwyddwr Aelod wedi cefnogi gwaith gofalwyr di-dâl mewn nifer o feysydd trwy gydol 2023/24. Mae Hyrwyddwyr Aelodau wedi mynychu a chynrychioli'r Cyngor yn rheolaidd mewn nifer o ddigwyddiadau gofalwyr, er enghraifft y Cynulliad Gofalwyr Di-dâl a Digwyddiadau Gofalwyr Di-dâl Bro Morgannwg. Dywedodd un Sefydliad Cenedlaethol ar ôl sgwrs gyda nhw, 'Mae'n wych bod rhywun mewn swydd mor uchel yn deall anghenion gofalwyr di-dâl.' Mae'r Hyrwyddwr hwn hefyd yn hyrwyddo'r addewid Gofalwyr Di-dâl a blaenoriaethau a dyheadau ffrwd waith gofalwyr di-dâl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r Hyrwyddwr Aelodau arall yn parhau i fod yn gysylltiedig â digwyddiadau a fforymau eraill lle trafodir datblygiadau a gwelliannau gofalwyr di-dâl. Mae mewnbwn Hyrwyddwyr Aelodau mewn perthynas â gofalwyr yn gefnogol i'r gwaith rydym yn ei wneud mewn perthynas â'r Siarter Gofalwyr Di-dâl.
- Mae'r Hyrwyddwr Aelodau dros Ddiogelu yn gynrychiolydd sefydlog ar Grŵp Diogelu Corfforaethol y Cyngor (GDC). Mae’r GDC yn monitro ac yn goruchwylio trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod holl weithwyr y cyngor yn chwarae eu rhan wrth ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion a allai fod mewn perygl o niwed. Drwy'r gynrychiolaeth hon mae’r Hyrwyddwr yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf a chyfathrebiadau rheolaidd o ran y meysydd diogelu blaenoriaethol ar draws yr awdurdod lleol. Cyfeirir atynt hefyd am unrhyw faterion diogelu sylweddol sy'n codi o fewn yr awdurdod lleol ac maent yn rhoi cyngor a chymorth mewn perthynas â'r materion hyn lle y bo hynny'n briodol. Yn ogystal, mae'r Hyrwyddwr yn ymgymryd â materion strategol a gweithredol allweddol mewn perthynas â diogelu.
- Mae'r Hyrwyddwr Aelodau Ieuenctid yn mynychu cyfarfodydd misol Cyngor Ieuenctid y Fro yn rheolaidd, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ieuenctid am faterion y cyngor yn ogystal â hyrwyddo barn aelodau ar faterion sy'n effeithio arnynt e.e. newid hinsawdd, trafnidiaeth ysgol, cymorth cwnsela mewn ysgolion, rheoli gwastraff, ailgylchu mewn ysgolion. Cefnogodd yr Hyrwyddwr y digwyddiad Sgyrsiau Hinsawdd a gynhaliwyd ym mis Hydref 2023 gan ddarparu ymarfer siarad cyhoeddus i aelodau ieuenctid. Cefnogodd yr Hyrwyddwr Aelodau hefyd Gadeirydd etholedig ac Is-gadeirydd y Cyngor Ieuenctid i fynychu Cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant, gan eu hannog yn ystod y cyfarfodydd hyn i leisio’u barn a rhoi gwybod iddynt am eitemau penodol ar yr agenda a allai fod o ddiddordeb. Mae’r Hyrwyddwr Aelodau Ieuenctid yn mynychu cyfarfodydd Rhwydwaith y Cyngor Ysgol deirgwaith y flwyddyn, sy'n dod â disgyblion ysgolion uwchradd holl ysgolion Bro Morgannwg ynghyd i rannu newyddion am lais y disgybl a chymryd rhan yng ngwaith ymgynghori'r cyngor. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, mae'r Hyrwyddwr Aelodau Ieuenctid ynghyd â'r Aelod Cabinet dros Addysg, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddisgyblion am Addysg a materion y Cyngor. Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Hyrwyddwr hefyd wedi cefnogi gwaith a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth ieuenctid yn ogystal â chyfrannu at Arolwg Estyn o’r Gwasanaeth Ieuenctid a dderbyniodd adroddiad arolygu cadarnhaol.

Fel yr amlinellwyd uchod, dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Hyrwyddwyr Aelodau wedi canolbwyntio ar weithio'n agos gyda swyddogion a grwpiau perthnasol o fewn y Cyngor ac yn allanol i godi proffil eu meysydd diddordeb, tynnu sylw at arfer da, a sicrhau bod y mewnwelediadau ymgysylltu o'u rôl gymunedol fel Cynghorwyr a Hyrwyddwyr Aelodau yn parhau i lywio penderfyniadau'r Cyngor sy'n effeithio ar y cymunedau perthnasol.

## 8.4 Cwynion a Chanmoliaeth

| **Cipolwg ar Ganmoliaethau a Chwynion Corfforaethol 2023/24** | |
|---|---|
| Daeth **737** o gwynion i law, cynnydd o ffigur 2022/23 o **495**. | Datryswyd **57.4%** o gwynion o fewn amserlenni targed, cynnydd o **51.8%**. |
| Datryswyd **15%** o gwynion corfforaethol yn gynnar, gostyngiad o **24%**. | Uwchgyfeiriwyd **8.36%** o gwynion i gam 2, cynnydd o ffigur y llynedd o **5.5%**. |
| Daeth **77** o gwynion i law gan OGCC, cynnydd o ffigur 2022/23 o **49**. | Cynhaliwyd **0** cwynion gan OGCC, yr un peth â'r llynedd. |
| Daeth **183** o ganmoliaethau i law, cynnydd o ffigur 2022/23 o **115**. | |

Mae gennym ddwy weithdrefn ar wahân ar gyfer ymdrin â chwynion gan ddibynnu ar a ydynt yn ymwneud â phlant a phobl ifanc a gofal cymdeithasol i oedolion neu'r holl wasanaethau eraill (corfforaethol). Mae gan y ddwy weithdrefn ymrwymiad i ganolbwyntio ar yr unigolyn, i fod yn deg ac yn glir, gyda chanlyniadau amserol. Mae gan bob gweithdrefn ei nodweddion a'i safonau ymateb ei hun ac mae'r ddwy weithdrefn yn dod dan ymbarél Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC). Mae hyn yn creu pwynt cyfeirio terfynol cyson os bydd person yn parhau'n anhapus ar ôl cwblhau'r broses gwyno.

Mae dysgu o gwynion yn parhau i fod yn faes ffocws allweddol i sicrhau ein bod yn gwella'n barhaus sut rydym yn rheoli, yn monitro ac yn dysgu o gwynion. Mae'r mewnwelediadau a gafwyd o sut rydym yn rheoli cwynion yn llywio gwelliannau i'r broses, a byddant hefyd yn cael eu defnyddio ochr yn ochr â setiau data cwsmeriaid a gwasanaethau eraill i wella dealltwriaeth o brofiad ein preswylwyr o gael mynediad at wasanaethau'r cyngor a sut y gallwn lunio ein gwasanaethau mewn ymateb.

Yn 2023/24, ymdriniwyd ag ychydig dros 57% (423/737) o'r holl gwynion (dan y **weithdrefn gorfforaethol**) o fewn amserlenni targed o gymharu â bron 52% (205/495) yn y flwyddyn flaenorol. Yn ogystal, gwnaeth cwynion a uwchgyfeiriwyd i gam dau o'r weithdrefn gynyddu i **8.36%** o'i gymharu â **5.5%** yn 2022/23. Er ychydig yn uwch na'r llynedd, mae'r perfformiad hwn yn dangos bod ymchwiliad a rheolaeth effeithiol ar waith, fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod rhagor o waith i'w wneud ac rydym wedi nodi camau i'w cymryd i gryfhau perfformiad ymhellach. Gellir priodoli'r gwelliant mewn perfformiad yn rhannol i ddull corfforaethol diwygiedig o reoli cwynion yn dilyn lansio'r feddalwedd gwynion newydd (GovService) ychydig dros flwyddyn yn ôl. Fodd bynnag, er bod cofnodi achosion cwynion yn gyffredinol wedi gwella, mae problemau o hyd ynghylch cadw at derfynau amser a chofnodi deilliannau dysgu, sy'n parhau i effeithio ar berfformiad cyffredinol.

O ran y gwersi a ddysgwyd yn ystod y flwyddyn, yn gorfforaethol rydym wedi nodi'r angen i ganolbwyntio ar nifer o feysydd sydd, o ran y tair prif flaenoriaeth, yn cynnwys yr angen i ganolbwyntio ar hyfforddi a datblygu staff (51.38% o ddeilliannau dysgu a gofnodwyd) a sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o safonau gwasanaethau (16.06% o achosion cwynion a gofnodwyd); adolygu a diwygio'r wybodaeth a'r cyfathrebu a rown i'n cwsmeriaid (15.9% o ddeilliannau dysgu); a sicrhau bod pob cwyn yn cael ei chofnodi'n gywir ar GovService er mwyn hwyluso dysgu o gwynion. Er mwyn cefnogi cydweithwyr i reoli cwynion yn effeithiol, rydym wedi parhau i ddarparu hyfforddiant gloywi i staff rheng flaen a'r rheini sy'n gyfrifol am ymchwilio i gwynion, gan gynnwys sesiwn 'ôl-weithredol' gyda chydweithwyr sy'n gyfrifol am weinyddu cwynion. Rydym hefyd wedi creu swyddogaeth newydd yn y feddalwedd a fydd yn gwella'r broses rheoli cwynion ymhellach.

Os yw preswylwyr wedi disbyddu gweithdrefnau cwynion y Cyngor ac maent yn parhau'n anhapus, mae ganddynt hawl i uwchgyfeirio eu cwynion at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i'w hystyried. Yn ystod 2023/24, ni chynhaliwyd cwynion gan yr Ombwdsmon yn erbyn y Cyngor, gan adlewyrchu perfformiad y flwyddyn flaenorol.

Daeth 56 o gwynion i law ynglŷn â **Gwasanaethau Cymdeithasol** yn ystod y flwyddyn. Rhoddwyd terfyn ar 24 ohonynt yn ystod y flwyddyn (naill ai oherwydd nad oedd rhagor o gyswllt neu nad oedd modd ystyried y gŵyn yn y broses gwyno). O'r 32 cwyn oedd yn weddill, cafodd 12 (38%) eu datrys o fewn yr amserlenni dynodedig, cafodd 17 (53%) eu datrys y tu allan i'r amserlenni ac roedd 3 (9%) yn parhau ar agor ar ddiwedd y flwyddyn, felly'n parhau ymlaen i 2024/25.

| **Cipolwg ar Ganmoliaethau a Chwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023/24** | |
|---|---|
| Daeth **56** o gwynion i law, cynnydd o ffigur 2022/23 o **51**. | Datryswyd **38%** o gwynion o fewn amserlenni targed, gostyngiad o **89.2**%. |
| Daeth **192** o gwynion ac ymholiadau i law, cynnydd o ffigur y llynedd o **98**. | Uwchgyfeiriwyd **18.8%** o gwynion i gam 2, cynnydd o ffigur y llynedd o **12%**. |
| Daeth **17** o gwynion i law gan OGCC, cynnydd o ffigur 2022/23 o **3**. | Cynhaliwyd **0** cwynion gan OGCC, yr un peth â'r llynedd. |
| Daeth **163** o ganmoliaethau i law, cynnydd o ffigur 2022/23 o **103**. | |

Mae'r gwersi allweddol a ddysgwyd yn cynnwys: yr angen i gryfhau'r elfen o gadw at amserlenni ar gyfer cyfathrebu, ac i gael cyswllt clir a pharhaus â defnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd i'w diweddaru a darparu gwybodaeth a dogfennaeth berthnasol yn ôl yr angen; yr angen i gofnodi a chyfleu dysgu, canlyniadau ac argymhellion yn rheolaidd i wella ein dull o ymdrin â chwynion; adolygiad parhaus o hyfforddiant a chyfleoedd eraill i fynd i'r afael â phroblemau a nodwyd wedi'u llywio gan ein dysgu.

Mewn ymateb, mae safonau ymarfer yn cael eu datblygu i atgyfnerthu safonau statudol sy'n ofynnol i gyflawni gwaith gofal cymdeithasol, cynhelir adolygiad o bolisi cyfathrebu ac ymgysylltu a bydd yn cael ei ledaenu i'r holl staff, ac mae'r hyfforddiant presennol yn cael ei adolygu i atgyfnerthu dulliau o gael sgyrsiau heriol i sicrhau bod y rhain yn parhau i fod yn seiliedig ar gryfder, yn gadarnhaol ac yn gynhwysol. Mae'r amser y mae'n ei gymryd i ymateb i gwynion cam dau yn parhau i fod y tu hwnt i'r amserlenni gyda ffactorau cyfrannol yn ymwneud â newidiadau mewn staff, adnoddau ac argaeledd Swyddogion Ymchwilio Annibynnol pan fo angen. Mae argaeledd Swyddogion Ymchwilio Annibynnol yn parhau i fod yn heriol ac yn adlewyrchu'r darlun cenedlaethol. Mewn ymateb, rydym wedi cyflwyno monitro hanner ffordd o amserlenni cwynion cam dau er mwyn nodi unrhyw oedi disgwyliedig a chefnogi goruchwyliaeth briodol o'r broses ac unrhyw rwystrau rhag cwblhau.

Mae cwynion am y Gwasanaethau Cymdeithasol yn dod yn fwyfwy cymhleth, ac mae hyn hefyd yn ffactor allweddol sy'n cyfrannu at ein hymateb. Rhaid nodi y ceir cytundeb achwynwyr i estyniad yn achos yr holl gwynion yr ymdrinnir â hwy y tu allan i'r amserlenni dynodedig, er nad yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr amserlenni statudol.

## 8.5 Gweithio Cydweithredol gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned a'r Trydydd Sector

Er mwyn cyflawni Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol, mae angen i ni gydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid, rhanddeiliaid a'n cymunedau. Nid yw'r Cyngor yn gallu cyflawni'r canlyniadau sy'n ofynnol ar ei ben ei hun. Mae cydweithio'n effeithlon ac effeithiol yn ein galluogi i fanteisio ar y synergeddau a grëir trwy gyfuno adnoddau, sgiliau, arbenigedd a syniadau i sicrhau gwerth a chanlyniadau cynaliadwy sy'n mynd i'r afael â'n heriau allweddol yn gyfannol.

Mae'r Crynodeb o Fentrau Gweithio Strategol yn darparu trosolwg o'r gweithgarwch cydweithio ar lefel strategol y mae'r Cyngor yn cymryd rhan ynddo, a chaiff cynnydd ei fonitro drwy gydol y flwyddyn. Ynghyd â'r rhain, mae'r Cyngor hefyd yn cydweithio â phartneriaid cymunedol ar ddarparu ystod eang o wasanaethau i breswylwyr, gan fanteisio ar eu mewnwelediad cymunedol amhrisiadwy a'u harbenigedd arbenigol i ddarparu arbedion effeithlonrwydd ac arbedion costau, gan gyfrannu at wasanaethau di-dor ac, yn y pen draw, gwell canlyniadau i breswylwyr.

Mae cyflawniadau sylweddol yn ystod y flwyddyn a hanner diwethaf wedi dangos ymhellach y potensial ar gyfer cydweithio. Er enghraifft, mae hyn wedi arwain at well cydlynu ac integreiddio gweithgareddau i ymateb i heriau costau byw sy'n wynebu ein preswylwyr a threchu tlodi, her ddifrifol sy'n wynebu'r Cyngor. Gan ganolbwyntio ar leddfu'r pwysau sy'n wynebu cymunedau drwy ystod o weithgareddau i gefnogi preswylwyr sy'n ymwneud â sgiliau, cyflogaeth, tai, mynediad at fwyd fforddiadwy, a chyngor ar ynni ar draws y Fro ac yn y meysydd penodol â'r amddifadedd mwyaf acíwt, mae'r gwaith hwn wedi dwyn ynghyd sefydliadau'r trydydd sector dan arweiniad Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GGM), Mentrau Cymdeithasol, Cynghorau Tref a Chymuned, ein hysgolion, grwpiau cymunedol a chymunedau. Drwy rannu mewnwelediadau data, adnoddau, sgiliau ac arbenigedd, rydym wedi gallu targedu gwasanaethau yn uniongyrchol i ddiwallu meysydd o angen acíwt, yn enwedig yn ein hardaloedd mwy amddifad gyda llwyddiannau gan gynnwys Big Bocs Bwyd a phrosiectau bwyd a chyngor eraill sy'n cael eu cynnal mewn nifer o ysgolion sydd wedi nodi angen; dull ysgol gymunedol yng Nghymuned Ddysgu Pencoedtre, sy'n defnyddio dull teulu cyfan, gan uno gwasanaethau yn seiliedig ar anghenion teuluoedd a disgyblion yr ardal; sefydlu siop ailddefnyddio ac ailgylchu sy'n cefnogi pobl i drwsio eitemau a dod o hyd i eitemau newydd am gost isel; cymorth urddas mislif ym mhob ysgol ac mewn dros 60 o leoliadau cymunedol; Uwch Swyddog Datblygu Cymunedol yn ymgysylltu â'n cymunedau mwyaf difreintiedig; Banc Bwyd y Fro; pantrïoedd bwyd yn CF61 yn Llanilltud Fawr a Pod Bwyd Penarth, Prosiect Bwyd Llanilltud Fawr a Mwy na Hyb Bwyd; mynediad at gyngor tai, cyflogaeth a budd-daliadau mewn banciau bwyd; mynediad at weithgareddau am ddim i deuluoedd, plant a phobl ifanc, i enwi ond ychydig. Mae'r gwaith hwn yn parhau i esblygu, wedi'i lywio gan fewnwelediadau data newydd a datblygol ac wrth i bartneriaid newydd ymuno.

Yn unol ag ymrwymiad y Cyngor i gryfhau ein perthynas â'r Trydydd Sector, Mentrau Cymdeithasol, Cyngor Tref a Chymuned a grwpiau cymunedol, gwnaethom ymgysylltu â Cwmpas i ymgymryd â rhaglen ymgysylltu i lywio ein hymagwedd a'n cyfleoedd ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Disgwylir i'r gwaith gyda Cwmpas gael ei adrodd ym mis Medi 2024 ac mae'n ystyried pedwar adroddiad Archwilio Cymru sy'n canolbwyntio ar dlodi, menter gymdeithasol, gwydnwch cymunedol a'r trydydd sector. O ganlyniad i'r gwaith gyda Cwmpas, a'u canfyddiadau, mae gwaith wedi dechrau i ddatblygu datganiad perthynas fel rhan o'r Cynllun Corfforaethol newydd. Bydd y datganiad hwn yn nodi rhai egwyddorion gwaith allweddol a bydd ymgynghori arnynt fel rhan o ymgynghoriad y Cynllun Corfforaethol a bydd yn adlewyrchu Rhaglen Ail-lunio'r Cyngor. Bydd hyn yn adeiladu ar gryfhau modelau presennol o arfer da sydd ar waith ac yn nodi cyfleoedd newydd.

## 8.6 Penderfyniadau allweddol y Cyngor 2023/24

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg byr o rai penderfyniadau allweddol y cyngor a wnaed yn ystod y flwyddyn, sut y gwnaeth rhanddeiliaid lywio penderfyniadau a'r newidiadau a'r effaith ddilynol ar drigolion a chymunedau. Mae penderfyniad allweddol yn yr achos hwn yn cyfeirio at benderfyniad Gweithredol neu benderfyniad gan y Cyngor a fydd yn cael effaith sylweddol ar gymunedau'r Fro neu'n cynnwys cyllidebau sylweddol.

| Mis | Cynnig | Cynnwys Rhanddeiliaid | Penderfyniad a'r hyn sydd wedi newid/gwella | Cyfraniad Amcan Lles |
|---|---|---|---|---|
| Ebrill | Sefydlu cynllun Strydoedd Chwarae. | Mynegodd trigolion o wahanol rannau o'r Fro ddiddordeb ac maent wedi cysylltu â Chwarae Cymru a thîm Chwarae'r Fro am gymorth i gau eu strydoedd ar gyfer Chwarae.<br>Roedd partneriaid awdurdodau lleol yn cytuno â sefydlu cynllun yn y Fro, gan ei fod yn | Mae cymeradwyaeth wedi galluogi preswylwyr i wneud cais i'w strydoedd lleol ddod yn strydoedd chwarae sydd wedi cynyddu cyfleoedd ar gyfer chwarae dan arweiniad plant am ddim, gan gyfrannu at fwy o gydlyniant cymunedol ac ymdeimlad o gyfrifoldeb cyfunol dros les plant. Hyd yn hyn mae 5 stryd yn y Barri a Phenarth | ALl1<br>ALl2<br>ALl3<br>ALl4 |

| Mis | Cynnig | Cynnwys Rhanddeiliaid | Penderfyniad a’r hyn sydd wedi newid/gwella | Cyfraniad Amcan Lles |
|---|---|---|---|---|
| | | cyfrannu at ymrwymiadau allweddol y cyngor e.e. mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, addysg a chyfranogiad cymunedol. | wedi gwneud cais gyda sesiynau yn cael eu cynnal unwaith y mis dros y flwyddyn ddiwethaf yn Romilly Road a Dunraven Street yn y Barri. | |
| Ebrill | Cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2023-28 | Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun drafft ac ymgysylltwyd â rhanddeiliaid. Llywiwyd y cynllun gan Asesiad Lles. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar yr Amcanion, y blaenoriaethau a’r ymrwymiadau Lles drafft yn y Cynllun. | Cymeradwywyd y Cynllun fel partner statudol BGC. Mae meysydd blaenoriaeth yn cynnwys gwaith gyda'n cymunedau â'r amddifadedd mwyaf, Bro Oed-Gyfeillgar a mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Gwnaed gwaith alinio rhwng y cynllun partneriaeth a gweithgareddau'r Cyngor. | ALl1<br>ALl2<br>ALl3<br>ALl4 |
| Mai | Datblygiad Promenâd Penarth. | Rhoddodd preswylwyr, ymwelwyr a busnesau adborth ar agweddau o'r Promenâd y maent yn eu gwerthfawrogi a lle roedd pryderon yn bodoli a gwnaethant gyflwyno atebion posib i gefnogi gwelliant a datblygiad parhaus yr ardal, ac mae'r rhain wedi llywio mapio a datblygu cynlluniau creu lleoedd yn y gymuned. | Cymeradwywyd y gwaith o ddatblygu rhaglen o gamau gweithredu â blaenoriaeth, wedi'u llywio gan bryderon ac anghenion preswylwyr, ymwelwyr a busnesau sy'n gweithredu ar y Promenâd. Mae hyn wedyn yn llywio’r gwaith o wella'r ardal drwy fapio cymunedol sy'n cefnogi gweithgaredd creu lleoedd, gyda datblygiadau arfaethedig yn adlewyrchu'r chwe Egwyddor sy'n sail i Siarter Creu Lleoedd Cymru (2020): Pobl a Chymuned; Lleoliad; Symud; Cyfuniad o Ddefnyddiau; Tir Cyhoeddus a Hunaniaeth. | ALl1<br>ALl2<br>ALl3<br>ALl4 |
| Mai | Dod yn Llofnodwr Siarter Creu Lleoedd Cymru a datblygu Cynlluniau Creu Lleoedd ar gyfer pedair prif dref y Fro. | Ymgysylltu â holl adrannau'r cyngor sy'n cefnogi dull integredig sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Corfforaethol, blaenoriaethau’r CCB a'r rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau nesaf. | Mae cymeradwyaeth wedi sicrhau ein cymhwysedd a'n llwyddiant wrth sicrhau cyllid Llywodraeth Cymru i ddatblygu Cynlluniau Creu Lleoedd prif drefi'r Fro - y Barri, Penarth, Y Bont-faen a Llanilltud Fawr. Bydd cyllid grant trefi yn y dyfodol yn dibynnu ar gynllun creu lleoedd mabwysiedig, sy'n ein rhoi mewn sefyllfa gref i sicrhau arian i wella ein trefi. | ALl1<br>ALl2<br>ALl3<br>ALl4 |
| Mai / Medi | Cynyddwyd y ddarpariaeth ar gyfer Addysg Gymraeg drwy ehangu Ysgol Iolo Morgannwg o 210 o leoedd | Ymgysylltwyd â'r holl randdeiliaid allweddol, gydag 86 allan 91 o ymatebwyr i'r ymgysylltiad yn nodi cefnogaeth i'r cynnig. | Y cynnig cymeradwy yn cael ei ddatblygu. Bydd adeilad newydd yn cynnwys y cynnydd mewn niferoedd a’r twf mewn addysg gynradd cyfrwng Cymraeg, gan gefnogi CSCA y | ALl1<br>ALl2<br>ALl3<br>ALl4 |

| Mis | Cynnig | Cynnwys Rhanddeiliaid | Penderfyniad a'r hyn sydd wedi newid/gwella | Cyfraniad Amcan Lles |
|---|---|---|---|---|
| | i 420 o leoedd o fis Medi 2025. | | Cyngor a strategaeth 'Cymraeg 2050' Llywodraeth Cymru. | |
| Mai | Ffurfio Rhaglen Partneriaeth Tai gyda Chyngor Caerdydd | Ymgysylltwyd ag adrannau'r cyngor, y Bwrdd Tai Strategol, Llywodraeth Cymru a Chyngor Caerdydd ar gydweithrediad a fyddai'n arwain at sefydlu rhaglen partneriaeth tai. | Mae cymeradwyaeth wedi arwain at sefydlu trefniant Partneriaeth sydd bellach wedi dechrau ymarfer caffael i benodi Partner Datblygu i gefnogi'r gwaith o gyflawni rhaglen datblygu tai uchelgeisiol y Cyngor. | ALl3<br>ALl4 |
| Mehefin | Gwobrau Cronfa Grant Cymunedau Cryf | Ymgysylltwyd â Sefydliad Waterloo, Cyfoeth Naturiol Cymru a chynrychiolwyr y Cynghorau Tref a Chymuned a'r trydydd sector i gefnogi projectau sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn i ansawdd bywyd pobl a chymunedau yn y Fro a'r ystod o wasanaethau sydd ar gael iddynt. | Mae cynllun cymeradwy wedi galluogi grwpiau cymunedol, y trydydd sector a chynghorau tref a chymuned i wneud cais am £179,553 o gyllid refeniw a chyfalaf sy'n hyrwyddo mentrau o fewn Bro Morgannwg sy'n gyson â gweledigaeth y Cyngor o 'Weithio gyda'n gilydd ar gyfer dyfodol disgleiriach'. Mae 24 o sefydliadau a arweinir gan y gymuned wedi elwa o grantiau yn 2023/24. | ALl1<br>ALl2<br>ALl3<br>ALl4 |
| Mehefin | Cynyddu maint Ysgol Uwchradd Gatholig Richard Gwyn Sant o 813 o leoedd i 1,050 o leoedd o fis Medi 2025. | Ymgysylltwyd â'r holl randdeiliaid allweddol gan gynnwys rhieni, gyda 43 ymateb, pob un ohonynt (100%) yn cefnogi'r cynigion. | Mae'r cynnig cymeradwy yn mynd i'r afael â'r galw presennol, ac yn y dyfodol, am leoedd ysgol yn y dalgylch yn ogystal â chyflwr gwael yr adeilad presennol. Mae'r gwaith adeiladu wedi dechrau ac mae ar y trywydd iawn i'w gwblhau yn barod ar gyfer mis Medi 2025. | ALl1<br>ALl2<br>ALl3<br>ALl4 |
| Gorffennaf | Cynllun Ardal ar y Cyd | Cydweithiwyd â'r Bwrdd Iechyd a phartneriaid yr awdurdod lleol yn y rhanbarth i baratoi, datblygu a sicrhau'r Cynllun Ardal ar y Cyd. | Mae'r Cynllun Ardal ar y Cyd Cymeradwy yn manylu ar ymrwymiadau allweddol a fydd yn gwella gallu trigolion y Fro o bob oed i gael gafael ar ofal a chymorth cymdeithasol integredig, gan gynnwys anghenion cymorth gofalwyr. | ALl1<br>ALl3 |
| Medi | Gorchymyn Rheoli Traffig (GRhT) ar gyfer eithriadau i derfyn cyflymder diofyn 20MYA Cymru, a gweithredu terfynau cyflymder ategol. | Ymgysylltwyd â'r cyhoedd ar y map 'eithriadau' arfaethedig, gyda 153 o gyfranwyr a 193 o ymatebion yn codi pryder yn dod i law. | Cymeradwywyd pum newid mewn perthynas â'r cynnig GRhT o ganlyniad i'r ymgynghoriad cyhoeddus, gyda'r ffyrdd hynny naill ai'n dychwelyd i'r 20mya diofyn, yn ymestyn yr 20mya diofyn neu'n cael gwared ar yr 20mya o'r ffyrdd hynny. | ALl1<br>ALl3<br>ALl4 |
| Hydref | Cynigion ar gyfer defnyddio cronfa wrth gefn Costau Byw'r | Ymgysylltwyd â holl adrannau'r Cyngor sy'n cefnogi dull integredig sy'n cyd-fynd â'r Cynllun | Cymeradwywyd cyllid wedi'i glustnodi o £25,000 yn 2023/24 a £25,000 pellach yn 2024/25 i gefnogi prosiectau cymunedol. | ALl1<br>ALl2<br>ALl3<br>ALl4 |

| Mis | Cynnig | Cynnwys Rhanddeiliaid | Penderfyniad a'r hyn sydd wedi newid/gwella | Cyfraniad Amcan Lles |
|---|---|---|---|---|
| | Cyngor gwerth £854,000. | Corfforaethol a blaenoriaethau'r CCB. | Cymeradwywyd swm o'r gronfa wrth gefn Costau Byw gwerth £30,000 i ddarparu cyllid i Gyngor ar Bopeth yn 2024/25 yn ychwanegol at y cyllid y cytunwyd arno eisoes. Cymeradwywyd swm pellach o'r gronfa wrth gefn Costau Byw gwerth £50,000 i'r gronfa Taliad Tai yn ôl Disgresiwn yn 2023/24 ac eto yn 2024/25.<br><br>Mae'r cyllid yn cefnogi sefydliadau sy'n rhoi cymorth i breswylwyr sy'n profi anawsterau costau byw, cymorth ychwanegol i fanc Bwyd y Fro i gwrdd â'r niferoedd cynyddol sy'n defnyddio eu gwasanaethau, a thaliadau tai yn ôl disgresiwn i'r rheini mewn angen. | |
| Hydref | Polisi Byw'n Annibynnol ar gyfer Bro Morgannwg. | Ymgysylltwyd â holl adrannau'r Cyngor, aelodau etholedig wrth ddatblygu dull integredig sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Corfforaethol a blaenoriaethau'r CCB. | Mae cymeradwyaeth wedi rhoi amrywiaeth o brosesau a grantiau i berchnogion tai preifat er mwyn caniatáu i gyfleusterau i'r anabl gael eu haddasu yn y rhan fwyaf o gartrefi lle y bo angen. | ALl1<br>ALl3 |
| Tachwedd | Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) | Ymgysylltwyd â'r holl randdeiliaid allweddol gan gynnwys aelodau etholedig wrth lunio'r Strategaeth a Ffefrir Ddrafft. | Cyflwynwyd Cytundeb Cyflawni Cymeradwy'r CDLlN i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo yn unol â Rheoliadau Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005.<br><br>Cymeradwywyd Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. | ALl1<br>ALl2<br>ALl3<br>ALl4 |
| Rhagfyr | Strategaeth Partneriaeth Bro Ddiogelach 2023-2028 | Ymgysylltwyd â'r holl randdeiliaid allweddol gan gynnwys preswylwyr wrth ddatblygu'r strategaeth a'i blaenoriaethau. | Bydd cymeradwyo Strategaeth 2023-28 a chyllid cysylltiedig yn galluogi ffocws parhaus ar ein blaenoriaethau allweddol o ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu ac anhrefn, yr agenda trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a cham-drin rhywiol, camddefnyddio sylweddau, yr agenda gwrthderfysgaeth ac ymateb i'r ddyletswydd trais difrifol. Mae cyflawniadau hyd yn hyn yn | ALl1<br>ALl3 |

| Mis | Cynnig | Cynnwys Rhanddeiliaid | Penderfyniad a'r hyn sydd wedi newid/gwella | Cyfraniad Amcan Lles |
|---|---|---|---|---|
| | | | cynnwys uwchraddio teledu cylch cyfyng mannau cyhoeddus yn llwyddiannus ar draws y Fro gyfan, datblygu trafodaethau ddwywaith yr wythnos i wella'r ffyrdd y mae dioddefwyr risg uchel cam-drin domestig yn cael eu cefnogi, a gweithredu systemau casglu data newydd sydd wedi gwella'r ffyrdd yr ydym yn monitro, yn adrodd ac yn cynllunio ein gwaith yn sylweddol. | |
| Rhagfyr | Dod yn Bartner Strategol yn y fenter Datblygu Chwaraeon Canolbarth y De. | Ymgysylltwyd â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys y Bwrdd Iechyd a sefydliadau addysgol rhanbarthol i gytuno ar fodel partneriaeth i ddarparu datblygiad chwaraeon yn unol â'r ymrwymiad i dyfu lefelau gweithgarwch corfforol a chefnogi lles cymunedol. | Mae cymeradwyaeth yn sicrhau bod Datblygu Chwaraeon yn y Fro yn parhau i weithredu'n effeithlon ac yn effeithiol i gefnogi lles cymunedol yn unol â'n blaenoriaethau. Bydd gwaith yn cael ei ddatblygu drwy'r bartneriaeth cwmni cyfyngedig sydd newydd ei sefydlu. | ALl1<br>ALl2<br>ALl3<br>ALl4 |
| Ionawr | Cynigion ar gyfer y Rhaglen Ail-lunio nesaf. | Ymgysylltwyd â holl adrannau'r Cyngor, aelodau etholedig, y sector gwirfoddol, cynghorau tref a chymuned, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wrth ddatblygu dull integredig sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Corfforaethol a blaenoriaethau'r CCB. Mae cynigion yn cael eu llunio gan ymgysylltu a mewnwelediadau eraill gan gynnwys canfyddiadau Arolwg diweddar Bywyd yn y Fro. | Mae cynigion a gymeradwywyd yn cael eu datblygu wrth ddatblygu rhaglen drawsnewidiol newydd sy'n cyd-fynd â Chynllun Corfforaethol newydd 2025-30. | ALl1<br>ALl2<br>ALl3<br>ALl4 |
| Ionawr | Caffael Eiddo Preswyl ym Mro Morgannwg ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol. | Ymgysylltwyd â holl adrannau'r Cyngor wrth ddatblygu dull integredig sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Corfforaethol a blaenoriaethau'r CCB. | Bydd cynnig a gymeradwywyd yn galluogi cyflwyno cynllun sy'n cefnogi byw'n annibynnol yn y gymuned ar gyfer pobl ag anghenion gofal a chymorth, yn unol â'r angen a nodwyd. | ALl1<br>ALl3 |
| Chwefror | Gwelliannau i safleoedd hamdden Colcot a Buttrills yn y Barri. | Ymgysylltwyd â holl adrannau'r Cyngor, preswylwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill wrth ddatblygu dull integredig sy'n cyd-fynd â'r Cynllun | Bydd cefnogaeth i'r cynlluniau arfaethedig yn sicrhau gwelliannau sylweddol i ardaloedd cyhoeddus a bydd gwelliannau i gyfleusterau | ALl1<br>ALl2<br>ALl3<br>ALl4 |

| Mis | Cynnig | Cynnwys Rhanddeiliaid | Penderfyniad a'r hyn sydd wedi newid/gwella | Cyfraniad Amcan Lles |
|---|---|---|---|---|
| | | Corfforaethol a blaenoriaethau'r CCB. | hamdden ardal Colcot a Buttrills o fudd i'r cymunedau cyfagos. | |
| Chwefror / Mawrth | Cynigion ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2024/25 a Chynllun Ariannol Tymor Canolig 2024/25 i 2028/29. | Ymgysylltwyd ag adrannau'r cyngor, aelodau etholedig a rhanddeiliaid allweddol eraill gan gynnwys y cyhoedd, llywiwyd cynigion y gyllideb, ynghyd ag ystyried mewnwelediadau allweddol eraill gan gynnwys canfyddiadau arolwg Bywyd yn y Fro. | Mabwysiadu cynnydd o 6.7% yn y dreth gyngor a oedd yn is na ffigur cyfartalog Cymru.<br><br>Roedd adnoddau a ddyrannwyd i ddarparu gwasanaethau'r cyngor wedi rhoi ystyriaeth briodol i ganfyddiadau ymgynghoriad Bywyd yn y Fro a'r Gyllideb.<br><br>Gweithredu trefniadau i gyflawni £7.676 miliwn mewn cynilion. | ALl1<br>ALl2<br>ALl3<br>ALl4 |
| Mawrth | Cynllun Cyflawni Blynyddol 2024/25. | Ymgysylltwyd ag adrannau'r cyngor, aelodau etholedig, partneriaid allweddol a rhanddeiliaid allweddol eraill gan gynnwys y cyhoedd, llywiwyd ymrwymiadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol, ynghyd ag ystyried mewnwelediadau allweddol eraill, gan gynnwys canfyddiadau arolwg Bywyd yn y Fro. | Darparu gweithgareddau gwasanaeth allweddol a thargedau perfformiad sy'n cyd-fynd â'n hymrwymiadau CCB 2024/25. | ALl1<br>ALl2<br>ALl3<br>ALl4 |

## 8.7 Ymgysylltu ar ddyfarniadau perfformiad a chanfyddiadau sy'n dod i'r amlwg yr Hunanasesiad Blynyddol

Mae ein Hunanasesiad Blynyddol yn cynnwys tri prif ddyfarniad: Asesiad Perfformiad Cynllun Cyflawni Blynyddol, asesiad o'n defnydd o adnoddau (pobl, asedau, cyllid, gan gynnwys caffael a chomisiynu, mewnwelediad perfformiad, risg ac ymgysylltu) ac asesiad o'n llywodraethiant, rheoli risg ac effeithiolrwydd rheolaethau mewnol drwy Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol.

Rhan allweddol o'r Hunanasesiad Blynyddol y Cyngor oedd gwirio ein dyfarniadau perfformiad a'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o ran meysydd ar gyfer ffocws yn y dyfodol er mwyn sicrhau ein bod yn parhau â ffocws allanol fel sefydliad, gan ymateb i'r pethau a oedd bwysicaf i'n dinasyddion a'n partneriaid.

***Digwyddiad Partneriaid a Rhanddeiliaid Allanol***

Yn dilyn her gymheiriaid mewnol ac ymarfer cymedroli, cynhaliwyd digwyddiad galw heibio partneriaid a rhanddeiliaid allanol ym mis Gorffennaf 2024. Fel rhan o ddatblygiad cynllun corfforaethol newydd 2025-30, gwahoddwyd ystod eang o bartneriaid a sefydliadau lleol i drafod ein hamcanion lles drafft a'r canlyniadau y mae angen i ni eu cyflawni. Yn y digwyddiad hwn, manteisiwyd hefyd ar y cyfle i siarad â nhw am ein dyfarniadau perfformiad a'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o'r broses Hunanasesu Flynyddol, a sut mae'r canfyddiadau

hynny'n helpu i lywio gweithgaredd yn y dyfodol. Daeth 16 o bobl i'r digwyddiad gan gynnwys cynrychiolwyr o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Cynghorau Tref a Chymuned a sefydliadau lleol.

Dyma grynodeb o'r canfyddiadau allweddol:

- Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf yn ystyried bod ein dyfarniadau ar draws pob thema yn deg at ei gilydd.
- Ystyriwyd bod ein dyfarniadau cyffredinol o 'Gweddol' mewn perthynas ag Ymgysylltu a Mewnwelediad yn briodol gan y mwyafrif, a'r consensws cyffredinol oedd eu bod yn cytuno â'n hawydd i wella ar gynrychioldeb yn ein hymgysylltiad a sut y defnyddir y mewnwelediad hwnnw.

Mewn perthynas â meysydd sy'n dod i'r amlwg ar gyfer ffocws yn y dyfodol, tynnwyd sylw at y rhai canlynol:

- Cefnogaeth ar gyfer datblygu celf lleol a mynediad ati, nid celf gyhoeddus yn unig.
- Cymryd ymagwedd yn seiliedig ar anghenion at dyfu gwasanaethau gofal cymdeithasol.
- Cryfhau ein ffocws ar les yn y gymuned mewn perthynas â gwasanaethau gofal cymdeithasol.
- Cymryd perchnogaeth, yn strategol, ar gynllunio a chynlluniau ar gyfer y Fro, ac yn arwain arnynt, ac yn herio'r datblygwyr tai yn briodol.

Er bod cefnogaeth i'r rhan fwyaf o'r meysydd sy'n dod i'r amlwg ar gyfer ffocws a nodwyd, roedd pryder hefyd ynghylch sut y byddai'r rhain yn cael eu hariannu heb gynyddu'r dreth gyngor yn barhaus.

Yn ogystal â'r digwyddiad uchod, ac i annog partneriaid i achub ar y cyfle i wneud sylwadau ar yr Hunanasesiad Blynyddol drafft, fe'i trafodwyd hefyd yng nghyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Medi. Anogwyd partneriaid i roi sylwadau, a bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Hunanasesu Blynyddol terfynol.

***Digwyddiad Aelodau Etholedig***

Trefnwyd digwyddiad ar-lein hefyd ar gyfer aelodau etholedig a oedd yn nodi'r amcanion drafft ar gyfer y Cynllun Corfforaethol newydd a hefyd y canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o'r Hunanasesiad Blynyddol a sut mae'r rhain yn cyfrannu at ddatblygu'r Cynllun newydd. Roedd 15 aelod yn bresennol. Rhoddodd y sesiwn hon gyfle i aelodau drafod a llunio'r gweithgareddau gwaith allweddol hyn yn gynnar, cyn i'r ddau gael eu hystyried yn ffurfiol mewn pwyllgorau craffu yn ystod yr hydref.

Mewn perthynas â'r Hunanasesiad Blynyddol, nododd yr aelodau etholedig y broses, y dyfarniadau a'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg heb unrhyw sylwadau pellach yn y digwyddiad.

***Ymgysylltu â Staff a Digwyddiad Ymgysylltu***

Trafodwyd yr Adroddiad Hunanasesu Blynyddol gyda'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol a'i gyfleu i staff. Rydym hefyd wedi hyrwyddo hyn ar StaffNet y Cyngor ac mewn digwyddiad ar-lein a arweiniwyd gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol i roi cyfle pellach i gydweithwyr fwydo i'r canfyddiadau cyffredinol. Roedd 30 o gydweithwyr yn bresennol yn y digwyddiad, ac roedd yn amlinellu'r dyfarniadau a'r canfyddiadau hunanasesu blynyddol sy'n dod i'r amlwg a sut roedd y rhain yn llywio'r cynlluniau strategol ar gyfer y Cynllun Corfforaethol nesaf. Gofynnwyd i gydweithwyr fwydo yn ôl trwy arolwg barn ar-lein ynghylch a oedd y dyfarniadau a'r meysydd sy'n dod i'r amlwg ar gyfer ffocws yn y dyfodol, yn teimlo'n iawn. Cytunodd y mwyafrif gyda'r dyfarniadau a'r meysydd sy’n dod i'r amlwg a gwnaed cais am adborth pellach unwaith y bydd cydweithwyr wedi edrych ar yr adroddiad yn fanwl. Mae hyn yn rhan o'r broses herio fewnol sy'n galluogi cydweithwyr ar draws y Cyngor i wirio'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg yn synhwyrol, gan sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol ac i nodi sut y gallant gyfrannu yn eu rolau at daith wella'r Cyngor. Bydd unrhyw adborth ychwanegol, gan gynnwys meysydd newydd ar gyfer ffocws yn y dyfodol, cyfleoedd ar gyfer arloesi ar draws gwasanaethau a'r Cyngor yn ei gyfanrwydd, yn cael ei adlewyrchu yn yr Adroddiad Hunanasesu Blynyddol terfynol.

***Fforwm Newid***

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol y dyfarniadau a'r canfyddiadau hunanasesu blynyddol sy'n dod i'r amlwg a sut roedd y rhain yn llywio'r cynlluniau strategol ar gyfer y Cynllun Corfforaethol nesaf. Nododd y Fforwm Newid y broses a ddilynwyd ar gyfer yr Hunanasesiad Blynyddol ac ni wnaed unrhyw sylwadau pellach gan gynrychiolwyr undebau llafur ynghylch y dyfarniadau Hunanasesiad Blynyddol a chanfyddiadau sy'n dod i'r amlwg.

***Fforwm Ymgynghorol Cydraddoldeb***

Rhoddwyd cyflwyniad i'r Rhwydwaith Hyrwyddwyr Aelodau drwy'r Fforwm Ymgynghorol Cydraddoldeb, yn amlinellu dyfarniadau a chanfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o'r hunanasesiad blynyddol a sut roedd y rhain yn llywio'r Cynllun Corfforaethol nesaf. Ni chafwyd unrhyw sylwadau penodol ar y dyfarniadau na'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg gan aelodau'r Fforwm Ymgynghorol Cydraddoldeb yn y cyfarfod, ac mae'r cyflwyniad wedi'i ddosbarthu i'r aelodau er mwyn iddynt ei ystyried a rhoi adborth.

***Cynnwys y Cyhoedd***

Mynychwyd nifer o ddigwyddiadau cymunedol rhwng mis Gorffennaf a mis Awst ar draws Bro Morgannwg yn y Barri, Y Bont-faen, Penarth, Dinas Powys a Llanilltud Fawr i gyfathrebu a gwahodd barn ar ddyfarniadau a chanfyddiadau sy'n dod i'r amlwg Hunanasesiad Blynyddol y Cyngor, gan gynnwys gwirio'r meysydd ar gyfer ffocws yn y dyfodol a nodwyd drwy'r broses. Ar y cyfan, ychydig iawn o sylwadau a gafwyd ar ddyfarniadau'r hunanasesiad, gyda'r rheini a oedd yn gwneud sylwadau yn nodi eu bod yn eu hystyried yn deg. Roedd y rhan fwyaf yn gyffredinol gefnogol o'r meysydd ar gyfer ffocws yn y dyfodol a chawsant ragor o wybodaeth am sut y byddai'r rhain yn cael eu defnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2025-30.

Rydym hefyd wedi cynnal arolygon barn ar Twitter a LinkedIn o fis Gorffennaf tan fis Medi i fesur barn ar feysydd sy'n dod i'r amlwg ar gyfer ffocws yn y dyfodol Hunanasesiad Blynyddol y Cyngor, gyda 288 o bobl wedi cymryd rhan hyd yma. Mae dogfen gryno hefyd wedi'i llunio ac mae'n cael ei hyrwyddo ar-lein drwy'r hyb Cymryd Rhan y Fro i drigolion roi adborth arni, fodd bynnag, dim ond 3 ymateb sydd wedi dod i law hyd yma. Bydd adborth o'r rhain yn cael ei ddefnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu Cynllun Corfforaethol 2025-30 newydd a chynlluniau cysylltiedig ar gyfer 2025/26.

O ran yr arolwg barn Twitter, mae hwn wedi'i hyrwyddo 10 gwaith hyd yma, gan gyrraedd rhwng 500 a 1,000 o bobl bob tro gyda 43 o bobl yn cymryd rhan. Isod mae cipolwg ar ganlyniadau hyd yma yn ôl y themâu allweddol. Ac eithrio'r thema adeiladu cymunedau cynaliadwy, mae cefnogaeth dda ar y cyfan i'r meysydd sy'n dod i'r amlwg ar gyfer ffocws yn y dyfodol a nodwyd yng nghanfyddiadau Hunanasesiad Blynyddol y Cyngor.

| **Canlyniadau Arolwg Barn Twitter** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **A ydych chi'n cytuno â'r meysydd hyn?👇** | **Ydw** | **Nac ydw** | **Ddim yn gwybod** | **Cyfanswm Pleidleisiau** |
| Gwella ein prosesau gwaith | 66.7% | 16.7% | 16.7% | 6 |
| Datblygu cymunedau cynaliadwy | 33.3% | 50% | 16.7% | 6 |
| Cefnogi pobl ifanc | 83.3% | 16.7% | 0% | 6 |
| Gweithio gyda phartneriaid i ail-lunio gwasanaethau gofal | 92.3% | 7.7% | 0% | 14 |
| Hyrwyddo cyfranogiad y cyhoedd yng ngwaith y cyngor | 90.9% | 0% | 9.1% | 11 |

Isod mae cipolwg ar y canlyniadau yn ôl thema arolwg barn Linkedin lle cymerodd 245 o bobl ran. Yn gyffredinol, mae cefnogaeth gref i'r meysydd sy'n dod i'r amlwg ar gyfer ffocws yn y dyfodol a nodwyd yng nghanfyddiadau Hunanasesiad Blynyddol y Cyngor.

| Canlyniadau Arolwg Barn Linkedin | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A ydych chi'n cytuno â'r meysydd hyn?👇 | Ydw | Nac ydw | Ddim yn gwybod | Cyfanswm Pleidleisiau |
| Gwella ein prosesau gwaith | 85% | 9% | 6% | 33 |
| Datblygu cymunedau cynaliadwy | 88% | 8% | 4% | 74 |
| Cefnogi pobl ifanc | 82% | 7% | 11% | 56 |
| Gweithio gyda phartneriaid i ail-lunio gwasanaethau gofal | 89% | 7% | 4% | 46 |
| Hyrwyddo cyfranogiad y cyhoedd yng ngwaith y cyngor | 83% | 6% | 11% | 36 |

Mae'r canlyniadau hyd yma yn dangos bod 'Adeiladu Cymunedau Cryf' wedi derbyn y nifer fwyaf o bleidleisiau yn yr arolwg barn hwn.

Byddwn yn parhau i rannu ein canfyddiadau a'n meysydd sy'n dod i'r amlwg ar gyfer ffocws yn y dyfodol o Hunanasesiad Blynyddol y Cyngor tan ddiwedd mis Tachwedd gydag unrhyw ganlyniadau pellach yn llywio datblygiad Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2025-30 a chynlluniau blynyddol cysylltiedig ar gyfer 2025/26.

***Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac Archwilio Cymru***

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB) Drafft wedi bod yn destun her gychwynnol drwy'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a bydd yn cael ei adolygu gan ein harchwilwyr allanol fel rhan o archwiliad Datganiad Cyfrifon y Cyngor a bydd yn parhau i adlewyrchu unrhyw faterion llywodraethu a nodwyd hyd at y dyddiad y bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn llofnodi'r Datganiad Cyfrifon. Argymhellwyd y DLlB drafft i'w fabwysiadu gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr yn amodol ar ystyried cynnwys sylwadau pellach ar weithrediad Systemau Ariannol Oracle a chwynion corfforaethol. Mae'r ddau yn parhau i fod yn feysydd ffocws i'r Cyngor fel yr adlewyrchir yng nghanfyddiadau'r Hunanasesiad Blynyddol.

## 8.8 Casgliad cyffredinol

Ar gyfer y cyfnod 2023/24, dyfarniad y Cyngor oedd ei fod **wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni ei ymrwymiadau o fewn y Cynllun Cyflawni Blynyddol yn unol â Chynllun Corfforaethol 2020-25.** Rydym wedi cyflawni 85% (502**/**591) o weithgareddau wedi'u cynllunio a thargedau cysylltiedig a osodwyd yn yr hyn a oedd yn Gynllun Cyflawni Blynyddol uchelgeisiol, o ystyried cyd-destun pwysau galw sylweddol parhaus ar wasanaethau a hinsawdd ariannol ac economaidd anodd. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod bod meysydd lle nad ydym wedi perfformio cystal ag y dylen ni, ac mae'r meysydd hyn o danberfformio yn parhau i fod yn feysydd ffocws yn 2024/25 ac yn cael eu hadlewyrchu yn ein Cynllun Cyflawni Blynyddol a'n cynlluniau cyflawni lefel gwasanaeth ar gyfer y cyfnod.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i gynyddu ein gweithgareddau cydweithredol yn gyflym er mwyn ein galluogi i fynd i'r afael â'n heriau difrifol mewn ffordd integredig a chyfannol, gan adeiladu ar y llwyddiant a gyflawnwyd hyd yn hyn. Mae'r partneriaethau hyn, ar gefndir o bwysau ariannol ac economaidd parhaus, wedi cyfrannu'n sylweddol at y cyflawniadau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod, er mwyn ateb y galw cynyddol am ein holl wasanaethau, bod angen i ni gynyddu'r gwaith hwn gydag ystod ehangach o bartneriaid, rhanddeiliaid a'n cymunedau er mwyn darparu atebion cynaliadwy a chanlyniadau cadarnhaol i'n dinasyddion. Mae gwaith eisoes wedi dechrau ar adnewyddu ein rhaglen drawsnewid gyda ffocws ar wneud hyn, yn cyd-fynd â datblygu ein Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2025-30. Mae ffrwd waith Cryfhau Cymunedau'r Rhaglen Ail-lunio bellach yn datblygu ac yn adlewyrchu rôl y Cyngor fel galluogwr a hwyluswr yn ogystal â darparwr gwasanaethau. Mae hwn yn gam pwysig tuag at sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau hanfodol a gwerthfawr gyda ffocws ar atal ac ymyrraeth gynnar.

Ers yr adroddiad blynyddol diwethaf, rydym wedi ystyried adborth gan Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor a'r holl Bwyllgorau Craffu i wella sut rydym yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Cyflawni Blynyddol ac Amcanion Lles ein Cynllun Corfforaethol ar draws y Cyngor ac yn gyhoeddus. Roedd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB) drafft ar gyfer 2023/24 yn rhoi **dyfarniad 'Sicrwydd Rhesymol' gan y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ein llywodraethu, ein gallu i reoli risgiau ac effeithiolrwydd rheolaeth fewnol**, sy'n dangos, o safbwynt llywodraethu, bod ein systemau a'n prosesau yn gyffredinol gadarn. Yn ogystal, rhoddwyd Barn Archwilio Fewnol o naill ai 'sicrwydd sylweddol neu resymol' hefyd i 82% o'r adolygiadau ar sail risg a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn gan brofi effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli mewnol gyda 92% o'r holl argymhellion a gyhoeddwyd yn y categorïau blaenoriaeth isel i ganolig. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen cymryd camau gweithredu pellach i gryfhau'r trefniadau presennol i sicrhau bod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn parhau i wella i gefnogi'r gwaith o ddarparu ei wasanaethau a sicrhau bod yr holl randdeiliaid allweddol yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu drwy Gynllun Gwaith Blynyddol Archwilio Mewnol y Cyngor, y Calendr o weithgareddau Perfformiad Blynyddol, Cynllun Gweithredu Egwyddorion Craffu Effeithiol a'r Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd.

Dychwelodd y Cyngor sefyllfa o fantoli'r cyfrifon ar gyllideb 2023/24, fodd bynnag, cyflawnwyd hyn ar ôl tynnu i lawr o gronfeydd wrth gefn i ateb pwysau galw sylweddol mewn nifer o wasanaethau gan gynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol ac Anghenion Dysgu Ychwanegol nad yw'n opsiwn cynaliadwy ar gyfer yr hirdymor. Er bod **dyfarniad cyffredinol Da wedi'i briodoli i'n defnydd o adnoddau**, mae hwn yn adlewyrchu dyfarniadau lefel cyfarwyddiaeth unigol cydgasgledig a roddwyd ar ba mor dda yr ydym wedi defnyddio ein pobl, ein hasedau, ein cyllid, ein perfformiad, a'n gwaith rheoli risgiau a'n mewnwelediadau ymgysylltu i gyflawni ymrwymiadau ein Cynllun Cyflawni Blynyddol. **Priodolwyd dyfarniad 'Gweddol' i'n cyllid, ein comisiynu a'n caffael** i adlewyrchu'r pwysau galw parhaus mewn gwasanaethau a'r effaith ddilynol ar y gyllideb. Roedd y dyfarniad hwn hefyd yn ystyried ei bod wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl i'r trefniadau caffael newydd gydag Ardal ymsefydlu a bod gwaith yn parhau i fynd rhagddo wrth ddatblygu cofrestr gynhwysfawr o gontractau a blaengynllun a fydd yn galluogi'r Cyngor i gael mwy o ffocws yn y dyfodol ar benderfyniadau caffael/comisiynu yn ogystal â chwrdd â threfniadau statudol newydd.

Yn yr un modd, priodolwyd dyfarniad 'Gweddol' i fewnwelediadau ymgysylltu gan adlewyrchu'r angen i ymwreiddio pocedi cyfredol o arfer da ar draws holl wasanaethau'r Cyngor, wedi'u llywio gan y gwersi a ddysgwyd o weithgareddau blaenorol, â'r hyn a ddysgwyd o ganfyddiadau Arolwg Bywyd yn y Fro 2023. Mae'r rhain wedi nodi bod angen gwneud mwy o waith yn y ffordd rydym yn esbonio ein gwaith, canfyddiad y cyhoedd o'n gwaith, ac i ymgysylltu'n rhagweithiol â thrigolion wrth wneud penderfyniadau. Maes allweddol o ffocws yw gwneud mwy i ddangos bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau o safon a gwerth am arian i breswylwyr a'n bod yn gyngor sy'n gwrando ac yn ymateb i anghenion preswylwyr. Mae'r heriau hyn yn ystyriaethau allweddol sy'n llywio'r gwaith o ddatblygu Rhaglen Ail-lunio newydd ar gyfer y Cyngor, Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd ddiwygiedig a'r Cynllun Corfforaethol newydd.

O ystyried ein dyfarniadau a chanfyddiadau'r gweithgareddau ymgysylltu a gynhaliwyd fel y disgrifir yn adran 8.7 uchod, rydym yn sicr, at ei gilydd, bod ein dyfarniadau Hunanasesiad Blynyddol '**Da' yn erbyn Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24**, **'Da' ar gyfer sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau** a dyfarniad o '**Sicrwydd Rhesymol'** gan y Pennaeth Archwilio Mewnol **ar ein llywodraethu, ein gallu i reoli risgiau ac effeithiolrwydd rheolaeth fewnol** yn adlewyrchu'r cynnydd hyd yn hyn, gan gyfrannu at gyflawni Amcanion Lles ein Cynllun Corfforaethol.

## 9.0 Sut rydyn ni'n defnyddio ein hadnoddau a llywodraethu

Y sgôr gyffredinol ar gyfer 'sut rydyn ni'n defnyddio ein hadnoddau' yw **DA**.

Mae Cyngor gwydn yn un sydd wedi'i lywodraethu'n dda, sy'n arloesol, yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer y presennol a'r dyfodol ac yn byw o fewn ei fodd. Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni Amcanion Lles ein Cynllun Corfforaethol a chyfrannu at y nodau cenedlaethol, mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn defnyddio ein hadnoddau yn effeithlon, yn effeithiol ac yn deg. Mae hyn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Trwy gydol y flwyddyn rydym wedi asesu pa mor dda yr ydym yn defnyddio ein hadnoddau i'n galluogi i gyflawni ein hymrwymiadau yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24. Hunanasesiadau Blynyddol Cyfarwyddiaethau - mae'r rhain, sy'n cyd-fynd â'r calendr perfformiad, yn ein galluogi ar ddiwedd y flwyddyn i ddod â mewnwelediadau allweddol ynghyd, o bob rhan o wasanaethau'r Cyngor, i lywio barn gyffredinol o ba mor dda yr ydym wedi defnyddio ein hadnoddau. Mae'r asesiad hefyd yn ein galluogi i wirio ein cynnydd wrth ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy o ran sut rydym yn gweithio i fodloni'r gofynion newidiol ar wasanaethau craidd a sicrhau eu cynaliadwyedd yn yr hirdymor. Bydd heriau a chyfleoedd tymor canolig a hirdymor presennol ac sy'n datblygu a nodwyd trwy'r asesiad hwn yn llywio canfyddiadau ein Hunanasesiad Blynyddol, yn datblygu Cynllun Corfforaethol Newydd 2025-30 a Chynlluniau Blynyddol ar gyfer 2025/26.
Mae her 'cyfaill beirniadol' fewnol ymhlith cymheiriaid o ganfyddiadau Hunanasesiadau Cyfarwyddiaethau wedi'i chynnal, ac yna cynhelir her arall trwy ymarfer cymedroli dan arweiniad y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol ac Arweinydd Gweithredol y Cyngor i gadarnhau barn gyffredinol y cyngor. Yn seiliedig ar ein hasesiad (a oedd yn cynnwys myfyrio ar farnau'r llynedd), rydym wedi priodoli sgôr ar draws y cyngor o '**Da'** i adlewyrchu ein cynnydd fel yr amlinellir isod, sy'n debyg i farn y llynedd.

Drwy'r broses gymedroli, adolygwyd nifer o ddyfarniadau lefel y gyfarwyddiaeth a dyfarniadau cyffredinol y cyngor. Priodolwyd sgorau Cyfarwyddiaeth cyn-gymedroli 'Da' i'r thema Cyllid, Comisiynu a Chaffael gan Adnoddau Corfforaethol a chafodd Dysgu a Sgiliau eu hadolygu i 'Gweddol' yn dilyn cymedroli. Yn ogystal, adolygwyd y sgôr ar gyfer Ymgysylltu a Mewnwelediad a briodolwyd gan y Gyfarwyddiaeth Lleoedd o 'Da' i 'Gweddol'.

Yng ngoleuni'r newidiadau uchod, cyrhaeddwyd sgôr gyffredinol gan y cyngor o 'Gweddol' o 'Da' mewn perthynas ag Ymgysylltu a Mewnwelediad. Ystyriwyd hyn yn fwy adlewyrchol o'n sefyllfa bresennol ac mae'n cydnabod, er bod sylfeini da wedi'u sefydlu (trwy'r Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd) gyda phocedi o arfer da ar waith, mae angen i ni adeiladu ymhellach ar y sylfeini hynny i sicrhau cysondeb ar draws y Cyngor o ran sut rydym yn ymgysylltu ac yn y defnydd o'r mewnwelediad hwnnw. Maes allweddol o ffocws yw gwneud mwy i ddangos bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau o safon a gwerth am arian i breswylwyr a'n bod yn gyngor sy'n gwrando ac yn ymateb i anghenion preswylwyr. Mae'r heriau hyn yn ystyriaethau allweddol sy'n llywio'r gwaith o ddatblygu Rhaglen Ail-lunio newydd ar gyfer y Cyngor, Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd ddiwygiedig a'r Cynllun Corfforaethol newydd.

Adolygwyd sgôr gyffredinol y cyngor ar gyfer Cyllid, Comisiynu a Chaffael hefyd o 'Da' i 'Gweddol' i gydnabod y pwysau ariannol sylweddol a pharhaus sy'n wynebu holl wasanaethau'r cyngor sydd wedi gwaethygu gan gynnydd yn y galw am wasanaethau a ffactorau allanol y tu hwnt i reolaeth y Cyngor. Yn ogystal, roedd cydnabyddiaeth, er gwaethaf y cyllidebau a'r targedau arbedion cysylltiedig sy'n cael eu cyflawni ar draws y rhan fwyaf o wasanaethau'r cyngor, nad oedd y rhain yn dod o ffynonellau cynaliadwy yn llwyr. Roedd y dyfarniad hwn hefyd yn ystyried ei bod wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl i'r trefniadau caffael newydd gydag Ardal ymsefydlu a bod gwaith yn parhau i fynd rhagddo wrth ddatblygu cofrestr gynhwysfawr o gontractau a blaengynllun a fydd yn galluogi'r Cyngor i gael mwy o ffocws yn y dyfodol ar benderfyniadau caffael/comisiynu yn ogystal â chwrdd â threfniadau statudol newydd.

**Dyfarniadau Cyn-gymedroli**

| Galluogwyr corfforaethol: Crynodeb Cyngor Cyffredinol | Sgôr 2021/22 | Sgôr 2022/23 | Sgôr 2023/24 | Trywydd (T) |
|---|---|---|---|---|
| Pobl | Da | Da | Da | ↔ |
| Cyllid, Comisiynu a Chaffael | Da | Da | Da | ↔ |
| Asedau | Da | Da | Da | ↔ |
| Perfformiad | Da | Da | Da | ↔ |
| Risg | Da | Da | Da | ↔ |
| Ymgysylltu a Mewnwelediad | Da | Da | Da | ↔ |
| **Y sgôr gyffredinol ar gyfer 'sut rydyn ni'n defnyddio ein hadnoddau'** | Da | Da | Da | ↔ |

**Dyfarniadau Ôl-gymedroli**

| Galluogwyr corfforaethol: Crynodeb Cyngor Cyffredinol | Sgôr 2021/22 | Sgôr 2022/23 | Sgôr 2023/24 | Trywydd (T) |
|---|---|---|---|---|
| Pobl | Da | Da | Da | ↔ |
| Cyllid, Comisiynu a Chaffael | Da | Da | Gweddol | ↓ |
| Asedau | Da | Da | Da | ↔ |
| Perfformiad | Da | Da | Da | ↔ |
| Risg | Da | Da | Da | ↔ |
| Ymgysylltu a Mewnwelediad | Da | Da | Gweddol | ↓ |
| **Y sgôr gyffredinol ar gyfer 'sut rydyn ni'n defnyddio ein hadnoddau'** | Da | Da | Da | ↔ |

Mae dyfarniad **'Da'** yn golygu, '***ar draws ein gwasanaethau mae gennym dystiolaeth dda o sut rydym wedi defnyddio ein hadnoddau yn economaidd, yn effeithlon, yn effeithiol ac yn deg i wella perfformiad, cyflawni canlyniadau a diwallu'r angen ac rydym mewn sefyllfa gref i sicrhau gwelliannau i wasanaethau yn y dyfodol mewn modd cynaliadwy.'***

## 9.1 Yr hyn rydym wedi'i gyflawni

*Pobl*

- Mabwysiadwyd dulliau mwy creadigol i fynd i'r afael â'n heriau recriwtio gan arwain at lwyddiant mewn gwasanaethau allweddol fel Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, Cynllunio ac Adfywio, Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth, sydd wedi sicrhau ychydig o lwyddiant.
- Mabwysiadwyd Strategaeth Pobl newydd sydd wedi darparu fframwaith ar gyfer bwrw ymlaen ag ystod o weithgarwch sy'n gysylltiedig â'r gweithlu, gan gynnwys denu, cadw, gwobrwyo; cynllunio, datblygu a chynhwysiant gweithlu strategol.
- Datblygwyd ein rhwydweithiau amrywiaeth staff ymhellach i sicrhau ein bod yn gyflogwr cynhwysol, gan gynnal ein gwobr Arian ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall yn llwyddiannus.
- Datblygwyd a mabwysiadwyd dangosfyrddau AD sy'n tynnu sylw at fetrigau cyfarwyddiaeth allweddol, gan gynnwys o safbwynt cydraddoldeb i gryfhau'r gwaith o gynllunio'r gweithlu strategol.
- Ymgysylltwyd â staff ar fanteision a hawliau a gynigir i staff y Cyngor a lansiwyd y Polisi Gwirfoddoli Staff a datblygwyd cynnig gwobrwyo diwygiedig a gostyngiadau newydd i staff.
- Ail-lansiwyd y Caffi Dysgu a rhaglen newydd o ddigwyddiadau i wella sgiliau staff yn anffurfiol.
- Pwysleisiwyd y disgwyliad bod pob gweithiwr yn derbyn adolygiad blynyddol a phwyntiau cyffwrdd chwarterol i ganolbwyntio ar eu lles, eu datblygiad a'u perfformiad drwy'r broses #amdanafi a ail-lansiwyd.

*Asedau*

- Cynhaliwyd buddsoddiad mewn seilwaith digidol ar draws y Cyngor ac ysgolion i wella ein gwydnwch yn y tymor canolig i'r hirdymor. Mae hyn hefyd wedi cyfrannu at fwy o gynhwysiant a mynediad at wasanaethau, lleihau costau a sicrhau mwy o dryloywder i ddinasyddion a rhanddeiliaid eraill yn ogystal â gwell canlyniadau i ddysgwyr.
- Datblygwyd a chyflwynwyd Rhaglen Gyfalaf uchelgeisiol gwerth £388 miliwn, gan fuddsoddi yn ein priffyrdd, ein hysgolion a'n tai.
- Mabwysiadwyd Strategaeth Ddigidol 2023-2028 sy'n nodi sut y bydd cynnydd digidol yn cael ei fonitro. Yn ogystal, mabwysiadwyd Strategaeth Ddata i gefnogi mewnwelediad sy'n deillio o ddata a gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth.
- Cydweithiwyd â phartneriaid a'r trydydd sector i wneud y defnydd gorau posib o'n hasedau, a sicrhau eu cynaliadwyedd, trwy drosglwyddo asedau cymunedol, modelau gweithredu newydd a threfniadau eraill e.e. cyfleusterau chwaraeon pwrpasol, parciau a meysydd parcio.
- Gwneud cynnydd cadarnhaol o ran darparu model tai sy'n diwallu anghenion preswylwyr gyda gwariant datblygu o £29.1 miliwn ar 220 o unedau sy'n cael eu hadeiladu yn Hayeswood Road, Clos Holm View Cam 2, Coldbrook Road East, cyn Glinig Colcot (i gyd yn y Barri); Eagleswell Road, Llanilltud a St Cyres Road, Penarth gyda 51 o gartrefi newydd eraill wedi'u cwblhau gyda 14 yn St Cyres Road, Penarth; 14 yn Hayeswood Road, y Barri, 23 o gaffaeliadau a 23 yn Burley Place, Sain Tathan.
- Datryswyd safle Canolfan Fenter y Fro, gan gael gwared ar safle sy'n dirywio ac sy'n gostus o bortffolio hirdymor y Cyngor a gwnaed cynnydd i adnewyddu swyddfeydd fel BSC2 ar gyfer eu gosod yn allanol.
- Manteisiwyd i'r eithaf ar ein hadeiladau a sicrhau arbedion drwy adleoli ein Canolfan Gyswllt Cwsmeriaid (Cyswllt Un Fro) a gwasanaethau eraill yn y Swyddfeydd Dinesig, gan ddod â cham cyntaf prosiect rhesymoli swyddfa (Eich Lle) i ben yn llwyddiannus.
- Cydweithiwyd yn llwyddiannus gyda'r trydydd sector ar gynyddu darpariaeth breswyl i blant ledled y Fro gan arwain at agor un cartref ac un arall yn aros i gofrestru.
- Mae'r Hyb Materion Lles newydd sydd yn y Swyddfeydd Dinesig wedi'i gynllunio i wneud y defnydd gorau o gydweithio i hwyluso gwasanaethau di-dor i ddefnyddwyr gwasanaeth/dinasyddion.
- Sefydlwyd fframwaith gwerth cymdeithasol a fydd yn sicrhau ymagwedd ar draws y Cyngor at greu buddion cymunedol, gan adeiladu ar y gwaith a wneir drwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

*Cyllid*

- Lobïwyd Llywodraeth Cymru am setliad grant tecach a setliad aml-flwyddyn i alluogi cynllunio ariannol effeithiol ar gyfer yr hirdymor.
- Cyhoeddwyd ein Strategaeth Ariannol a'n Cynllun Ariannol pum mlynedd treigl a datblygwyd cynigion cyllidebol ar gyfer 2024/25 wedi'u llywio gan flaenoriaethau dinasyddion y Fro.
- Parhawyd i fabwysiadu dull integredig o wneud y defnydd gorau o'n ffrydiau cyllid grant amrywiol mewn ffyrdd creadigol er mwyn sicrhau'r canlyniadau mwyaf posib yn unol â'n Hamcanion Lles.
- Ein contract gyda Legacy Leisure ar gyfer darparu gwasanaethau hamdden yw'r unig drefniant tebyg yng Nghymru o hyd sy'n parhau i wireddu incwm i'r Cyngor. Yr incwm a ragwelir rhwng mis Ebrill 2024 a mis Rhagfyr 2029 yw £471.5K. Mae nifer y defnyddwyr yn y Canolfannau bellach wedi cyrraedd eu lefelau cyn COVID-19 ac mae gwelliannau helaeth wedi'u gwneud mewn sawl un o'r adeiladau, sydd wedi gwella diogelwch a phrofiadau cwsmeriaid.
- Sicrhawyd cyllid Ffyniant Bro yn llwyddiannus a chyllid Cynllun Hirdymor ar gyfer Trefi a fydd yn dod â dros £50 miliwn i'r Barri dros y 10 mlynedd nesaf.
- Cryfhawyd y gallu i reoli prosiectau drwy sefydlu swydd rheolwr prosiect datblygu cyfalaf i gefnogi gwaith gyda chydweithwyr a phartneriaid gan gynnwys y trydydd sector mewn ymateb i'r gofynion i dyfu gwasanaethau yn unol ag adroddiad sefydlogrwydd y farchnad gofal cymdeithasol.
- Sefydlwyd Fforwm Adran 16 Bro Morgannwg i hyrwyddo microfentrau cymunedol lleol a chyfleoedd cymunedol eraill i gefnogi lles dinasyddion.
- Mabwysiadwyd Strategaeth Fuddsoddi nad yw'n ymwneud â'r Trysorlys i gefnogi creu incwm.
- Ail-ddetholwyd Matrix fel darparwr darpariaeth Asiantaeth y Cyngor gyda ffocws ar werth am arian, ac arferion moesegol a chynaliadwy yn y maes hwn.

*Perfformiad a Risg*

- Gwnaed gwelliannau o ran adrodd am berfformiad gydag adroddiadau newydd i'r Bwrdd Mewnwelediad Strategol, y tîm Arwain Strategol ac aelodau etholedig, gan amlinellu cynnydd yn erbyn ein heriau difrifol o ran costau byw, gwydnwch sefydliadol a Phrosiect Sero.
- Adnewyddwyd ein Strategaeth Rheoli Risg a'r Gofrestr i adlewyrchu ein tirwedd risg newidiol fel rhan o ddatblygiad y Cynllun Corfforaethol newydd. Mae hyn yn cefnogi ein hymdrechion i asesu a blaenoriaethu risg, cynyddu ymwybyddiaeth ar draws y cyngor a bod yn rhagweithiol wrth gymryd camau lliniaru.
- Rhagorodd ar y targed ailgylchu gwastraff domestig cenedlaethol o 70% gyda pherfformiad o 70.35%. Mae'r gwaith o gyflwyno ailgylchu ffynonellau ar wahân yn llwyddiannus ledled y Fro a chyfleusterau adfer ailgylchu newydd ynghyd â chodi ymwybyddiaeth barhaus wedi cyfrannu at y cyflawniad hwn.
- Cyflawnwyd perfformiad gwell na chyfartaledd y DU (97%) ar gyfer cyfran y safleoedd sy'n cydymffurfio'n fras â gofynion hylendid bwyd (gan gyflawni sgôr hylendid bwyd 3* neu uwch).
- Cynyddwyd amseroldeb adolygiadau a oedd yn galluogi gwasanaethau gofal cymdeithasol mwy ymatebol ac wedi'u teilwra. Gwnaeth y dull rhagweithiol hwn wella ansawdd cyffredinol y gofal a'r cymorth, gan hyrwyddo lles unigolion, annibyniaeth ac urddas.
- Enillwyd Gwobr Ansawdd Teuluoedd yn Gyntaf, y trydydd yng Nghymru i wneud hynny. Mae'r Wobr genedlaethol yn cydnabod Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd (GGiD) sy'n dangos rhagoriaeth wrth roi gwybodaeth, cyngor a chymorth i deuluoedd lleol.
- Cefnogwyd y sector annibynnol i gynyddu capasiti ac argaeledd gofal cartref. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, daeth hyn yn broblem sylweddol gan arwain at oedi wrth drefnu'r gofal hwn i'n preswylwyr ac rydym bellach yn y sefyllfa lle nad yw hyn yn wir mwyach.
- Cydnabu arolwg Estyn fod perthynas gref gyda'n hysgolion wedi helpu i gefnogi a herio ysgolion yn dda i wella eu cyfraddau presenoldeb, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol, yn enwedig mewn ysgolion cynradd.
- Mae'r safonau cyffredinol ar draws ein hysgolion yn uchel. Ar Safon Uwch cafwyd perfformiad uchel cyson ar raddau A*-E, A*C ac A*-A. Yn yr un modd ar lefel TGAU, rydym wedi parhau i ragori ar y mesurau perfformiad cenedlaethol ar gyfer llythrennedd, rhifedd a gwyddoniaeth.
- Cydgynhyrchwyd Pecyn Cymorth Trawsryweddol sydd wedi'i fabwysiadu gan bob ysgol.

- Mae model Cymuned Ddysgu Pencoedtre, dull clwstwr o leihau effaith tlodi ar blant a phobl ifanc yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb ac ymgysylltu â theuluoedd, ac mae'r dull yn cael ei ailadrodd ar draws ysgolion y Fro.
- Mae buddsoddiad sylweddol mewn ADY wedi galluogi twf darpariaeth arbenigol. Er enghraifft, mae ehangu Ysgol y Deri, sefydlu Derw Newydd, y Ganolfan Ymyrraeth Gynnar a Chanolfan Gymraeg Gwaun y Nant, wedi galluogi'r gyfarwyddiaeth i gynnal dysgwyr ag anghenion cymhleth yn eu hardal leol.
- Datblygwyd argymhellion astudiaethau lleol a chenedlaethol Archwilio Cymru, gan wneud cysylltiadau rhwng y rhain a meysydd ffocws allweddol megis tlodi, costau byw, mannau cynnes a chymorth bwyd sy'n cynnwys partneriaid allweddol megis sefydliadau'r trydydd sector a'n cymunedau.

*Ymgysylltu a Mewnwelediad*

- Ochr yn ochr â rhaglen ymgysylltu sy'n cwmpasu ystod eang o wasanaethau'r cyngor, gwnaethom lwyddo i gynnal arolwg 'Beth am Siarad am Fywyd yn y Fro ledled y Sir, gan ddarparu mewnwelediad cymunedol pwysig ac adeiladu perthnasoedd â grwpiau nas clywir ganddynt yn aml. Cymerodd dros 4,000 o bobl ran.
- Cryfhawyd ein gwaith gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys y sector gwirfoddol a'r trydydd sector, i ymgorffori dull integredig o gydlynu ein hymateb i heriau allweddol a chefnogi mentrau cymunedol e.e. mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw, mentrau adfywio cymunedol.
- Hyrwyddwyd cyfleoedd digidol yn rhagweithiol gan gynnwys trwy hyb ar-lein Cymryd Rhan y Fro i ehangu ymgysylltiad a chyfranogiad gan gynnwys grwpiau nas clywir ganddynt yn aml a phlant a phobl ifanc.
- Cyrhaeddwyd ystod amrywiol o grwpiau fel rhan o ymgysylltu ynghylch creu lleoedd yn ein 4 prif dref drwy hyrwyddo ystod eang o gyfleoedd ymgysylltu ac ymgynghori. Mae hyn yn llywio gwaith mapio cymunedol a fydd yn sail i'r gwaith creu lleoedd.
- Gwnaed gwelliannau i bwyntiau mynediad at wasanaethau gofal cymdeithasol trwy ddulliau digidol ac eraill sydd yn rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth dros y gwasanaethau y maent yn eu derbyn, ac sydd hefyd yn rhoi cipolwg i ni ar brofiad byw a fydd yn helpu i lywio datblygiadau gwasanaeth a modelau darparu yn y dyfodol.
- Parhawyd i ymgysylltu â'n cymunedau mwy amddifad i ddeall eu hanghenion i lywio prosiectau a gwasanaethau lleol yn y dyfodol orau.
- Ers lansio cyfleuster e-ddeiseb, sy'n caniatáu i breswylwyr, grwpiau cymunedol a sefydliadau greu e-ddeisebau ar faterion sy'n bwysig iddynt gael eu hystyried gan y Cyngor, mae dros 800 o safbwyntiau a 2 e-ddeiseb wedi'u sefydlu.
- Gwnaed gwelliannau i'r ffordd rydym yn defnyddio, yn dadansoddi ac yn ymgorffori data, tystiolaeth a mewnwelediad i'n penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys data caled a deallusrwydd meddalach, gan gynnwys mewnwelediad a gafwyd o ragor o sgyrsiau gyda'n cymunedau.
- Cynhaliwyd 83 o brosiectau ar blatfform Cymryd Rhan y Fro sy'n galluogi preswylwyr i gael mynediad hawdd at y Cyngor, ac i ymgysylltu â'r Cyngor, ar amrywiaeth o brosiectau.

**Gweithgareddau ymgysylltu: yr hyn a ddywedodd ein preswylwyr a'n defnyddwyr gwasanaeth**

| Yr hyn y buom yn ymgysylltu arno | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| Arolwg Bywyd yn y Fro<br>Hefyd cyfeirir ato dan ALl1 a gellir ei weld o'r dolenni a ddarperir. | 4,000 a mwy o gyfranogwyr yn cynrychioli poblogaeth Bro Morgannwg.<br><br>• Dywedodd 60% o'r ymatebwyr eu bod naill ai'n fodlon iawn neu'n weddol fodlon â Bro Morgannwg fel lle i fyw, a byddai 80% yn argymell Bro Morgannwg fel lle i fyw. | Gwnaethom adolygu ein Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd a nodi pedwar maes gwaith allweddol i ymateb i ganfyddiadau'r arolwg. |

| Yr hyn y buom yn ymgysylltu arno | Beth oedd y prif ganfyddiadau | Beth sydd wedi newid/gwella o ganlyniad |
|---|---|---|
| | • Mae blaenoriaethau'r Cyngor yn cyd-fynd yn fras â blaenoriaethau'r preswylwyr. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy o waith yn y ffordd yr ydym yn esbonio ein gwaith, canfyddiad y cyhoedd o'n gwaith, ac yn ymgysylltu â thrigolion wrth wneud penderfyniadau. Dywedodd mwy o ymatebwyr eu bod yn anghytuno'n fwy nag yr oeddent yn cytuno â datganiadau bod y gwasanaethau a ddarperir gan Gyngor Bro Morgannwg o ansawdd uchel; bod y Cyngor yn gweithredu er budd trigolion lleol; bod y Cyngor yn ystyried barn trigolion wrth wneud penderfyniad; a bod y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn cynrychioli gwerth da am arian. | |
| Cyfeirir at yr ymgynghoriadau perthnasol canlynol yn gynharach dan Amcan Lles 1.<br>Ymgynghoriad ar y Gyllideb, Strategaethau Data a Digidol a Strategaeth Wobrwyo Staff 2024/25. | | |

**Yr hyn a ddywedodd ein rheoleiddwyr**

| Adolygiad/Canfyddiadau/Ein hymateb |
|---|
| Hefyd yn berthnasol mae adolygiadau Archwilio Cymru o'n defnydd o wybodaeth perfformiad a'r Strategaeth Ddigidol y cyfeirir atynt yn gynharach dan Amcan Lles 1. Gellir gweld y rhain trwy'r dolenni a ddarperir. |

## Ein heriau allweddol

*Pobl*

- Mae heriau sylweddol yn parhau mewn rhai gwasanaethau o ran denu a chadw staff, a waethygir gan bwysau cyllidebol, prinder sgiliau cenedlaethol a grymoedd y farchnad. Yn genedlaethol, llywodraeth leol yw'r rhan o'r sector cyhoeddus sy'n talu'r isaf o hyd ac, o ganlyniad, nid oes ganddi atyniad fel dewis gyrfa. Gan feddwl yn yr hirdymor, mae cyfle i gydweithio â sefydliadau addysg, darparwyr prentisiaethau annibynnol a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus i ddatblygu llwybrau gyrfa sgiliau a gallu newydd i lywodraeth leol i ddenu talent newydd a fydd yn helpu i ddatblygu'r biblinell o sgiliau sydd eu hangen arnom i greu gweithlu gwydn ar gyfer y dyfodol.
- Mae angen i ni weithio tuag at sicrhau bod ein gweithlu'n parhau i gael eu cefnogi a'u hymgysylltu i adeiladu gwydnwch a lleihau straen a gorflino sy'n gysylltiedig â gwaith.

*Asedau*

- Ymateb i'r agenda ddigidol sy'n datblygu, gan gynnwys mwy o risgiau i seiberddiogelwch, a'r gallu a'r sgiliau digidol gofynnol i gefnogi gwasanaethau'r Cyngor i drawsnewid.

- Cefnogwyd gwasanaethau i gyflawni prosiectau digidol cymhleth yn gyflym a sicrhau bod gwersi a ddysgwyd o weithredu Oracle Fusion yn derfynol, a oedd yn her fawr, gan gynnwys ymateb i gostau cynyddol, pwysau amser, problemau ffurfweddiad y system a diddordeb gwleidyddol clir yng nghyflwyniad y system.
- Mae llwyddiant cynlluniau Creu Lleoedd yn parhau i ddibynnu ar gyfranogiad gweithredol y Cynghorau Cymuned a Thref i nodi gweledigaeth a rennir. Yn ogystal, bydd y gallu i gyflawni yn dibynnu fwyfwy ar ba mor llwyddiannus yr ydym o ran sicrhau cyllid allanol sy'n aml yn fyrdymor ei natur. Mae hyn yn arwain at heriau capasiti ac adnoddau wrth gefnogi cymunedau.
- Bydd lefel y buddsoddiad sydd ei angen i gynnal cynnydd a diwallu'r galw cynyddol am wasanaethau digidol cyflym, effeithlon ac ymatebol iawn gan ein dinasyddion a rhanddeiliaid allweddol eraill dros yr hirdymor, yn heriol o ystyried cyllidebau ac adnoddau sydd eisoes dan bwysau.
- Mae swm cyfyngedig o arian cyfalaf wedi golygu bod llawer o asedau adeiledig yn mynd i gyflwr gwael, ac efallai y bydd yn rhaid cau rhai ar sail iechyd a diogelwch os na ellir sefydlu atebion tymor hwy ar gyfer eu rheoli a'u cynnal.
- Nid oes digon o dir ar gyfer adeiladu tai newydd, ac mae hyn yn parhau i fod yn broblem flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac mae'r pwysau digartrefedd yn fwy acíwt nag erioed oherwydd y newid yn y ddyletswydd gyfreithiol i gartrefu, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, a'r heriau ariannol cysylltiedig. Ynghyd â hyn, mae’r nifer uchaf erioed o ffoaduriaid sydd angen tai.
- Oherwydd y dirywiad parhaus i arwynebau priffyrdd, mae’r gyllideb atgyweirio ceudyllau wedi gorwario'n sylweddol, a hynny er mwyn osgoi mwy o hawliadau atebolrwydd trydydd parti. Mae’r seilwaith priffyrdd sy'n weddill yn peri pryderon tebyg, gyda llawer o golofnau goleuadau stryd ac adeileddau eisoes yn cyrraedd, neu'n mynd i gyrraedd, diwedd eu bywyd gwaith diogel yn fuan.
- Mae datblygu cefnogaeth ar gyfer seilwaith gwyrdd a gwella bioamrywiaeth ar draws portffolio'r cyngor yn parhau i fod yn heriol o ystyried y gostyngiad mewn cyllidebau.
- Cafwyd heriau wrth gyflawni prosiectau digidol proffil uchel, fel Oracle Fusion a'r llwyfan cyfarfod hybrid o fewn adnoddau cyfyngedig a myfyrio ar y gwersi a ddysgwyd.

*Cyllid, Comisiynu a Chaffael*

- Mae setliadau ariannol blwyddyn unigol yn parhau i effeithio ar gynllunio ariannol hirdymor a chynaliadwyedd ariannol, a byddwn yn parhau i gyflwyno'r achos dros setliadau aml-flwyddyn ac am fwy o sicrwydd hirdymor ynghylch cyllid a chyllidebau.
- Mae pwysau cyllidebol sylweddol, sy'n deillio o dwf yn y galw am wasanaethau, yn parhau i effeithio ar ein gallu i ddarparu cyllideb gytbwys ar gyfer meysydd allweddol fel gwasanaethau gofal cymdeithasol a gwasanaethau addysg.
- Bydd gosod cyllideb gytbwys yn y blynyddoedd i ddod yn her o ystyried yr amcanestyniadau ariannol amlwg ar gyfer cyllid refeniw a chyfalaf. Bydd hyn yn gofyn am ffordd gynyddol gydweithredol o gefnogi cydweithwyr i ddod o hyd i ffyrdd arloesol o ariannu gwasanaethau hanfodol, gan gynnwys datblygu a darparu'r rhaglen newid trawsnewidiol, Ail-lunio. Bydd her o ran darparu rhaglen gyfalaf gydag adnoddau yn lleihau ac adnewyddu asedau gyda chyllidebau cynnal a chadw yn lleihau, gan arwain at fwy o le ar gyfer argyfyngau adweithiol.
- Mae monitro sicrwydd ansawdd ein darparwyr gwasanaethau a gomisiynir yn allanol yn fwyfwy heriol oherwydd y capasiti a’r adnoddau sydd eu hangen i wneud y gwaith hwn.
- Bydd defnyddio cyllid grant yn effeithiol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno mentrau ledled y gymdeithas a sicrhau y gall pob sefydliad dan sylw gyfrannu, dylanwadu a gweithio'n wahanol i gefnogi cymunedau yn dod yn bwysicach fyth o ystyried cyllidebau sy'n lleihau. Bydd angen i ni fod hyd yn oed yn fwy creadigol a hyblyg i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd, er gwaethaf yr amodau ariannu cymhleth sy'n gysylltiedig â'r grantiau hyn.
- Mae pwysau chwyddiant yn parhau i gael effaith sylweddol ar y broses dendro ar gyfer cynlluniau cyfalaf ac mae hyn yn cael ei fonitro i sicrhau fforddiadwyedd cynlluniau.
- Bydd rheoli disgwyliadau’r cyhoedd wrth weithio gyda gwasanaethau a’u darparu i'n cymuned gyda llai o gyllid a llai o adnoddau ar gael i ni yn parhau i greu heriau a bydd angen rheoli’r rhain yn ofalus.

- Mae'n rhaid i ni fynd ati'n rhagweithiol i ymchwilio i gyfleoedd incwm newydd gyda'r bwriad o gynyddu incwm o bob ffynhonnell i'n galluogi i barhau i ddarparu gwasanaethau gwerthfawr yn yr hirdymor.
- Bydd heriau ariannol parhaus yn effeithio ar y gallu i gyflawni rhaglenni digidol a thrawsnewid allweddol y Cyngor.
- Er bod cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud, mae gwaith i gyflawni mentrau caffael fel cofrestr contractau/blaengynllun y contract, fframwaith gwerth cymdeithasol ac atebion ymarferol i leihau carbon yn y gadwyn gyflenwi yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl.

*Perfformiad a Risg*

- Mae presenoldeb disgyblion yn parhau i fod yn faes ffocws allweddol. Ar ôl y pandemig rydym wedi gweld gostyngiad mewn cyfraddau presenoldeb, yn enwedig ar draws ein hysgolion uwchradd ac yn enwedig ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed. Mae cadw'r gallu i ymgorffori strategaethau a all arwain at newid cadarnhaol yn yr achosion o absenoldeb parhaus sydd wedi ymwreiddio / achosion o osgoi ysgol ar sail emosiynol, yn heriol.
- Rydym yn gweld cynnydd mewn gwaharddiadau ar draws ysgolion sy'n gysylltiedig â'r twf mewn anghenion Iechyd Cymdeithasol, Emosiynol a Meddyliol (ICEM) cymhleth a'r nifer cynyddol o ddysgwyr sy'n dangos arwyddion sylweddol o ddiffyg rheolaeth. Mae ysgolion yn profi pwysau adnoddau a chapasiti wrth fodloni'r anghenion ICEM mwy cymhleth hyn. Mae heriau hefyd gyda'r systemau a'r prosesau presennol i ddysgwyr (heb Gynllun Datblygu Unigol) gael mynediad at opsiynau darpariaeth priodol y tu allan i leoliad ysgol brif ffrwd sy'n diwallu eu hanghenion.
- Mae twf o hyd yn nifer y dysgwyr sy'n cyflwyno Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) cymhleth, yn enwedig mewn perthynas â niwroamrywiaeth ac anghenion iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol. Mae hyn yn effeithio ar allu staff canolog i ddiwallu'r anghenion hynny. Bu cynnydd esbonyddol yn y galw gan ysgolion ar staff canolog arbenigol am gyngor, cymorth ac arweiniad i blant y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu cynyddol gymhleth.
- Er bod nifer y bobl ifanc NEET (nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant) wedi aros yn gymharol isel, rydym wedi gweld cynnydd yng ngharfan Blwyddyn 12 a 13 o ddysgwyr sy'n NEET. Mae hyn wedi bod o ganlyniad i rwystrau sy'n eu hatal rhag symud ymlaen i addysg bellach neu gyflogaeth.
- Mae heriau o ran gwella mynediad at gelf gyhoeddus a gweithgareddau/digwyddiadau'r pafiliwn yn enwedig ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ar sail niwtral o ran cost, yn parhau i fod yn faes her.
- Mae'r gofynion adnoddau a sgiliau cynyddol sydd eu hangen i gefnogi ffrydiau cyllido adfywio Llywodraeth y DU a phrosiectau cysylltiedig e.e. Cyllid Ffyniant Gyffredin, Cyllid Ffyniant Bro a chyllid Cynllun Hirdymor ar gyfer Trefi yn parhau i effeithio ar allu'r Uned Rheoli Prosiectau a gwasanaethau ategol eraill. Mae angen cryfhau capasiti, sgiliau a sefydlu systemau a strwythurau llywodraethu da o fewn yr Uned Rheoli Prosiectau i gefnogi agenda gydweithredol a chyflawni prosiectau mawr y cyngor.
- Mae'r galw cynyddol am wasanaethau gofal cymdeithasol, a adlewyrchir yn y galw a chymhlethdod angen yn parhau i fod yn heriol yng nghyd-destun cyllid cyfyngedig a heriau staffio parhaus.

*Ymgysylltu a Mewnwelediad*

- Mae angen gwella cynwysoldeb ein gweithgareddau ymgysylltu ymhellach er mwyn sicrhau y gallwn gyrraedd 'lleisiau nas clywir ganddynt yn aml' a grwpiau gwarchodedig yn effeithiol i gryfhau ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o grwpiau unigol ac anghenion cymunedau. Mae angen i ni hefyd ymgorffori ffocws ar ddefnyddio ymgysylltu fel dull i ddeall ymhellach 'brofiad byw' defnyddwyr ein gwasanaethau, ein dysgwyr a'n dinasyddion i nodi a mapio anghenion cymunedol yn well, gyda'r mewnwelediad yn arwain y broses o ddylunio a datblygu gwasanaethau cynaliadwy i'r tymor hwy.
- Bydd ymateb i ganfyddiadau arolwg Bywyd yn y Fro drwy Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd yn her, yn enwedig o ran dangos gwasanaethau o safon a gwerth am arian i breswylwyr a'n bod yn gyngor sy'n gwrando ac yn ymateb i anghenion preswylwyr.

## Meysydd i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol

*Pobl*

- Mynd i'r afael â heriau recriwtio ac adnoddau gwasanaethau parhaus, yn enwedig mewn meysydd hanfodol i sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i gael eu darparu.
- Cefnogi'r gwaith parhaus o recriwtio, datblygu a chadw sgiliau galw uchel/penodol i gyflawni newid trawsnewidiol yn y Cyngor e.e. y Rhaglen Ail-lunio a phecynnau cyllido allweddol Llywodraeth y DU.
- Cryfhau cynllunio a modelu strategol ymhellach o fewn cyd-destun pwysau cyllidebol parhaus i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein blaenoriaethau gwella hirdymor.
- Parhau i gynnig cyfleoedd i staff ddatblygu ein staff ein hunain mewn ffordd gynaliadwy a hylaw.
- Cynyddu gwydnwch trwy weithio ar draws cyfarwyddiaethau i gefnogi datblygiad proffesiynol staff i helpu i fynd i'r afael â phwysau capasiti a phwyntiau dibyniaeth unigol o fewn y cyngor.
- Arddangos manteision amrywiaeth o fewn y gweithlu a gweithio'n weithredol ar draws y Cyngor i wneud y sefydliad yn fwy amrywiol a myfyriol o'n cymunedau.

*Asedau*

- Darparu Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd cynhwysfawr, symud yn gyflymach ar drosglwyddiadau tir ac asedau ac asesu opsiynau ar gyfer asedau mwy beichus.
- Gweithio ar y cyd i nodi asedau ar draws y Cyngor y gellir eu defnyddio'n well.
- Gweithio ar y cyd i ddatblygu cefnogaeth ar gyfer seilwaith gwyrdd a gwella bioamrywiaeth ar draws portffolio'r cyngor.
- Cymhwyso polisi cynllunio newydd i leihau allbwn carbon fel sy'n cyd-fynd â'n blaenoriaethau newid hinsawdd.
- Gweithio ar y cyd i nodi prosiectau gwella a datblygu cyfalaf ar gyfer gofal cymdeithasol i ymateb i'r gofynion i ddatblygu gwasanaethau yn unol ag adroddiad sefydlogrwydd y farchnad.
- Datblygu gwasanaethau digidol ymhellach a'r trylwyredd o ran cynnydd digidol i wneud yn fawr o ffyrdd newydd o weithio a sicrhau gwasanaethau ymatebol ar gyfer dinasyddion a chydweithwyr.
- Parhau i adolygu'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a blaenoriaethau adnewyddu asedau yng nghyd-destun natur anrhagweladwy cyflwr ein tai a'r pwysau ariannol parhaus.
- Gweithio ar y cyd ar draws y cyngor ac ysgolion i nodi a gweithredu buddsoddiad ariannol cynaliadwy mewn technoleg/seilwaith digidol i gefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth Ddigidol y Cyngor.
- Cyflawni prosiectau adfywio mawr dan gynlluniau ariannu Ffyniant Bro a Ffyniant Gyffredin sy'n dod i gyfanswm gwerth £42 miliwn.
- Bwrw ymlaen â'r gwersi a ddysgwyd o weithredu Oracle Fusion, gan sicrhau bod rhaglenni a phrosiectau digidol cymhleth a mawr eraill y cyngor yn cael eu cefnogi'n briodol, gan gynnwys sicrhau bod y sgiliau perthnasol ar waith i hwyluso'r gwaith o gyflawni prosiectau'n llwyddiannus, gyda'r cynnydd yn cael ei adolygu a'i adrodd yn rheolaidd.

*Cyllid, Comisiynu a Chaffael*

- Cymryd agwedd tymor hwy at gyllidebau Adfywio a Chynllunio o ystyried natur aml-flwyddyn prosiectau mawr y gall gofynion arbedion flwyddyn ar ôl blwyddyn effeithio’n andwyol arnynt.
- Datblygu gwydnwch o gwmpas cyfrif masnachu a gwasanaethau Rheolaeth Adeiladu gan sicrhau adnoddau digonol i gyflawni cyfrifoldebau.
- Gweithio gydag Asiantaeth Llywodraeth Leol Cymru, y Cydbwyllgor Corfforaethol a Llywodraeth y DU i geisio ymestyn rhaglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin (CFfG) (y disgwylir iddo ddod i ben yn 2024/25) i sicrhau cefnogaeth barhaus i brosiectau adfywio mawr.
- Darparu Rhaglen Ail-lunio i gyflawni newid trawsnewidiol ar draws y sefydliad a pharhau i weithredu o fewn cyfyngiadau cyllidol.
- Gweithio ar draws cyfarwyddiaethau i fanteisio i'r eithaf ar ffynonellau cyllid allanol i hyrwyddo integreiddio a darparu gwasanaethau cynaliadwy.
- Cefnogi’r gwaith o ddatblygu strategaeth drawsnewid awdurdod cyfan sy'n cefnogi cynaliadwyedd ariannol tymor hwy darpariaeth addysg a'n hysgolion.

- Gwella gallu a sgiliau ein staff i ganolbwyntio ar agweddau mwy masnachol ar ddarparu gwasanaethau a chefnogi'r gwaith o brosesu taliadau gan y cyhoedd.
- Hwyluso gweithio mewn clystyrau yng nghyd-destun gwariant cyllidebol, caffael, y defnydd o staff asiantaeth a chynilion i wella gwydnwch ariannol ysgolion.
- Cydweithio ar draws y cyngor i alluogi cynllunio tymor hwy a defnydd cymysg mwy creadigol o gyllid i gefnogi cynaliadwyedd gwasanaethau ar draws gwasanaethau'r cyngor.
- Gwneud cynnydd yn y gwaith i gryfhau trefniadau caffael y Cyngor gyda mwy o ffocws ar leihau carbon yn y gadwyn gyflenwi, darparu cofrestr y contract caffael i alluogi cynllunio mwy effeithiol yn y dyfodol ochr yn ochr â chyflwyno deddfwriaeth gwerth cymdeithasol o fewn caffael i ddefnyddio pŵer gwariant y Cyngor i wella canlyniadau i gymunedau.

*Perfformiad a Risg*

- Cyflawni Dirprwyad Cydsyniad Adeilad Rhestredig gan CADW i wella ein perfformiad wrth ymdrin â cheisiadau sydd angen cydsyniad adeilad rhestredig.
- Gweithio ar y cyd i ddarparu datrysiadau ar gyfer ein heiddo gwag hirdymor.
- Gweithredu argymhellion adolygiad Grant Cyfleusterau i'r Anabl i wella amseroedd ymateb wrth ddarparu addasiadau.
- Gweithredu argymhellion Archwilio Cymru sy'n gysylltiedig ag adolygiadau lleol o'n Strategaeth Ddigidol, Gweithio Partneriaeth y Trydydd Sector, Ail-lunio Gwasanaethau, Cynllunio'r Gweithlu ac Asedau, Safbwynt Defnyddwyr a Chanlyniadau Gwasanaethau, Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu'r Gwasanaeth Cynllunio a Chymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy mewn Gwasanaethau.
- Gweithio ar draws cyfarwyddiaethau i ymgorffori dull creu lleoedd wrth gynllunio, dylunio a chynnal ein mannau cymunedol, gan gyfrannu at greu cymunedau integredig a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol.
- Cyflwyno fframwaith sicrwydd ansawdd gwasanaethau cymdeithasol i gefnogi'r gwaith o werthuso perfformiad gwasanaethau sy'n sbarduno arferion effeithiol, atebol ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n llywio gwella gwasanaethau. Yn ogystal, cydweithio ar wneud gwaith paratoi ar gyfer system newydd ar gyfer System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (SWGCC) i gefnogi rheoli perfformiad.
- Gweithredu Fforwm Adran 16 i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, gwasanaethau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a sefydliadau eraill y trydydd sector ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth ac ataliol ym Mro Morgannwg. Yn ogystal, archwilio sut y gallwn gefnogi cymunedau i gefnogi ei gilydd trwy ddatblygu a gwella cysylltiadau presennol gan gynnwys cyflwyno'r rhaglen cymunedau sy'n deall dementia.
- Parhau i gefnogi a herio ysgolion i godi lefelau presenoldeb gyda phwyslais ar y sector uwchradd a darpariaeth arbenigol, wrth fynd i'r afael ag absenoldeb parhaus a mynd i'r afael ag osgoi'r ysgol ar sail emosiynol ac anghenion dysgwyr agored i niwed.
- Ymgorffori ymagwedd ataliol o leihau cyfraddau gwaharddiadau tymor penodol a pharhaol trwy gefnogi a herio ysgolion yn effeithiol a datblygu dulliau i wella ymyrraeth gynnar.
- Lleihau cyfradd gyffredinol pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) ledled y Fro drwy olrhain dysgwyr sydd mewn perygl yn effeithiol a strategaethau gwreiddio i sicrhau adnabyddiaeth gynnar ac ymyrraeth.
- Cryfhau prosesau i nodi plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed yn rhagweithiol a sicrhau monitro effeithiol i leihau'r risg y bydd dysgwyr yn colli addysg, a gwella canlyniadau dysgwyr.
- Gwella ansawdd a defnydd gwybodaeth am ddysgu ac addysgu mewn ysgolion er mwyn ein galluogi i gyfeirio adnoddau'r awdurdodau lleol at feysydd i'w gwella yn y ffordd orau gan ganolbwyntio ar wella perfformiad dysgwyr agored i niwed a disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim (cPYADd).
- Cefnogi a herio arweinwyr ysgolion i sicrhau bod anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn 'fusnes i bawb' ac i ddatblygu darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) ar sail tystiolaeth i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY cymhleth ac anghenion iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol (ICEM). Yn ogystal, cydweithio i archwilio cyfleoedd i wella digonolrwydd yn y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ôl-16 ag ADY.
- Datblygu gallu ysgol gyfan i gwrdd â'r duedd gynyddol o ddysgwyr sy'n cyflwyno anghenion ICEM.

- Gweithio gydag ysgolion i ddal a chofnodi data a demograffig eu cymunedau yn well i dargedu cefnogaeth i anghenion dysgwyr yn effeithiol dros y tymor byr, y tymor canolig a’r hirdymor gyda ffocws ar drechu tlodi a gwella ein monitro i dystiolaethu effaith yn well.
- Cyflawni ein blaenoriaethau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg gyda ffocws penodol ar greu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg a hwylusir drwy ein Strategaeth Buddsoddi mewn Ysgolion a chydweithio i ddatblygu llwybrau i gefnogi myfyrwyr/graddedigion sy'n siarad Cymraeg i gyfleoedd cyflogaeth.
- Gwella gallu ysgolion i gymhwyso dull gweithredu ysgol gyfan i fwlio a gwahaniaethu, gan gynnwys her effeithiol i lywio cynllunio gwella.
- Gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru a phartneriaid i fireinio grwpiau targed i gefnogi cyflogadwyedd a chwilio am ddulliau amgen i fynd i'r afael ag angen.
- Ehangu mynediad at gelf gyhoeddus ar sail niwtral o ran cost.
- Cryfhau ffocws prosesau gwerthuso a gwella ar draws ein gwasanaethau i ddangos effaith ein gwaith.
- Symleiddio ac adfywio'r perfformiad a'r broses ddemocrataidd/craffu yn dilyn datblygu Cynllun Corfforaethol newydd.
- Arwain a chefnogi'r gwaith o ddarparu cartrefi newydd ar draws Bro Morgannwg i ymateb i bwysau cynyddol ar dai a digartrefedd.
- Cefnogi'r gwaith o gyflawni uchelgeisiau sero net drwy ddarparu gwasanaethau ailgylchu parhaus a rheoli ein fflyd a'n cerbydau.
- Ymateb i argymhellion gweithdrefnau sicrwydd a risgiau sy'n dod i'r amlwg i sicrhau bod gweithdrefnau rheoli contractau, rheoli prosiectau a chaffael cadarn o fewn y Gyfarwyddiaeth Amgylchedd a Thai.
- Cryfhau gallu a sefydlu systemau a strwythurau llywodraethu da o fewn yr Uned Rheoli Prosiectau i gefnogi agenda gydweithredol a chyflawni prosiectau mawr y cyngor.
- Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo modelau gofal cymunedol, ac i leihau unrhyw amser diangen sy’n cael ei dreulio yn yr ysbyty yn unol â Safon Eiddilwch Llywodraeth Cymru.
- Cefnogi'r gwaith o greu lleoedd yng nghanol ein prif drefi yn ogystal â'r Cynllun Hirdymor ar gyfer Trefi yn y Barri, gan sicrhau arweinyddion priodol i ysgogi cynnydd.
- Cefnogi a herio ysgolion i wella amseroldeb ac ansawdd data yn yr ysgol i lywio penderfyniadau strategol a gweithredol.
- Gwella ymhellach ein hymateb a'n dysgu o gwynion.

*Ymgysylltu a Mewnwelediad*
- Gwella ein cyfathrebu â'r cyhoedd, egluro pwysau gwasanaethau a sicrhau bod darparu gwasanaethau yn ymateb i adborth a bod darpariaeth ddigidol yn galluogi ac yn hysbysu cwsmeriaid.
- Gwella ymgysylltiad y cyhoedd ynghylch proses y Cynllun Lleol ac unrhyw broses sy'n gysylltiedig â datblygu Cynllun Datblygu Strategol (CDS) yn y dyfodol.
- Gwella ymgysylltiad â'r system gynllunio i helpu'r cyhoedd i ddeall y broses.
- Gwella cyfleoedd i gyfathrebu â staff a phreswylwyr i dynnu sylw at gyfleoedd ymgysylltu, newidiadau yn y dyfodol, a heriau'r Cyngor sy'n gysylltiedig â'r sefyllfa ariannol a galw.
- Datblygu ein goruchwyliaeth o weithgareddau ymgysylltu ar draws y Cyngor i gryfhau mewnwelediad a hyrwyddo ei ddefnydd i lywio'r broses o wneud penderfyniadau a chyfleu'r hyn sydd wedi newid a/neu wella o ganlyniad i hynny.
- Datblygu a gwella llais y disgybl a darpariaeth gwasanaeth ieuenctid ymhellach drwy ymgorffori Rhwydwaith y Cyngor Ysgol, datblygu ein cynnig cyfrwng Cymraeg ar draws ein darpariaeth Gwasanaeth Ieuenctid a gwella sgiliau Cymraeg ein staff.

## 9.2 Llywodraethu

Mae’n ofynnol i'r Cyngor, fel rhan o'i drefniadau ar gyfer llywodraethu corfforaethol, gynnal adolygiad blynyddol o reolaeth a llywodraethu mewnol ac mae’n rhaid cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB) a ddeilliodd o hynny yn y Datganiad Cyfrifon. Mae’r DLlB felly yn darparu asesiad o drefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor ac arfarniad o'r rheolaethau sydd ar waith i reoli risgiau allweddol y Cyngor a nodi lle roedd angen gwneud gwelliannau.

Mae perfformiad allweddol a mewnwelediadau eraill o’r calendr gweithgareddau perfformiad blynyddol, wedi llywio'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y DLlB sy'n disgrifio sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i God Llywodraethu Corfforaethol fel sy'n cyd-fynd â Fframwaith Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) a SOLACE - Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol 2016 gan ganolbwyntio ar yr egwyddorion canlynol:

A - Ymddwyn gyda gonestrwydd, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu’r rheol gyfreithiol.
B - Sicrhau agwedd agored ac ymgysylltu cynhwysfawr â rhanddeiliaid.
C - Diffinio canlyniadau yn nhermau buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.
Ch - Pennu’r ymyriadau y mae eu hangen i optimeiddio’r gwaith o gyflawni’r canlyniadau a fwriedir.
D - Datblygu gallu’r endid, gan gynnwys galluogrwydd ei arweinwyr a'r unigolion sydd ynddo.
Dd - Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.
E - Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol.

Mae **'Sicrwydd Rhesymol'** o ran digonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Cyngor ar gyfer 2023/24, ar sail barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol. Mae Barn Archwilio Fewnol o naill ai 'sicrwydd sylweddol neu resymol' wedi’i rhoi i 82% o’r adolygiadau ar sail risg a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn gan brofi effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli mewnol gyda 92% o'r holl argymhellion a gyhoeddwyd yn y categorïau blaenoriaeth isel i ganolig. Mae'r heriau allweddol a nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn gyson â'r heriau allweddol a'r meysydd sy'n dod i'r amlwg ar gyfer ffocws parhaus a nodwyd yn Hunanasesiadau’r Gyfarwyddiaeth ac Asesiad Perfformiad y Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer y cyfnod 2023/24.

Mae dyfarniad **'Sicrwydd Rhesymol'** yn golygu, ***'bod sicrwydd rhesymol nad oes gwendidau mawr yn ein prosesau rheoli risg, llywodraethu a rheoli, yn seiliedig ar waith adolygu, asesu a monitro parhaus a wnaed yn ystod 2023/24 a bod y trefniadau llywodraethu ar gyfer Cyngor Bro Morgannwg yn parhau i gael eu hystyried yn addas at y diben yn unol â'r fframwaith llywodraethu.'*** Mae'r dyfarniad hwn yn destun craffu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Cabinet a'n Rheoleiddwyr allanol.

## 10. Adolygu ein dull Hunanasesu

Mae'n bwysig bod ein dull o hunanasesu yn parhau i ddatblygu i ysgogi gwelliant yn unol ag Amcanion Lles ein Cynllun Corfforaethol a'r nodau lles cenedlaethol. Ar sail ein hadolygiad trwy gydol y broses ac adborth gan randdeiliaid a phartneriaid allweddol, bydd angen canolbwyntio parhaus ar y meysydd canlynol yn barod ar gyfer hunanasesiad blynyddol 2024/25. Bydd y rhain yn cael eu hystyried ar y cyd ag adborth gan Lywodraeth Cymru, Archwilio Cymru, CLlLC ac unrhyw arfer gorau a nodwyd gan gydweithwyr ledled Cymru.

- Ymwreiddio ein dull o ymdrin â Hunanasesiad y Gyfarwyddiaeth ymhellach, gan gyfuno hwn â'n trefniadau ar gyfer hunanfyfyrio chwarterol a wneir gan Gyfarwyddiaethau fel rhan o drefniadau corfforaethol ar gyfer monitro perfformiad ac adrodd ar gynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau blynyddol. Bydd ein hymagwedd yn adlewyrchu unrhyw drefniadau perfformiad newydd i fonitro Cynllun Corfforaethol 2025-30.
- Alinio gofynion adrodd cyrff rheoleiddio eraill ymhellach e.e. AGC ac Estyn o fewn hunanasesiadau'r Cyfarwyddiaethau i ddangos integreiddio gweithio gyda'r canfyddiadau sy'n llywio nifer o raglenni gwaith corfforaethol i gyd-fynd â chyflawni ein canlyniadau lles.
- Cryfhau ein defnydd o berfformiad a mewnwelediadau data eraill trwy gydol y flwyddyn i gefnogi dyfarniadau perfformiad ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn rhan o waith parhaus i ddatblygu ein swyddogaeth mewnwelediad mewnol a fydd yn helpu i gryfhau ein sylfaen dystiolaeth ar gyfer Hunanasesiad y Cyngor.
- Cryfhau ymhellach ein her 'cyfaill beirniadol' mewnol trwy gynnwys rhanddeiliaid allweddol allanol wrth wirio ein dyfarniadau a'n canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o'n hunanasesiad blynyddol. Bydd ymgysylltu â'r rhanddeiliaid allweddol hyn hefyd yn sicrhau ein bod yn fwy agored i'r byd allanol.
- Cryfhau cyfranogiad aelodau etholedig ymhellach yn y broses Her Cymheiriaid. Bydd estyn lefel y cyfranogiad yn sicrhau bod gennym ystod ehangach o gyfranogiad yn y broses a bydd hefyd yn sicrhau bod ystod eang o safbwyntiau'n cael ei hystyried wrth sicrhau cyfrifoldeb am unrhyw newidiadau sy'n cael eu nodi a'u cynnig.
- Cryfhau ymhellach agweddau ar yr Adroddiad Hunanasesu Blynyddol wedi'i lywio gan adborth adeiladol o brosesau her mewnol ac allanol gan gynnwys:

    - Hyrwyddo dogfen gryno gyhoeddus hawdd ei deall fel rhan o waith ymgysylltu wedi'i lywio gan adborth gan breswylwyr ac aelodau am sut yr hoffent i wybodaeth perfformiad y Cyngor gael ei hadrodd. Parhau i ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau i gyrraedd rhanddeiliaid gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, gwybodaeth wedi'i theilwra i weddu i gynulleidfaoedd targed.
    - Parhau i ganolbwyntio ar sut mae penderfyniadau mawr y cyngor wedi eu llywio gan ddinasyddion, cymunedau a rhanddeiliaid allweddol eraill, y newidiadau a'r effaith sy'n deillio o hynny.
    - Parhau i ganolbwyntio ar sut mae partneriaethau a chydweithio, gan gynnwys gweithio gyda'r Trydydd Sector a Chynghorau Tref a Chymuned, wedi cyfrannu at gyflawni ein blaenoriaethau Cyflawni Blynyddol ac Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol, gan roi mwy o amlygrwydd i lwyddiannau a heriau.
    - Symleiddio'r dadansoddiad o berfformiad yn yr Adroddiad Hunanasesu Blynyddol gan ganolbwyntio ar amlygu eithriadau perfformiad a chynnwys naratif mwy adlewyrchol mewn perthynas â'n heithriadau perfformiad, yn enwedig yn y meysydd hynny lle nad ydym wedi cyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer y cyfnod. Yn ogystal, sicrhau bod meysydd a nodwyd ar gyfer ffocws yn y dyfodol yn cael eu cefnogi gan resymau pam eu bod wedi'u nodi felly.
    - Darparu mwy o gynnwys ynghylch gwaith yr Hyrwyddwyr Aelodau i roi mwy o amlygrwydd i'w gwaith.